

MILLER



Research Evaluation Consulting

Fframwaith Cymru Gyfan ar gyfer cyflwyno Presgripsiynu Cymdeithasol – Dadansoddiad Ymgysylltu ac Ymgynghori

Adroddiad Terfynol fersiwn 2.0

Llywodraeth Cymru

Rhagfyr 2022

Kerry KilBride, Hannah Sterritt, Jessica Mann, Sean Heron, Katie
Lloyd / Miller Research (UK) Ltd.



Rhagor o wybodaeth:

Hannah Sterritt

hannah@miller-research.co.uk

Crynodeb Gweithredol	9
1. Cyflwyniad.....	22
2. Trosolwg o'r Ymatebion.....	23
3. Thema 1 – Dadansoddi iaith a Therminoleg	26
Cwestiwn 1 – Ydych chi'n meddwl bod y model yn dangos gweledigaeth briodol o bresgripsiynu cymdeithasol yng Nghymru? Os nad ydych chi, pam? A oes rhywbeth ar goll/ddim yn briodol?.....	26
Cwestiwn 2a – Beth yw eich barn am yr iaith / terminoleg a ddefnyddir yn y model a'r naratif ategol? Gall hyn gynnwys yr iaith a'r termau a ddefnyddir yn Gymraeg ac yn Saesneg.....	39
Cwestiwn 2b – Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau am iaith / terminoleg wahanol? Gall hyn gynnwys yr iaith a'r termau a ddefnyddir yn Gymraeg ac yn Saesneg.....	48
Cwestiwn 3 – Sut mae datblygu dealltwriaeth gyffredin, ar lefel genedlaethol, o'r iaith / terminoleg a ddefnyddir i ddisgrifio presgripsiynu cymdeithasol ar gyfer gweithwyr proffesiynol ac aelodau o'r cyhoedd fel ei gilydd? Gall hyn gynnwys yr iaith a'r termau a ddefnyddir yn Gymraeg ac yn Saesneg.....	54
4. Thema 2 – Dadansoddi Llwybrau Atgyfeirio.....	63
Cwestiwn 4a – Pa gamau y gallem eu cymryd ar lefel genedlaethol i helpu gweithwyr proffesiynol (o sefydliadau gofal iechyd, statudol a thrydydd sector) i wybod am wasanaeth presgripsiynu cymdeithasol, cydnabod ei werth, a bod yn hyderus wrth gyfeirio pobl ato?.....	63
Cwestiwn 4b – Yn achos hunanatgyfeiriadau, pa gamau y gallem eu cymryd ar lefel genedlaethol i helpu'r cyhoedd i wybod am wasanaeth presgripsiynu cymdeithasol, cydnabod ei werth, a bod yn ddigon hyderus i gysylltu ag ef?.....	67
Cwestiwn 4c – Yn achos atgyfeiriadau wedi'u targedu, pa gamau y gallem eu cymryd ar lefel genedlaethol i helpu sefydliadau i nodi poblogaethau/grwpiau penodol o bobl a allai elwa ar gysylltu â gwasanaeth presgripsiynu cymdeithasol?	71

	Cwestiwn 5 – Pa gamau y gallem eu cymryd ar lefel genedlaethol i gefnogi sefydliadau/grwpiau sy'n cynnig cymorth yn y gymuned i ymwneud â gwasanaethau presgripsiynu cymdeithasol?.....	75
	Cwestiwn 6a – Pa gamau y gallem eu cymryd ar lefel genedlaethol i leihau atgyfeiriadau amhriodol at wasanaeth presgripsiynu cymdeithasol?.....	80
	Cwestiwn 6b – Pa gamau y gallem eu cymryd ar lefel genedlaethol i leihau atgyfeiriadau amhriodol gan wasanaeth presgripsiynu cymdeithasol at gymorth yn y gymuned?.....	83
5.	Thema 3 – Dadansoddi Arwain a Llywodraethu.....	88
	Cwestiwn 7 – Pa gamau y gellid eu cymryd ar lefel genedlaethol i gefnogi arweinyddiaeth gref a threfniadau llywodraethu effeithiol?	88
	Cwestiwn 8 – Pa gamau y gallem eu cymryd ar lefel genedlaethol i gefnogi'r broses gomisiynu a helpu i gynnwys y cyhoedd yn y gwaith o ddatblygu model lleol sy'n diwallu anghenion eu cymuned?	93
6.	Thema 4 – Dadansoddi Hygyrchedd.....	101
	Cwestiwn 9a – A yw'r cyfeiriaduron a'r ffynonellau gwybodaeth ar-lein presennol yn rhoi'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch (mewn fformat hygyrch) i wneud penderfyniadau am addasrwydd ac argaeledd cymorth yn y gymuned?.....	101
	Cwestiwn 9b – Ydych chi'n defnyddio unrhyw gyfeiriaduron / ffynonellau gwybodaeth ar-lein eraill?	104
	Cwestiwn 9c – Yn eich barn chi, beth yw'r elfennau allweddol y dylai cyfeiriaduron ar-lein eu darparu i helpu pobl i gael gafael ar gymorth yn y gymuned?	107
	Cwestiwn 10a – Pa gamau y gallem eu cymryd ar lefel genedlaethol i helpu i fynd i'r afael â'r rhwystrau i fynediad?	110
	Cwestiwn 10b – Pa gamau y gallem eu cymryd ar lefel genedlaethol i helpu i fynd i'r afael â'r rhwystrau i fynediad sy'n wynebu grwpiau mwy agored i niwed ac sydd dan anfantais?.....	115

	Cwestiwn 11a – A ddylai'r fframwaith cenedlaethol gynnwys set o safonau cenedlaethol ar gyfer cymorth yn y gymuned i helpu i liniaru pryderon diogelu? Dylai / Na ddylai / Ddim yn siŵr ..	119
	Cwestiwn 11b – Os ydych wedi ateb 'dylai', beth yw'r pethau allweddol y dylai'r safonau cenedlaethol ar gyfer cymorth cymunedol eu cynnwys?	120
	Cwestiwn 11c – Os ydych wedi ateb 'na ddylai' neu 'ddim yn siŵr', beth yw eich prif bryderon am gyflwyno safonau cenedlaethol ar gyfer cymorth yn y gymuned, a sut gellid mynd i'r afael â nhw?	123
	Cwestiwn 12 – Pa gamau y gallem eu cymryd ar lefel genedlaethol i helpu i oresgyn yr hyn sy'n rhwystro defnyddio technoleg ddigidol ar gyfer cymorth yn y gymuned?	124
7.	Thema 5 – Dadansoddi Cynaliadwyedd.....	129
	Cwestiwn 13 – Pa gamau y gallem eu cymryd ar lefel genedlaethol i gefnogi gwaith partneriaeth effeithiol i sicrhau trefniadau ariannu hirdymor?.....	130
	Cwestiwn 14 – Pa gamau y gallem eu cymryd ar lefel genedlaethol i liniaru effaith y galw cynyddol ar asedau cymunedol lleol a gweithgareddau llesiant?	134
8.	Thema 6 – Dadansoddi Mesur Effaith.....	138
	Cwestiwn 15 – Yn eich barn chi, beth yw'r pethau craidd mae angen i ni eu mesur i ddangos effaith presgripsiynu cymdeithasol?	138
	Cwestiwn 16a – A oes gennych unrhyw dystiolaeth ymchwil neu werthuso yr hoffech ei rhannu â ni?.....	143
	Cwestiwn 16b – A oes gennych unrhyw awgrymiadau ynghylch sut y gellir ac y dylid gwerthuso'r ffordd mae'r fframwaith cenedlaethol yng Nghymru yn gweithredu?	143
9.	Thema 7 – Dadansoddi'r Gweithlu	147
	Cwestiwn 17a – Beth yw'r wybodaeth a'r sgiliau allweddol y dylai'r fframwaith cymhwysedd arfaethedig eu cynnwys?	147
	Cwestiwn 17b – Sut orau y gall y fframwaith cymhwysedd arfaethedig ategu'r safonau proffesiynol presennol?	149

	Cwestiwn 18 – A oes manteision a/neu anfanteision o ran addysg a hyfforddiant i fod yn sail i'r fframwaith cymhwysedd, sydd wedi'u hachredu'n academiaidd?	151
	Cwestiwn 19 – Pa gamau eraill y gallem eu cymryd ar lefel genedlaethol er mwyn helpu i ddatblygu'r gweithlu?	154
10.	Thema 8 – Dadansoddi Technoleg	158
	Cwestiwn 20a – Beth yw eich profiadau cyfredol o ddefnyddio technoleg ddigidol yn y meysydd presgripsiynu cymdeithasol isod? (<i>Y broses atgyfeirio, y broses asesu, cael gafael ar gymorth yn y gymuned, darparu cymorth yn y gymuned, rheoli gwybodaeth ac adrodd ar allbynnau/canlyniadau</i>).....	158
	Cwestiwn 20b – Sut gallai defnyddio technoleg ddigidol wella'r modd y darperir presgripsiynu cymdeithasol yn y meysydd canlynol? (<i>Y broses atgyfeirio, y broses asesu, cael gafael ar gymorth yn y gymuned, darparu cymorth yn y gymuned, rheoli gwybodaeth ac adrodd ar allbynnau/canlyniadau</i>).....	163
11.	Thema 9 – Dadansoddi'r Gymraeg	169
	Cwestiwn 21a – Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai cyflwyno fframwaith cenedlaethol ar gyfer presgripsiynu cymdeithasol yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi?	169
	Cwestiwn 21a(b) Sut gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?	171
12.	Dadansoddi Sylwadau Terfynol.....	178
	Cwestiwn 22 – Rydyn ni wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech wneud sylwadau ar unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod:.....	178
	Atodiad A – Cwestiynau'r Ymgynghoriad	185
	Atodiad B – Cwestiynau Grŵp Ffocws	189
	Atodiad C – Ymatebion i Gwestiwn 16a	192

Rhestr tablau

Tabl 1 – Ymatebion Ymgynghoriad a Sefydliadol i Gwestiwn 11a – <i>A ddylai'r fframwaith cenedlaethol gynnwys set o safonau cenedlaethol ar gyfer cymorth yn y gymuned i helpu i liniaru pryderon diogelu?.....</i>	16
Tabl 2 – Crynodeb o'r ymatebion sefydliadol i Gwestiwn 15 – <i>Yn eich barn chi, beth yw'r pethau craidd mae angen i ni eu mesur i ddangos effaith presgripsiynu cymdeithasol?.....</i>	139
Tabl 3 – Dulliau cyfredol a nodwyd wrth ymateb i Gwestiwn 15 – <i>Yn eich barn chi, beth yw'r pethau craidd mae angen i ni eu mesur i ddangos effaith presgripsiynu cymdeithasol?.....</i>	142

Geirfa

Acronym	Diffiniad
ADY	Anghenion dysgu ychwanegol
BMI	Mynegai màs y corff
CAMHS	Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed
CRM	Rheoli cysylltiadau cwsmeriaid
CWVYS	Cyngor Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol Cymru
EQ5D5L	Mesur disgrifiadol o anghenion iechyd a gofal a ddatblygwyd gan EUROQOL
HCPC	Y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal
Y GIG	Gwasanaeth Iechyd Gwladol
PCAM	Dull achredu sy'n canolbwyntio ar gleifion
PREMS	Meddalwedd mesurau profiad a adroddir gan gleifion
PROMS	Meddalwedd mesurau canlyniadau a adroddir gan gleifion
PRSB	Professional Record Standards Body
BPRh	Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol
STAR	Dull o fesur lles ar sail canlyniadau
Fframwaith trACE	Fframwaith Ymarfer Trawma Cenedlaethol i Gymru
CGGC	Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Crynodeb Gweithredol

- i. Yn ystod hydref 2022, comisiynodd Llywodraeth Cymru Miller Research i gynnal Dadansoddiad Ymgysylltu ac Ymgynghori i gefnogi Fframwaith Cymru Gyfan i gyflwyno Presgripsiynu Cymdeithasol.
- ii. Aeth yr ymgynghoriad ar y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Presgripsiynu Cymdeithasol yn fyw ar 22 Gorffennaf 2022 a daeth i ben ar 20 Hydref 2022. Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am farn ar ddatblygu Fframwaith Cymru Gyfan i gyflwyno presgripsiynu cymdeithasol ac roedd cwestiynau'n cael eu rhannu'n themâu yn cynnwys iaith a therminoleg, llwybrau atgyfeirio, arwain a llywodraethu, hygyrchedd, cynaliadwyedd, mesur effaith, dadansoddi'r gweithlu, technoleg a'r Gymraeg.
- iii. Ategwyd yr ymgynghoriad ffurfiol gan ddigwyddiadau ymgysylltu wedi'u targedu, gan gynnwys gweithdai rhanddeiliaid ar-lein gyda gweithwyr proffesiynol perthnasol a grwpiau ffocws gyda grwpiau blaenoriaeth a nodwyd.
- iv. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau pob elfen o'r broses ymgynghori ac ymgysylltu. Mae hyn yn cynnwys yr 193 o ymatebion unigryw a gyflwynwyd i'r ymgynghoriad, wedi'u hategu gan y dystiolaeth a gasglwyd o'r gweithdai rhanddeiliaid a'r grwpiau ffocws. Cafodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad eu dadansoddi'n annibynnol gan Miller Research a'u coladu i fod yn sail i'r adroddiad hwn.
- v. Isod, nodir y prif ganfyddiadau ar gyfer pob thema a ddaeth i'r amlwg yn gyson o fewn yr ymatebion.

Thema 1 – Iaith a Therminoleg

- vi. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad ffurfiol (sefydliadol ac unigol) yn teimlo bod y model yn cyfleu gweledigaeth briodol o bresgripsiynu cymdeithasol yng Nghymru.

- vii. Roedd bylchau allweddol yn y model a nodwyd yn cynnwys: cyfeiriad at grwpiau allweddol (plant a phobl ifanc, pobl hŷn, cymunedau ethnig lleiafrifol, siaradwyr Cymraeg); cyfleoedd i gyd-fynd â'r agenda 'gwyrdd'; rôl bosibl gwahanol gyfranogwyr yn y llwybrau atgyfeirio; mwy o ystyriaeth o ddiogelu; a'r angen i flaenoriaethu unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol.
- viii. Roedd y meysydd lle'r oedd angen eglurhad yn eu cylch yn cynnwys: y berthynas rhwng y model cenedlaethol a'r seilwaith lleol, rôl y trydydd sector, ariannu'r model a'i gynaliadwyedd a rôl trafndiaeth gymunedol.
- ix. Prin iawn oedd y wybodaeth flaenorol am y term 'presgripsiynu cymdeithasol' ymhlith cyfranogwyr y grwpiau ffocws.
- x. Roedd barn gymysg ynglŷn â'r term 'presgripsiynu cymdeithasol' ymysg ymatebwyr ffurfiol a rhanddeiliaid y gweithdai:
- Manteision: mae'n darparu hygredded a pherthnasedd, yn derm a gydnabyddir yn rhyngwladol a gallai annog cydymffurfedd.
 - Anfanteision: o bosibl yn or-ffurfiol, dryslyd/annelwig, bod y gair ag ystyr rhy feddygol, "tadofalaethol" a dadrymusol.
- xi. Roedd gwahaniaethau barn am safoni terminoleg:
- Dylai termau sy'n cael eu defnyddio fod yn gyson ar draws daearyddiaethau a sectorau, ni ddylent fod yn anhyblyg ond dylai'r model fod yn hyblyg i gynnwys iaith sydd eisoes yn cael ei defnyddio mewn cymunedau lleol.
 - Roedd y rhan fwyaf o gyfranogwyr y grwpiau ffocws yn teimlo bod y fideo yn cynnig esboniad da oedd yn hawdd ei ddeall, er bod ganddynt rai pryderon am dermau penodol.
 - Cynigiwyd amryw o ddewisiadau amgen i bresgripsiynu cymdeithasol, gan gynnwys: cysylltu cymunedol, cymorth cymunedol, cydlynu gofal cymunedol, cyfeirio cymdeithasol, gwasanaeth ymgysylltu cymdeithasol, gwasanaeth sgrinio presgripsiynu cymdeithasol a gweithwyr cyswllt.

- xii. Roedd rhanddeiliaid y gweithdai yn ochelgar rhag cynnig termau amgen, o ystyried pa mor gyffredin yw'r term presgripsiynu cymdeithasol, yng Nghymru ac yn rhyngwladol.
- xiii. Roedd pryderon am y defnydd o'r termau "claf", "trydydd sector", "atgyfeirio" a "gwasanaeth presgripsiynu cymdeithasol" – mae'r diwethaf yn awgrymu bod y ddarpariaeth yr un fath o ran ystod a graddfa ym mhob ardal.
- xiv. O ran datblygu dealltwriaeth gyffredin o'r iaith/derminoleg sy'n cael eu defnyddio i ddisgrifio presgripsiynu cymdeithasol, roedd galwadau gan ymatebwyr sefydliadol ac unigolion am y canlynol: sicrhau iaith syml a disgrifiadau clir lle'r oedd angen hynny; profi terminoleg gydag ystod eang o randdeiliaid, ymgyrch gyfathrebu ddwyieithog genedlaethol bellgyrhaeddol, hyfforddiant ymarferwyr a gweithio (a chyllido) traws-sector a thraws-lywodraethol.
- xv. Pwysleisiodd rhanddeiliaid y gweithdai bwysigrwydd terminoleg gyffredin a chyson ar draws gwasanaethau/sectorau a daearyddiaethau.
- xvi. Darparodd aelodau'r grwpiau ffocws (ac eithrio plant a phobl ifanc) enghreifftiau o sut y byddent yn disgrifio presgripsiynu cymdeithasol i rywun arall; gan amlaf, roedd y dehongliadau hynny o bresgripsiynu cymdeithasol yn cyd-fynd â themâu'r fideo presgripsiynu cymdeithasol.

Thema 2 – Llwybrau Atgyfeirio

- xvii. Yn Thema 2, sy'n canolbwyntio ar lwybrau atgyfeirio, nodwyd nifer o bynciau a oedd yn codi dro ar ôl tro, gan gynnwys: gwell cyfathrebu, mesurau atebolrwydd cadarn, eglurder ynghylch cyfeirio a llwybrau atgyfeirio, prosesau adborth clir a gwasanaeth wedi'i gyfarparu'n briodol, gyda'r cyllid, yr hyfforddiant a'r adnoddau gofynnol. Teimlad cyson oedd yr angen i feithrin ymddiriedaeth a hyder mewn model presgripsiynu cymdeithasol er mwyn sicrhau cefnogaeth ar bob lefel,

gan gynnwys ymhlith gweithwyr proffesiynol a darpar ddefnyddwyr y gwasanaeth.

- xviii. Gyda gwell cyfathrebu mewnol (o fewn y GIG a rhwng darparwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid eraill) ac yn allanol (gydag aelodau'r cyhoedd a chleifion), roedd yr ymatebwyr yn teimlo y byddai modd gwneud gwelliannau i hyrwyddo'r gwasanaeth a'i effeithlonrwydd. Ynghlwm wrth hynny mae'r angen am brosesau monitro a gwerthuso effeithiol, wedi'u datblygu o'r cychwyn cyntaf ac yn cynnwys cynhyrchu enghreifftiau astudiaeth achos o'r ffordd y gall presgripsiynu cymdeithasol effeithio'n gadarnhaol ar unigolion.
- xix. Rhywbeth a gafodd ei gyfleu dro ar ôl tro o dan y thema hon oedd sut y gallai ac y dylai gwasanaeth presgripsiynu cymdeithasol edrych, ynghyd â dull safonol o hyfforddi, ffyrdd o weithio a chyfrifoldebau clir. Mae'r angen i sicrhau bod gan wasanaethau'r gallu i ateb y galw, gan gynnwys twf yn y galw sy'n gysylltiedig ag ehangu gwasanaethau presgripsiynu cymdeithasol, hefyd yn cael ei ystyried yn hanfodol.
- xx. Yn olaf, mynegwyd pryderon y byddai angen cynllunio'n ddigonol i sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei ariannu i lefel briodol i fodloni'r angen, gyda gweithlu sy'n meddu ar y cyfarpar a'r hyfforddiant angenrheidiol, cyn y gellid cyflwyno fframwaith o'r fath. Roedd yr adnoddau cywir – gan gynnwys lefel manylder cronfeydd data effeithiol – yn cael eu hystyried yn hanfodol i sicrhau bod gweithwyr yn y sector yn gallu perfformio hyd eithaf eu gallu.

Thema 3 – Arwain a Llywodraethu

- xxi. Roedd yr ymatebion i Thema 3 yn cynnig amrywiaeth eang o awgrymiadau ar gyfer camau gweithredu cenedlaethol a fyddai'n darparu arweinyddiaeth, yn cefnogi llywodraethu effeithiol ac yn cynorthwyo comisiynwyr, er bod anghytuno ar y ffordd orau ymlaen mewn rhai achosion.
- xxii. Awgrym cyffredin i'r ddau gwestiwn a'r holl fathau o ymateb oedd datblygu safonau cyffredin ar gyfer y fframwaith presgripsiynu

cymdeithasol a rôl arfaethedig arweinwyr cenedlaethol wrth ddarparu fframweithiau sicrhau ansawdd, yn enwedig ynghylch materion fel diogelu. Yn gysylltiedig â hyn roedd awydd i weld metrigau ar lefel genedlaethol yn cael eu datblygu a fyddai'n datblygu'n drefn monitro, gwerthuso ac adrodd gadarn. Nod hyn fyddai darparu cysondeb a chydaddoldeb o ran mynediad ledled Cymru.

- xxiii. Y tu hwnt i'r arweinyddiaeth hon roedd awgrymiadau croes ynghylch yr angen am arweinyddiaeth benodol ar gyfer y gwasanaeth presgripsiynu cymdeithasol. Yn aml, roedd ymatebion yn awgrymu sefydlu corff cenedlaethol, ar ffurf grŵp llywio neu unigolyn penodedig, a fyddai'n arwain y gwaith o weithredu'r fframwaith. O ran dewis amgen neu i gyd-fynd â hynny, argymhellwyd bod rôl Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cael ei hail-werthuso i ddarparu mwy o rôl arwain, a rôl gynyddol i'r sector cymunedol. Fodd bynnag, roedd rhai ymatebwyr yn teimlo na ddylid cyflwyno cyrff newydd, ac y dylid canolbwyntio adnoddau ar gynaliadwyedd y sector yn lle hynny.
- xxiv. Roedd pwyslais ar gyd-gynhyrchu a chyfranogiad llawr gwlad o ran arwain a gweithredu'r fframwaith presgripsiynu cymdeithasol. Roedd hyn yn cynnwys defnyddwyr gwasanaethau, sefydliadau cyfathrebu, y trydydd sector a'r sector cyhoeddus, a phresgripsiynwyr cymdeithasol sy'n cael eu cynrychioli ar unrhyw gorff cenedlaethol, yn ogystal â'i gynnwys wrth gynllunio a chomisiynu gwasanaethau. Gellid ategu hyn trwy ddatganoli pwerau yn lleol er mwyn hwyluso penderfyniadau cymunedol.
- xxv. O ran Cwestiwn 7, roedd safoni hyfforddiant, gwerthuso/adrodd a gweithdrefnau yn thema gyffredin a fynegwyd mewn ymatebion unigol, ynghyd â mathau trefnus o gyfathrebu a rheoli gyda chynrychiolaeth leol. Nododd ymatebion sefydliadol ystod o gamau gweithredu ar y lefel genedlaethol, gan gynnwys; sefydlu prosesau monitro a gwerthuso cadarn, cysylltu presgripsiynu cymdeithasol â seilwaith iechyd a gofal cymdeithasol presennol, buddsoddi mewn seilwaith, trefniadau ariannu cynaliadwy ac anghenion hyfforddi.

Roedd trafodaethau'r gweithdai yn canolbwyntio ar themâu achredu (i sicrhau ymddiriedaeth) a'r angen am gyllid trydydd sector

- xxvi. Ar gyfer Cwestiwn 8 yn benodol, roedd ffocws ar ddatblygu canllawiau clir a chyson i gomisiynwyr, yn enwedig, ar sut i gynnwys y gymuned leol, trwy ddarparu contractau llai, er enghraifft. Yn ogystal, dylid cydnabod yn y canllawiau hyn ac yn y fframwaith nad oes angen comisiynu pob grŵp a fydd yn darparu cymorth yn ffurfiol fel hyn, ac na ddylid eu gosod o'r neilltu oherwydd hyn. Yn olaf, roedd ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i raglen ariannu gynaliadwy ar gyfer y sector cymunedol yn ganolog i'r thema yma.
- xxvii. Y tu hwnt i ofyn am fwy o gynrychiolaeth leol ar lefel genedlaethol, roedd ymatebion unigol i Gwestiwn 8 hefyd yn sôn y dylai cyllid a darpariaeth gael eu llywio gan wahaniaethau daearyddol, a phwysleisiwyd pwysigrwydd fframweithiau ac ymgyrchoedd cenedlaethol. Cam a gafodd ei gynnig gan ymatebwyr sefydliadol oedd yr angen am gyllid cynaliadwy hirdymor i sicrhau bod gwasanaethau ar gael ar lefel leol i ateb y galw. Awgrymodd rhanddeiliaid y gweithdai y dylid denu'r cyhoedd i ymgysylltu â'r broses a defnyddio eiriolwyr cymunedol sy'n gallu sôn wrth eraill am bwysigrwydd presgripsiynu cymdeithasol. Soniodd pob grŵp ffocws am bwysigrwydd lledaenu gwybodaeth o fewn cymunedau ar lafar.

Thema 4 – Hygyrchedd

- xxviii. Wrth ymateb i Gwestiwn 9a, derbyniwyd adborth cymysg ynghylch addasrwydd cyfeiriaduron presennol, gyda gwelliannau'n cael eu hawgrymu megis gwybodaeth fwy trylwyr, un pwynt cyfeirio neu blatfform cyfunol, a sicrhau bod gwybodaeth yn parhau i fod yn berthnasol ac yn gyfredol. Teimlai rhai ymatebwyr fod rhywfaint o ddefnydd i'r ffynonellau gwybodaeth hyn er gwaethaf y diffygion, gan awgrymu mai diffyg capasiti a buddsoddiad yw'r broblem.
- xxix. Rhannodd ymatebwyr unigol nifer o gyfeiriaduron eraill y maent yn eu defnyddio i gasglu gwybodaeth wrth ymateb i Gwestiwn 9. Fodd

bynag, dewisodd nifer sylweddol o bobl ddulliau traddodiadol o gasglu gwybodaeth, megis ar lafar, rhwydweithio cymunedol ac ymgysylltu'n uniongyrchol â sefydliadau ac unigolion. Bu mynychwyr y gweithdai yn trafod pwysigrwydd y cyfryngau cymdeithasol wrth rannu digwyddiadau a chadw pethau'n fwy cyfredol, ond bod hyn yn ddibynol ar gynulleidfaoedd yn deall y cyfryngau cymdeithasol a gwybod ble i edrych. Roedd yr ateb mwyaf poblogaidd gan bob grŵp ffocws, heblaw am y grŵp gyda phlant a phobl ifanc, yn sôn eu bod yn defnyddio tudalennau/grwpiau Facebook cymunedol lleol i gael y wybodaeth ddiweddaraf am weithgareddau cymunedol.

xxx. Nododd yr ymatebwyr nodweddion allweddol y dylai cyfeiriaduron ar-lein eu darparu i helpu pobl i gael mynediad at gymorth yn y gymuned, gan gynnwys cyfeiriadur trefnus, cynhwysfawr, hawdd ei ddefnyddio a hygyrch sy'n cynnwys gwybodaeth allweddol am weithgareddau, gyda chopïau papur o'r holl wybodaeth ar gael fel dewis amgen. Roedd awgrymiadau hefyd yn cynnwys sôn am y posibilrwydd o integreiddio ap, meini prawf chwilio cywir ac adnoddau digonol ar eu cyfer.

xxxi. Wrth ymateb i Gwestiwn 10, tynnodd llawer o ymatebwyr unigol sylw at y ffaith bod diffyg cynlluniau trafndiaeth gymunedol yn rhwystro mynediad. O ran mynediad at wybodaeth, soniodd yr ymatebwyr am ddulliau rhannu gwybodaeth amgen, mwy "analog", yn ogystal â gwerth gwasanaethau mentora. Soniodd mynychwyr y gweithdai am yr angen i ystyried rhwystrau ymarferol sy'n atal unigolion rhag cael mynediad at wasanaethau, gan ymchwilio i'r rhesymau dros y diffyg rhwng atgyfeiriadau a chyfraddau derbyn, a'r ffaith fod dulliau cyfathrebu i gyrraedd gwahanol grwpiau yn amrywio'n sylweddol. Roedd y rhwystrau a gafodd eu crybwyll gan ymatebwyr y grwpiau ffocws yn rhannu i bedair thema: ddim yn gwybod at bwy i droi, trafferth cael gafael ar wybodaeth ar-lein, methu gweld gwybodaeth yn yr ardal leol a methu gweld y budd o chwilio am gymorth yn y gymuned.

- xxxii. Pan ofynnwyd a ddylai'r fframwaith cenedlaethol gynnwys set o safonau cenedlaethol ar gyfer cymorth yn y gymuned i helpu i liniaru pryderon diogelu, mae ymatebion unigol a sefydliadol wedi cael eu crynhoi yn Nhabl 1. Cafwyd adborth cymysg i'r cwestiwn hwn gan randdeiliaid y gweithdai – o blith y rhai a ymatebodd yn gadarnhaol, roedd y pethau allweddol y dylai'r safonau cenedlaethol ar gyfer cymorth yn y gymuned eu cwmpasu yn cael eu hysgogi'n bennaf gan bryderon diogelu fel blaenoriaeth, a chanllawiau a fyddai'n cynnig sicrwydd ansawdd a meincnod i weithio tuag ato. Roedd pryderon y rhai a ymatebodd yn negyddol yn ymwneud ag effaith hyn ar grwpiau llai a sefydliadau cymunedol, a'r rhai nad oedd yn siŵr yn ochelgar rhag allgáu pobl ac yn teimlo y gallai grwpiau/sefydliadau fod angen cymhellion cyn pennu adnoddau ar gyfer hyfforddiant pellach a chadw at ganllawiau.

Tabl 1 – Ymatebion Ymgynghoriad a Sefydliadol i Gwestiwn 11a – A ddylai'r fframwaith cenedlaethol gynnwys set o safonau cenedlaethol ar gyfer cymorth yn y gymuned i helpu i liniaru pryderon diogelu?

	Ymateb	Nifer
Ymatebwyr unigol	Dylai	38
	Na ddylai	5
	Ddim yn siŵr	14
Ymatebwyr sefydliadol	Dylai	21
	Na ddylai	5
	Amherthnasol	62

- xxxiii. O ran Cwestiwn 12, soniodd ymatebwyr unigol am yr angen am rwydwaith cadarn o ganolfannau cymunedol, llyfrgelloedd a gwell seilwaith band eang i gymunedau gwledig a chymunedau difreintiedig yn ddigidol, ac y gellid lleddfu hynny trwy grantiau a benthyg offer digidol ochr yn ochr â buddsoddiad mewn hyfforddiant. Yn olaf, mae angen parhau i werthfawrogi gwybodaeth sy'n cael ei darparu ar ffurf annigydol a pherthnasoedd sy'n cael eu meithrin trwy sgysiau a phartneriaethau go iawn. Roedd ymatebion sefydliadol yn cynnig ymchwilio i rwystrau sy'n gysylltiedig â mynediad, hyrwyddo a chyllido hyfforddiant llythrennedd digidol, mynediad at ddyfeisiau ac ymestyn

mynediad band eang, ac ehangu a chyd-ddylunio'r cynnig digidol presennol i rymuso pobl sydd wedi'u hynysu'n gymdeithasol a phobl sy'n gaeth i'w cartrefi a'u denu at weithgareddau ar-lein. Roedd yr adborth gan fynychwyr y gweithdai yn canolbwyntio ar ymwybyddiaeth ac addasu gwasanaethau, yn enwedig o ystyried pa mor gyffredin yw tlodi digidol yng Nghymru. Dywedwyd bod digido'n gweithio'n dda, ond bod ymdeimlad hefyd fod peth cynnwys yn gweithio'n well wyneb yn wyneb, yn enwedig wrth greu cymunedau.

Thema 5 – Cynaliadwyedd

- xxxiv. Roedd consensws ymhlith yr holl grwpiau rhanddeiliaid ynghylch yr angen am ailwampio strategol o ran ariannu gweithgareddau a gwasanaethau presgripsiynu cymdeithasol. Roedd rhanddeiliaid o'r farn nad yw'r ffordd y mae cyllid yn cael ei gynllunio ar hyn o bryd, o ran hyd ac yn ôl math, yn bodloni gofynion y sector. Sylw cyffredin arall oedd y diffyg cydlyniant a/neu gydweithio ymhlith partneriaid mewn presgripsiynu cymdeithasol; y teimlad oedd y gallai gwasanaethau ddod yn fwy effeithiol gyda gwell cydweithio, gan osgoi dyblygu adnoddau.
- xxxv. Awgrymwyd sawl cam i liniaru effaith mwy o alw ar asedau cymunedol a gweithgareddau lles lleol, gan gynnwys cynyddu'r adnoddau a oedd ar gael (cyllid, hyfforddiant a staff), yr angen am fwy o reolaeth a dull systemau cyfan o rannu gwybodaeth ac adnoddau.
- xxxvi. Roedd barn cyfranogwyr y grwpiau ffocws yn amrywio o ran ansawdd y gweithgareddau a oedd ar gael ac a fyddent yn cyfranogi mewn presgripsiynu cymdeithasol. Roedd yr ystod o farn a safbwyntiau yn gyffredinol yn adleisio'r pwynt a nodwyd gan y rhai sy'n gweithio yn y diwydiant, a oedd o'r farn y dylai gweithgareddau presgripsiynu cymdeithasol ddarparu ar gyfer yr unigolion a'r cymunedau dan sylw, yn hytrach na phwyso ar un dull sy'n gweddu i bawb.

Thema 6 – Mesur Effaith

- xxxvii. Wrth ymateb i Gwestiwn 15, cytunodd ymatebwyr ar draws y tri grŵp bod mesur effaith presgripsiynu cymdeithasol yn gofyn am gymysgedd o fesurau meintiol ac ansoddol a oedd yn canolbwyntio ar yr unigolyn, y gymuned, a'r gwasanaethau iechyd.
- xxxviii. Pwysleisiwyd na ddylid gogwyddo hyn tuag at yr effaith ar wasanaethau iechyd, yn enwedig gallu presgripsiynu cymdeithasol i leihau llwyth gwaith meddygon teulu. Mynegwyd pryderon am orwerthuso ac effaith bosibl hynny ar unigolion a darparwyr cymunedol, gyda'r ymatebwyr yn argymhell bod y fframwaith yn atgyfnerthu dulliau presennol.
- xxxix. Mynegodd ymatebion i Gwestiwn 16b yr awydd am fodel cenedlaethol cyson o werthuso ledled Cymru, gyda hyblygrwydd yn rhan ohono a thimau rhanbarthol i ystyried cyd-destunau rhanbarthol. Yn ogystal, roedd yn bwysig i'r ymatebwyr bod unrhyw fframwaith gwerthuso yn cael ei ddatblygu ochr yn ochr â grwpiau defnyddwyr, cyfranogwyr a darparwyr, ac y dylai'r model gwerthuso hwn fod ar waith cyn i'r fframwaith presgripsiynu cymdeithasol gael ei gyflwyno.
- xl. Yn olaf, argymhellwyd bod y gwerthusiad yn ansoddol ac yn feintiol er mwyn cwmpasu cymaint o ddata â phosibl, yn enwedig profiad yr unigolyn ac effaith presgripsiynu cymdeithasol ar y gymuned.

Thema 7 – Dadansoddi'r Gweithlu

- xli. O ddadansoddi crynswth yr ymatebion i'r ymgynghoriad, mae'n amlwg y dylai'r sgiliau craidd o fewn y fframwaith cymhwysedd, sy'n cael eu crybwyll yng Nghwestiwn 17a, ymwneud â chyfathrebu, meithrin perthnasoedd a dealltwriaeth o'r sector iechyd ac anghenion gofal iechyd ehangach, ac arferion wrth gefnogi rhywun sy'n byw ag anghenion cymhleth. Roedd ffocws ar gymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, meithrin sgiliau penodol ychwanegol megis ymarfer sy'n ymwybodol o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, a datblygu gwybodaeth fanwl am ddiogelu.

- xlii. Felly, roedd yr ymatebwyr i Gwestiwn 17b i gyd yn ansicr sut i ateb heb fod ganddynt ddiffiniad clir o bresgripsiynu cymdeithasol, ac eglurder ar safle presgripsiynwyr cymdeithasol yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol ehangach. Roedd argymhellion croes o ran sut i gysylltu'r fframwaith cymhwysedd â'r safonau proffesiynol presennol, ac a oedd hyn yn creu perygl o allgáu sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau gwerthfawr o'r fframwaith.
- xliii. Ar y cyfan, cafodd Cwestiwn 18 ymateb cymysg i gadarnhaol, gyda'r ymatebwyr yn pwysleisio'r manteision posibl, megis creu sail i'r gwasanaeth newydd, sicrhau ansawdd, datblygu gyrfa a sgiliau ar gyfer y gweithlu a hybu ymwybyddiaeth trwy gydol y gwasanaeth iechyd. Lleddfwyd y rhain gan rybuddion y gallai achrediad weithredu fel rhwystr i'r rhai sy'n darparu gwasanaethau gwerthfawr, goblygiadau cost achrediad o'r fath, ac a yw achrediau'n cwmpasu popeth sy'n bwysig yn y rôl. Felly, er bod addysg a hyfforddiant yn cael eu hystyried yn bwysig ac yn fuddiol, mynegwyd y farn y dylai hefyd fod yn gymesur ac yn briodol ar y cyfan.
- xliv. Mae'r ymatebion i Gwestiwn 19 yn eu cyfanrwydd yn canolbwyntio ar dair lefel o gymorth i'w hystyried ar lefel genedlaethol; darparu hyfforddiant sy'n hygyrch, fforddiadwy, perthnasol a chymesur; cymorth i'r gweithlu trwy gyllid, lles a rhwydweithio; a gwerthfawrogi'r gweithlu trwy sicrhau bod llwybr gyrfaol â graddfeydd cyflog clir a phriodol.

Thema 8 – Technoleg

- xlv. Roedd profiad ymatebwyr unigol o ddefnyddio technoleg ddigidol yn amrywio. Er nad oedd gan nifer ohonynt brofiad perthnasol o gwbl, roedd technoleg ddigidol yn cael ei defnyddio yn bennaf er mwyn rheoli gwybodaeth megis adrodd a'r broses atgyfeirio trwy e-byst a galwadau. Dangosodd ymatebion sefydliadol gyfoeth o brofiad wrth ddefnyddio technoleg ddigidol mewn ffyrdd eang ac amrywiol ar gyfer y meysydd hyn. Yn benodol, tynnwyd sylw at rôl y pandemig o ran

trawsnewid defnydd, a'r rôl yr oedd technoleg wedi'i chwarae wrth gynyddu mynediad. Fodd bynnag, lleddfwyd hyn gan y rhai heb brofiad, a rhybuddiodd llawer yn erbyn dibynnu ar dechnoleg oherwydd y rhaniad digidol o ran darparu gwasanaethau. Rhannodd rhanddeiliaid y gweithdai enghreifftiau o'r ffyrdd yr oedd darpariaeth ddigidol wedi gallu ymgysylltu a chyrraedd grwpiau a fyddai fel arall wedi'u hallgáu o gymorth (yn enwedig o ran y cyfyngiadau ar waith yn ystod y pandemig).

- xlvi. Soniodd ymatebwyr unigol am ystod o ffyrdd y gallai technoleg ddigidol wella, yn bennaf o ran darparu cymorth yn y gymuned. Themâu cyson oedd y gallu i safoni prosesau, hwyluso cyfathrebu a darparu gwell cymorth i'r rhai â phroblemau symudedd. Roedd ymatebion sefydliadol yn cynnwys awgrymiadau ar gyfer defnyddio technoleg ddigidol ar draws pob un o'r meysydd hyn. Roedd ffocws penodol ar y broses atgyfeirio, gyda'r gobaith y byddai hyn yn cynyddu cyflymder a rhwyddineb atgyfeiriadau, yn ogystal â gwella mynediad at wybodaeth. Roedd rheoli gwybodaeth ac adrodd am allbynnau yn cael lle amlwg, wrth i'r ymatebwyr awgrymu nodweddion ar gyfer system adrodd fel porth ar-lein i lanlwytho tystiolaeth a hanesion. Unwaith eto, soniwyd am broblem hygrychedd. Pwysleisiodd rhanddeiliaid y gweithdai bod darpariaeth ddigidol yn cyflwyno cyfleoedd gwerthfawr i'r rhai sy'n profi cyfyngu sylweddol yn sgil cyflyrau megis pryder cymdeithasol eithafol, neu'r rhai sy'n gaeth i'w cartrefi neu sy'n wynebu rhwystrau lluosog wrth gyfranogi mewn lleoliad wyneb yn wyneb.

Thema 9 – Y Gymraeg

- xlvii. O ran a fyddai cyflwyno'r fframwaith cenedlaethol yn cael effaith ar yr iaith Gymraeg, neu i ba raddau y byddai'n cael effaith, roedd yr ymateb yn gymysg. Roedd y cafeatau yn cynnwys yr amrywiaeth yn y defnydd o'r Gymraeg ledled y wlad, sy'n golygu na allai effeithiau fyth fod yn gyfartal ym mhob cymuned na lleoliad.

- xlvi. Soniwyd am y ‘Cynnig Rhagweithiol’ sawl gwaith, a chydabuwyd yr anawsterau wrth orfodi'r Gymraeg o fewn grwpiau cymunedol, atebion megis hyfforddiant a chafodd adnoddau ychwanegol eraill eu crybwyll. Y teimlad oedd y byddai gweithredu'r cynnig rhagweithiol yn haws pe bai adnoddau fel cronfeydd data, llenyddiaeth, marchnata a gwaith papur ar gael yn gyson trwy'r Gymraeg, gan y gallai hyn fod yn gyfle dysgu hefyd.
- xlix. Er bod cefnogaeth gyffredinol i ddefnydd pellach o'r Gymraeg, mae nifer o ymatebwyr yn parhau i bryderu sut y byddai'r llwyth gwaith ychwanegol hwn yn cael ei ariannu. Roedd hyn yn arbennig o gyffredin wrth ystyried y gwahaniaethau daearyddol yn lefelau'r adnoddau Cymraeg sydd ar gael, a'r canrannau amrywiol o boblogaeth sy'n siarad Cymraeg ym mhob cymuned. Cafodd ceisiadau am adnoddau ychwanegol er mwyn cefnogi'r Gymraeg, o ran hyfforddiant, ariannu, cyfeiriadur wedi'i labelu a'r gweithlu, eu crybwyll yn barhaus fel rhywbeth a allai gael effaith.
- i. Roedd sicrhau bod y gwasanaeth hefyd yn parhau'n amrywiol ac yn gynhwysol trwy gefnogi ieithoedd eraill hefyd yn cael ei grybwyll dro ar ôl tro, er mwyn hybu cynhwysiant i'r eithaf a lleihau rhwystrau i gyfranogi.

1. Cyflwyniad

- 1.1 Yn ystod hydref 2022, comisiynodd Llywodraeth Cymru Miller Research i gynnal Dadansoddiad Ymgysylltu ac Ymgynghori i gefnogi Fframwaith Cymru Gyfan i gyflwyno Presgripsiynu Cymdeithasol.
- 1.2 Gan gydnabod bod iechyd a lles pobl yn cael eu diffinio i raddau helaeth gan ystod o ffactorau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol, mae presgripsiynu cymdeithasol yn ceisio mynd i'r afael ag anghenion pobl yn gyfannol trwy alluogi ymarferwyr iechyd, gofal cymdeithasol a thrydydd sector i gyfeirio pobl at ystod o wasanaethau lleol anghlinigol lleol a chymunedol. Ei nod yw defnyddio pŵer cymunedau i'r eithaf i gynhyrchu iechyd cadarn, yn gorfforol ac yn feddyliol, yn ogystal ag annog unigolion i gymryd mwy o reolaeth dros eu hiechyd eu hunain. Mae'r pwyslais ar gefnogi'r unigolyn yn hytrach na thrin salwch.
- 1.3 Dros y blynyddoedd, mae rhanddeiliaid yng Nghymru wedi datblygu ystod o ymyriadau presgripsiynu cymdeithasol, gyda'r ysgogiad yn dod o'r gwaelod i fyny. Mae cefnogaeth broffesiynol a gwleidyddol helaeth ar gyfer presgripsiynu cymdeithasol yng Nghymru, a llawer iawn o optimistaeth o ran yr hyn y gall ei gyflawni, gyda pholisi iechyd a gofal cymdeithasol yn cyd-fynd yn gryf ag arferion presgripsiynu cymdeithasol, yn enwedig fel y nodwyd yn y weledigaeth hirdymor ar gyfer "Cymru Iachach" yn 2021. Cyn hynny, yn ei strategaeth genedlaethol Ffyniant i Bawb (Medi 2017), cyflwynodd Llywodraeth Cymru ei gweledigaeth i ehangu'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol cymunedol, gan gynnwys creu rolau "cysylltu cymunedol" i gefnogi presgripsiynu cymdeithasol a phartneriaethau mwy ffurfiol gyda gwirfoddolwyr a'r trydydd sector. Mae'r weledigaeth yn cynnwys meithrin gallu cymunedau i fod yn fannau sy'n cefnogi iechyd a lles trwy ddulliau fel presgripsiynu cymdeithasol.
- 1.4 Yn fwy diweddar, nododd Rhaglen Lywodraethu 2021-26 Llywodraeth Cymru ymrwymiad i gyflwyno fframwaith Cymru gyfan i gyflwyno presgripsiynu cymdeithasol er mwyn mynd i'r afael ag ynysigrwydd. Bydd y fframwaith yn cynnwys set o safonau a chanllawiau i ddatblygu darpariaeth gyson ar lefel leol a chenedlaethol.

- 1.5 Aeth yr ymgynghoriad ar y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Presgripsiynu Cymdeithasol yn fyw ar 22 Gorffennaf 2022, a chafodd ei gefnogi gan ymgyrch gyfathrebu dan arweiniad Llywodraeth Cymru, a daeth i ben ar 20 Hydref 2022. Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am farn ar ddatblygu Fframwaith Cymru Gyfan er mwyn cyflwyno Presgripsiynu Cymdeithasol, a chafodd cwestiynau eu rhannu yn ôl themâu a oedd yn cynnwys iaith a therminoleg, llwybrau atgyfeirio, arwain a llywodraethu, hygyrchedd, cynaliadwyedd, mesur effaith, y gweithlu, technoleg a'r Gymraeg.
- 1.6 Ategwyd yr ymgynghoriad ffurfiol gan ddigwyddiadau ymgysylltu wedi'u targedu, gan gynnwys dau weithdy ymgynghori rhanddeiliad ar-lein ar gyfer ymarferwyr, a phum grŵp ffocws ar-lein gyda grwpiau blaenoriaeth a nodwyd. Yn ogystal, ategwyd y ddogfen ymgynghori ffurfiol gan ffilm fer (a gafodd ei rhannu'n helaeth gan rhanddeiliaid).
- 1.7 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau pob elfen o'r broses ymgynghori ac ymgysylltu. Mae hyn yn cynnwys yr 193 o ymatebion unigryw a gyflwynwyd i'r ymgynghoriad, wedi'u hategu gan y dystiolaeth a gasglwyd o'r gweithdai rhanddeiliaid a'r grwpiau ffocws. Cafodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad eu dadansoddi'n annibynnol gan Miller Research a'u coladu i fod yn sail i'r adroddiad hwn.

2. Trosolwg o'r Ymatebion

Crynodeb

- 2.1 Cyflwynwyd cyfanswm o 105 o ymatebion unigryw gan unigolion i'r ymgynghoriad, gydag un ymateb wedi'i gyflwyno yn Gymraeg. Roedd hyn ar ben 88 o ymatebion sefydliadol, ac o'r rhain, cyflwynwyd un ymateb yn ddwyieithog.
- 2.2 Yn ogystal ag ymatebion i'r ymgynghoriad ffurfiol, mae'r adroddiad hwn yn cynnwys dadansoddiadau o'r ddau weithdy rhanddeiliaid a fynychwyd gan 83 o ymarferwyr, a phum grŵp ffocws a fynychwyd gan unigolion sy'n cynrychioli aelodau'r cyhoedd yng Nghymru yn y grwpiau blaenoriaeth canlynol: pobl ag anabledd (corfforol a dysgu), pobl hŷn, plant a phobl ifanc, gofalwyr di-dâl a phobl o gymunedau ethnig lleiafrifol.
- 2.3 Cefnogodd Llywodraeth Cymru y gwaith o recriwtio i'r gweithdai yn llwyddiannus trwy gysylltu ag ystod eang a helaeth o wahanol sefydliadau trydydd parti trwy wahanol rwydweithiau proffesiynol. Cafodd cyfranogwyr y grwpiau ffocws eu recriwtio gan Miller Research.
- 2.4 Dangoswyd ffilm fer a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru yn esbonio'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer cyflwyno Presgripsiynu Cymdeithasol ar ddechrau'r gweithdai a'r grwpiau ffocws, er mwyn rhannu'r wybodaeth mewn fformat arall ac, yn benodol, i gynnig cyd-destun cychwynol o'r cysyniad i gyfranogwyr yn y grwpiau ffocws nad oeddent efallai'n gyfarwydd â'r term presgripsiynu cymdeithasol.
- 2.5 Mae'r cwestiynau a holwyd yn yr ymgynghoriad ffurfiol ac yn ystod y gweithdai i'w gweld yn Atodiad A. Mae'r cwestiynau a holwyd yn y grwpiau ffocws i'w gweld yn Atodiad B.

Dull o ddadansoddi ymatebion yr ymgynghoriad

- 2.6 Cafodd yr holl ymatebion sylweddol a gyflwynwyd a oedd yn cyd-fynd yn uniongyrchol â chwestiynau'r ymgynghoriad eu crynhoi mewn cronfa ddata ganolog. Adolygwyd pob un yn erbyn y cwestiwn perthnasol i grynhoi'r safbwyntiau amlycaf ac amgen a fynegwyd.

- 2.7 O ystyried yr ystod hynod eang o safbwyntiau a phwyntiau a fynegwyd, y dull gweithredu fu adnabod themâu lle'r oedd hynny'n bosibl, a chynnwys amrywiaeth o safbwyntiau o fewn y themâu hynny.
- 2.8 Mae ymatebion wedi cael eu dadansoddi ar wahân gan grwpiau rhanddeiliaid, h.y. ymatebion gan unigolion, ymatebion gan sefydliadau, adborth o'r gweithdai ac adborth gan y grwpiau ffocws yn eu tro.
- 2.9 Gofynnwyd cyfres wahanol o gwestiynau (Atodiad B) i ymatebwyr y grwpiau ffocws a oedd yn wahanol i ffocws mwy proffesiynol cwestiynau'r ymgynghoriad (Atodiad A). Mae'r rhain wedi cael eu mapio yn ôl thema berthnasol yn yr ymgynghoriad lle mae hynny'n gymwys.
- 2.10 Mae ymatebion cyffredinol nad oeddent yn cyfeirio'n uniongyrchol at gwestiynau'r ymgynghoriad wedi cael eu dadansoddi a'u priodoli i'r cwestiwn perthnasol, lle bo hynny'n briodol. Yn anochel, roedd hyn yn golygu chwilio am ystyr yn y cynnwys weithiau, ac roedd hefyd yn gofyn am elfen o ragdybio gan yr awduron ynghylch pa gwestiwn a oedd dan sylw.
- 2.11 Mae'r adrannau canlynol o'r adroddiad yn cyflwyno'r ymatebion i holl gwestiynau'r ymgynghoriad yn eu tro, wedi'u grwpio yn ôl thema a'u priodoli i'r math o randdeiliad.

3. Thema 1 – Dadansoddi Iaith a Therminoleg

Cwestiwn 1 – Ydych chi'n meddwl bod y model yn dangos gweledigaeth briodol o bresgripsiynu cymdeithasol yng Nghymru? Os nad ydych chi, pam? A oes rhywbeth ar goll/ddim yn briodol?

Ymatebwyr Unigol

- 3.1 Teimlai tua dwy ran o dair o'r ymatebwyr unigol (43 allan o 64) fod y model yn cyfleu gweledigaeth briodol o bresgripsiynu cymdeithasol yng Nghymru. Atebodd tua thraean o unigolion (21) 'Nac ydw' i'r cwestiwn hwn.
- 3.2 Lle'r oedd gan ymatebwyr bryderon gyda'r model, yn y rhan fwyaf o achosion roeddent yn ymwneud â bylchau canfyddedig, yn hytrach nag awgrym bod unrhyw beth o'i le gyda'r model neu rywbeth amhriodol yn ei gylch.
- 3.3 Roedd pedwar ymatebydd yn teimlo nad yw'r celfyddydau na'r cyfraniad y mae gweithgareddau creadigol yn gallu ei wneud i les yn cael eu cynrychioli'n ddigonol yn y model ac y gellid eu gwneud yn fwy amlwg. Awgrymwyd yn hytrach bod y model yn canolbwyntio mwy ar chwaraeon a'r awyr agored, a allai fod yn rhwystr i rai pobl rhag ymgysylltu.
- 3.4 Nododd tri unigolyn fod y model yn methu â chyfleu amrywiaeth y gweithlu sy'n ymwneud â phresgripsiynu cymdeithasol ar draws Cymru, a bod y presgripsiynwyr cymdeithasol, gweithwyr cyswllt a chysylltwyr cymunedol hyn yn gallu cael eu cyflogi gan awdurdodau lleol, byrddau iechyd neu sefydliadau'r trydydd sector. Nodwyd hefyd nad oes cydnabyddiaeth yn y model o rôl gweithwyr cymdeithasol a bod angen diffinio llwybrau datblygiad proffesiynol yn gliriach ar gyfer staff presgripsiynu cymdeithasol.
- 3.5 Awgrymodd dau ymatebydd nad oedd y model yn cynnwys cydnabyddiaeth ddigonol o rôl gofodau diogel a diduedd i bobl gyfarfod ar gyfer gweithgareddau risg isel, rhad ac am ddim – er enghraifft, llyfyrdd fel llyfrgelloedd, eglwysi a manau cymunedol tebyg.

- 3.6 Awgrymwyd hefyd fod ffocws cyfyngedig gan fersiwn gyfredol y model ar ddatblygu gwytnwch ac adnoddau unigol, teuluol a chymunedol a'r cyfleoedd i adeiladu ar gyd-gefnogaeth. Disgrifiodd un ymatebydd y model fel un “ymatebol” a “chymarwyddol” a dywedodd:
- “Dyma'r gwrthwyneb i feithrin capasiti, gwytnwch, cysylltiadau, adnoddau, cyd-gefnogaeth ac opsiynau nad ydynt yn ymwneud â gwasanaeth sydd gymaint eu hangen arnom. Mae'n hollol groes i atal, ond mae wedi'i wisgo yn ieithwedd dulliau atal a meithrin gallu go iawn.”
- 3.7 Ar drywydd tebyg, dywedodd unigolyn arall fod perygl y bydd y model yn hyrwyddo cyfeirio ac atgyfeirio at wasanaethau yn hytrach na chefnogi unigolion i ddatblygu annibyniaeth ac i ddod yn aelodau cyfranogol o'r gymuned. Awgrymwyd:
- “Mae perygl, er gwaethaf y bwriadau da, na fydd y model hwn yn llwyddo i gefnogi unigolion i ddod yn aelodau annibynnol cyfranogol o'u cymunedau. Byddai model seiliedig ar asedau go iawn yn rhoi mwy o sylw i'r asedau, y doniau a'r diddordebau sydd gan drigolion eisoes ac yn datblygu'r rhain er mwyn creu perthnasoedd dwyochrog.”
- 3.8 Cynigiodd un ymatebydd y gallai'r model ddarparu enghraifft o daith gyflawn defnyddiwr gwasanaethau trwy wasanaeth presgripsiynu cymdeithasol, yn lle disgrifio gweithgareddau haniaethol ar eu pen eu hunain.
- 3.9 Nododd unigolyn arall nad yw'r model yn cynnwys unrhyw sôn am sut y byddai gwasanaeth presgripsiynu cymdeithasol yn gynaliadwy yn ariannol yn yr hirdymor.
- 3.10 Nodwyd bwlch posibl gan un ymatebydd a awgrymodd y dylai'r fframwaith presgripsiynu cymdeithasol gynnwys “ymyriadau tai”. Er enghraifft, roedd prosiect yng Nghaerloyw yn talu biliau ynni “ar bresgripsiwn” mewn ymgais i leihau mynychu ysbyty.
- 3.11 Yn olaf, awgrymwyd bod perygl y bydd nodi'r pum ffordd y mae presgripsiynu cymdeithasol yn gallu helpu pobl yn rhoi'r argraff fod yr

hygyrchedd hwn yn gyffredinol ledled Cymru, pan nad yw hyn bob amser yn wir.

Ymatebwyr Sefydliadol

- 3.12 Teimlai ychydig llai na hanner yr ymatebwyr sy'n cynrychioli sefydliadau fod y model yn cyfleu gweledigaeth briodol o bresgripsiynu cymdeithasol yng Nghymru (42 allan o 88), tra bod 14 o ymatebwyr wedi ateb "Nac ydw" i'r cwestiwn hwn a'r gweddill naill ai ddim wedi ateb neu wedi rhoi ymateb cymysg.
- 3.13 Roedd rhai o'r rhai a ymatebodd "Ydw" i'r cwestiwn cyntaf yn cynnwys sylw dilynol i esbonio eu hateb. Roedd cryfderau allweddol y model a nodwyd yn cynnwys gwerthfawrogiad o'r ystod eang o lwybrau atgyfeirio, y ffaith bod y model yn gynhwysfawr ac yn "darlunio'r system gyfan", y pwyslais ar anghydraddoldeb iechyd, pwysigrwydd ymyrraeth gynnar ac atal, ac o gynnig cymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, y ffocws ar asedau cymunedol cynaliadwy a chydabyddiaeth "nad yw un dull yn gweddu i bawb". Cafwyd sylw fod y model "i'w weld yn caniatáu rhywfaint o amrywiaeth o ran strwythur, gweithlu a phrosesau ar lefel leol."
- 3.14 Ymhlith y rhai a roddodd ymateb mwy petrus, roedd sawl un yn croesawu'r cysyniad o fframwaith, gan awgrymu bod angen "diffiniad cyson o'r hyn y mae presgripsiynu cymdeithasol yn ei olygu yng Nghymru". Fodd bynnag, roedd un ymatebydd yn teimlo bod angen "dull mwy radical sy'n cofleidio iechyd perthynol." Ar drywydd tebyg, roedd un arall o'r farn nad yw'r model "yn herio rhwystrau sydd wedi ymwreiddio yn y system iechyd a gofal cymdeithasol." Awgrymodd un ymatebydd, o ystyried diffyg ymwybyddiaeth ymhlith gweithwyr iechyd proffesiynol o'r mathau o wasanaethau presgripsiynu cymdeithasol sydd ar waith yn lleol, ei bod yn anodd canfod a yw'r model yn gywir ai peidio.
- 3.15 Cynigiodd ymatebwyr sefydliadol ystod ehangach o awgrymiadau am welliannau i'r model nag ymatebwyr unigol, ond yn unol ag ymatebion gan unigolion, roedd y ffocws yn fwy ar ddatblygu'r fframwaith arfaethedig, yn hytrach nag awgrymiadau bod unrhyw beth sylfaenol o'i le arno.

3.16 Roedd yr elfennau yr ystyriwyd eu bod ar goll o'r model neu fod angen pwyslais pellach arnynt yn cynnwys cyfeirio at grwpiau penodol o ddefnyddwyr y gwasanaeth, gyda phlant a phobl ifanc yn cael ei nodi amlaf. Roedd y sylwadau'n cynnwys:

- Diffyg ystyriaeth o'r amgylchedd deddfwriaethol ynghylch pobl ifanc a sut y byddai fframwaith cenedlaethol ar gyfer presgripsiynu cymdeithasol yn cyd-fynd â pholisïau eraill, megis y rhaglen trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), fframwaith NYTH¹, y dull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl, Cynllun Plant a Phobl Ifanc a'r dull 'dim drws anghywir' o gefnogi iechyd meddwl a lles ymysg plant.
- Yr angen am eglurhad o rôl ysgolion a cholegau yn y llwybrau atgyfeirio a sut y gallai'r fframwaith fanteisio ar weithgareddau allgyrsiol presennol, rhaglenni cyfeillio a chynlluniau eraill sydd ar waith mewn ysgolion/colegau:

“Mae'n siomedig nad oes gweledigaeth ar hyn o bryd ar gyfer harneisio'r sefydliadau pwysig hyn, sydd yn aml yn ganolbwynt y gymuned i lawer, i mewn i fframwaith sy'n ceisio datblygu ar bŵer a chyfleoedd cymorth yn y gymuned.”

- Yr angen am fanylion sut y gall presgripsiynu cymdeithasol fod yn canolbwyntio ar y plentyn ac ar y teulu.
- Diffyg cydnabyddiaeth benodol o'r angen am bresgripsiynu cymdeithasol ymhlith plant a phobl ifanc – er enghraifft, yng nghyd-destun y pandemig COVID-19 a'r argyfwng costau byw – yn ogystal â manteision posibl presgripsiynu cymdeithasol ar gyfer plant a phobl ifanc e.e. atal cyfeirio at wasanaethau iechyd meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS), lleihau gorbryder, gwella cyrhaeddiad ac ati.
- Dim digon o eglurder o ran sut y gallai plant a phobl ifanc gael mynediad at wasanaethau presgripsiynu cymdeithasol

¹ Offeryn cynllunio ar gyfer Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yw Fframwaith NYTH sy'n ceisio sicrhau dull 'system gyfan' ar gyfer datblygu gwasanaethau iechyd meddwl, lles a chymorth i fabanod, plant, pobl ifanc, rhieni, gofalgwyr a'u teuluoedd ehangach ledled Cymru.

yn annibynnol ar oedolion, neu ar y cyd ag aelodau o'r teulu fel rhan o weithgareddau grŵp sydd wedi'u cynllunio i gryfhau a diogelu perthnasoedd presennol.

- 3.17 Ymhlith y grwpiau eraill y teimlwyd eu bod wedi'u hallgáu o'r fframwaith roedd pobl hŷn, ynghyd ag ystyriaeth i faterion perthnasol i bobl hŷn (e.e. mynediad digidol, ymgysylltiad pobl mewn cartrefi gofal), mamau newydd a mamau ifanc a chymunedau ethnig lleiafrifol.
- 3.18 Tynnodd saith ymatebydd sylw at gyllid fel ystyriaeth allweddol sydd ar goll o'r model, yn enwedig o ran buddsoddiad cynaliadwy mewn gwasanaethau sy'n cael eu darparu trwy'r fframwaith arfaethedig. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer sicrhau cefnogaeth i'r model gan y sector statudol: "Mae angen cyllid aml-flwyddyn ar gyfer cynlluniau presgripsiynu cymdeithasol. Mae meddygon teulu yn ansicr os yw cynlluniau yn eu hardal nhw ar waith bellach, gan eu bod wedi gweld cynlluniau peilot yn dod i ben heb yn wybod iddyn nhw."
- 3.19 Bydd cyllid hefyd yn chwarae rhan bwysig wrth sicrhau mynediad teg at bresgripsiynu cymdeithasol; mynegodd un ymatebydd bryderon am dlodi yn atal rhai pobl rhag ymgysylltu, oherwydd costau teithio, er enghraifft, a nododd fod "angen i'r fframwaith gael ei ddiogelu rhag tlodi".
- 3.20 Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at fylchau o ran disgrifio llwybrau atgyfeirio, sy'n awgrymu bod angen cynnwys y sector preifat, (lleoliadau iechyd a hamdden, er enghraifft), y rôl hanfodol y gall lleoliadau addysgol ei chwarae ar lwybr atgyfeirio, pwysigrwydd cael llwybr atgyfeirio dwy ffordd gan gynnwys systemau adborth a'r cyfle i grwpiau cymunedol gyfeirio defnyddwyr gwasanaethau yn ôl i'r gwasanaeth presgripsiynu cymdeithasol. Yn ogystal, mynegwyd pryder am ddiffyg cyfeiriad at wasanaethau allweddol a phroffesiynau² sy'n cefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd³ o fewn llwybrau atgyfeirio.

² Er enghraifft, gwasanaethau cymorth blynyddoedd cynnar a theuluoedd, ymwelwyr iechyd, gwasanaethau Dechrau'n Deg, darparwyr gofal plant, ysgolion meithrin, cynradd ac uwchradd, lleoliadau Addysg Bellach ac Addysg Uwch.

³ Gan gynnwys plant gyda ffactorau risg penodol a nodweddion gwarchoddedig"

- 3.21 Bwlch arall a nodwyd yn y fframwaith oedd sylw i'r Gymraeg, gan gynnwys ystyried darparu gwasanaethau presgripsiynu cymdeithasol dwyieithog, rôl bosibl mudiadau Cymraeg fel yr Urdd⁴, y Mentrau Iaith⁵ a Merched y Wawr⁶ wrth gyfeirio at bresgripsiynu cymdeithasol a darparu gwasanaethau cymunedol, eglurhad o'r modd y byddai presgripsiynu cymdeithasol yn cael ei ddarparu yn unol â 'Mwy na Geiriau'⁷ a manteision lles dysgu Cymraeg (ac felly'r posibilrwydd o gynnwys hynny mewn model presgripsiynu cymdeithasol).
- 3.22 Nododd tri ymatebydd yr angen am fwy o ffocws ar unigrwydd ac ynysigrwydd ac awgrymodd y gallai pwyslais ar "gynnig allgymorth i sicrhau bod y rhai mwyaf ynysig a'r rhai hynny nad ydynt yn cael eu clywed yn aml hefyd yn gallu elwa ar wasanaethau presgripsiynu cymdeithasol."
- 3.23 Awgrymwyd hefyd y gallai'r fframwaith ddarparu cynrychiolaeth fwy cyfannol o'r amgylchiadau lle gallai pobl droi at bresgripsiynu cymdeithasol (er enghraifft wrth atal salwch meddwl, gwella o salwch meddwl neu salwch corfforol ac ati). Yn gysylltiedig â hyn, roedd un ymatebydd yn teimlo ei bod hi'n bwysig dangos bod presgripsiynu cymdeithasol yn gallu darparu continwwm o gymorth sydd ddim yn cael ei rannu, er enghraifft, rhwng atal, trin a llwybrau adfer, fel sy'n gallu bod yn wir yn achos gwasanaethau statudol.
- 3.24 Ar y llaw arall, roedd un ymatebydd o'r farn y dylai'r fframwaith roi pwyslais ar rôl ataliol presgripsiynu cymdeithasol, tra bod un arall yn teimlo y dylai'r ffocws fod ar bresgripsiynu cymdeithasol fel rhan o fodel "cam i lawr" ar gyfer pobl sy'n gadael cymorth dwys (e.e. camddefnyddio sylweddau, iechyd meddwl).

⁴ [Yr Urdd](#) yw mudiad ieuencid cenedlaethol mwyaf Cymru ar gyfer pobl ifanc rhwng 8 a 25 oed, ac mae'n darparu cyfleoedd i gymryd rhan mewn ystod o brofiadau trwy gyfrwng y Gymraeg.

⁵ Mae'r [Mentrau Iaith](#) yn creu cyfleoedd i unrhyw un fwynhau defnyddio'r Gymraeg bob dydd o fewn eu cymunedau.

⁶ Mae [Merched y Wawr](#) yn fudiad gwirfoddol, anwleidyddol i fenywod yng Nghymru, yn debyg i Sefydliad y Merched ond yn gweithredu trwy gyfrwng y Gymraeg.

⁷ Mwy na Geiriau... yw fframwaith strategol Llywodraeth Cymru i gryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Ei nod yw cefnogi siaradwyr Cymraeg i dderbyn gwasanaethau yn eu hiaith gyntaf.

- 3.25 Mynegodd dau ymatebydd bryder y gellid ystyried bod y fframwaith yn awgrymu dargyfeirio ffocws a buddsoddiad i ffwrdd o'r sectorau iechyd a gofal cymdeithasol statudol. Awgrymwyd hefyd fod y model yn "methu â mynd i'r afael â phenderfynyddion ehangach iechyd ac mae'n ymddangos ei fod yn canolbwyntio mwy ar dorri rhestrau aros ac nid ar ymyrraeth gynnar ac atal."
- 3.26 Tynnodd tri sefydliad sylw at yr angen i roi ystyriaeth bellach i faterion diogelu posibl a allai godi mewn perthynas â phresgripsiynu cymdeithasol, o ran diogelwch corfforol pobl ond hefyd y risg y bydd sefyllfa rhywun yn dirywio, a bod angen cymorth arbenigol arnynt: "Rydyn ni'n pryderu mai anaml mae diogelu yn cael ei grybwyll, ac yn argymhell bod diogelu yn cael ei ymwreiddio'n well trwy gydol y model. Mae diogelu plant ac oedolion bregus yn gyfrifoldeb i bawb."
- 3.27 Mae angen eglurhad hefyd am rôl y trydydd sector a sut i sicrhau tegwch rhwng gwahanol gyfranogwyr y model presgripsiynu cymdeithasol: "Mae'n rhaid ystyried y trydydd sector fel cyfranogwr cyfartal a hanfodol, yn hytrach na rhywle i ddadlwytho pobl nad oes modd i bartneriaid statudol ddatrys eu problemau."
- 3.28 Galwodd yr ymatebwyr hefyd am fanylion pellach ynghylch sut y byddai fframwaith cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau presgripsiynu cymdeithasol yn cael ei lywodraethu, a sut y byddai unrhyw drefniadau llywodraethu yn cael eu hymwreiddio ar lefel leol mewn ffordd sy'n cydnabod gwahaniaethau o ran gweithredu rhanbarthol a lleol.
- 3.29 Yn gysylltiedig â hyn roedd pryder a fynegwyd gan sawl ymatebydd bod model cenedlaethol yn peryglu "gor-ffurfioli" beth sydd gan amlaf yn "broses ar lawr gwlad", gyda'r posibilrwydd o allgáu grwpiau sy'n darparu cymorth mewn cymunedau ond nad ydynt yn cael eu cydnabod yn ffurfiol gan, neu'n cydymffurfio â, fframwaith cenedlaethol: "gallai gwerthuso/comisiynu yn erbyn fframwaith cenedlaethol roi grwpiau lleol, llawr gwlad, sydd wedi bod yn gwneud y gwaith hwn ond nad ydynt efallai'n defnyddio iaith y model, dan anfantais."

- 3.30 Yn fwy cyffredinol, rhybuddiodd yr ymatebwyr yn erbyn ceisio creu gweledigaeth neu fodel un dull sy'n gweddu i bawb, o ystyried amrywiaeth daearyddiaethau, gwahaniaethau mewn ystod a graddfa gwasanaethau sydd ar gael ac amrywiaeth o ran anghenion gwahanol gymunedau (e.e. trefol yn erbyn gwledig):
- “Yn gyffredinol, rydyn ni'n hoffi'r cysyniad, ac mae'r llwybr atgyfeirio iechyd yn briodol, ond rydyn ni'n credu bod y model cyffredinol yn ceisio lapio fframwaith o amgylch system ehangach o weithio... Mae'r model yn ceisio gwasgu system gymhleth, ryng-gysylltiedig i fod yn wasanaeth arwahanol o fewn un fframwaith.”
- 3.31 Ar y llaw arall, dywedodd ymatebydd arall fod y model yn “rhy eang” ac yn “brin o fanylion”.
- 3.32 Awgrymodd nifer o'r ymatebwyr fod angen mwy o eglurder ar y berthynas rhwng y fframwaith cenedlaethol a gwasanaethau presgripsiynu cymdeithasol unigol ar lefel leol: “mae statws y fframwaith yn aneglur – sut mae Llywodraeth Cymru'n sicrhau bod safonau cenedlaethol yn cael eu bodloni gan ar yr un pryd ganiatáu ymreolaeth o fewn cymunedau lleol.” Cyfeiriodd ymatebydd arall at y fframwaith arfaethedig fel “prosiect” cenedlaethol gyda “dyddiad cychwyn mawreddog”, gan argymhell y dylid yn hytrach gyflwyno prosiectau lleol yn raddol, gan alluogi pobl i “ddysgu o fethiannau a llwyddiannau pobl a grwpiau eraill.”
- 3.33 Awgrymwyd hefyd fod angen mwy o eglurhad ar sut y bwriedir i fodel cenedlaethol fynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth bresennol ac osgoi dyblygu ar lefel leol.
- 3.34 Roedd yr adborth hefyd yn cynnwys awgrymu model ar wahân ar gyfer y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol; ymhlith y diwygiadau/gwelliannau arfaethedig i fodel ar gyfer y cyhoedd roedd:
- Mwy o amrywiaeth o ran y delweddau sy'n cynrychioli poblogaeth Cymru yn fwy cynhwysol
 - Iaith symlach a chynnwys diffiniadau gan gofio'r gwahaniaethau mewn llythrennedd iechyd

- Ystod ehangach o weithgareddau (gan gynnwys gweithgareddau grŵp a gweithgareddau nad ydynt yn chwaraeon) er mwyn apelio at unigolion sy'n unig neu'n ynysig a/neu sy'n casáu gweithgarwch corfforol
- Cynnwys lliwiau ychwanegol ar yr eiconau gweithgareddau, o ystyried bod y model cyfredol yn rhoi'r argraff o roi gormod o bwyslais ar weithgareddau gwyrdd/natur
- Ychwanegu cynrychiolaeth weledol o 'gysylltiad' – agwedd allweddol ar bresgripsiynu cymdeithasol
- Datblygu fersiwn benodol ar gyfer plant a phobl ifanc.

3.35 Roedd yr awgrymiadau am newidiadau i fodel ar gyfer gweithwyr proffesiynol yn cwmpasu:

- Diffiniadau clir i helpu dealltwriaeth, e.e. beth mae 'presgripsiynu cymdeithasol', 'cyfeirwyr' a 'chymorth yn y gymuned' yn ei olygu.
- Eglurder mawr ynghylch y gwahanol lwybrau, yn enwedig mewn perthynas â lle gall pobl ddilyn llwybr diffiniedig, gyda meini prawf cynhwysiant clir (e.e. Ymarfer Cenedlaethol ar Gynllun Atgyfeirio) yn erbyn llwybrau mwy hyblyg i ddarpariaeth gymunedol gyffredinol.
- Tryloywder o ran y berthynas rhwng presgripsiynu cymdeithasol, gofal sylfaenol, gofal eilaidd a gofal cymdeithasol.

3.36 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a wnaeth sylwadau ar y delweddau a'r diagramau sy'n gysylltiedig â'r model yn awgrymu gwelliannau. Er enghraifft, roedd un sefydliad yn gwerthfawrogi'r diagram cylchol fel ffordd dda o dynnu sylw at 'ddull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn' ond awgrymodd "fod modd ei ddehongli hefyd fel bod y person yn y canol yn darged, lle mae ymyriadau'n cael eu darparu yn hytrach na'u cynhyrchu ar y cyd." Yn yr un modd, roedd ymatebydd arall o'r farn nad yw'r model yn cwmpasu'r syniad y dylid teilwra presgripsiynu cymdeithasol i'r hyn sy'n bwysig i unigolyn.

3.37 Roedd sawl sefydliad yn teimlo bod y delweddau'n rhy gul ac yn methu â chwmpasu amrywiaeth, o ran y gwasanaeth y gellid ei ddarparu trwy bresgripsiynu cymdeithasol ac o ran y math o bobl a allai elwa ar bresgripsiynu cymdeithasol. Roedd hyn yn cynnwys pryderon:

- Bod y model yn rhoi'r argraff o ganolbwyntio ar yr awyr agored
- Bod y model yn methu â chanolbwyntio'n ddigonol ar chwaraeon a gweithgarwch corfforol
- Nad yw'r model i'w weld yn cwmpasu rôl gweithgareddau a grwpiau diwylliannol
- Bod y model yn methu â chydabod rôl bosibl i elusennau lles anifeiliaid, o ystyried y dystiolaeth bod rhyngweithio rheolaidd gydag anifeiliaid yn cynnig manteision iechyd meddwl
- Bod y model yn atal y posibilrwydd o gydweddu gyda'r agenda cynaliadwyedd amgylcheddol o ran manteision presgripsiynu cymdeithasol (i natur ac i eco-bryder), rôl 'presgripsiynu cymdeithasol gwyrdd', y mathau o weithgareddau y gallai hyn eu cynnwys (e.e. dad-ddofi tir), a chyfraniad posibl i nodau sero net.
- Nad yw'r model yn cwmpasu rôl bosibl sefydliadau ffydd mewn model presgripsiynu cymdeithasol
- Bod y model yn allgáu rôl trafndiaeth gymunedol wrth ddarparu mynediad at wasanaethau presgripsiynu cymdeithasol
- Bod y model yn allgáu pobl ag anableddau ac yn cynnwys gormod o gynrychiolaeth o bobl heb anableddau.

3.38 Roedd un ymatebydd o'r farn bod cynnwys "helmed heddlu" i ddangos llwybrau atgyfeirio'r sector statudol yn anffodus, ac yn awgrymu bod yn rhaid i rywun fod yn ymwneud â'r heddlu i fod yn gymwys ar gyfer y llwybr atgyfeirio hwn.

- 3.39 Argymhellodd dau sefydliad bod cynrychiolaeth weledol o daith bosibl defnyddiwr gwasanaethau yn cael ei gynnwys.
- 3.40 Dywedodd un ymatebydd y byddai'r fideo yn "ddefnyddiol i'r rhan fwyaf o grwpiau"; awgrymodd un arall ei bod hi'n "hawdd i weithwyr proffesiynol ei ddeall, ond yn ddryslyd i eraill."
- 3.41 Argymhellodd ymatebydd arall fod gweithgareddau ymgysylltu pwrpasol yn cael eu cynnal i brofi dealltwriaeth ac adwaith i'r delweddau a'r derminoleg yn y model.
- 3.42 Yn olaf, holwyd nifer o gwestiynau wrth ymateb i'r cwestiwn hwn, gan gynnwys:
- Sut y bydd cydraddoldeb rhwng gwahanol lwybrau atgyfeirio yn cael ei reoli?
 - Sut y bydd y fframwaith yn cefnogi grwpiau wedi'u hymyleiddio i gael mynediad at bresgripsiynu cymdeithasol, er enghraifft, ceiswyr lloches a ffoaduriaid?
 - Sut y bydd yr holl bartneriaid sy'n ymwneud â darparu presgripsiynu cymdeithasol yn deall eu rolau, eu cyfrifoldebau a'u cyfleoedd yn glir?
 - Pa gamau fydd yn cael eu cymryd i sicrhau bod cysondeb yn y ddarpariaeth ledled Cymru, gan osgoi loteri cod post posibl o ran gwasanaethau?
 - A yw presgripsiynwyr cymdeithasol ym meddu ar wybodaeth ddigonol am y cymorth cymunedol sydd ar gael?

Canfyddiadau Gweithdai

- 3.43 Cafwyd amrywiaeth o ymatebion cychwynnol i'r model gan gyfranogwyr y gweithdai, ac roedd eu hadborth yn fwy rhanedig na'r ymatebion ffurfiol i'r ymgynghoriad.
- 3.44 Yn un o grwpiau trafod y gweithdai, y consensws oedd bod y model yn adlewyrchu "gweledigaeth gynhwysfawr"; dywedodd rhanddeiliaid grŵp arall fod y model yn "glir" a'u bod yn teimlo bod y ffilm fer yn "wirioneddol

atyniadol.” Teimlai grŵp arall fod y model yn “ehangach” na’r disgwyl, rhywbeth a oedd yn cael ei ystyried yn gryfder o ran cwmpasu’r gwahaniaethau yn y ffordd y mae gwasanaethau presgripsiynu cymdeithasol yn gweithio ar lefel leol.

- 3.45 Roedd grwpiau eraill yn fwy beirniadol, gan awgrymu nad oedd y model mor glir â’r model o bresgripsiynu cymdeithasol yn Lloegr, a bod angen mwy o eglurder o ran y mathau o weithgareddau a allai gael eu presgripsiynu. Nodwyd hefyd y dylai Llywodraeth Cymru wneud yn siŵr, wrth gyfeirio at weithgareddau, bod angen i wasanaethau presgripsiynu cymdeithasol fod yn ymwybodol o’r angen i fod yn berthnasol yn ddiwylliannol, ac nad ydynt yn cyfaddawdu neu’n gwrthdaro â chredoau crefyddol, er enghraifft. Awgrymwyd hefyd fod angen i wasanaethau ymatal rhag tybio pa fath o gymorth fyddai’n addas ar gyfer grwpiau penodol, ac y dylent yn hytrach ganolbwyntio ar ymgynghori â’r person unigol a nodi eu hanghenion a’u dewisiadau unigol.
- 3.46 Roedd llawer o’r rhai a oedd eisiau mwy o eglurder ynghylch y model yn rhanddeiliaid a oedd yn dweud eu bod yn anghyfarwydd â phresgripsiynu cymdeithasol; disgrifiwyd y model fel un niwlog mewn mannau ac roeddent yn ansicr o bwrpas y model a’r hyn y mae’n ceisio ei ddarlunio.
- 3.47 Roedd y prif fylchau yn y model a nodwyd gan randdeiliaid yn y gweithdai yn cynnwys:
- Astudiaethau achos i ddangos yn glir sut y gallai gwasanaethau presgripsiynu cymdeithasol weithio o fewn y fframwaith hwn.
 - Mwy o esboniad o’r llwybrau atgyfeirio, a’r gwahaniaethu rhyngddynt
 - Ystyried rôl proffesiynau perthynol i iechyd a’u cyfraniad posibl i fodol presgripsiynu cymdeithasol
 - Manylu ar y llwybr hunangyfeirio
 - Ffocws penodol ar iechyd meddwl ac, yn benodol, iechyd meddwl pobl ifanc

- Mwy o bwyslais ar ddull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a beth mae hynny'n ei olygu yng nghyd-destun presgripsiynu cymdeithasol
- Yr angen i adeiladu gwytnwch ymhlith y boblogaeth
- Enghreifftiau o effaith / manteision presgripsiynu cymdeithasol ar lefel unigol a chymunedol.

Canfyddiadau Grwpiau Ffocws

- 3.48 Gofynnwyd i gyfranogwyr y grwpiau ffocws a oeddent wedi clywed am y term 'presgripsiynu cymdeithasol' cyn mynychu'r grwpiau perthnasol.
- 3.49 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn y grŵp gyda phobl hŷn wedi clywed am y term presgripsiynu cymdeithasol cyn y sesiwn. Mewn sawl achos, roeddent wedi dod yn ymwybodol o'r term am y tro cyntaf trwy eu meddyg teulu neu feddyg teulu perthynas, ac roedd gan un person brofiad o gael ei atgyfeirio at grŵp garddio, a oedd, yn eu barn nhw, yn fath o bresgripsiynu cymdeithasol.
- 3.50 Roedd llai na hanner o aelodau'r grŵp ffocws Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn ymwybodol o'r term 'presgripsiynu cymdeithasol' cyn hynny. Roedd un o gyfranogwyr y grŵp hwn yn fyfyrwr meddygol ac felly wedi clywed amdano yn sgil ei hyfforddiant. Roedd gan berson arall bartner gyda phroblemau iechyd meddwl a oedd wedi cael "presgripsiwn" ymarfer corff ysgafn gan ei feddyg teulu.
- 3.51 Ymhlith gofalwyr di-dâl, roedd ymwybyddiaeth gyfredol o'r term hefyd yn isel iawn. Mewn un achos, roedd meddyg teulu un gofalwr di-dâl wedi ei atgyfeirio at ddsbarth ymarfer corff, ond nid oedd yn credu bod y term 'presgripsiynu cymdeithasol' wedi'i ddefnyddio i ddisgrifio'r broses.
- 3.52 Nid oedd unrhyw un o'r plant a'r bobl ifanc na'r bobl anabl wedi clywed am bresgripsiynu cymdeithasol cyn mynychu'r grwpiau; Fodd bynnag, ar ôl gwyllo'r ffilm fer, dywedodd dau gyfranogwr eu bod yn debygol o fod wedi elwa ar wasanaeth presgripsiynu cymdeithasol yn y gorffennol (i

gael mynediad at nofio ac ioga) ond bod term gwahanol wedi'i ddefnyddio – “gwasanaethau lles”, mewn un achos.

- 3.53 Mewn trafodaethau dilynol gyda chyfranogwyr anabl, roedd dau gyfranogwr yn gwbl newydd i'r cysyniad – tra bod eraill yn ei gydnabod ac yn meddu ar lefelau amrywiol o ddealltwriaeth.
- 3.54 Ar y cyfan, roedd ymwybyddiaeth a phrofiadau grwpiau yn gyfyngedig iawn ac ymhlith yr ychydig a oedd â pheth ymwybyddiaeth o'r cysyniad o bresgripsiynu cymdeithasol, roedd wedi'i ddisgrifio mewn termau eraill.

Cwestiwn 2a – Beth yw eich barn am yr iaith / derminoleg a ddefnyddir yn y model a'r naratif ategol? Gall hyn gynnwys yr iaith a'r termau a ddefnyddir yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Ymatebwyr Unigol

- 3.55 Roedd 13 unigolyn yn feirniadol o'r term 'presgripsiynu cymdeithasol' yn benodol, a hynny am nifer o resymau, gan gynnwys y syniad bod ganddo ystyr meddygol neu glinigol, ei fod yn derm anghyfarwydd ac felly ddim yn hygyrch neu'n anodd uniaethu ag ef, a'r awgrym nad yw “presgripsiynu” yn galluogi person i greu ei lwybrau ei hun neu'r bywyd mae eisiau ei fyw, ac nad yw felly'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Ar y llaw arall, roedd tri ymatebydd yn cefnogi'r defnydd o'r term “presgripsiynu”, ar y sail ei fod yn syml ac yn hygyrch ac yn dilysu cysyniad a allai fod yn anghyfarwydd.
- 3.56 Ar ben hynny, nododd pedwar ymatebydd, er bod problemau posibl gyda'r term 'presgripsiynu cymdeithasol', y gallai newid y geiriad nawr achosi dryswch, o ystyried bod ymwybyddiaeth eisoes yn cynyddu ymhlith gweithwyr proffesiynol a'r cyhoedd.
- 3.57 Cafwyd ymatebion negyddol am yr iaith yn gyffredinol gan naw unigolyn; ymhlith y sylwadau beirniadol, roedd awgrymiadau nad yw'r iaith yn gwneud synnwyr, na fyddai'n cael ei deall gan leygwyr a'i fod yn anhygyrch i'r cyhoedd o ganlyniad, a bod yn fodel yn rhy hirwyntog ac yn nawddoglyd mewn manau hefyd.

- 3.58 Roedd gan bump o'r ymatebwyr farn gadarnhaol ar yr iaith, gan adrodd ei bod yn glir, yn gryno, yn gwneud synnwyr ac yn hunanesboniadol.
- 3.59 Nododd dau unigolyn nad oedd llawer o sôn am ymgysylltu â sefydliadau cymunedol presennol a bod hynny'n tanseilio'r syniad bod presgripsiynu cymdeithasol yn datblygu ar asedau cymunedol presennol.
- 3.60 Nodwyd hefyd nad oes cyfeiriad at "alluogi" neu "adeiladu capasiti", dau beth a ddylai fod yn ganolog i wasanaeth presgripsiynu cymdeithasol effeithiol.
- 3.61 Roedd un ymatebydd yn teimlo bod angen iaith a "naratif" wahanol ar gyfer gweithwyr proffesiynol ac ar gyfer y cyhoedd, a gyda'r cyhoedd, bod eglurder llwyr ynghylch yr hyn sydd ynghlwm wrth bresgripsiynu cymdeithasol yn allweddol: "O'm profiad i – i'r cyhoedd – mae angen i'r gwasanaeth wneud yr hyn mae'n ei ddweud ar y tun – felly mae angen i'r label sydd ar y tun fod yn glir beth mae'r gwasanaeth yn ei ddarparu."
- 3.62 Roedd gan ddau unigolyn bryderon am ddefnyddio'r term cyffredinol 'atgyfeirio', gan awgrymu y bydd gan wasanaeth presgripsiynu cymdeithasol cadarn haenau gwahanol i gael gafael ar gymorth trwy bresgripsiynu cymdeithasol, gan gynnwys: cyfeirio (haen 1), atgyfeirio (haen 2) a gwaith dilynol ac adolygu (haen 3).

Ymatebwyr Sefydliadol

- 3.63 Roedd gan ymatebwyr sefydliadol ystod o safbwyntiau ar y term 'presgripsiynu cymdeithasol', gyda lleiafrif bychan o blaid y term, gan ddadlau ei fod yn ychwanegu hygyrdd a pherthnasedd, mae'n derm sy'n cael ei gydnabod yn rhyngwladol a gallai annog cydymffurfedd:

"Rydyn ni'n cydnabod bod presgripsiynu cymdeithasol yn derm derbynol sy'n cael ei ddefnyddio yng Nghymru a thu hwnt, ac i lawer, mae'n ddisgrifiad cywir o'r model. At ddibenion rhwyddineb a chysondeb, rydyn ni'n derbyn ei bod yn synhwyrol parhau i fabwysiadu'r iaith hon"

“Mae’n bosibl y bydd rhai pobl yn teimlo nad oes ganddyn nhw ganiatâd i chwilio am gymorth, neu ymgysylltu â chymorth, oni bai bod ganddyn nhw ‘ddarn o bapur’”

- 3.64 Awgrymwyd hefyd fod y term yn arbennig o berthnasol mewn lleoliadau gofal sylfaenol, o ystyried y pa mor gyfarwydd yw presgripsiynu fferyllol yn gyffredinol.
- 3.65 Roedd un sefydliad yn teimlo y gallai helpu i gryfhau partneriaethau rhwng sefydliadau cymunedol a’r sectorau iechyd a gofal statudol, a’i fod yn “cyfeirio at berthynas fwy ffurfiol” rhyngddynt.
- 3.66 Roedd llawer o’r ymatebwyr yn feirniadol o’r term, fodd bynnag, gan weld gormod o gysylltiad rhyngddo â’r sectorau iechyd a gofal cymdeithasol, ei fod yn rhy ffurfiol, ac o bosibl yn ddryslyd/annelwig. Roedd pryderon y byddai term “meddygol” o’r fath yn atal y model rhag bod yn wirioneddol gyfannol ac yn gallu grymuso unigolion:

“Natur tadofalaethol y gair ‘presgripsiynu’, sy’n awgrymu gweithred sy’n cael ei gwneud i unigolyn, yn hytrach na rhannu’r gwaith o wneud penderfyniad, trwy ddull sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn.”

- 3.67 Awgrymwyd hefyd fod defnyddio “term meddygol” yn awgrymu safoni gwasanaethau, darpariaeth gan berson ‘cymwys’ a monitro canlyniadau yn ffurfiol. Roedd un ymatebydd yn teimlo ei fod yn cyfleu’r syniad o fod yn “fodel meddygol o anabledd”.
- 3.68 Wrth fanylu ar ddiffygion y derminoleg, nododd pum sefydliad fod lefelau isel o ymwybyddiaeth o’r term, yn enwedig ymhlith y cyhoedd ond hefyd ymhlith rhai gweithwyr proffesiynol, yn arwain at ddryswch ynglŷn â’r hyn sydd ac nad sydd ynghlwm wrtho:

“Yn aml, nid yw cleifion yn deall yr hyn mae presgripsiynu cymdeithasol yn ei olygu. Nid yw’n glir a fydd y gwasanaethau sy’n cael eu cynnig yn rhad ac am ddim ac a fydd yn rhaid iddynt drefnu eu gweithgarwch eu hunain.”

- 3.69 Awgrymwyd y gallai’r term fod yn arbennig o anghynnes i bobl sydd wedi cael salwch hirdymor (er enghraifft canser), “sydd efallai wedi profi llawer

o driniaethau meddygol sylweddol a mewnwthiol, ac sy'n dysgu byw gyda neu ar ôl canser." Awgrymwyd hefyd y gallai fod yn rhwstr i bobl had ydynt yn ymddiried mewn sefydliadau swyddogol neu ffurfiol.

3.70 Problem arall gyda'r term sy'n cael ei awgrymu gan un sefydliad yw y byddai angen eglurhad a sicrwydd bod unrhyw risg yn gyfrifoldeb i'r unigolyn yn hytrach na'r presgripsiynydd neu'r darparwr gwasanaeth cymunedol.

3.71 Teimlai un sefydliad ei bod hi'n bwysig i bresgripsiynu cymdeithasol "gynnal ei ddull anfeddygol", gan awgrymu y gallai defnyddio'r term 'presgripsiynu' gyfaddawdu hynny. Soniodd un arall am y perygl y bydd unigolion yn tybio ar gam eu bod nhw'n mynd i gael meddyginiaeth ar bresgripsiwn, gan arwain at siom neu ymdeimlad o gael eu hymyleiddio wrth gael eu hatgyfeirio at gymorth cymunedol yn lle hynny. Ymhlith y pryderon eraill gyda'r term 'presgripsiynu cymdeithasol' a nodwyd mae:

- Y risg ei fod yn awgrymu bod gordewdra a ffyrdd o fyw nad ydynt yn iach yn "faterion meddygol"
- Y ffaith y bydd angen lefel benodol o "lythrennedd iechyd" er mwyn gallu ei ddeall.
- Y perygl y gallai staff clinigol – a'r rhai sy'n ymwneud â phresgripsiynu confensiynol (meddyginiaethau, er enghraifft) – ddigio gan nad yw presgripsiynwyr cymdeithasol yn destun lefel debyg o drylwyredd a chraffu proffesiynol.
- Y potensial i danseilio ethos cyfannol presgripsiynu cymdeithasol ar y sail ei fod yn "rhoi'r gweithgaredd mewn blwch meddygol".
- Y risg ei fod yn "labelu pobl" fel "achos" neu angen "triniaeth", ac y gallai hynny atal sefydliadau cymunedol rhag ymgysylltu.
- Awgrymiadau ei fod yn rhy annelwig / dryslyd ac y gallai olygu gwahanol bethau i wahanol bobl.
- Nid yw'r term mewn defnydd cyffredin eto ac felly ni fyddai'n cael ei ddeall.

- Diffyg cysondeb a safoni o ran rôl presgripsiynydd cymdeithasol – mae teitlau swyddi yn cynnwys presgripsiynwyr cymdeithasol, cysylltwyr cymunedol a gweithwyr cyswllt.
- Y risg ei fod yn bychanu'r rhyngweithio dynol sy'n gynhenid i bresgripsiynu cymdeithasol: nad y "presgripsiwn" yn unig yw presgripsiynu cymdeithasol, ond y cymorth un-i-un hefyd.

3.72 Yn olaf, pwysleisiodd un ymateb ei bod hi'n bwysig amlygu bod presgripsiynu cymdeithasol yn ffordd o weithio, yn hytrach na phroffesiwn neu wasanaeth penodol.

3.73 Mynegwyd pryderon tebyg ynghylch y gair "atgyfeirio" a goblygiadau hynny o ran y ddyletswydd ofal a sicrwydd ansawdd gwasanaethau a dderbyniwyd, yn ogystal â gwarant o gyllid cynaliadwy. Roedd un ymatebydd yn teimlo ei bod yn well "osgoi defnyddio termau meddygol fel llwybrau atgyfeirio ac ati wrth ddisgrifio'r weithred syml o gysylltu pobl â gweithgareddau neu gyngor."

3.74 Pwysleisiodd chwe ymatebydd yn benodol yr angen am iaith glir a syml i hyrwyddo hygyrchedd ac ymgysylltu â'r model. Tynnodd un sefydliad sylw at bwysigrwydd cael iaith sy'n hygyrch i bobl ag anableddau dysgu; teimlai un arall fod yr iaith yn y fframwaith arfaethedig yn fwy addas i weithwyr proffesiynol na'r cyhoedd, tra bod traean yn argymhell cael mewnbwn gan aelodau'r cyhoedd cyn penderfynu ar yr iaith yn derfynol a chynhyrchu unrhyw ddeunyddiau hyrwyddo.

3.75 Roedd enghreifftiau o derminoleg neu iaith gyffredinol yr oedd un neu ragor o ymatebwyr yn awgrymu eu bod yn aneglur neu angen eu diwygio yn cynnwys:

- Iaith yn ymwneud â'r llwybrau (e.e. diffiniad o'r term "llwybr atgyfeirio wedi'i dargedu" a "llwybr hunangyfeirio"). Gofynnodd un ymatebydd am eglurhad o'r gwahaniaeth rhwng atgyfeirio a chyfeirio.

- Termau fel “hunanreolaeth”, “anghlinigol” a “canolbwyntio ar yr unigolyn”, sy’n ddealladwy i weithwyr proffesiynol ond nid o reidrwydd i’r cyhoedd.
- Y term “ardal” a’r angen am eglurhad o ba ôl troed sy’n cael ei gynnig, h.y. ôl troed bwrdd iechyd/Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol; ôl troed awdurdod lleol neu ôl troed llai/cymunedol.
- Argymhell yr angen i fod yn sensitif wrth ddiffinio “unigrwydd” – gan ddefnyddio termau fel “cysylltu” neu “gyfarfod â phobl” yn lle’r gair ei hun.
- Argymhell diwygio “atgyfeirio gofal iechyd” i “atgyfeirio at weithiwr iechyd proffesiynol”.
- Pryder bod y gair ‘claf’ yn “derm meddygol diffygiol” ac y gellid ei ystyried yn “labelu” unigolyn, ac felly ei fod yn rhwystro unigolyn rhag ceisio cymorth trwy bresgripsiynu cymdeithasol.
- Awgrym y gallai iaith ynghylch “dewisiadau ffordd o fyw nad ydynt yn iach” greu stigma a beio unigolion sy’n ceisio cael gafael ar gymorth.
- Argymhelliad cyffredinol i ddefnyddio iaith bositif drwyddi draw.

3.76 Roedd yr ymatebwyr hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd safoni, gan danlinellu y dylai’r termau sy’n cael eu defnyddio fod yn gyson ar draws daearyddiaethau a sectorau, a hefyd yn gyson gyda’r iaith sy’n cael ei defnyddio yng ngwledydd eraill y DU.

3.77 Roedd tri sefydliad wedi ymgynghori â’u haelodau/buddiolwyr cyn ymateb ac yn gallu rhoi adborth ar berthnasedd yr iaith i gynulleidfaoedd penodol; Mewn un achos, roedd yr adborth yn gadarnhaol ac yn y ddau achos arall, roedd yn negyddol:

- Dywedodd pobl ag anableddau fod y cymorth gweledol yn y ddogfen hawdd ei darllen yn ddefnyddiol.

- Roedd plant a phobl ifanc yn teimlo nad oedd yr iaith yn gwneud synnwyr iddynt nac yn cyfathrebu â nhw mewn ffordd fuddiol.
 - “Mae rhieni ... yn teimlo wedi’i dieithrio gan iaith nad oedd yn teimlo’n addas ar eu cyfer, ac nad yw’n cyfathrebu’n glir â nhw. O ran y rhieni hyn, mae’r llwybrau atgyfeirio, a hyd yn oed ‘presgripsiynu cymdeithasol’ ei hun, yn perthyn i’r categori hwn.”
- 3.78 Roedd saith o’r ymatebwyr yn teimlo bod yr iaith a ddefnyddiwyd yn y model yn briodol ar y cyfan, gan awgrymu ei bod yn glir ac yn hawdd i’w deall ac yn “ymddangos yn ddigon eang o ran ei chwmpas”. Awgrymodd un sefydliad bod yr iaith “yn briodol cyn belled â’i bod yn cael ei esbonio, yn enwedig i oedolion hŷn ac i bobl ag anableddau deallusol.”
- 3.79 Dau ymatebydd yn unig a gyfeiriodd at y Gymraeg wrth ymateb i’r cwestiwn hwn; nid oedd un yn gallu gwneud sylw gan nad oedd yn gallu cael gafael ar fersiynau cyfrwng Cymraeg o’r dogfennau.⁸ Awgrymodd ymatebydd arall ei bod yn bwysig datblygu’r derminoleg sy’n cael ei defnyddio yn y model yn y Gymraeg a’r Saesneg ar yr un pryd, yn hytrach na datblygu’r fersiwn Saesneg ac yna ei gyfieithu i’r Gymraeg.
- 3.80 Cyfeiriodd dau sefydliad at yr angen am hyblygrwydd yn yr iaith sy’n cael ei defnyddio, yn enwedig ar lefel leol: “Ni ddylem geisio disodli’r iaith sydd eisoes yn cael ei defnyddio gan gymunedau, darparwyr gwasanaethau na rhwydweithiau, ond yn hytrach wneud yr iaith ar lefel genedlaethol yn hyblyg ac yn berthnasol.”
- 3.81 Awgrymodd ymatebydd arall y “gall y term presennol aros o fewn y dirwedd addysgeg ond dylid ei rannu’n dermau symlach gyda geiriau allweddol fel; cymunedau cysylltiedig, cysylltiadau cymunedol, cymorth cymunedol ac yn y blaen.”

⁸ Roedd fersiynau Cymraeg o’r dogfennau ar gael yn ystod yr ymgynghoriad, ac mae modd eu cyrchu yma: <https://www.llyw.cymru/datblygu-fframwaith-cenedlaethol-ar-gyfer-presgripsiynu-cymdeithasol>

- 3.82 Awgrymodd un ymatebydd y dylai'r iaith gael ei hintegreiddio gydag iaith sy'n cael ei defnyddio ym mholisi a rhaglenni addysg, er enghraifft, y dull ysgol gyfan ar gyfer Iechyd Meddwl, fframwaith NYTH a'r Cwricwlwm i Gymru. Roedd sefydliad arall yn awgrymu cysylltu â'r derminoleg mewn defnydd yn y Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru, megis "chwaraeon" a "gweithgarwch corfforol" er mwyn sefydlu "cenedl egnïol lle mae pawb yn gallu mwynhau chwaraeon am oes".

Canfyddiadau Gweithdai

- 3.83 Cyfeiriodd rhanddeiliaid ym mhob un o chwe grŵp trafod y gweithdai at y ffaith bod y term 'presgripsiynu cymdeithasol' yn awgrymu model meddygol ac yn y rhan fwyaf o achosion, roedd hyn yn cael ei ystyried yn wendid. Teimlai rhai rhanddeiliaid nad yw'r term yn adlewyrchu'r weledigaeth ehangach ar gyfer y fframwaith yn ddigon effeithiol; roedd eraill yn teimlo y gallai ddieithrio i rai grwpiau. Awgrymwyd bod y gair 'presgripsiynu' yn cyfleu rhywbeth sy'n cael ei wneud i unigolyn ac mae'n llai grymusol o'r herwydd, ac mae hefyd yn gwrthdaro â'r cysyniad o hunangyfeirio.
- 3.84 Cafodd yr iaith a ddefnyddiwyd yn gyffredinol yn y model ei disgrifio gan rai fel ieithwedd iechyd a gofal cymdeithasol, a byddai angen "gwybodaeth dybiedig" ar ran y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol y tu allan i faes iechyd a gofal cymdeithasol i'w deall.
- 3.85 Roedd enghreifftiau o'r math hwn o iaith a nodwyd yn cynnwys y term 'sector statudol'; yn yr achos hwn, y teimlad oedd y byddai'n fwy hygyrch i ddisgrifio'r sefydliadau a fyddai'n cael eu hystyried yn rhan o'r sector statudol.
- 3.86 Enghraifft arall oedd defnyddio'r term 'fframweithiau', gyda rhai'n awgrymu y gallai hynny allgáu pobl nad ydynt yn weithwyr proffesiynol.
- 3.87 Cafodd un grŵp drafodaeth ynghylch y ffaith bod presgripsiynu cymdeithasol yn disgrifio'r cysyniad ond nid gwaith y person sy'n gweithio mewn presgripsiynu cymdeithasol, a bod angen y ddau i gyfleu'n llawn yr hyn sydd ynghlwm wrth wasanaeth presgripsiynu cymdeithasol.

- 3.88 Mewn grŵp arall, sylwodd rhanddeiliaid fod y model yn defnyddio'r termau 'cyfeirio' a 'presgripsiynu cymdeithasol' yn gyfnewidiol, a bod angen eglurder ynghylch y gwahanol dermau a defnydd cyson ohonynt yn y model.

Canfyddiadau Grwpiau Ffocws

- 3.89 Gofynnwyd i gyfranogwyr y grwpiau ffocws a oedd y fideo YouTube yn egluro'r model yn glir.
- 3.90 Roedd mwyafrif y cyfranogwyr yn cytuno bod y fideo yn cynnig esboniad da a hawdd i'w ddeall.
- 3.91 Roedd rhai plant a phobl ifanc yn cwestiynu cynulleidfa darged y fideo gan nad oeddent yn teimlo ei fod wedi ei anelu'n benodol atynt. Awgrymwyd y dylid diwygio'r fideo er mwyn ei wneud yn berthnasol i bob grŵp oedran. Nodwyd hefyd mai dim ond hyn a hyn y mae modd ei rannu mewn fideo byr, felly byddai gwybodaeth ddilynol ychwanegol yn ddefnyddiol gan eu bod i gyd yn teimlo'n eithaf dryslyd ynghylch yr hyn y mae presgripsiynu cymdeithasol yn ei olygu, a hwythau ddim ond wedi gwyllo'r fideo: "Dwi ddim yn siŵr beth yw e na beth mae'n ei gynnwys."
- 3.92 O fewn y grŵp Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, y farn gyffredinol oedd bod y fideo yn cyfleu'r cysyniad cyffredinol yn glir, ond roedd un cyfranogwr yn cwestiynu hyfywedd hirdymor y model (heb fwy o wybodaeth). Roedd un arall eisiau mwy o fanylion am ble mae atgyfeiriadau'n "mynd" yn dilyn y pum llwybr atgyfeirio, a thraean yn teimlo na fyddent yn teimlo'n gyfforddus yn defnyddio unrhyw lwybr atgyfeirio nad oedd wedi'i ragnodi gan feddyg teulu (h.y. y llwybr atgyfeirio gofal iechyd) heb fwy o fanylion.
- 3.93 Yna gofynnwyd i gyfranogwyr y grwpiau ffocws a oedd unrhyw eiriau neu ymadroddion a ddefnyddiwyd i esbonio'r model yn y fideo a oedd yn anodd eu deall neu'n ddryslyd.
- 3.94 Er bod y fideo yn gyffredinol yn gwneud synnwyr iddynt, roedd nifer o bobl anabl yn teimlo na fyddai rhai pobl yn deall beth mae'n ei olygu; awgrymodd un unigolyn y gallai gael ei "ystyried fel rhywbeth sy'n

ymwneud â meddygaeth yn llwyr”. Roedd un arall yn teimlo bod yna ragdybiaeth fod pobl yn gwybod beth yw ystyr termau – er enghraifft “statudol” a “trydydd sector”.

- 3.95 Roedd cyfranogwyr yn y grŵp hwn hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd darparu gwybodaeth am y model mewn amrywiaeth o gyfryngau, yn hytrach na'i gynhyrchu'n ddigidol yn unig.
- 3.96 Roedd cyfranogwyr y grŵp Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn holi a fyddai'r fideo ar gael mewn gwahanol ieithoedd er mwyn sicrhau bod pawb yn gallu ei ddeall. Awgrymodd un person gynnwys dolenni at grynodedbau PDF o'r model mewn gwahanol ieithoedd.
- 3.97 Roedd cyfranogwyr ar draws pob grŵp yn argymhell y dylid osgoi jargon, gan ddefnyddio geiriau syml cymaint â phosibl i alluogi pob cynulleidfa i ddeall a chynnal eu diddordeb. Dywedodd un person hŷn: “Iaith llywodraeth oedd yn y fideo drwyddi draw ... fe allech chi gollu diddordeb ... mae angen geiriau unsill – iaith syml.” Yn yr un modd, nododd un gofawr di-dâl “iaith benodol sy'n cael ei defnyddio o fewn Llywodraeth Cymru ... jargon sydd ddim yn hawdd i'r cyhoedd ei ddeall.” Roedd hyn yn cynnwys termau fel: “gweithiwr iechyd proffesiynol” a “sector statudol”.
- 3.98 Amlygwyd y term ‘presgripsiynu’ gan gyfranogwyr yn y grŵp pobl hŷn. Roeddent yn awgrymu ei fod yn rhywbeth sy'n cael ei gysylltu â geiriau o enau gweithiwr meddygol proffesiynol, a pharodd hynny iddynt gwestiynu sut y gallai llwybr “hunangyfeirio” ffitio i mewn i hyn. Cafwyd sylw y byddai mwy o eglurder a manylion am y gwahanol lwybrau atgyfeirio yn ddefnyddiol. Roedd un person yn y grŵp pobl hŷn yn argymhell canolbwyntio ar y syniad o ‘hunangymorth’, sy'n derm mwy cyfarwydd a allai helpu i ddisgrifio'r cysyniad o bresgripsiynu cymdeithasol: “er enghraifft, mae mynychu grŵp Men's Sheds yn hawdd i'w ddeall.”

Cwestiwn 2b – Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau am iaith / terminoleg wahanol? Gall hyn gynnwys yr iaith a'r termau a ddefnyddir yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Ymatebwyr Unigol

- 3.99 Cafwyd ateb negyddol gan oddeutu un rhan o chwech o'r ymatebwyr unigol (12) i'r cwestiwn hwn, gyda rhai yn rhoi sylw dilynol yn argymhell bod angen i'r iaith, ar y cyfan, fod yn syml, yn glir ac yn gyson.
- 3.100 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a nododd yr angen am iaith wahanol yn cynnig dewis amgen i'r term 'presgripsiynu cymdeithasol', gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn cynnwys y gair 'cymdeithasol' a/neu 'gymuned'; yn benodol, roedd pob awgrym yn osgoi'r gair 'presgripsiynu'. Ymhlith y dewisiadau amgen roedd:
- Cysylltu Cymdeithasol – y teimlad oedd ei fod yn cwmpasu ymdeimlad o “berthyn cymunedol”
 - Cymorth Llesiant Cymdeithasol
 - Cyfranogiad Cymdeithasol – sy'n gallu cyfleu'r syniad ei fod yn “gyfranogol, grymusol, anogol, atyniadol”
 - Atgyfeiriad Cymorth Cymunedol
 - Cyswllt Cymunedol i Ddinasyddion
 - Gwasanaeth Cefnogi Llesiant Cymunedol
 - Gwasanaeth Lles Cymunedol
 - Gwasanaeth Ffordd o Fyw Cymunedol
 - Gwasanaeth Iechyd Cymunedol.
- 3.101 Awgrymwyd hefyd y dylid defnyddio'r term 'Cysylltwyr Cymunedol' yn lle 'Presgripsiynwyr Cymdeithasol'.
- 3.102 Awgrymodd un ymatebydd y dylid defnyddio “cyfleoedd yn eich cymuned” yn lle'r term “cymorth yn y gymuned” ac y byddai “gweithgareddau yn eich cymuned” yn haws i'w ddeall nag “asedau cymunedol”.
- 3.103 Awgrymodd un ymatebydd y 'disgrifiad lleyg' canlynol o bresgripsiynu cymdeithasol: “Dull anfeddygol rhagweithiol, sy'n galluogi unigolyn i wella ei les trwy ddarparu opsiynau sy'n caniatáu iddo wneud dewisiadau gwybodus i wella ei fywyd.”
- 3.104 Awgrymodd unigolyn arall: “presgripsiynu gweithgareddau a sgysiau sy'n llesol i chi.”

Ymatebwyr Sefydliadol

- 3.105 Roedd y sefydliadau a ymatebodd i'r ymgynghoriad hefyd yn cynnig ystod o ddewisiadau amgen i “bresgripsiynu cymdeithasol”; awgrymodd wyth ymatebydd dermau a oedd yn cynnwys y gair “cymuned”, fel cysylltu cymunedol, cymorth cymunedol a chydlynu gofal cymunedol. Dywedodd un sefydliad: “mae ‘cyfeirio cymunedol’ yn aml yn cael ei ddefnyddio fel dewis amgen sydd efallai'n well disgrifiad o'r broses o gyfeirio pobl at wasanaethau gweithgareddau ac ymyriadau anghlinigol yn eu hardal leol.”
- 3.106 Fodd bynnag, roedd sefydliad arall yn ochelgar rhag defnyddio'r term ‘cysylltu cymunedol’, gan awgrymu'r posibilrwydd na fyddai ganddo werth yng ngolwg y cyhoedd ac y gellid ei ystyried yn jargon.
- 3.107 Roedd rhai awgrymiadau eraill yn cynnwys y gair ‘cymdeithasol’, yn eu plith:
- Cyfeirio cymdeithasol
 - Gwasanaeth ymgysylltu cymdeithasol
 - Gwasanaeth sgrinio presgripsiynu cymdeithasol
- 3.108 Yn ogystal, awgrymwyd y termau “meddygaeth ffordd o fyw”, “cymorth lles” a “chymorth iechyd a lles yn y gymuned” fel dewisiadau amgen i bresgripsiynu cymdeithasol.
- 3.109 Cynigiodd dau sefydliad fod y term “gweithwyr cyswllt” yn cael ei ddefnyddio yn lle “presgripsiynwyr cymdeithasol”, tra bod ymatebydd arall yn argymhell cynnwys amrywiaeth o eiriau eraill i ddangos y cysyniad o bresgripsiynu cymdeithasol, gan gynnwys: “ymyriadau; cymorth; rhwydwaith; cyswllt; grymuso adfer; gofal cyfannol, ffordd o fyw bositif”.
- 3.110 Roedd yr ymatebion yn awgrymu y dylai'r term fod yn ddealladwy fel “brand” yn Gymraeg a Saesneg a dylai fod â ffocws perthynol (yn hytrach nag un rhyngweithredol): “Mae'n fwy na dim ond pasio rhywun ymlaen i wasanaeth arall neu ddarparu gwybodaeth. Dylai'r iaith adlewyrchu ei ffocws ar les.”

- 3.111 Roedd tri ymatebydd yn teimlo bod y derminoleg yn llai pwysig na rhoi disgrifiad clir o'r hyn sydd ynghlwm wrtho, a'r math o wasanaethau ac asedau y gallai fod ar gael i bobl: "ail-fframio hyn fel cynnig i gefnogi ffordd o fyw fwy llawn – i ddatblygu gwasanaeth cyffredinol gwell sy'n cynnwys cyfleusterau chwaraeon, llyfrgelloedd a chanolfannau cymunedol, ymhlith pethau eraill."
- 3.112 Awgrymodd ymatebydd arall ddiffiniad syml: "Y cyfan sydd angen galw'r gwasanaeth/cynnig presgripsiynu cymdeithasol yw 'pobl yma i helpu pobl'".
- 3.113 Ar y llaw arall, defnyddiodd lleiafrif o'r ymatebwyr y cwestiwn hwn fel cyfle i ailadrodd yr argymhelliad i gadw'r term 'presgripsiynu cymdeithasol'.
- 3.114 Roedd awgrymiadau eraill ar gyfer termau amgen yn cynnwys:
- "Cais am gymorth" yn hytrach nac "atgyfeirio"
 - "Pobl/personau/unigolion/oedolion a phlant a phobl ifanc" yn lle "cleifion"
 - Nodi "elusennau/sefydliadau cymunedol/sector gwirfoddol" yn lle "trydydd sector"
 - Defnyddio'r term "cynnig" presgripsiynu cymdeithasol yn hytrach na "gwasanaeth" presgripsiynu cymdeithasol – i gwmpasu ei natur wahanol ac awgrymu sut y mae'n gweithio mewn gwahanol feysydd
 - "Gwasanaethau a ariennir yn gyhoeddus" neu "wasanaethau cyhoeddus eraill" yn lle "sector statudol"
 - Gweithgareddau "seiliedig ar natur" yn hytrach na "phresgripsiynu gwyrdd", sy'n "cyd-fynd ag atebion seiliedig ar natur yn y ddeddfwriaeth bresennol."
- 3.115 Mewn sawl achos, ni wnaeth ymatebwyr unrhyw awgrymiadau penodol ar gyfer iaith amgen ond darparwyd sylwadau neu awgrymiadau mwy cyffredinol, megis:
- Eglurder ynghylch ystyr y term 'lleol'

- Pryder y gallai'r gair 'cymdeithasol' yn y term 'presgripsiynu cymdeithasol' awgrymu cysylltiad gyda gofal cymdeithasol – dywedodd un ymatebydd hefyd fod “model Cymreig presgripsiynu cymdeithasol yn fwy cysylltiedig â gwasanaethau cymdeithasol nag iechyd.”
- Cwestiynu pam fod “iechyd” yn wahanol i “statudol”
- Awgrym i edrych ar y derminoleg a ddefnyddir yn y Fframwaith Nodau Gofal sy'n cael ei gyflwyno ar gyfer gweithwyr proffesiynol yn y sectorau iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg.
- Sicrhau bod unrhyw iaith yn cael ei chyd-gynhyrchu gyda darpar ddefnyddwyr y gwasanaeth neu aelodau'r cyhoedd; awgrymodd un ymatebydd y dylid “creu naratif i nodi termau sydd eisoes yn bodoli o fewn cymunedau lleol.”
- Awgrym y dylid defnyddio terminoleg cysylltiedig ag addysg i ddisgrifio llwybrau atgyfeirio.
- Pryder am y term “wedi'i dargedu”, sy'n swnio'n orawdurdodol ac yn angynhwysol efallai
- Argymhelliad i gynnwys geirfa o dermau a fersiynau hawdd eu darllen/cryno o'r model: “Dylai gynnwys adran naratif wedi'i golygu sydd, yn syml, yn esbonio elfennau allweddol y model heb ganolbwyntio ar sut mae'n gweithio neu'n darparu tystiolaeth. Trosolwg un dudalen y mae modd ei ddeall yn hawdd ac yn sydyn.”

3.116 Roedd un ymatebydd fel pe bai'n dehongli'r cwestiwn hwn fel un a oedd yn holi am gyfrwng iaith ac awgrymodd ymgymryd ag “archwiliad iaith o'r cyrff cyflenwi sy'n cyfranogi er mwyn 'paru' unrhyw anghenion iaith ychwanegol gyda sefydliadau cyflenwi...”, ac ymhlyg yn hynny, er mwyn sicrhau bod y model yn ystyried pob iaith sy'n cael ei siarad ymhlith yr holl bartneriaid sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau presgripsiynu cymdeithasol.

Canfyddiadau Gweithdai

- 3.117 Roedd rhanddeiliaid mewn gweithdai yn betrus ynghylch awgrymu dewisiadau amgen – ar y sail eu bod yn derbyn bod iaith gyffredin eisoes wedi'i datblygu, i ryw raddau o leiaf.
- 3.118 Roedd cyfranogwyr un grŵp trafod yn teimlo nad oedden nhw, fel gweithwyr proffesiynol, efallai yn y lle gorau i awgrymu iaith fwy hygrych, gan ddisgrifio eu hunain yn “rhy sefydliadedig” (“*institutionalised*”) eisoes.
- 3.119 Credai rhai rhanddeiliaid y gallai fod yn well pwysleisio disgrifiad clir a syml ar gyfer y term presgripsiynu cymdeithasol megis “cysylltu pobl â chymorth anfeddygol.”

Canfyddiadau Grwpiau Ffocws

- 3.120 Gofynnwyd i gyfranogwyr y grwpiau ffocws a oedd modd iddynt awgrymu unrhyw beth i wneud y model yn haws i'w ddeall.
- 3.121 Nododd cyfranogwyr o'r grŵp pobl anabl ei bod yn bwysig sicrhau bod fersiwn hawdd ei darllen o ddeunyddiau ar gael. Roedd rhai oedd yn cymryd rhan yn y grŵp hwn hefyd yn sôn bod y testun ar y fideo ychydig yn fach ac y byddai'n elwa ar fwy o luniau. Ar y llaw arall, roedd eraill yn teimlo bod y fideo yn dda: “dim byd o'i le arno ... mae'n esbonio popeth fesul cam... mae'n dda oherwydd nad oes gormod i fynd i'r afael ag ef.”
- 3.122 Fe wnaeth un person anabl argymhell defnyddio'r term “ffrindiau” yn lle “perthnasoedd”, o ystyried y gallai'r olaf gael ei gamddehongli.
- 3.123 Roedd cyfranogwyr o'r ddau grŵp gyda phobl hŷn yn teimlo y byddai'n ddefnyddiol cynnwys arweiniad i bobl sy'n rhedeg grwpiau (P3O ac ati) o ran sut i rannu gwybodaeth am eu gweithgareddau gyda meddygfeydd, er enghraifft, i'w galluogi i gymryd rhan mewn gwasanaeth presgripsiynu cymdeithasol.
- 3.124 Roedd rhai unigolion o'r grwpiau hyn hefyd yn cwestiynu sut y gallai “pobl gyffredin” gymryd rhan a sut y byddai disgwyl iddynt rannu gwybodaeth am bresgripsiynu cymdeithasol gyda ffrindiau a chydabod. Awgrymwyd bod iaith gynhwysol wedi ei hanelu at leygwyr yn hanfodol.

- 3.125 Awgrymodd unigolion o'r grŵp ffocws plant a phobl ifanc y byddai ychwanegu cyfeiriad at beth fyddai'r model hwn yn ei olygu i'w grŵp oedran nhw a lleoliadau ysgol yn ddefnyddiol.
- 3.126 Ar ben hynny, awgrymodd unigolyn yn y grŵp plant a phobl ifanc (ac un a gafodd ei gefnogi gan gyfranogwyr eraill a oedd yn bresennol) y dylid rhoi pwyslais ar ymchwil perthnasol neu rannu enghreifftiau o pryd mae'n gweithio, i'w galluogi i ddeall ymhellach sut mae o fudd i gleifion a sut mae'n wahanol i fodel meddygol o ofal.
- 3.127 Awgrymodd cynrychiolwyr o'r grŵp Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol gynnwys rhai rhifau ffôn a dolenni, yn ogystal â mwy o fanylion am y gweithlu sy'n ymwneud â darparu gwasanaeth presgripsiynu cymdeithasol.
- 3.128 Oherwydd y bydd natur gwasanaeth presgripsiynu cymdeithasol yn amrywio mewn ardaloedd gwahanol, byddai angen teilwra unrhyw esboniad o'r gwasanaeth – er enghraifft fideo – i'r arlwy lleol.
- 3.129 Tynnodd un aelod o'r grŵp Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol sylw at ddiffyg unrhyw ganlyniadau arfaethedig o'r fframwaith neu eglurhad o'r hyn y mae'n ceisio ei gyflawni, ac awgrymodd ei fod yn ymddangos yn "benagored". Awgrymodd un arall o'r cyfranogwyr yn y grŵp hwn y byddai'n ddefnyddiol dangos sut y gallai pobl gymryd rhan er mwyn helpu i ddarparu gwasanaethau presgripsiynu cymdeithasol, fel gwirfoddolwr, er enghraifft.

Cwestiwn 3 – Sut mae datblygu dealltwriaeth gyffredin, ar lefel genedlaethol, o'r iaith / terminoleg a ddefnyddir i ddisgrifio presgripsiynu cymdeithasol ar gyfer gweithwyr proffesiynol ac aelodau o'r cyhoedd fel ei gilydd? Gall hyn gynnwys yr iaith a'r termau a ddefnyddir yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Ymatebwyr Unigol

- 3.130 Yn fras, cytunodd yr ymatebwyr ar yr angen am ymgyrch genedlaethol eang, hygyrch ac uchelgeisiol, i feithrin dealltwriaeth am bresgripsiynu

cymdeithasol a sut i gael gfael ar wasanaethau presgripsiynu cymdeithasol. Awgrymwyd y dylai Llywodraeth Cymru gefnogi'r ymgyrch a'i thargeddu ar y cyhoedd yn hytrach na phobl sy'n gweithio yn y system.

- 3.131 Awgrymwyd y dylid rhannu cyfathrebu dwyieithog trwy amrywiaeth o blatfformau a dulliau, gan gynnwys y canlynol:
- Hysbysebion gweledol (hysbysfyrddau etc).
 - Tystebau/fideos byr sy'n gysylltiedig â chanlyniadau
 - Cyfryngau cymdeithasol
 - Hysbysebion teledu, radio a phapur newydd (yn arbennig o bwysig i bobl hŷn).
- 3.132 Nododd dau ymatebydd y dylid hyrwyddo presgripsiynu cymdeithasol mewn meddygfeydd teulu.
- 3.133 Nododd chwech o'r ymatebwyr fod angen datblygu presgripsiynu cymdeithasol a'i hyrwyddo ar lefel awdurdod lleol a/neu fwrdd iechyd, a chynnwys gweithwyr proffesiynol gofal iechyd a/neu dimau gofal cymdeithasol lleol.
- 3.134 Awgrymodd un unigolyn ei bod yn hanfodol bod Iechyd Cyhoeddus Cymru yn adeiladu ar yr astudiaeth waelodlin a lywiodd yr ymgynghoriad hwn ac sy'n mapio'r cynnig presgripsiynu cymdeithasol ym mhob rhanbarth.
- 3.135 Awgrymodd pedwar ymatebydd ddatblygu geirfa o dermau a diffiniadau yn ymwneud â phresgripsiynu cymdeithasol i lywio llenyddiaeth wedi'i geirio'n gyson a hygyrch mewn fformatau papur a digidol.
- 3.136 Fel y pwysleisiodd yr ymatebion i gwestiynau blaenorol, roedd ymatebwyr yn argymhell "dad-broffesiynoli" iaith a therminoleg a chanolbwyntio yn hytrach ar grynhai'r hyn y mae presgripsiynu cymdeithasol yn ceisio'i gyflawni.
- 3.137 Awgrymodd un unigolyn y gallai sefydliadau presgripsiynu cymdeithasol presennol ymgysylltu â dinasyddion lleol i glywed eu safbwyntiau ar sut y byddent yn diffinio'r cymorth maent yn ei gael. Galwodd un arall am gael defnyddwyr gwasanaethau i ymgysylltu o'r dechrau: "fel eu bod yn cyd-

ddylunio model y gwasanaeth, yn hytrach na'i ddylunio ac yna holi eu barn.”

- 3.138 Roedd yr ymatebwyr yn pwysleisio'r angen am 'gysondeb' ac i bob prosiect presgripsiynu cymdeithasol ddefnyddio'r un iaith: “mae termau fel llywiwr cymunedol, asiant cymunedol, cyswllt cymunedol, cydlynedd trydydd sector ac ati yn drysu pobl.”
- 3.139 Awgrymodd un ymatebydd fod y derminoleg yn amherthnasol cyn belled â bod pobl yn gallu cael mynediad at y gwasanaeth ac elwa arno. Yn yr un modd, teimlai un arall nad oedd angen i'r cyhoedd fod yn ymwybodol o'r gwahanol lwybrau i'r gwasanaeth; yn hytrach, dylent gael gwybod sut i gysylltu â gwasanaethau presgripsiynu cymdeithasol, naill ai'n uniongyrchol neu trwy eu meddyg teulu.

Ymatebwyr Sefydliadol

- 3.140 Fel gyda'r cwestiynau eraill, roedd ymatebion sefydliadol yn pwysleisio pwysigrwydd iaith syml a chyson sy'n cyfleu nodau presgripsiynu cymdeithasol yn glir, ac yn osgoi acronymau, jargon a therminoleg gryno. Awgrymodd tri ymatebydd y dylid datblygu geirfa o dermau; argymhellodd un o'r rhain fod yr eirfa yn cael ei llywio gan grwpiau priodol o unigolion a'i bod yn cynnwys geirfa syml i osgoi allgáu a gwahaniaethu.
- 3.141 Awgrymodd un ymatebydd fod angen darparu eglurhad clir o'r nodau presgripsiynu cymdeithasol tra bod un arall yn teimlo ei bod yn bwysig egluro'r gwahaniaeth rhwng y gwasanaeth presgripsiynu cymdeithasol a'r gweithgareddau sydd ar gael i bobl trwy wasanaeth presgripsiynu cymdeithasol.
- 3.142 Gwelwyd bod ymgysylltu â'r cyhoedd (gan gynnwys ymgysylltu â'r rhai sydd â phrofiad byw, plant a phobl ifanc, pobl gyda lefelau amrywiol o lythrennedd a llythrennedd iechyd a phobl mewn cymunedau ethnig lleiafrifol) yn hanfodol, er mwyn llywio'r iaith a'r derminoleg sy'n cael eu defnyddio ond hefyd i roi rheolaeth a pherchnogaeth o'r fframwaith yn nwylo'r cyhoedd: “gweithwyr proffesiynol yn dysgu terminoleg gyhoeddus yn hytrach na'r cyhoedd yn dysgu jargon.”

- 3.143 Awgrymodd un ymatebydd y dylid cynnull tasglu o bobl sydd â phrofiad byw i greu dull o ymdrin ag iaith a therminoleg y cytunwyd arno. Nododd un arall bwysigrwydd profi unrhyw iaith neu ddeunyddiau (yn Saesneg ac yn Gymraeg) gydag ystod o wahanol gynulleidfaedd (gan gynnwys pobl gyda lefelau amrywiol o lythrennedd iechyd) er mwyn lleihau'r rhwystrau sy'n atal dealltwriaeth ac ymgysylltu.
- 3.144 Roedd chwe ymatebydd yn argymhell ymgyrch ymwybyddiaeth genedlaethol yn tynnu sylw at bresgripsiynu cymdeithasol a'i fanteision, yn digwydd ar deledu teledu, drwy'r cyfryngau cymdeithasol ac yn y wasg ac yn cynnwys enghreifftiau astudiaethau achos o sut y gall presgripsiynu cymdeithasol helpu. Fel rhan o hyn, awgrymodd un sefydliad ymgysylltu â gweithwyr marchnata proffesiynol neu gwmni ymchwil marchnad i amlygu'r gwahanol gynulleidfaedd ar gyfer unrhyw ymgyrch bosibl).
- 3.145 Unwaith eto, yn unol ag atebion i gwestiynau cynharach, pwysleisiodd sawl ymatebydd yr angen i ddarparu ar gyfer gwahanol gynulleidfaedd wrth ddisgrifio presgripsiynu cymdeithasol; roedd tri yn nodi'r angen i unrhyw gyfathrebu fod mewn amrywiaeth o ieithoedd gwahanol, nid dim ond yn Gymraeg a Saesneg. Byddai hefyd angen fersiynau hawdd eu darllen a ffilmiau byr, atyniadol i weithwyr proffesiynol eu rhannu gydag unigolion wrth gyflwyno'r cysyniad o bresgripsiynu cymdeithasol.
- 3.146 Mynegwyd bod angen bod yn oichelgar rhag portreadu presgripsiynu cymdeithasol fel meddyginiaeth i wella unrhyw broblem, a allai achosi i weithwyr proffesiynol a'r cyhoedd golli diddordeb.
- 3.147 Roedd hyfforddiant ar gyfer pob gweithiwr proffesiynol sy'n ymwneud â phresgripsiynu cymdeithasol hefyd yn cael ei ystyried yn rhan allweddol o'r broses hon. Mae angen hyfforddi'r rhai sy'n atgyfeirio at y gwasanaeth i wneud yn siŵr eu bod yn cyfeirio'r math cywir o bobl ac yn gallu adnabod y rhai a allai fod angen gofal mwy arbenigol.
- 3.148 Awgrymwyd hefyd y dylid sefydlu hyrwyddwyr presgripsiynu cymdeithasol mewn gwahanol sefydliadau sy'n derbyn arweiniad parhaus, ac y dylid prif ffrydio'r cysyniad o bresgripsiynu cymdeithasol i'r hyfforddiant sy'n cael ei ddarparu yn y GIG ac yn adrannau Llywodraeth Cymru.

- 3.149 Awgrymwyd y gallai Llywodraeth Cymru gefnogi datblygu canolfan i enghreifftio arfer da at ddefnydd gweithwyr proffesiynol.
- 3.150 Cyfeiriodd chwe ymatebydd at bwysigrwydd gweithio (a chyllido) traws-sector a thraws-lywodraethol a nodi meysydd cysylltedd, dealltwriaeth gyffredin a chanlyniadau cyffredin.
- 3.151 Awgrymwyd y byddai hyn yn galluogi presgripsiynu cymdeithasol i gael ei “ymwreiddio ym mhob rhan o’r gymdeithas, fel bod unigolion yn ymgysylltu â phresgripsiynu cymdeithasol mor hawdd ag y maen nhw’n ei wneud gyda grwpiau cymunedol, meddygfeydd a deintyddion.”
- 3.152 Roedd awgrymiadau eraill yn cynnwys:
- Sefydlu digwyddiad cenedlaethol ar gyfer grwpiau cynrychioliadol perthnasol er mwyn creu cyd-ddealltwriaeth o rolau priodol cyfranogwyr allweddol yn y gwasanaeth presgripsiynu cymdeithasol.
 - Datblygu cronfa ddata ganolog o’r holl wasanaethau a ddylai fod yn hygyrch i gleifion a gweithwyr proffesiynol.
 - Sicrhau bod iaith yn cael ei datblygu yn gydamserol yn y Gymraeg a’r Saesneg “gan ddefnyddio gweithdrefnau rhyngwladol ar safoni”.
 - Sicrhau hyblygrwydd i alluogi’r iaith sy’n gysylltiedig â’r model i fod yn “awgrymog a hyblyg i gyd-destunau lleol, heb geisio disodli iaith neu rwydweithiau sydd eisoes yn bodoli mewn cymunedau.”
 - Datblygu cynllun pendant i gyfleu effaith y fframwaith.

Canfyddiadau Gweithdai

- 3.153 Roedd gan randdeiliaid gweithdai nifer o awgrymiadau ar sut i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o’r iaith/derminoleg a ddefnyddir i ddisgrifio presgripsiynu cymdeithasol, gan gynnwys:
- Creu cysylltiad gyda chynlluniau sydd eisoes yn canolbwyntio ar yr agenda atal.

- Blaenoriaethu symlrwydd – helpu'r cysyniad i daro deuddeg ar unwaith a galluogi pobl i wneud y cysylltiad fod presgripsiynu cymdeithasol "ar eu cyfer nhw".
- Sicrhau bod terminoleg ar draws gwasanaethau yn cael ei rannu, yn gyffredin ac yn gyson.
- Dylunio deunydd marchnata a hyrwyddo sy'n "dechrau gyda'r broblem", er enghraifft "ydych chi'n unig?"
- Darparu astudiaethau achos sy'n gallu dod â'r model yn fyw a helpu pobl i ddeall yr effaith y gall presgripsiynu cymdeithasol ei chael ar bobl go iawn.
- Cynnwys enghreifftiau sy'n adlewyrchu pob aelod o gymdeithas a sectorau – er enghraifft, mewn un grŵp trafod, mynegwyd pryderon bod lleoliadau addysgol i'w gweld yn cael eu hallgáu o'r llwybrau, er gwaethaf y ffaith bod meithrinfeydd ac ysgolion yn aml yn ganolog i gymunedau. Awgrymwyd bod hyn felly'n creu'r argraff nad yw'r model yn berthnasol i blant a phobl ifanc.
- Sicrhau nad yw unrhyw hyrwyddo yn digwydd ar-lein yn unig, er mwyn peidio ag allgáu grwpiau penodol, er enghraifft pobl hŷn neu bobl ag anableddau penodol.
- Gweithio'n agos gyda Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, gan fod y rhwydweithiau a'r adnoddau sydd eu hangen i wneud iddo weithio ganddynt eisoes.

Canfyddiadau Grwpiau Ffocws

- 3.154 Gofynnwyd i gyfranogwyr y grwpiau ffocws sut y byddent yn disgrifio presgripsiynu cymdeithasol i rywun arall, er mwyn amlygu themâu sy'n gysylltiedig â'r cwestiwn hwn.
- 3.155 Roedd pob grŵp yn gallu rhannu dehongliadau gwahanol o bresgripsiynu cymdeithasol ac eithrio'r grŵp a oedd yn cynnwys plant a phobl ifanc, a oedd yn credu bod angen mwy o ymwybyddiaeth o bresgripsiynu cymdeithasol cyn bod modd iddynt ddiffinio'r term yn hyderus.

- 3.156 Roedd un person yn y grŵp o bobl hŷn yn disgrifio presgripsiynu cymdeithasol fel cysyniad eang, gan ddweud “hyd y gwelaf i, gellid cynnwys bron unrhyw beth os yw’n gweithio i’r person hwnnw”. Aeth person arall yn y grŵp ati i’w ddiffinio fel “cymorth anfeddygol i bobl sydd ei angen”, gan awgrymu y dylid pwysleisio bod ffyrdd eraill o helpu pobl y tu hwnt i driniaeth feddygol. Dywedodd person hŷn arall y byddai’n hyderus yn defnyddio’r term “presgripsiynu cymdeithasol” wrth ddisgrifio’r cysyniad i rai pobl, ond ei fod yn teimlo na fyddai’n briodol i’w ddefnyddio gyda rhywun sydd “heb lawer o addysg”.
- 3.157 Roedd cynrychiolwyr o’r grŵp Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn teimlo y byddai’n bwysig pwysleisio’r syniad fod presgripsiynu cymdeithasol yn weithgaredd grŵp ac yn ymwneud â chysylltu â phobl eraill. Roedd eraill yn y grŵp hwn yn teimlo y byddai’n werth chweil adeiladu ar hyrwyddo ac ymwybyddiaeth bresennol o fanteision rhyngweithio cymdeithasol, chwaraeon a mynd allan i fyd natur.
- 3.158 Awgrymodd cyfranogwyr yn y grŵp o bobl ag anabledd y dylid cyfeirio at y ffaith ei fod yn ymwneud â datblygu perthnasoedd ond pwysleisiodd eto ei bod yn bwysig dweud yn glir nad yw hyn yn golygu perthnasoedd rhamantus. Dywedodd un person yn y grŵp hwn y byddent yn debygol o siarad am “les a chymorth” pe baen nhw’n ceisio disgrifio presgripsiynu cymdeithasol i ffrind. Cynigiodd un arall awgrym i ddarlunio presgripsiynu cymdeithasol: “Yn lle’r doctor yn rhoi tabledi i chi, efallai y bydd yn rhoi presgripsiwn i chi fynd i’r gampfa neu weithgareddau eraill, codi pwysau ysgafn neu nofio ... yn lle eich anfon at seiciatrydd, efallai y gallai’r meddyg teulu eich anfon at grŵp cerdded neu ddsbarth ioga”.

Casgliadau Thema 1

- 3.159 Roedd mwyafrif yr ymatebwyr i’r ymgynghoriad ffurfiol (sefydliadol ac unigol) yn teimlo bod y model yn cyfleu gweledigaeth briodol o bresgripsiynu cymdeithasol yng Nghymru.
- 3.160 Roedd bylchau allweddol yn y model a nodwyd yn cynnwys: cyfeiriad at grwpiau allweddol (plant a phobl ifanc, pobl hŷn, cymunedau ethnig

lleiafrifol, siaradwyr Cymraeg); cyfleoedd i gyd-fynd â'r agenda 'gwyrdd'; rôl bosibl gwahanol gyfranogwyr yn y llwybrau atgyfeirio; mwy o ystyriaeth o ddiogelu; a'r angen i flaenoriaethu unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol.

- 3.161 Roedd y meysydd lle'r oedd angen eglurhad yn eu cylch yn cynnwys: y berthynas rhwng y model cenedlaethol a'r seilwaith lleol, rôl y trydydd sector, ariannu'r model a'i gynaliadwyedd a rôl trafndiaeth gymunedol.
- 3.162 Prin iawn oedd y wybodaeth flaenorol am y term 'presgripsiynu cymdeithasol' ymhlith cyfranogwyr y grwpiau ffocws.
- 3.163 Roedd barn gymysg ynglŷn â'r term 'presgripsiynu cymdeithasol' ymysg ymatebwyr ffurfiol a rhanddeiliaid y gweithdai:
- Manteision: mae'n darparu hygyrdded a pherthnasedd, yn derm a gydnabyddir yn rhyngwladol a gallai annog cydymffurfedd
 - Anfanteision: o bosibl yn or-ffurfiol, dryslyd/annelwig, bod y gair ag ystyr rhy feddygol, "tadofalaethol" a dadrymusol.
- 3.164 Roedd gwahaniaethau barn am safoni terminoleg:
- Dylai termau sy'n cael eu defnyddio fod yn gyson ar draws daearyddiaethau a sectorau, ni ddylent fod yn anhyblyg ond dylai'r model fod yn hyblyg i gynnwys iaith sydd eisoes yn cael ei defnyddio mewn cymunedau lleol.
 - Roedd y rhan fwyaf o gyfranogwyr y grwpiau ffocws yn teimlo bod y fideo yn cynnig esboniad da oedd yn hawdd ei ddeall, er bod ganddynt rai pryderon am dermau penodol.
 - Cynigiwyd amryw o ddewisiadau amgen i bresgripsiynu cymdeithasol, gan gynnwys: cysylltu cymunedol, cymorth cymunedol, cydlynu gofal cymunedol, cyfeirio cymdeithasol, gwasanaeth ymgysylltu cymdeithasol, gwasanaeth sgrinio presgripsiynu cymdeithasol a gweithwyr cyswllt.

- 3.165 Roedd rhanddeiliaid y gweithdai yn ochelgar rhag cynnig termau amgen, o ystyried pa mor gyffredin yw'r term presgripsiynu cymdeithasol, yng Nghymru ac yn rhyngwladol.
- 3.166 Roedd pryderon am y defnydd o'r termau "claf", "trydydd sector", "atgyfeirio" a "gwasanaeth presgripsiynu cymdeithasol" – mae'r diwethaf yn awgrymu bod y ddarpariaeth yr un fath o ran ystod a graddfa ym mhob ardal.
- 3.167 O ran datblygu dealltwriaeth gyffredin o'r iaith/terminoleg sy'n cael eu defnyddio i ddisgrifio presgripsiynu cymdeithasol, roedd galwadau gan ymatebwyr sefydliadol ac unigolion am y canlynol: sicrhau iaith syml a disgrifiadau clir lle'r oedd angen hynny; profi terminoleg gydag ystod eang o randdeiliaid, ymgyrch gyfathrebu ddwyieithog genedlaethol bellgyrhaeddol, hyfforddiant ymarferwyr a gweithio (a chyllido) traws-sector a thraws-lywodraethol).
- 3.168 Pwysleisiodd rhanddeiliaid y gweithdai bwysigrwydd terminoleg gyffredin a chyson ar draws gwasanaethau/sectorau a daearyddiaethau.
- 3.169 Darparodd aelodau'r grwpiau ffocws (ac eithrio plant a phobl ifanc) enghreifftiau o sut y byddent yn disgrifio presgripsiynu cymdeithasol i rywun arall; gan amlaf, roedd y dehongliadau hynny o bresgripsiynu cymdeithasol yn cyd-fynd â themâu'r fideo presgripsiynu cymdeithasol.

4. Thema 2 – Dadansoddi Llwybrau Atgyfeirio

Cwestiwn 4a – Pa gamau y gallem eu cymryd ar lefel genedlaethol i helpu gweithwyr proffesiynol (o sefydliadau gofal iechyd, statudol a thrydydd sector) i wybod am wasanaeth presgripsiynu cymdeithasol, cydnabod ei werth, a bod yn hyderus wrth gyfeirio pobl ato?

Ymatebwyr Unigol

- 4.1 Dywedodd 15 o'r ymatebwyr fod hyfforddiant yn allweddol. Ymhlith y themâu hyfforddi a gafodd eu crybwyll dro ar ôl tro roedd hyfforddiant cychwynnol cyson a diweddariadau rheolaidd (ar ddatblygiadau o fewn y sector, er enghraifft) ar gyfer gweithwyr presgripsiynu cymdeithasol. Awgrymodd nifer o'r ymatebwyr y byddai rhannu astudiaethau achos, adolygiadau, adroddiadau, adborth, llwyddiannau a phethau sydd wedi gweithio'n dda (h.y. arfer gorau) yn ychwanegiad gwerthfawr i'r gwasanaeth.
- 4.2 Dywedodd wyth o'r ymatebwyr fod safon genedlaethol o lywodraethu, atebolrwydd a sicrwydd ansawdd o ran presgripsiynu cymdeithasol yn bwysig iawn. Y farn oedd y byddai hyn yn sicrhau bod y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi ac yn ddiogel. Mae rhagor o fanylion am hyn yn cael ei ddarparu yn ddiweddarach yn yr ymgynghoriad, yn ystod y drafodaeth ar y posibilrwydd o gyflwyno safonau cenedlaethol.
- 4.3 Tynnodd pum ymatebydd sylw at y ffaith y dylai gweithwyr presgripsiynu cymdeithasol eisoes fod â dealltwriaeth gadarn o beth yw presgripsiynu cymdeithasol, beth mae'n ei gynnig, beth sydd ar gael a beth yw eu cyfrifoldebau o ran cyfrinachedd a diogelu.
- 4.4 Fodd bynnag, dywedodd pum ymatebydd fod angen un pwynt cyfeirio go iawn ynglŷn â'r broses o bresgripsiynu cymdeithasol a'r hyn sydd ar gael – un lle i gael gafael ar yr holl wybodaeth. I'r un perwyl, soniodd pum ymatebydd am dryloywder a chyfathrebu effeithiol rhwng sectorau fel bod *pawb* yn gwybod beth sydd ar gael.

- 4.5 Soniodd tri ymatebydd am bwysigrwydd deall anghenion gweithwyr presgripsiynu cymdeithasol, fel eu bod yn hyderus am eu darpariaeth eu hunain – mae hyn yn cysylltu'n ôl â'r pwyntiau cyntaf ar ddealltwriaeth presgripsiynwyr cymdeithasol o'r hyn maent yn ei wneud.
- 4.6 Ar y cyfan, mae'r ymatebion yn adlewyrchu awydd am eglurder *ar draws* y gwahanol broffesiynau a gwasanaethau y mae'n ofynnol iddynt gydweithio er mwyn darparu presgripsiynu cymdeithasol.

Ymatebwyr Sefydliadol

- 4.7 Roedd ymatebion sefydliadol yn adlewyrchu'r un themâu craidd i raddau helaeth, ond gan gynnwys mwy o fanylder a nifer o awgrymiadau ychwanegol. Yn bennaf, mae'n bosibl deall awgrymiadau sefydliadol trwy'r pynciau allweddol canlynol:
- Yr angen am eglurder (pum sefydliad) – gan gynnwys dealltwriaeth glir o beth yw presgripsiynu cymdeithasol, llwybrau clir ar gyfer cyfeirio ac atgyfeirio, ac eglurder o ran cyfyngiadau'r cymorth y mae modd ei gynnig
 - Darparu un pwynt neu blatfform cyfeirio/mynediad at wybodaeth am ddarparwyr cofrestredig (naw sefydliad)
 - Cyllid (saith sefydliad) – gydag ymrwymiad o gyllid sy'n adlewyrchu hyder a chynaliadwyedd ar gyfer y gwasanaeth
 - Cydweithio (pedwar sefydliad) – rhwng partneriaid parod ac o fewn y gymuned leol, gan gryfhau'r berthynas rhwng gweithwyr proffesiynol a gwasanaethau presgripsiynu cymdeithasol
 - Hyfforddiant/hybu ymwybyddiaeth (pedwar sefydliad)
 - Adnabyddiaeth a gwybodaeth am wasanaethau lleol
 - Hyder a chydabyddiaeth o werth rhwng elfennau o'r system bresgripsiynu cymdeithasol
 - Cymorth, gan gynnwys cynlluniau cadarn ar waith ar gyfer sefydliadau cymunedol

- Systemau i ddarparu adborth, gan helpu i greu ymddiriedaeth a chynnal ymgysylltu
- Llywodraethu cryf
- Darparu gwybodaeth am argaeledd ac ansawdd y ddarpariaeth Gymraeg o fewn y gwasanaeth presgripsiynu cymdeithasol lleol.

- 4.8 Er mwyn cynorthwyo gyda'r rhesymeg wrth wraidd yr awgrymiadau hyn, cyfeiriodd rhai sefydliadau at broblemau cysylltiedig sy'n gallu codi mewn perthynas â phresgripsiynu cymdeithasol. Roedd enghreifftiau yn cynnwys trafferthion o ran magu ffydd yn y system, gydag un mudiad yn pwysu ar dystiolaeth sy'n awgrymu ei bod yn cymryd tua 12 mis i fagu ffydd mewn presgripsiynu cymdeithasol ymysg meddygon teulu.
- 4.9 Rhannodd sefydliad arall ei brofiad – fel enghraifft o'r hyn i'w osgoi – o dderbyn mwy o atgyfeiriadau nag y gallai adnoddau staff eu cefnogi'n effeithiol.
- 4.10 O ran meithrin ymddiriedaeth a hyder, roedd cyfran sylweddol o adborth sefydliadol yn canolbwyntio ar greu safonau cadarn a'r angen am sicrwydd ansawdd a fframwaith cymhwysedd.
- 4.11 Yn olaf, roedd ymatebion sefydliadol hefyd yn cynnig sylwadau ar bwysigrwydd rhannu llwyddiannau er mwyn annog canlyniadau a thystiolaeth ymgysylltu gwell. Roedd y pwynt hwn hefyd yn cysylltu'n uniongyrchol â'r syniad o ffydd, yn enwedig ymhlith meddygon teulu, gydag un sefydliad yn tynnu sylw at y ffaith bod modd defnyddio gwendid neu ddiffyg canfyddedig yn y dystiolaeth bresennol i gwestiynu amser a chost ehangu gwasanaethau presgripsiynu cymdeithasol.

Canfyddiadau Gweithdai

- 4.12 Tynnodd rhanddeiliaid sylw at yr angen i hyrwyddo cyd-ddealltwriaeth o'r effaith mae presgripsiynu cymdeithasol yn gallu ei gael ar unigolion. Er mwyn sicrhau gwell dealltwriaeth, awgrymwyd bod angen iaith gyffredin ymysg unigolion, sefydliadau a gwasanaethau. Dylid cynnal hyn ledled yr

holl ddeunyddiau, adnoddau a phlatfformau sy'n cael eu defnyddio i hyrwyddo a hwyluso presgripsiynu cymdeithasol – er mwyn osgoi dryswch. Cynigiodd rhanddeiliaid hefyd y dylai hyn gynnwys cytundeb ar weledigaeth/cyd-ddealltwriaeth gyffredin o ran beth yw gwasanaeth presgripsiynu cymdeithasol da.

- 4.13 Nodwyd hefyd fod ffyrdd gwell o gynnwys rhai rhannau o'r gweithlu wrth gynllunio i gyflwyno a darparu presgripsiynu cymdeithasol ar raddfa ehangach. Yn yr achos hwn, cynigiwyd proffesiynau perthynol i iechyd fel enghraifft, ar sail y ddealltwriaeth y dylai fod ganddynt well crebwyll o anghydraddoldebau iechyd. Dywedwyd bod proffesiynau perthynol i iechyd yn awyddus i fod yn rhan o bresgripsiynu cymdeithasol, a bod angen cydnabyddedig i atgyfnerthu'r gweithlu iechyd cyhoeddus ehangach.
- 4.14 Roedd sylwadau eraill unwaith eto'n cyffwrdd ar bwysigrwydd ymddiriedaeth a hygredded. Yn ogystal, awgrymodd rhanddeiliaid fod modd hyrwyddo hyder yng ngwerth presgripsiynu cymdeithasol trwy ddefnyddio astudiaethau achos ac enghreifftiau – gan greu 'dolen adborth'.
- 4.15 Gyda'r thema hygredded a chanlyniadau tystiolaethol mewn golwg, roedd rhanddeiliaid yn trafod yr angen i fynd i'r afael â'r ffaith bod gwasanaethau iechyd yn aml yn cael eu rhedeg fel busnesau. Yn sgil hynny, mae'n dod yn fwyfwy pwysig i hyrwyddo presgripsiynu cymdeithasol fel opsiwn hyfyw, credadwy sy'n creu canlyniadau amlwg. O ran cydnabod gwerth presgripsiynu cymdeithasol, cyfeiriodd rhanddeiliaid hefyd at y syniad o'r agenda atal a'r ymwybyddiaeth y gall manteision presgripsiynu cymdeithasol arwain at arbedion costau yn yr hirdymor.
- 4.16 O ran magu hyder yn y broses atgyfeirio, tynnodd rhanddeiliaid sylw at yr angen i gynnal yr athroniaeth nad oes 'dim drws anghywir'. Y teimlad oedd y dylai bob amser fod yn bosibl anfon rhywun i'r cyfeiriad cywir, ac y dylai'r rhai sy'n ymwneud â'r broses atgyfeirio fod yn gallu trin achosion cymhleth. Mewn perthynas â hynny, roedd rhanddeiliaid hefyd yn rhoi

pwyslais cryf ar liniaru risg, llunio cynlluniau gofal o sylwedd a sicrhau bod y rhai sy'n atgyfeirio fod â ffydd yng nghanlyniadau hynny.

Canfyddiadau Grwpiau Ffocws

4.17 Ni ofynnwyd y cwestiwn hwn i gyfranogwyr y grwpiau ffocws.

Cwestiwn 4b – Yn achos hunanatgyfeiriadau, pa gamau y gallem eu cymryd ar lefel genedlaethol i helpu'r cyhoedd i wybod am wasanaeth presgripsiynu cymdeithasol, cydnabod ei werth, a bod yn ddigon hyderus i gysylltu ag ef?

Ymatebwyr Unigol

- 4.18 Dywedodd saith ymatebydd y bydd pobl yn gwybod am bresgripsiynu cymdeithasol a'i werth os oes sawl llwybr i gyrraedd ato (ac i'r gwrthwyneb, h.y. mae llai o lwybrau'n debygol o fod yn gyfystyr ag ymwybyddiaeth is). Roedd y pwynt hwn hefyd yn cysylltu gyda sylwadau cynnar ar yr angen am blatfform cynhwysfawr i gael gafael ar wybodaeth am bresgripsiynu cymdeithasol. Dywedodd pedwar ymatebydd y dylid cael cronfa ddata hygyrch o wybodaeth sy'n glir, yn syml ac yn hawdd i'w defnyddio, ac yn gyfoes.
- 4.19 O ran hysbysu'r gwasanaeth i'r cyhoedd, nododd yr ymatebwyr fod hyn yn cynnwys hyrwyddo'r model trwy ymgyrchoedd hybu ymwybyddiaeth cyffredinol. Awgrymodd rhai y byddai modd gwneud hyn hefyd trwy ddefnyddio marchnata ar y cyfryngau cymdeithasol.
- 4.20 Roedd eraill yn annog pwysigrwydd dulliau mwy traddodiadol fel gadael llyfrynnau/taflenni gwybodaeth mewn swyddfeydd meddygon teulu, llyfrgelloedd, fferyllfeydd, canolfannau hamdden, canolfannau teuluol, byrddau cymunedol ac yn y blaen. Cyfeiriwyd at hysbysebu trwy gyfryngau mwy traddodiadol hefyd – fel papurau newydd, radio, a theledu.
- 4.21 Er mwyn helpu'r cyhoedd i ymgyfarwyddo â'r cysyniad a deall eu hanghenion, awgrymwyd y dylid ail-fframio presgripsiynu cymdeithasol yn ôl yr angen. Er enghraifft, efallai na fydd pobl eisiau cyfaddef eu bod yn

chwilio am gymorth oherwydd unigrwydd neu ynysigrwydd – felly mae angen gofalu ei fframio mewn ffordd fwy positif, er mwyn osgoi stigmatiddio.

- 4.22 Dywedodd chwech o'r ymatebwyr y byddai hybu hyder aelodau'r cyhoedd hefyd yn bosibl os yw pobl yn gwybod bod y cynllun yn ddibynadwy a bod ffydd ynddo, gan gysylltu'n ôl â'r pwynt canolog am hygrededd. Er mwyn helpu i gyflawni hyn, awgrymodd rhai ymatebwyr y byddai angen gwarant o ansawdd, amlygrwydd llawn, a byddai angen "datgyfrinio" presgripsiynu cymdeithasol yn gyffredinol. Yn yr un modd, pwysleisiodd dau ymatebydd yr angen i bresgripsiynu cymdeithasol fod yn wasanaeth sy'n cael ei lywodraethu a'i reoli'n dda, ac y mae ei berfformiad yn cael ei reoleiddio.

Ymatebwyr Sefydliadol

- 4.23 Roedd gan sefydliadau nifer o awgrymiadau o ran hunangyfeirio, gyda'r rhan fwyaf yn canolbwyntio ar symleiddio'r broses gymaint â phosibl, a hybu ymwybyddiaeth.
- 4.24 O ran symleiddio'r broses, pwysleisiodd tri sefydliad yr angen i 'leihau biwrocratiaeth mewn unrhyw ddull newydd'. I wneud hyn, awgrymwyd prosesau archebu syml, cadw taflenni ymuno a ffurflenni ymholi yn syml, a symud i ffwrdd o lwybrau mynediad 'meddygoledig' sy'n dal i ddibynnu ar gyfranogiad meddygon teulu. Ymhlith yr opsiynau ychwanegol a fynegwyd roedd cydleoli gweithwyr cyswllt o fewn cyrraedd hawdd i wasanaethau eraill, a llwybrau mynediad amgen i'r rhai nad ydynt ar-lein a/neu'r rhai nad yw Saesneg yn iaith gyntaf iddynt.
- 4.25 Er mwyn helpu i hybu ymwybyddiaeth o wasanaethau presgripsiynu cymdeithasol yn y gymuned, roedd sefydliadau hefyd yn argymhell gweithio gyda grwpiau llawr gwlad presennol i ymgorffori presgripsiynu cymdeithasol i systemau a mannau lle mae pobl yn mynd iddynt eisoes. Yn ogystal â grwpiau dibynadwy ar lawr gwlad, soniwyd am sefydliadau mwy sefydledig o ran helpu i hybu cyhoeddusrwydd a hygrededd. Ymhlith yr enghreifftiau roedd cysylltu ag ymgyrch 'Hapus' Iechyd Cyhoeddus

Cymru⁹ a fyddai'n arbennig o berthnasol. Roedd gwasanaethau'r trydydd sector a chynghorau yn cael eu hystyried yn llwybrau pwysig hefyd.

- 4.26 Ar nodyn tebyg, awgrymodd rhai hefyd y gellid hybu ymwybyddiaeth o bresgripsiynu cymdeithasol trwy integreiddio hynny ag addysg a phynciau perthnasol ar y cwricwlwm. Y farn oedd bod Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles y Cwricwlwm i Gymru newydd yn addas iawn ar gyfer hynny, a nodwyd hefyd fod cyfle i greu cyswllt gyda chynnwys TGAU newydd dan ddatblygiad.
- 4.27 Ymhlith y syniadau pellach roedd y negeseuon/cynnwys a allai fod yn rhan o hyrwyddo presgripsiynu cymdeithasol. Roedd sefydliadau eisiau rhoi gwybod pa mor effeithiol y gall fod, ei fanteision o'i gymharu â thriniaethau clinigol, a sut mae modd ei deilwra ar gyfer anghenion unigol. Roedd ystyriaethau eraill yn cynnwys darparu meini prawf clir ar gyfer pwy yn union y mae presgripsiynu cymdeithasol, ac y gall fod yn fath o gymorth llai ffurfiol sydd ddim yn dibynnu ar wasanaethau ffurfiol.
- 4.28 Cefnogodd deg sefydliad yr angen am ymgyrch gyhoeddusrwydd benodol, ac awgrymwyd y gallai gyfeirio at weithgareddau penodol sy'n helpu i wella lles. Yn ogystal â sicrhau bod yr ymgyrch yn cwmpasu'r holl ystyriaethau hygyrchedd safonol (iaith syml, graffeg effeithiol, hawdd ei deall ac yn darparu map clir ar gyfer cael gafael ar wasanaethau) roedd rhai sefydliadau'n cynnig ffactorau ychwanegol. Roedd y rhain yn disgrifio'r effaith y gallai astudiaethau achos effeithiol eu cael ar y cyhoedd, ac yn benodol, yr effaith y gallai wynebau cyhoeddus dibynadwy (e.e. sêr chwaraeon) ei chael ar ddenu diddordeb pobl.
- 4.29 Cafodd yr angen i sicrhau capasiti cyn agor y llwybr hunangyfeirio ei bwysleisio gan bedwar sefydliad – ac y byddai amseroedd aros rhesymol ar gyfer gwasanaethau presgripsiynu cymdeithasol yn hanfodol i'w lwyddiant.

⁹ [Ymgyrch Lles meddyliol](#) genedlaethol gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a lanswyd yn 2020 gyda'r nod o annog pobl yng Nghymru i ganolbwyntio y gweithgareddau sy'n hybu ac yn gwarchod ac i wneud mwy ohonynt.

- 4.30 Nododd lleiafrif o ymatebion sefydliadol (dau) eu bod yn credu na ddylai presgripsiynu cymdeithasol fod yn destun hunangyfeirio. O'r safbwynt hwn, nodweddwyd 'gwerth' presgripsiynu cymdeithasol gan lwybr atgyfeirio ffurfiol o weithiwr iechyd proffesiynol i bresgripsiynydd cymdeithasol'. Wedi dweud hynny, roedd y sefydliad a fynegodd hyn yn dal i gefnogi gwerth unigolion yn gallu cael gafael ar y wybodaeth angenrheidiol i allu cyfeirio eu hunain at grwpiau a gweithgareddau.

Canfyddiadau Gweithdai

- 4.31 Roedd awgrymiadau cyfranogwyr yn canolbwyntio'n bennaf ar themâu rhannu astudiaethau achos a hyrwyddo gwasanaethau presgripsiynu cymdeithasol:
- 4.32 Awgrymwyd bod angen paratoi gwasanaethau presgripsiynu cymdeithasol fel eu bod yn cyfarfod â phobl yn eu cynefin, yn hytrach na disgwyl i bobl allu hunangyfeirio – byddai hyn yn golygu'r angen i fuddsoddi mewn cysylltwyr cymunedol sy'n mynd i gaffis, mannau cyhoeddus, yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i ymgysylltu ac ati
- 4.33 Roedd eraill yn tynnu sylw at y ffaith fod y pandemig wedi 'agor y drws' i hunangyfeirio, gan ddangos pŵer cyfeirio a hybu ymwybyddiaeth
- 4.34 Roedd y rhanddeiliaid yn tynnu sylw at yr angen i rannu hanesion pobl sydd wedi profi presgripsiynu cymdeithasol a dangos ei werth iddynt – roedd rhai o'r cyfranogwyr yn trafod syniadau megis plattform i rannu profiadau (byddai'n fuddiol i'r cyhoedd ac yn helpu i siapio'r sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau).

Canfyddiadau Grwpiau Ffocws

- 4.35 Gofynnwyd i gyfranogwyr y grwpiau ffocws beth fyddent yn ei ystyried fel y ffyrdd gorau o gael gwybod am eu gwasanaeth presgripsiynu cymdeithasol lleol.
- 4.36 Soniwyd am sawl dull o ddysgu am wasanaethau presgripsiynu cymdeithasol lleol ym mhob grŵp, gyda ffynonellau digidol ac annigidol yn

cael eu crybwyll. Roedd hyn yn cynnwys hysbysebu ar deledu, y cyfryngau cymdeithasol, meddygon teulu, rhannu ar lafar, papurau newydd lleol a thafleuni mewn canolfannau cymunedol gyda phwyslais ar y wybodaeth a oedd yn cael ei rhannu yn swinio'n bwysig a chredadwy, ond mewn ffordd nad yw'n nawddoglyd.

- 4.37 Pwysleisiodd cyfranogwyr o'r grŵp pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig bod llawer o gymunedau diwylliannol ac ethnig gwahanol, pob un â'u canolfannau eu hunain, sydd angen eu cynnwys. Efallai y bydd angen ymgysylltu mwy dwys mewn rhai cymunedau.
- 4.38 Roedd cyfranogwyr o'r grŵp o bobl ag anableddau yn pwysleisio'r angen i ddarparu taflenni hawdd eu darllen gyda lluniau mewn lleoliadau amlwg, yn ogystal â'r angen am hyfforddiant ymwybyddiaeth o anabledd dysgu ehangach, gan fynnu nad yw deg munud gyda meddyg teulu yn aml yn ddigon o amser.
- 4.39 Roedd cyfranogwyr o'r grŵp gyda phlant a phobl ifanc, yn ogystal â'r grŵp gyda phobl hŷn, yn cael datgelu nad yw cymheiriaid weithiau'n dueddol o wrando ar eu teuluoedd, ac y byddent yn ei chael yn haws i siarad â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol profiadol. Roedd aelodau'r grŵp pobl hŷn hefyd yn dweud y byddai cartrefi gofal yn lle defnyddiol i rannu'r wybodaeth hon, yn ogystal â llefydd maent yn mynd iddynt eisoes, fel neuaddau eglwys a bingo.
- 4.40 Yn ogystal, awgrymodd y grŵp gyda phlant a phobl ifanc y byddai cynnwys gwybodaeth yn ystod gwasanaethau ysgol yn ffordd fuddiol o ennyn diddordeb eu grŵp oedran.

Cwestiwn 4c – Yn achos atgyfeiriadau wedi'u targedu, pa gamau y gallem eu cymryd ar lefel genedlaethol i helpu sefydliadau i nodi poblogaethau/grwpiau penodol o bobl a allai elwa ar gysylltu â gwasanaeth presgripsiynu cymdeithasol?

Ymatebwyr Unigol

- 4.41 O'r ymatebwyr unigol, dywedodd pump bod angen dealltwriaeth ddofn o gymunedau lleol – y bobl, y llefydd, y dyheadau a'r heriau lle penodol – os yw atgyfeiriadau wedi'u targedu yn mynd i lwyddo. Mae hyn yn cynnwys timau presgripsiynu cymdeithasol mewn ardaloedd lleol, pwynt/person cyswllt yn yr ardal, yn ogystal â staff sy'n deall anghenion pobl yn eu hardal. Esboniodd un ymatebydd: "nid pobl sy'n "anodd eu cyrraedd" – gwasanaethau sydd wedi'u cynllunio'n wael, gyda gwybodaeth gyfyngedig am bobl a chymunedau lleol".
- 4.42 Dywedodd pump o'r ymatebwyr y bydd monitro ac adolygu data yn helpu gydag atgyfeiriadau wedi'u targedu. Byddai hyn yn digwydd law yn llaw â chynnal asesiad o anghenion lleol ac adolygu data'r boblogaeth i weld lle mae'r anghenion mwyaf, a dywedodd pedwar ymatebydd y byddai'n bosibl trwy rwydweithio a chyfathrebu effeithiol rhwng gwasanaethau.
- 4.43 Dywedodd tri o'r ymatebwyr mai'r hanfod yw bod unigolyn sydd eisiau cymorth, yn ogystal â chymuned sy'n eu hadnabod yn ddigon da i'w hannog i droi at wasanaeth presgripsiynu cymdeithasol.
- 4.44 Soniodd dau ymatebydd am edrych ar fodelau eraill megis y Dull Cyswllt Ardal Leol (LAC) sydd wedi'u hymwreiddio'n ddwfn ac yn hygyrch mewn rhai cymunedau lleol.
- 4.45 Fodd bynnag, nododd sawl ymatebydd pam na ddylid defnyddio atgyfeiriadau wedi'u targedu. Roedd hynny'n cynnwys petruster ynghylch sut y mae modd defnyddio hyn ar lefel genedlaethol, gan rannu y dylai atgyfeiriadau wedi'u targedu ddigwydd yn lleol gan eu galluogi i fod yn berthnasol yn lleol ac yn haws ymddiried ynddynt. Rhannwyd hefyd y byddai heriau GDPR ynghlwm wrth sefydliadau sy'n enwi pobl yn ogystal â thrafferthion wrth dargedu pobl. Soniodd rhai ymatebwyr, pa bynnag dargedau atgyfeirio sy'n cael eu pennu ar gyfer grwpiau neu boblogaethau penodol, mae'n anochel y bydd achosion lle bydd unigolion bregus nad ydynt yn gweddu i'r "meini prawf" yn cael eu colli, neu y bydd rhai pobl yn perthyn i, neu'n cael eu rhoi mewn, "grŵp" ar y cyd".
- 4.46 Rhannodd un ymatebydd ei betruster ynghylch atgyfeiriadau wedi'u targedu, gan ddweud:

“Mae ‘atgyfeiriadau’ wedi’u targedu yn rhy hwyr – mae angen i ni ddechrau’n gynt, crynhoi gwybodaeth o’r materion sy’n wynebu pobl a theuluoedd yn ein cymunedau, deall yr adnoddau o fewn ein cymunedau sy’n gallu helpu pobl a’r cymorth cyffredin sydd ar gael o fewn cymunedau, gydag ymatebion i wasanaethau yn cefnogi lle mae angen cymorth ‘cymdeithasol’.”

- 4.47 Roedd rhai cyfranogwyr yn trafod ffyrdd o leddfu anawsterau gyda thargedu pobl wrth ymateb i’r cwestiwn hwn, gyda’r rhain yn cael eu harchwilio ymellach yng nghwestiynau diweddarach yr ymgynghoriad. Tynnodd tri ymatebydd sylw at bwysigrwydd ymgyrchoedd wedi’u targedu gyda chyraeddiad strategol a phenodol.

Ymatebwyr Sefydliadol

- 4.48 Un o’r prif gamau i’w cymryd ar lefel genedlaethol yn hyn o beth yw cryfhau’r sylfaen dystiolaeth. Awgrymodd yr ymatebion sefydliadol y dylai Llywodraeth Cymru arwain wrth asesu pwy sydd eisoes yn defnyddio gwasanaethau presgripsiynu cymdeithasol i nodi bylchau, cefnogi sefydliadau o ran cael gafael ar asesiadau anghenion poblogaeth leol, casglu data o’r sectorau iechyd a gwirfoddol a gweithio gyda sefydliadau cenedlaethol i gasglu data ar arfer gorau presgripsiynu cymdeithasol.
- 4.49 Awgrymodd yr ymatebwyr y gallai gwaith gael ei wneud ar lefel genedlaethol i ystyried anghenion grwpiau penodol mewn perthynas â phresgripsiynu cymdeithasol; gofalwyr di-dâl, siaradwyr Cymraeg, pobl â phroblemau camddefnyddio sylweddau, grwpiau du a lleiafrifoedd ethnig, plant a phobl ifanc, pobl â phroblemau iechyd meddwl a materion cymdeithasol. Awgrymodd un ymatebydd y dylai’r gwaith hwn gael ei wneud gydag Ysgol Ymchwil Rhagnodi Cymdeithasol Cymru fel blaenoriaeth.
- 4.50 Roedd hyfforddiant hefyd yn cael ei ystyried yn ffactor pwysig, yn enwedig hyfforddiant ar weithio gyda grwpiau wedi’u targedu. I sawl ymatebydd, roedd hyn yn fater o sicrhau adnoddau, ac y dylai sefydliadau sydd eisoes yn gweithio gyda grwpiau wedi’u targedu gael eu hariannu yn yr hirdymor.

Yn ogystal, mae modd gwneud mwy i weithio gyda'r sefydliadau hyn, er enghraifft drwy rannu data a gwybodaeth o'r sector cyhoeddus â nhw. Gwelwyd bod gan weithwyr cyswllt rôl bwysig yn hyn o beth, a bod angen buddsoddi ynddynt. Gan eu bod wedi'u lleoli yn y gymuned, maent yn gallu cyrraedd grwpiau yn y gymuned, sylwi ar fylchau yn y ddarpariaeth, magu ffydd a nodi pobl a allai elwa ar bresgripsiynu cymdeithasol. Ymhelaethodd sawl ymateb ar hyn, gan nodi bod deall anghenion y gymuned yn ateb pwysig.

- 4.51 Yn olaf, awgrymwyd y dylai marchnata presgripsiynu cymdeithasol yn effeithiol gefnogi hyn. Mae hynny'n cynnwys taflenni, hysbysebion radio a theledu, y cyfryngau cymdeithasol, a hyrwyddwyr presgripsiynu cymdeithasol yn gweithio'n lleol.

Canfyddiadau Gweithdai

- 4.52 Pwysleisiodd y rhan fwyaf o randdeiliaid gweithdai bwysigrwydd cysylltwyr cymunedol, gan gysoni'r adnodd o gyfeiriad gwahanol i feddygon teulu. Rhannodd un rhanddeiliad y farn nad oes gan feddygon teulu yr amser i wneud atgyfeiriadau wedi'u targedu ac ymgyfarwyddo â buddiannau cleifion. Yn ogystal, byddai'n hanfodol i gael cymorth dwyffordd rhwng y meddyg teulu a grwpiau cymunedol eraill sy'n deall manteision y gwahanol weithgareddau sydd ar gael.
- 4.53 Roedd rhai rhanddeiliaid yn teimlo bod hwn yn gwestiwn anodd i'w ateb ar sail y ffaith fod anghenion cyfranogwyr a grwpiau yn gallu bod mor amrywiol. I bobl ag anghenion penodol, mae'n bosibl cael grwpiau caeedig ac agored, gyda grwpiau caeedig yn sicrhau bod modd mynd i'r afael ag anghenion penodol, a grwpiau agored yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau. Awgrymwyd y gallai gwahaniaethu o'r fath helpu i nodi grwpiau penodol sydd angen cymorth.
- 4.54 Bu rhanddeiliaid hefyd yn trafod pwysigrwydd cronfeydd data gyda'r wybodaeth ddiweddaraf a mapio gwasanaethau mewn ffordd

gynhwysfawr, gan nodi ALISS¹⁰ (system wybodaeth leol yn yr Alban) fel enghraifft o arfer gorau. Wedi'i datblygu yn 2016, a'i hariannu trwy National Alliance Scotland, mae'n system ar-lein wedi'i chyd-gynhyrchu ar gyfer dod o hyd i wybodaeth, a rhannu gwybodaeth, am asedau cymunedol ar draws yr Alban. Nododd rhanddeiliaid fod yr adnodd hwn yn cael ei ddiweddarau'n gyson gan dîm o bobl ac o'r herwydd yn cael ei ddefnyddio'n lleol ac yn genedlaethol.

- 4.55 Soniwyd y byddai darparu fforwm a gofod cenedlaethol sy'n gwrandao ar sefydliadau, ac yn darparu adnoddau a threfn ddiogel i ganiatáu i bobl gynnal eu gwasanaethau'n dda, yn fuddiol yng Nghymru i gefnogi'r cwestiwn hwn.

Canfyddiadau Grwpiau Ffocws

- 4.56 Ni ofynnwyd y cwestiwn hwn i randdeiliaid y grwpiau ffocws.

Cwestiwn 5 – Pa gamau y gallem eu cymryd ar lefel genedlaethol i gefnogi sefydliadau/grwpiau sy'n cynnig cymorth yn y gymuned i ymwneud â gwasanaethau presgripsiynu cymdeithasol?

Ymatebwyr Unigol

- 4.57 Roedd 13 o ymatebwyr yn tynnu sylw at yr angen am gyllid hirdymor parhaus, yn enwedig ar gyfer staffio a hyfforddiant.
- 4.58 Soniodd saith o'r ymatebwyr am yr angen am fwy o gysylltedd cymunedol o ran cysylltiadau trafniadaeth, hybiau a seilwaith digidol, yn enwedig i'r henoed a'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd anghysbell.
- 4.59 Roedd chwe ymatebydd yn cymeradwyo cronfa ddata ganolog:
- i ganiatáu i weithwyr gofal iechyd proffesiynol gyfeirio at brosiectau cymunedol.
 - sy'n cynnwys cyfleoedd presgripsiynu cymdeithasol a'r priod ddarparwyr.

¹⁰ <https://www.aliss.org/>

- megis rhwydwaith darparwyr cydweithredol, gan alluogi gwahanol sefydliadau i weithio gyda'i gilydd i ddarparu ystod gyson genedlaethol o gymorth.
 - un ffynhonnell adnoddau, yn cynnwys meini prawf atgyfeirio.
- 4.60 Fodd bynnag, roedd un ymatebydd yn teimlo, er bod un fframwaith cenedlaethol ar gyfer presgripsiynu cymdeithasol yn syniad da, y “byddai angen cymorth rhanbarthol i hwyluso'r rhai sy'n cynnig canlyniadau cymdeithasol ar lefel leol i gael digon o adnoddau i ymgysylltu â'r cynllun.”
- 4.61 Yn yr un modd, pwysleisiodd pedwar ymatebydd yr angen am ymgysylltu personol â darparwyr presgripsiynu cymdeithasol ar lefel leol.

Ymatebwyr Sefydliadol

- 4.62 Wrth ymateb i'r cwestiwn hwn, soniodd 13 o'r ymatebwyr am gyllid, gydag 11 ohonynt yn pwysleisio'r angen am gyllid hirdymor i sicrhau cynaliadwyedd gwasanaethau. Byddai hyn yn galluogi cynlluniau i ymwreiddio ac i sefydliadau cymunedol lleol fagu ffydd ynddynt.
- 4.63 Pwysleisiodd nifer o'r ymatebwyr na fydd yn ddigon i wneud dim ond buddsoddi ym “mecaneg presgripsiynu cymdeithasol, fel swydd y gweithiwr cyswllt” ond y bydd angen arian i helpu sefydliadau cymunedol i dalu costau galw ychwanegol am eu gwasanaethau; y cyfan y bydd methiant i ddarparu cyllid yn ei wneud fydd “symud baich y galw o wasanaeth statudol i wasanaeth gwirfoddol”. Dywedodd sefydliad arall:
- “Mae sicrhau bod cyllid digonol a chynaliadwy i'r gwasanaeth cyfan, nid rhannau o'r broses yn unig, yn hollbwysig ... h.y. cymorth i sefydliadau mwy a llai yn y sector gwirfoddol a chymunedol, rôl y gweithiwr cyswllt a darparu gwasanaethau.”*
- 4.64 Hefyd o ran cyllid, argymhellodd ymatebydd arall y dylid darparu cymorth i helpu grwpiau/sefydliadau llai i wneud cais am gyllid. Roedd un sefydliad yn argymhell buddsoddi mewn lleoliadau sy'n dioddef darpariaeth gyfyngedig i ddatblygu'r gallu i gael gafael ar grantiau.

- 4.65 Roedd gweithio gyda sefydliadau sydd eisoes yn gwneud gwaith presgripsiynu cymdeithasol yn awgrym poblogaidd arall – cyfeiriodd chwe sefydliad at hynny. Y dyb oedd y byddai hyn yn helpu i sefydlu dull mwy cydgysylltiedig, gan sicrhau bod y cysylltiadau cywir yn cael eu creu yn gynnar. Soniodd Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chysylltwyr Cymunedol eu bod eisiau cael eu crybwyll a bod yn rhan o'r broses hon, o ystyried eu perthnasedd a'r asedau cyfunol sydd eisoes yn cael eu darparu ganddynt. Roedd sefydliadau yn argymhell y dylai'r gwaith yma gael ei wneud ar lefel leol, ond bod rôl i'w chwarae ar lefel genedlaethol wrth gefnogi sefydliadau i hwyluso gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.
- 4.66 Roedd tri ymatebydd o'r farn y byddai datblygu cynllun darparwr cymeradwy yn gwarantu darpariaeth gynaliadwy ac yn cynnig diogelwch i grwpiau cymunedol, gan gysylltu â theimladau cadarnhaol tuag at y posibilrwydd o safonau ac achrediad.
- 4.67 Cynigiwyd nifer o sylwadau gan sefydliadau hefyd a oedd yn nodi angen i fynd i'r afael â rhagdybiaethau a disgwyliadau ynghylch y gwasanaeth. Roedd y rhain yn cynnwys gwahaniaethu'n glir rhwng gwasanaethau presgripsiynu cymdeithasol a darparwyr asedau cymunedol, ac atal rhagdybiaethau ynghylch ffynhonnell atgyfeiriadau mynychwyr gweithgareddau.
- 4.68 Roedd ymatebion sefydliadol eraill yn atgyfnerthu llawer o'r argymhellion cyffredin sy'n ymwneud â gwella'r broses ymgysylltu, ond o safbwynt grwpiau cymorth yn y gymuned. I grynhoi, roedd y rhain yn cwmpasu:
- Dysgu o fannau eraill (h.y. enghreifftiau o arfer da sy'n bodoli eisoes)
 - Creu mecanweithiau adborth effeithiol
 - Cyflwyno gwobr i gynlluniau/sefydliadau sy'n gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl (cydnabyddiaeth am werth cymorth yn y gymuned)
 - Darparu cyfleoedd hyfforddi i sefydliadau cymunedol
 - Darpariaeth yn y Gymraeg ac ieithoedd eraill heblaw'r Saesneg

- Cyfeirio darpar sefydliadau at adnoddau brandio/marchnata fel eu bod yn gallu hyrwyddo eu gwasanaethau
- Cymorth gyda sicrwydd ansawdd/llywodraethu
- Sicrhau dealltwriaeth o'r cychwyn cyntaf ynghylch sut i rannu data yn unol â GDPR, tra'n lleihau gwaith gweinyddol diangen.

Canfyddiadau Gweithdai

- 4.69 Awgrymodd rhanddeiliaid y dylid nodi pwyntiau sbardun posibl a allai arwain at bobl yn profi ynysigrwydd cymdeithasol – er enghraifft: profedigaeth, dod yn rhiant newydd a cholli gwasanaeth cymunedol presennol. Y gred oedd y gallai hyn helpu grwpiau cymorth yn y gymuned i ddeall yn well pwy allai fod angen eu cymorth ac a allai elwa ar bresgripsiynu cymdeithasol.
- 4.70 Roedd awgrym hefyd y dylai sefydliadau nad ydynt wedi cael eu cysylltu â phresgripsiynu cymdeithasol o'r blaen dderbyn gwybodaeth neu adnoddau er mwyn deall pa rôl y mae modd iddynt ei chwarae (e.e. roedd un rhanddeiliad yn cynrychioli sefydliad treftadaeth ac eisiau gwybod sut y gallai eu gwaith gefnogi model presgripsiynu cymdeithasol).
- 4.71 O dan y system bresennol, mae gan bob sefydliad ei ffyrdd ein hun o weithio a'i brosesau cyfeirio ei hun. Gallai model newydd adlewyrchu gwasanaeth cyffredinol y byddai sefydliadau allanol yn ei ddilyn er mwyn safoni a symleiddio'r broses. Nodwyd y pwynt am gysondeb yma hefyd, i egluro ffiniau beth ellid ei ystyried yn bresgripsiynu cymdeithasol.
- 4.72 Awgrymodd rhanddeiliaid hefyd y gellid cynnwys gwybodaeth am bresgripsiynu cymdeithasol a sut mae'n gweithio mewn fframweithiau sefydlu ar gyfer amrywiaeth o sefydliadau a sectorau perthnasol – er enghraifft y Fframwaith Sefydlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- 4.73 Peth arall pwysig a nodwyd oedd hyfforddiant hygyrch a syml i gefnogi ymgysylltu â phresgripsiynu cymdeithasol.

- 4.74 Yn olaf, soniwyd y byddai'n bwysig lleihau cystadleuaeth rhwng gwahanol fudiadau cymunedol.

Canfyddiadau Grwpiau Ffocws

- 4.75 Ar ôl gwyllo'r fideo am bresgripsiynu cymdeithasol, gofynnwyd i gyfranogwyr y grwpiau ffocws: *'beth ydych chi'n meddwl fyddai'n gwneud gwasanaeth presgripsiynu cymdeithasol da i chi?'*
- 4.76 Pwysleisiodd cyfranogwyr o bob grŵp yr angen i fod ag ystod eang o weithgareddau ar gael i ddarparu ar gyfer pob oedran, rhywedd a systemau cred i adlewyrchu amrywiaeth Cymru yn ogystal â sicrhau bod grwpiau sy'n berthnasol iddynt. Roedd un cyfranogwr grŵp hefyd yn dweud y gallai'r math o ymgysylltu sydd ei angen newid dros amser.
- 4.77 Soniodd rhai cyfranogwyr fod yr amrywiaeth eang o wasanaethau sy'n cael eu cynnig gan gynghorau lleol a byrddau iechyd yn gallu bod yn ddryslyd, felly byddai ei gyfyngu i lefel leol yn haws ei ddeall.
- 4.78 Dywedodd un cyfranogwr y byddai'n hoffi ap symudol i gael gafael ar y gwasanaeth, a oedd yn cefnogi awgrym cyfranogwr arall o gael gwasanaeth adborth defnyddwyr ar-lein fel y gallai buddiolwyr gwasanaethau presgripsiynu cymdeithasol ei ddefnyddio i sgorio'r gwasanaethau.
- 4.79 Bu aelodau o'r grŵp o bobl ag anabledd yn ymhelaethu am yr angen am wasanaethau a grwpiau cymorth sy'n gallu eu cysylltu â phobl eraill sy'n profi cyflyrau ac amgylchiadau tebyg, fel bod modd iddynt ddeall yr un heriau. Roedd hyn yn arbennig o bwysig i anableddau prin, sy'n gallu cynyddu'r ymdeimlad o ynysigrwydd i'r rhai sy'n cael eu heffeithio ganddynt.
- 4.80 Rhannodd un cyfranogwr ei brofiad fel rhywun sydd wedi colli braich neu goes, gan ddisgrifio'r diffyg difrifol o ran cymorth dilynol ar ôl cael ei ryddhau o'r ysbyty. Yn dilyn y profiad hwn, daeth yr angen i gymdeithasu, cysylltu ag eraill a chefnogi eraill yn yr un sefyllfa yn anghenraid.
- 4.81 Mewn achosion mwy eithafol fel hyn, gall fod yn anodd i rai pobl ag anabledd ystyried beth fyddai'n gwneud gwasanaeth da – gan fod

profiadau cyfredol wedi bod mor gyfyngedig yn eu hamgylchiadau nhw. Er mwyn ystyried presgripsiynu cymdeithasol fel opsiwn realistig, dywedodd rhai cyfranogwyr ag anabledd y byddent yn hoffi gweld cynnydd gwirioneddol o ran cyllid i ddarparu gwasanaethau yn eu cymunedau.

- 4.82 Yn y bôn, pwysleisiodd holl aelodau'r grŵp bwysigrwydd rhoi cyhoeddusrwydd i weithgareddau presennol er mwyn gwella lefelau ymgysylltu.

Cwestiwn 6a – Pa gamau y gallem eu cymryd ar lefel genedlaethol i leihau atgyfeiriadau amhriodol at wasanaeth presgripsiynu cymdeithasol?

Ymatebwyr Unigol

- 4.83 Yn gyffredinol, roedd ymatebion unigol yn cyfeirio at yr angen am hyfforddiant ymwybyddiaeth clir ynghylch atgyfeiriadau. Roedd hyn yn cynnwys awgrymiadau ar hyfforddiant wedi'i gyd-gomisiynu ar gyfer gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol, yn ogystal ag awgrym i integreiddio presgripsiynwyr cymdeithasol i dimau aml-ddisgyblaeth o'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol fel bod modd rhannu a thrafod atgyfeiriadau/achosion a chytuno ar y llwybr gorau o ran cymorth.
- 4.84 Atgyfnerthwyd yr angen am atgyfeirwyr hyfforddedig a phrofiadol sy'n adnabod eu cymunedau a'r gwasanaethau sydd ar gael yn lleol, yn enwedig mewn perthynas â llwybrau atgyfeirio, gydag unigolion yn teimlo bod angen diffiniad clir ohonynt yn y lle cyntaf fel bod hyfforddiant yn gadarn.
- 4.85 Awgrymodd un ymatebydd "hunangyfeirio ar-lein gydag amlinelliadau priodol sy'n hidlo atgyfeiriadau amhriodol yn awtomatig". Ychwanegwyd at hyn gan ymatebydd arall, a awgrymodd y byddai'n fuddiol creu matrices lle mae'n bosibl nodi materion/cyflyrau sy'n anaddas ar gyfer atgyfeirio, gan ddatblygu ar ei brofiadau yn ei broffesiwn ei hun.

- 4.86 Roedd rhai yn teimlo (mynegwyd hynny gan bum ymatebydd) nad oes y fath beth ag ‘atgyfeirio amhriodol’ os yw’r atgyfeiriwr yn ystyried y byddai’r gweithgaredd yn fuddiol. Roedd rhai o’r farn bod y syniad o ‘atgyfeiriad amhriodol’ yn awgrymu “gwasanaeth sy’n seiliedig ar fodel meddygol o atgyfeirio a phatholeg broffesiynol” yn hytrach na phresgripsiynu cymdeithasol, a ddylai ganolbwyntio ar anghenion yr unigolyn.

Ymatebwyr Sefydliadol

- 4.87 Awgrymodd sefydliadau y byddai gweithio ar draws sectorau yn cyfyngu ar atgyfeiriadau amhriodol, yn enwedig cysylltu’r gymuned â gwasanaethau statudol, yn glinigol ac yn anghlinigol. Nodwyd bod y dull cysylltu cymunedol ar lefel sirol yn enghraifft fuddiol. Yn ogystal, roedd hyfforddiant ar gyfer presgripsiynwyr cymdeithasol yn cael ei ystyried yn fater allweddol gan fod angen iddynt fod yn wybodus am gefnogi pobl ag anghenion cymhleth yn benodol.
- 4.88 Ystyriwyd y byddai system atgyfeirio effeithiol a allai deilwra gwasanaethau i’r unigolyn yn ateb i’r mater hwn. Yn benodol, byddai hyn yn cynnwys treulio amser yn dod i adnabod defnyddiwr y gwasanaeth, cyfathrebu effeithiol fel bod pob cyfranogwr yn deall yr ymyrraeth ac adolygu’r ymyrraeth yn rheolaidd.
- 4.89 Roedd y broses atgyfeirio yn destun cryn sylw, yn enwedig yr angen am ganllawiau clir, meini prawf cyson gyda diffiniad clir, a phroses effeithiol ar gyfer yr hyn sy’n digwydd ar ôl atgyfeiriad amhriodol. Roedd un ymatebydd yn argymhell ei wneud yn ofyniad gorfodol i bresgripsiynydd cymdeithasol hysbysu’r atgyfeiriwr os oedd yr atgyfeiriad yn amhriodol.
- 4.90 Teimlai’r ymatebwyr hefyd y byddai gwasanaeth brysbennu a allai gyfeirio atgyfeiriadau gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol yn ogystal ag unigolion yn lleihau atgyfeiriadau amhriodol, tra bod eraill yn awgrymu mwy o safoni gyda ffurflen atgyfeirio safonol a mynediad at yr un system TG. Byddai datblygu siart llif rhyngweithiol neu adnodd gwneud penderfyniadau yn helpu i gryfhau dealltwriaeth o feini prawf cyfeirio ac ymlyniad atynt.

- 4.91 Yn ogystal, awgrymwyd y dylai Llywodraeth Cymru weithredu proses adborth statudol ar draws gwasanaethau er mwyn sicrhau bod ansawdd yr adborth yn gyson, a'i gynnal dros amser. Yn ogystal â chefnogi atgyfeirwyr, presgripsiynwyr cymdeithasol a defnyddwyr gwasanaethau, gallai'r broses adborth hefyd nodi lle mae'r gwasanaeth yn cael ei ddefnyddio i dynnu'r pwysau oddi wrth wasanaethau eraill.
- 4.92 Ystyriwyd bod datblygu canllawiau clir ar gyfer pob sefydliad, a'i gyfrifoldebau, yn fesur posibl ar gyfer atal atgyfeiriadau amhriodol at wasanaeth presgripsiynu cymdeithasol. Ar y cyfan, roedd yr angen am eglurder ynghylch presgripsiynu cymdeithasol yn deimlad cyson, o ran ei rôl, ei gylch gwaith a'i bwrpas. Gallai hyn gael ei gefnogi gan addysg yn ogystal ag ymgyrch gyhoeddusrwydd genedlaethol a allai ennyn diddordeb y boblogaeth drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg trwy rannu enghreifftiau o arfer da.

Canfyddiadau Gweithdai

Fel gydag ymatebwyr ffurfiol, roedd rhai o'r rhai a fynychodd y gweithdai yn cwestiynu a oedd hi byth yn bosibl ystyried atgyfeirio fel peth 'amhriodol'; Dywedodd un unigolyn: "mae problemau pobl yn newid, a does dim pen draw hyd nes y bydd yr unigolyn yn teimlo eu bod nhw ar ben." Gofynnodd un arall: "sut mae diffinio amhriodol?"

Roedd rhanddeiliaid a gyfranogodd yn y gweithdai yn awgrymu nifer o gamau gweithredu, gan gynnwys:

- Safoni'r broses i bob proffesiwn sector statudol ar gyfer penderfynu cyfeirio rhywun (neu beidio) at wasanaeth presgripsiynu cymdeithasol – byddai angen i hyn gynnwys ystyriaeth o'r ddyletswydd ofal, asesiadau risg ac ati.
- Cyfathrebu clir gan Lywodraeth Cymru ar yr hyn y mae'r fframwaith presgripsiynu cymdeithasol yn ei gwmpasu a sut gall rhanddeiliaid atgyfeirio at wasanaeth.

- Egluro a fydd y system yn gyson ar draws Cymru neu yn amrywio mewn ardaloedd lleol – a datblygu canllawiau yn unol â hynny.
- Cwmpasu enghreifftiau o effaith bosibl presgripsiynu cymdeithasol ar unigolion.

Nododd rhai rhanddeiliaid y byddai'n ofynnol ystyried pwyntiau lle mae angen pwylo, gan gynnwys:

- Mewn sefyllfaoedd lle mae argyfwng iechyd meddwl neu argyfwng meddygol, efallai nad presgripsiynu cymdeithasol yw'r opsiwn mwyaf priodol.
- Pryderon am waith dilynol ar ôl i rywun gael ei gyfeirio at wasanaeth presgripsiynu cymdeithasol, o ystyried y ffaith nad yw rhai pobl yn hoffi teimlo eu bod yn cael eu "tracio".
- Yr angen i sicrhau cyfrinachedd a sicrwydd ansawdd.
- Gydag adnoddau statudol eisoes dan bwysau, pryder bod pobl yn cael eu "gwthio i mewn i bresgripsiynu cymdeithasol" yn amhriodol.

Canfyddiadau Grwpiau Ffocws

4.93 Ni ofynnwyd y cwestiwn hwn i randdeiliaid y grwpiau ffocws.

Cwestiwn 6b – Pa gamau y gallem eu cymryd ar lefel genedlaethol i leihau atgyfeiriadau amhriodol gan wasanaeth presgripsiynu cymdeithasol at gymorth yn y gymuned?

Ymatebwyr Unigol

4.94 Soniodd saith o'r ymatebwyr am yr angen am arweiniad, eglurder a strwythur ynghylch hyfforddiant yn ogystal â chyfathrebu effeithiol gyda chymunedau lleol i esbonio'r broses presgripsiynu cymdeithasol.

4.95 Mae'r dulliau a awgrymwyd ar gyfer hyfforddi a rhannu gwybodaeth yn cynnwys:

- Timau adnoddau cymunedol

- Llywyr cymunedol
- Gweithwyr cyswllt/mentoriaid
- Cefnogi gwirfoddolwyr trwy ymylon gofal (yn fewnol)
- Fforymau cymheiriaid
- Cyfarfodydd clwstwr
- Cymorth a rhwydweithio anffurfiol.

- 4.96 Nododd pum ymatebydd werth system adborth effeithiol lle mae defnyddwyr presgripsiynu cymdeithasol yn gallu cyfleu eu profiad/profiadau.
- 4.97 Yn debyg i'r ymatebion i Gwestiwn 6a, nododd yr ymatebwyr yr angen am feini prawf atgyfeirio wedi'u diffinio'n glir sy'n cynnwys y rheswm dros yr atgyfeirio a sut y byddai'r unigolyn yn debygol o elwa ar yr atgyfeiriad.

Ymatebwyr Sefydliadol

- 4.98 Roedd yr ymatebion sefydliadol i Gwestiwn 6b yn canolbwyntio ar hyfforddiant, gwybodaeth, data, adborth a darparu adnoddau. Daeth y ffocws ar hyfforddiant i'r amlwg wrth i nifer o'r ymatebwyr grybwyll y dylai holl weithwyr y trydydd sector a'r sectorau cyhoeddus a phreifat gael hyfforddiant ar bresgripsiynu cymdeithasol. Yn benodol, amlygwyd rôl gweithwyr cyswllt fel un oedd angen set sgiliau lefel uchel, yn enwedig o ran gwybod am ba gymorth sydd ar gael yn eu cymuned.
- 4.99 Gwybodaeth am argaeledd cymorth oedd yr ail thema a nodwyd amlaf yn y cwestiwn hwn, gydag awgrymiadau y byddai mapio asedau cymunedol i benderfynu ar hyn yn atal atgyfeirio amhriodol. Gall y wybodaeth hon gynnwys gwybodaeth fanwl am derfynau capasiti sefydliadau, a fyddai'n cynnwys cysylltiadau cynyddol rhwng gwasanaethau statudol a grwpiau cymunedol.
- 4.100 Roedd yr ymatebwyr yn cydnabod yr angen am broses rhannu gwybodaeth gadarn a pherthnasol rhwng yr unigolyn a atgyfeiriwyd a'r darparwr, yn enwedig ynghylch capasiti, anghenion yr unigolyn a atgyfeiriwyd a chyd-destun y grŵp cymunedol. Bydd hyn yn gofyn am

adnoddau i sicrhau bod amser gan bresgripsiynwyr cymdeithasol a chymorth yn y gymuned i ymgysylltu'n ystyrllon â'i gilydd.

- 4.101 Nodwyd angen hefyd i lunio mecanwaith adborth effeithiol rhwng yr unigolyn a atgyfeiriwyd a'r darparwr. Byddai hyn o gymorth o ran nodi anghenion hyfforddiant, sicrhau nad yw defnyddwyr y gwasanaeth yn profi oedi gyda derbyn cymorth ac yn eu hatal rhag gorfod dechrau'r broses eto; byddai hefyd yn rhoi gwybodaeth i bresgripsiynwyr cymdeithasol am gapasiti a phriodoldeb grwpiau cymorth cymunedol yn y dyfodol.
- 4.102 Roedd yr ymatebwyr hefyd yn teimlo y byddai modd defnyddio llwybrau atgyfeirio cadarn mewn sawl ffordd i atal atgyfeiriadau amhriodol. Y ffordd gyntaf oedd datblygu dealltwriaeth gliriach o feini prawf a llwybrau atgyfeirio, yn enwedig canllawiau ar gyfer presgripsiynwyr cymdeithasol. Gallai hyn gynnwys datblygu adnodd i wneud penderfyniadau. Un o'r agweddau allweddol ar hyn yw darparu adnoddau, yn bennaf amser a chyllid, er mwyn sicrhau bod y gallu ar gael i wneud penderfyniadau priodol.
- 4.103 Yn olaf, mae'n rhaid cael eglurder ynghylch beth yw presgripsiynu cymdeithasol, gan gynnwys disgwyliadau o'r hyn y mae presgripsiynu cymdeithasol yn gallu ei gyflawni a phwy sy'n gyfrifol ar bob cam ar hyd y ffordd.

Canfyddiadau Gweithdai

- 4.104 Roedd cyfranogwyr y gweithdai o'r farn ei bod hi'n bwysig sicrhau eglurder ar feini prawf darparu gwasanaethau, a bod hyn yn gweithio'r ddwy ffordd rhwng gwasanaethau presgripsiynu cymdeithasol a chymorth yn y gymuned.
- 4.105 Yn ystod y gweithdai, pwysleisiodd cyfranogwyr o'r sector gwirfoddol eu hawydd i sicrhau eu bod yn gwneud y peth iawn, a'u bod felly eisiau gwybod beth yw'r fframwaith a sut y mae modd iddynt gyfranogi yn y ffordd fwyaf priodol.

- 4.106 Dywedodd rhai cyfranogwyr y byddai'n ddefnyddiol i sefydliadau gael lle neu gronfa ddata i ddatgan yn union pa wasanaethau y gallant neu na allant eu cynnig, i leihau i'r eithaf unrhyw gamddealltwriaeth neu ragdybiaethau ynghylch pa gymorth sydd ar gael.

Canfyddiadau Grwpiau Ffocws

- 4.107 Ni ofynnwyd y cwestiwn hwn i randdeiliaid y grwpiau ffocws.

Casgliad Thema 2

- 4.108 Yn Thema 2, sy'n canolbwyntio ar lwybrau atgyfeirio, nodwyd nifer o bynciau a oedd yn codi dro ar ôl tro, gan gynnwys: gwell cyfathrebu, mesurau atebolrwydd cadarn, eglurder ynghylch cyfeirio a llwybrau atgyfeirio, prosesau adborth clir a gwasanaeth wedi'i gyfarparu'n briodol, gyda'r cyllid, yr hyfforddiant a'r adnoddau gofynnol. Teimlad cyson oedd yr angen i feithrin ymddiriedaeth a hyder mewn model presgripsiynu cymdeithasol er mwyn sicrhau cefnogaeth ar bob lefel, gan gynnwys ymhlith gweithwyr proffesiynol a darpar ddefnyddwyr y gwasanaeth.
- 4.109 Gyda gwell cyfathrebu mewnol (o fewn y GIG a rhwng darparwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid eraill) ac yn allanol (gydag aelodau'r cyhoedd a chleifion), roedd yr ymatebwyr yn teimlo y byddai modd gwneud gwelliannau i hyrwyddo'r gwasanaeth a'i effeithlonrwydd. Ynghlwm wrth hynny mae'r angen am brosesau monitro a gwerthuso effeithiol, wedi'u datblygu o'r cychwyn cyntaf ac yn cynnwys cynhyrchu enghreifftiau astudiaeth achos o'r ffordd y gall presgripsiynu cymdeithasol effeithio'n gadarnhaol ar unigolion.
- 4.110 Rhywbeth a gafodd ei gyfleu dro ar ôl tro o dan y thema hon oedd sut y gallai ac y dylai gwasanaeth presgripsiynu cymdeithasol edrych, ynghyd â dull safonol o hyfforddi, ffyrdd o weithio a chyfrifoldebau clir. Mae'r angen i sicrhau bod gan wasanaethau'r gallu i ateb y galw, gan gynnwys twf yn y galw sy'n gysylltiedig ag ehangu gwasanaethau presgripsiynu cymdeithasol, hefyd yn cael ei ystyried yn hanfodol.

- 4.111 Yn olaf, mynegwyd pryderon y byddai angen cynllunio'n ddigonol i sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei ariannu i lefel briodol i fodloni'r angen, gyda gweithlu sy'n meddu ar y cyfarpar a'r hyfforddiant angenrheidiol, cyn y gellid cyflwyno fframwaith o'r fath. Roedd yr adnoddau cywir – gan gynnwys lefel manylder cronfeydd data effeithiol – yn cael eu hystyried yn hanfodol i sicrhau bod gweithwyr yn y sector yn gallu perfformio hyd eithaf eu gallu.

5. Thema 3 – Dadansoddi Arwain a Llywodraethu

Cwestiwn 7 – Pa gamau y gellid eu cymryd ar lefel genedlaethol i gefnogi arweinyddiaeth gref a threfniadau llywodraethu effeithiol?

Ymatebwyr Unigol

- 5.1 Wrth ystyried camau ar lefel genedlaethol i gefnogi arweinyddiaeth gref a llywodraethu effeithiol, canolbwyntiodd ymatebwyr unigol yn fras ar ddau fater: cefnogaeth i sicrhau cysondeb ar draws y fframwaith a'r awydd am arweinyddiaeth gymharol ganolog.
- 5.2 O ran y pwynt cyntaf, roedd wyth ymatebydd yn credu y dylai set o safonau neu weithdrefnau fod ar gael gan gynnwys metrigau cenedlaethol, sicrwydd ansawdd, meincnodi a fframweithiau. Ymhelaethodd pum ymatebydd, gan ddweud y dylid cael math o werthuso ac adrodd ar berfformiad i gasglu adborth a gwella'r gwasanaeth. Awgrymodd un ymatebydd y dylai'r cynllun gael ei asesu gan endid allanol. Yn achos pum ymatebydd, roeddent yn teimlo y dylai'r gwasanaeth fod yn sail i ryw fath o addysg neu leoliad ffurfiol, gyda thri yn awgrymu cymhwyster ffurfiol. Yn olaf, er mwyn sicrhau llywodraethu'r fframwaith yn effeithiol, roedd un ymatebydd yn teimlo y dylai fod yn gysylltiedig â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- 5.3 O ran arweinyddiaeth, awgrymodd yr ymatebwyr y dylid creu naill ai grŵp llywio neu unigolyn penodedig. Awgrymodd pedwar ymatebydd y dylai grŵp llywio hefyd gynnwys rhanddeiliaid amrywiol, grwpiau budd cymunedol a darparwyr gwasanaethau a gomisiynwyd. Soniodd chwe ymatebydd am benodi unigolion/timau i gynorthwyo gydag arweinyddiaeth leol a staff penodol.
- 5.4 Cyfeiriwyd hefyd at faterion cyfathrebu, ariannu a darpariaeth iaith effeithiol, gyda thri ymatebydd yn sôn am gyfathrebu cliriach a chydweithio â thimau lleol, un ymatebydd yn awgrymu mapio'r cyllid sydd ar gael, ac un arall yn amlygu pwysigrwydd sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu mewn ystod o ieithoedd a fformatau i sicrhau tegwch mynediad i bob aelod o'r gymuned.

Ymatebwyr Sefydliadol

- 5.5 Roedd ymatebion sefydliadol i'r cwestiwn hwn yn gymysg, gydag awgrymiadau am strwythurau newydd i gefnogi arweinyddiaeth gref a threfniadau llywodraethu effeithiol, yn ogystal ag awgrymiadau yn nodi y byddai'n well pe bai strwythurau presennol yn cael eu defnyddio'n well, ac ymatebion yn rhybuddio rhag gormod o fiwrocratiaeth.
- 5.6 Roedd cefnogaeth ar gyfer creu corff ychwanegol i oruchwylio/cynghori gweithrediad y fframwaith presgripsiynu cymdeithasol. Roedd cynrychiolaeth ar y corff hwn yn bwynt hollbwysig i'r ymatebwyr, gydag awgrym bod y canlynol yn cael eu cynrychioli:
- Defnyddwyr gwasanaethau – oedolion a phobl ifanc
 - Cyrff cyhoeddus megis awdurdodau lleol, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, byrddau iechyd a Chlystyrau Gofal Sylfaenol
 - Darparwyr ac atgyfeirwyr trydydd sector
 - Presgripsiynwyr cymdeithasol
 - Pobl wedi'u hymyleiddio
 - Mudiadau llawr gwlad.
- 5.7 Pwysleisiwyd yn arbennig nad yw pobl wedi'u hymyleiddio, fel pobl anabl a phobl ag afiechydon cronig, yn aml yn flaenoriaeth ond yn hytrach yn cael eu hystyried yn "anodd eu cyrraedd", neu fod tueddiad i beidio â chael cynrychiolaeth o fudiadau llawr gwlad o gwmpas y bwrdd pan fydd penderfyniadau'n cael eu gwneud.
- 5.8 Roedd yr awgrymiadau ar gyfer pa rôl y dylai'r grŵp hwn ei chwarae yn amrywio, yn ddibynnol os oedd y corff yn cael ei ystyried yn gorff llywio/monitro/goruchwylio/cynghori. Yr awgrymiadau ar gyfer y rôl oedd:
- Cyfrifoldeb am y fframwaith monitro a gwerthuso
 - Arwain ar unrhyw adolygiadau angenrheidiol i'r system yn seiliedig ar dystiolaeth ac adborth
 - Arwain ar gyfathrebu cenedlaethol ynghylch ymwybyddiaeth yn ogystal â chysondeb o ran iaith a dull gweithredu

- Ymateb i broblemau wrth iddynt ddod i'r amlwg mewn gwahanol ardaloedd
- Comisiynu gweithrediad y gwasanaeth
- Hwyluso'r cydweithio rhwng sectorau amrywiol sydd ddim yn cyd-daro yn draddodiadol
- Creu cyfleoedd ar gyfer cydweithio ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol
- Cynnig canllawiau cenedlaethol ar gyfer comisiynu – ffyrdd cyson o fesur ac adrodd ar effaith
- Darparu atebolrwydd ar gyfer y fframwaith.

5.9 Mae'r cynigion hyn yn parhau'n gyson beth bynnag fo'r strwythur arfaethedig. Fodd bynnag, mae'n bwysig ystyried y strwythurau amgen a gafodd eu cynnig nad ydynt yn cynnwys sefydlu corff cenedlaethol. Awgrym cyffredin trwy drwch yr ymatebion oedd rhoi rôl arweinyddiaeth i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, gan gynnwys swydd benodol o fewn BPRh gyda chyfrifoldeb am bresgripsiynu cymdeithasol ac arwain ar ddull aml-bartneriaeth, ehangu aelodaeth BPRh i gynnwys presgripsiynwyr cymdeithasol sydd wedi'u heithrio ar hyn o bryd, BPRh yn arwain datblygiad a gweithrediad y fframwaith mewn partneriaeth â Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus, Cynghorau Gwirfoddol Sirol, byrddau iechyd, awdurdodau lleol, grwpiau cymunedol a chyrrff eraill. Ar y cyfan, credwyd bod rôl allweddol gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol i'w chwarae wrth fonitro, goruchwyllo a sicrhau atebolrwydd y fframwaith.

5.10 Ymhlith y dewisiadau amgen neu awgrymiadau ategol, roedd sefydlu cynllun darparwr cymeradwy ar gyfer sefydliadau presgripsiynu cymdeithasol, gan gynnwys Is-grŵp Iechyd Gwyrdd penodol i gefnogi Presgripsiynu Cymdeithasol Gwyrdd fel sydd wedi digwydd ym Mwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr, a sefydlu cysylltiadau proffesiynol a fyddai'n datblygu eu safonau a'u strwythurau llywodraethu eu hunain. Eifen gyson o'r ymatebion oedd y dylai llywodraethu presgripsiynu cymdeithasol ar lefel genedlaethol neu leol ddigwydd ar sail traws-sector, yn gydweithredol a chynhwysol ar draws pob haen o randdeiliaid.

- 5.11 Rhybuddiodd yr ymatebwyr rhag “ailddyfeisio'r olwyn” ac ychwanegu biwrocratiaeth at broses a oedd yn cael ei hystyried yn broses o'r gwaelod i fyny dan arweiniad cymunedau. Yn hytrach, agwedd amgen ar lywodraethu yn y cyd-destun hwn oedd darparu cyngor a chanllawiau ar lywodraethu effeithiol ar lefel leol. Yn hytrach na datblygu set genedlaethol o drefniadau llywodraethu, yr awgrym oedd y byddai set o egwyddorion arweiniol yn fwy effeithiol ac y byddai'n cefnogi datblygiad darpariaeth mewn modd sy'n creu dull cenedlaethol o bresgripsiynu cymdeithasol heb danseilio darpariaethau lleol ac osgoi dyblygu a/neu wrthdaro â gofynion cyllidwyr.
- 5.12 Byddai'r cymorth hwn yn galluogi Llywodraeth Cymru i bwysu ar arbenigedd i ddatblygu fframweithiau sicrhau ansawdd a safonau gofynnol yn ogystal â chefnogi cymunedau lleol trwy ddarparu templedi ar gyfer polisïau yn ymwneud â diogelu, iechyd a diogelwch ac asesiadau risg. Roedd yr ymatebwyr hefyd yn teimlo y gallai Llywodraeth Cymru gefnogi cymunedau trwy gasglu enghreifftiau o arfer gorau sy'n hyblyg ac yn berthnasol mewn gwahanol gyd-destunau yng Nghymru. Yn ogystal, roedd cefnogaeth i fuddsoddiad er mwyn gweithredu'r enghreifftiau hyn ar lefel ehangach. Roedd yr enghreifftiau o arfer gorau yn cynnwys Coleg Adfer a Lles Caerdydd a'r Fro ac Arweinwyr Cymdeithasol Cymru.
- 5.13 Awgrym cyson ar lefel genedlaethol oedd sefydlu monitro neu adrodd cadarn, a phrosesau gwerthuso. Argymhellwyd bod y fframwaith yn cynnwys cyfleoedd i ddysgu gwersi dros amser, y dylid cyhoeddi gwybodaeth i gynorthwyo tryloywder ac atebolrwydd a bod y strwythur adrodd yn glir. Yn benodol, tynnwyd sylw at yr angen am fecanwaith adrodd i'r corff comisiynu gan yr holl bartneriaid a oedd yn derbyn cyllid, ac oddi yno i Lywodraeth Cymru yn flynyddol.
- 5.14 Roedd yr awgrymiadau am ffurf yr asesiad hwn yn cynnwys: Graddfa Lles Meddyliol Warwig-Caeredin, Cynaliadwyedd a Sicrwydd Ansawdd, fframwaith rheoli perfformiad, a defnyddio system rheoli cysylltiadau cwsmeriaid i gipio hanesion am effeithiau cadarnhaol a mesur ymyriadau cymdeithasol.

- 5.15 Gweithred bwysig ar y lefel genedlaethol i'r ymatebwyr sefydliadol oedd datblygu'r gweithlu presgripsiynu cymdeithasol. Roedd hyn yn golygu datblygu fframwaith cymhwysedd, llwybr gyrfa a rhaglenni hyfforddi cenedlaethol. Yn ogystal â hyn, teimlwyd y dylid recriwtio presgripsiynwyr cymdeithasol o gefndiroedd amrywiol, cael cod ymddygiad, a dylid eu cefnogi'n ddigonol er mwyn galluogi dulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i wella iechyd a lles.
- 5.16 Roedd diogelu yn fater amlwg trwy gydol y broses ymgynghori, ac amlygwyd nifer o faterion llywodraethu posibl mewn perthynas â diogelu. Mynegwyd yr angen am bolisïau a gweithdrefnau diogelu data cadarn a chlir, yn enwedig o ran llywodraethu data lle mae'r sector masnachol yn cymryd rhan ond heb yr un prosesau diogelu sicrhau ansawdd trylwyr ar waith. Roedd hefyd angen eglurder ynghylch lefelau cyfrifoldeb a risg i'r defnyddiwr. Pwysleisiwyd hyn wrth i ymatebydd nodi ei bod yn bwysig ystyried sut i reoli risgiau ynghlwm wrth grwpiau a gwasanaethau cymunedol nad ydynt wedi bod yn destun asesiad risg. Dylid ystyried y cyfraniadau hyn ochr yn ochr â chwestiynau diogelu eraill a fynegwyd yn yr ymgynghoriad.
- 5.17 Un o'r prif gamau gweithredu cenedlaethol oedd sefydlu trefniadau ariannu cynaliadwy. Fodd bynnag, roedd hyn hefyd yn ganolog i Gwestiwn 8 a Thema 5, felly bydd yn cael ei drafod yn fwy helaeth bryd hynny.

Canfyddiadau Gweithdai

- 5.18 Roedd y drafodaeth ynghlwm wrth y cwestiwn hwn yn canolbwyntio ar achrediad a chyllid, gyda'r cyfranogwyr yn eu hystyried yn ddau beth sy'n gweithio ar y cyd. Pwysleisiodd rhanddeiliaid fod set briodol o safonau, eglurder a chysondeb ar draws y maes i gyd yn hanfodol. Ystyriwyd bod achrediad yn bwysig, er mwyn ategu hygredd yr unigolion a oedd yn cyfranogi. Roedd unrhyw gamau gweithredu i sicrhau atebolrwydd yn cael eu gweld fel hyn, yn enwedig cyswllt â'r PRSB/Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus. Gallai hynny gefnogi gweithio gyda meddygon teulu, gyda

hynny'n destun pryder oherwydd bod diffyg ymgysylltu ac atgyfeirio gan feddygon teulu.

- 5.19 O ran ariannu, roedd rhanddeiliaid yn poeni na fydd y trydydd sector yn ymgysylltu'n llawn heb gyllid. Yn benodol, mynegwyd yr angen i ariannu'r trydydd sector a'r sector cymunedol i ddarparu'r gwasanaethau a fydd yn destun atgyfeiriadau yn sgil presgripsiynu cymdeithasol. Awgrymwyd y dylai cyllid sy'n cael ei ddyfarnu gael ei dargedu at uno'r trydydd sector ac iechyd a gofal cymdeithasol, tra'n ceisio deall eu hanghenion i gyd. Roedd cyd-ariannu yn syniad poblogaidd yn hyn o beth. Yn olaf, roedd rhanddeiliaid yn teimlo ei bod yn bwysig cael strwythur llywodraethu a oedd yn darparu arian i sicrhau bod y platfformau presgripsiynu cymdeithasol/cymunedol presennol yn cael eu diweddarau ac yn cyfathrebu â'i gilydd.
- 5.20 Yn ogystal â'r ddwy thema hyn, roedd rhanddeiliaid yn poeni am gysondeb y gweithlu, oherwydd bod arweinwyr clinigol ac anghlinigol yn aml yn symud i rolau newydd, a bod hynny'n arwain at golli gwybodaeth. Argymhellwyd tasglu dros dro i edrych ar anghenion clinigol ac anghlinigol er mwyn mynd i'r afael â'r mater o lywodraethu presgripsiynu cymdeithasol yn y cyd-destun hwn.

Canfyddiadau Grwpiau Ffocws

- 5.21 Ni ofynnwyd cwestiwn yn ymwneud â'r thema hon i rhanddeiliaid y grwpiau ffocws.

Cwestiwn 8 – Pa gamau y gallem eu cymryd ar lefel genedlaethol i gefnogi'r broses gomisiynu a helpu i gynnwys y cyhoedd yn y gwaith o ddatblygu model lleol sy'n diwallu anghenion eu cymuned?

Ymatebwyr Unigol

- 5.22 Soniwyd am gynrychiolaeth leol ar lefel genedlaethol gan naw ymatebydd, yn bennaf y math a oedd yn cynnwys cymunedau, defnyddwyr

gwasanaethau, rhanddeiliaid a gweithwyr proffesiynol. Awgrymodd un ymatebydd y gallai hynny fod ar ffurf grŵp llywio, neu bresenoldeb hyrwyddwyr cymunedol.

- 5.23 Soniodd tri ymatebydd am ddatblygu fframwaith comisiynu a chronfa a allai gynnal adolygiadau rheolaidd. Er mwyn cefnogi comisiynu, roedd dau ymatebydd o'r farn y gellid defnyddio'r data presennol i lunio ymateb y gwasanaeth tra bod dau ymatebydd yn awgrymu y byddai ymarfer mapio i ddynodi argaeledd y ddarpariaeth bresennol yn fuddiol.
- 5.24 Roedd cyllid yn bwnc cyffredin trwy'r ymgynghoriad yn ei grynsyth, gyda saith ymatebydd yn sôn am edrych eto ar sut y mae cyllid yn cael ei ddsbarthu yn ôl rhanbarth ac ardal ddaearyddol, gydag un ymatebydd hefyd yn sôn am bosibilrwydd cyllidebu cyfranogol. Yn ogystal, roedd un ymatebydd yn argymhell cyllid cynyddol.
- 5.25 Soniodd tri ymatebydd am hyrwyddo ac ymgyrchu ar lefel genedlaethol, gyda dau ohonynt yn crybwyll defnyddioldeb platfform digidol i'w ddefnyddio fel llwybr atgyfeirio a chasglu gwybodaeth.
- 5.26 Cafodd model 'canolfan' a sianeli cyfathrebu clir o dimau lleol i dimau cenedlaethol eu crybwyll gan un unigolyn.

Ymatebwyr Sefydliadol

- 5.27 Awgrymodd ymatebion sefydliadol ystod o gamau a fyddai'n cefnogi'r broses gomisiynu ac yn helpu i ymgysylltu â'r cyhoedd wrth ddatblygu model lefel leol.
- 5.28 Y cyntaf o'r camau posibl hyn oedd sefydlu arweinydd cenedlaethol, boed hynny'n grŵp llywio neu'n unigolyn penodedig gyda'r nod o sbarduno adrodd, llywio'r broses o wneud penderfyniadau a chreu arweiniad.
- 5.29 Roedd monitro, gwerthuso ac adrodd yn elfennau allweddol o ymatebion sefydliadol, gyda'r ymatebwyr yn pwysleisio pwysigrwydd mesur canlyniadau gan gynnwys y broses o gyfathrebu ac ymgysylltu. Awgrymodd un ymatebydd y dylai Llywodraeth Cymru ymgynghori'n ffurfiol â'r gweithlu presgripsiynu cymdeithasol i gasglu gwybodaeth am yr

hyn sydd wedi gweithio'n dda i grwpiau penodol a pham. Gallai hyn arwain at ddatblygu dangosyddion monitro, a chynorthwyo gyda dulliau diffiniedig clir o gasglu, storio ac adrodd am ddata. Y teimlad oedd bod diffyg gwybodaeth gyffredin yn rhwystro'r broses gomisiynu ac y byddai datblygu'r system casglu a storio data hon yn cefnogi comisiynwyr wrth wneud penderfyniadau effeithiol, yn enwedig ar lefel leol.

5.30 Awgrymodd nifer o'r ymatebwyr y dylid datblygu'r canllawiau clir a chyson ar gyfer comisiynwyr ar lefel genedlaethol. Gallai'r camau hyn gynnwys;

- Ffocws ar y canlyniadau sy'n cael eu deisyfu
- Ffocws ar hyblygrwydd lefel leol o fewn dull cenedlaethol
- Cynnwys rôl yr amgylchedd naturiol fel dull cost-effeithiol
- Manylebau ar gyfer comisiynwyr
- Datblygu model arfer da cenedlaethol o gomisiynu
- Asesiad o anghenion poblogaeth
- Strategaeth a chynllunio trwy gaffael
- Darparu a monitro gwasanaethau
- Adolygu a gweithredu
- Gofyniad i gomisiynwyr sicrhau na fydd sefydliadau trydydd sector llai yn cael eu hallgáu
- Gofyniad i ystyried ymgysylltu gyda chymunedau wrth gomisiynu
- Bodloni'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant
- Eglurder ar rôl pobl ifanc a phlant
- Canllawiau arbenigol ar sut i ymgysylltu â sefydliadau "cyd-gynhyrchu", a sut i "gyd-gynhyrchu" gwasanaethau.

5.31 Yn ogystal â'r awgrymiadau hyn, cyfeiriodd yr ymatebwyr at ganllawiau presennol megis y gwaith sy'n cael ei wneud gan Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd Llywodraeth Cymru ac awgrymiadau'r Carers Partnership i gomisiynwyr a darparwyr. Awgrymwyd y byddai datblygu canolfan wybodaeth o fodelau arfer da o gymorth i'r comisiynwyr a'r cymunedau wrth ddatblygu gwasanaethau newydd.

- 5.32 Rhybuddiodd nifer o'r ymatebwyr rhag yr angen am gomisiynu ffurfiol ym mhob achos, er enghraifft, dylid gallu atgyfeirio defnyddiwr gwasanaethau at "grŵp gwau a sgwrsio" sydd ddim o reidrwydd yn gorfod bodloni 'safonau'. Teimlwyd hefyd y dylai'r comisiynu fod yn briodol i lefel y cyllid sydd ar gael, ac yn olaf mynegwyd pryder am y potensial am ganlyniadau anfwriadol lle mae'r broses gomisiynu ffurfiol yn ffafrio'r rhai sy'n derbyn mwy o atgyfeiriadau trwy'r llwybr presgripsiynu cymdeithasol, sy'n rhoi grwpiau sy'n gweithredu y tu hwnt i hynny dan anfantais wrth dderbyn cyllid. Pwysleisiodd tri o'r ymatebwyr sefydliadol yr angen i sicrhau bod gwasanaethau ar raddfa fach yn cael eu gwerthfawrogi gan gomisiynwyr. Roedd hyn yn cynnwys cael gwared ar rwystrau ar sefydliadau llai o ran casglu a monitro data, a gweithio gyda grwpiau cymunedol i feithrin ymddiriedaeth a hyder.
- 5.33 Roedd 11 o ymatebwyr sefydliadol yn ystyried cyd-gynhyrchu gwasanaethau ar lefel leol yn elfen bwysig o gomisiynu presgripsiynu cymdeithasol. Gallai hyn gynnwys;
- Cyfranogiad defnyddwyr ar ddechrau'r broses gomisiynu, a chynnwys elfen hanfodol dolen adborth
 - Sefydlu grwpiau ffocws yn gynnar a'u cynnal trwy gydol y broses
 - Buddsoddiad/adnoddau cychwynol ymlaen llaw i gefnogi cyfranogiad a datblygu cynigion lleol sy'n diwallu anghenion cymunedol lleol dan arweiniad y sector gwirfoddol
 - Datblygu ar werth profiad byw fel arbenigedd
 - Datblygu ar arferion da sy'n bodoli eisoes, fel y cynllun cymunedau gweithgar, dyfeisgar, cysylltiedig, cynaliadwy a charedig yn Sir Benfro
 - Defnyddio mecanweithiau presennol ar gyfer ymgysylltu, megis paneli dinasyddion
 - Creu grwpiau dan arweiniad y gymuned gyda chyllid ac arbenigedd i nodi gofynion y gymuned.

- 5.34 Yn bwysig, byddai hyn yn gofyn am ymrwymiad i gyd-gynhyrchu gan y corff cenedlaethol neu Lywodraeth Cymru.
- 5.35 Roedd un ymatebydd sefydliadol o'r farn y byddai modd sicrhau comisiynu gwell yn y ffyrdd hyn trwy ddatganoli mwy o bwerau i gymunedau ac awdurdodau lleol. Byddai hyn yn rhoi mwy o ddylanwad iddynt wrth ddatblygu cynlluniau garddio cymunedol, er enghraifft. Yn ogystal, ceisiodd ymatebwyr y sefydliad ehangu'r sgwrs yn lleol trwy gynnwys gwasanaethau seilwaith porth allweddol fel gwasanaethau trafnidiaeth, yn ogystal â'r rhai sydd â rolau cyfeirio pwysig fel Fferylliaeth Gymunedol Cymru. Rhagwelwyd y rôl ymgysylltu hon ar lefel genedlaethol trwy ddigwyddiadau i oleuo'r cyhoedd, ymgyrchoedd hybu ymwybyddiaeth, hyrwyddo astudiaethau achos a chynhyrchu canllawiau ar ymgysylltu â'r cyhoedd i'w darparu ar lefel leol. Awgrymodd un ymatebydd fod hyn yn digwydd ar ffurf un plattform neu frand ar lefel genedlaethol. Fel arall, awgrymodd dau ymatebydd y gallai Llywodraeth Cymru annog a chefnogi Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i ymrwymo i'r siarter wirfoddol i ymgysylltu â'r sector cymunedol.
- 5.36 Roedd darparu ffrydiau ariannu cynaliadwy yn alwad allweddol gan ymgynghorwyr, ac mae hynny'n cael sylw penodol yn Thema 5. Fodd bynnag, roedd rhai awgrymiadau penodol yn ymwneud â chomisiynu. Y cyntaf oedd yr awgrym fod rhai elfennau yn cael eu comisiynu a'u rheoli ar 'sail unwaith i Gymru', er enghraifft datblygiad rheoli cysylltiadau cwsmeriaid fel Elemental. Roedd yr ail yn canolbwyntio ar gydweithio, cyfuno adnoddau ac annog cydweithio trwy gyllid, yn ogystal â chefnogi cymunedau i brynu asedau cymunedol fel adeiladau cymunedol gwag. Yn olaf, cafwyd cynnig i gomisiynu contractau llawer llai, gydag ymatebwyr yn teimlo y byddai hynny'n arwain at well cydymffurfedd, ansawdd ac elw er budd y gymuned.
- 5.37 Roedd dau ymatebydd o'r farn y dylid cynnig cyllid ar gyfer treialu dulliau cynnar, o ran gwasanaethau yn y gymuned ac o ran y fframwaith ei hun. Yn ogystal, roedd un ymatebydd o'r farn y dylid hyrwyddo llwyddiannau sydyn i greu momentwm ar gyfer y fframwaith. Yn ogystal â'r anghenion cynnar hyn, roedd ymatebwyr sefydliadol o'r farn y gellid rhoi cymorth i

fapio'r ddarpariaeth bresennol, nodi bylchau yn y ddarpariaeth a nodi angen. Dylid rhoi cymorth penodol i gomisiynwyr i feithrin ymwybyddiaeth o amgylchedd y gwasanaeth lleol.

- 5.38 Yn olaf, roedd ymatebion sefydliadol yn cynnig ystod o atebion digidol i'w cychwyn ar lefel genedlaethol, gan gynnwys datblygu strategaeth ddigidol ar gyfer presgripsiynu cymdeithasol a ddylai gynnwys casglu a rhannu gwybodaeth gywir, amser real ar asedau cymunedol, gan ddarparwyr a gwasanaethau fel ei gilydd, sy'n addas ar gyfer presgripsiynu cymdeithasol. Mae'n rhaid i hyn gael ei gymell gan yr angen lleol, a bod yn gynhwysol ac yn fesuradwy.
- 5.39 Lle bo'n bosibl, gweithredu platfformau rheoli atgyfeirio cymdeithasol priodol sy'n cysylltu â systemau meddygon teulu i'w gwneud hi'n haws i'r rhai sy'n gwneud atgyfeiriadau mewn gofal sylfaenol a gwella rheoli gwasanaethau a phrofiadau yn y gymuned i unigolion.

Canfyddiadau Gweithdai

- 5.40 Roedd mynychwyr y gweithdai o'r farn ei bod hi'n bwysig sicrhau bod mynediad teg at wasanaethau presgripsiynu cymdeithasol ledled Cymru. O gofio hyn, mae'n bwysig i wasanaethau presgripsiynu cymdeithasol ystyried y gwahaniaethau rhwng lleoliadau gan gynnwys asedau presennol ac anghenion y boblogaeth. Mae hyn yn arbennig o wir am wahaniaethau rhwng ardaloedd trefol a gwledig.
- 5.41 Roedd cyfranogwyr yn teimlo ei bod hi'n bwysig cydnabod bod angen dulliau cyfathrebu gwahanol ar gynulleidfaoedd gwahanol, er enghraifft, mae angen mwy o gyfathrebu wedi'i dargedu trwy gyfryngau fel y radio a'r teledu ar gynulleidfaoedd hŷn yn aml. Yn ogystal â hyn, mynegwyd yr angen i ddefnyddio eiriolwyr cymunedol sydd â phrofiad o'r broses ac sy'n gallu cyfleu'r effaith i eraill/helpu eraill i gael hyder yn y broses. Llwybr arall ar gyfer ymgysylltu a gafodd ei argymhell oedd Cyngorau Iechyd Cymunedol, tra bod cyfranogwyr yn pwysleisio pwysigrwydd ymgysylltu â'r cyhoedd ar lefel leol.

Canfyddiadau Grwpiau Ffocws

- 5.42 Ar gyfer y cwestiwn hwn, gofynnwyd i gyfranogwyr y grwpiau ffocws yn gyntaf pa mor dda yw eu gwybodaeth am ba gymorth yn y gymuned (grwpiau a gweithgareddau) sydd ar gael yn lleol. Dilynwyd hyn trwy holi sut maen nhw'n dod i wybod pa gymorth yn y gymuned sydd ar gael yn lleol ar hyn o bryd.
- 5.43 Roedd holl gyfranogwyr y grŵp yn amrywio o ran eu hymwybyddiaeth o weithgareddau a oedd ar gael yn lleol. Y grŵp o gyfranogwyr gyda'r lefel uchaf o ymwybyddiaeth o weithgareddau a oedd y grŵp gyda phobl anabl, oherwydd cyfran y cyfranogwyr a oedd yn byw mewn tai â chymorth neu a oedd yn rhan o grŵp cymorth canolog.
- 5.44 Cyfranogwyr yn y grŵp gyda phobl hŷn a restrodd yr amrywiaeth fwyaf o leoliadau y maent yn eu mynychu i ddarganfod pa gymorth yn y gymuned sydd ar gael yn lleol. Roedd hyn yn cynnwys sôn am bosteri mewn llyfrgelloedd, neuaddau pentref, addoldai a'r gweithle.
- 5.45 Soniodd pob grŵp am bwysigrwydd rhannu gwybodaeth ar lafar o fewn eu cymunedau. Mae adnoddau ar-lein a gafodd eu crybwyll wrth ymateb i'r cwestiwn hwn yn cael eu cynnwys yng Nghwestiwn 9b yn Thema 4.

Casgliad Thema 3

- 5.46 Roedd yr ymatebion i Thema 3 yn cynnig amrywiaeth eang o awgrymiadau ar gyfer camau gweithredu cenedlaethol a fyddai'n darparu arweinyddiaeth, yn cefnogi llywodraethu effeithiol ac yn cynorthwyo comisiynwyr, er bod anghytuno ar y ffordd orau ymlaen mewn rhai achosion.
- 5.47 Awgrym cyffredin i'r ddau gwestiwn a'r holl fathau o ymateb oedd datblygu safonau cyffredin ar gyfer y fframwaith presgripsiynu cymdeithasol a rôl arfaethedig arweinwyr cenedlaethol wrth ddarparu fframweithiau sicrhau ansawdd, yn enwedig ynghylch materion fel diogelu. Yn gysylltiedig â hyn roedd awydd i weld metrigau ar lefel genedlaethol yn cael eu datblygu a fyddai'n datblygu'n drefn monitro,

gwerthuso ac adrodd gadarn. Nod hyn fyddai darparu cysondeb a chydreddoldeb o ran mynediad ledled Cymru.

- 5.48 Y tu hwnt i'r arweinyddiaeth hon roedd awgrymiadau croes ynghylch yr angen am arweinyddiaeth benodol ar gyfer y gwasanaeth presgripsiynu cymdeithasol. Yn aml, roedd ymatebion yn awgrymu sefydlu corff cenedlaethol, ar ffurf grŵp llywio neu unigolyn penodedig, a fyddai'n arwain y gwaith o weithredu'r fframwaith. O ran dewis amgen neu i gyd-fynd â hynny, argymhellwyd bod rôl Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cael ei hail-werthuso i ddarparu mwy o rôl arwain, a rôl gynyddol i'r sector cymunedol. Fodd bynnag, roedd rhai ymatebwyr yn teimlo na ddylid cyflwyno cyrff newydd, ac y dylid canolbwyntio adnoddau ar gynaliadwyedd y sector yn lle hynny.
- 5.49 Roedd pwyslais ar gyd-gynhyrchu a chyfranogiad llawr gwlad o ran arwain a gweithredu'r fframwaith presgripsiynu cymdeithasol. Roedd hyn yn cynnwys defnyddwyr gwasanaethau, sefydliadau cyfathrebu, y trydydd sector a'r sector cyhoeddus, a phresgripsiynwyr cymdeithasol sy'n cael eu cynrychioli ar unrhyw gorff cenedlaethol, yn ogystal â'i gynnwys wrth gynllunio a chomisiynu gwasanaethau. Gellid ategu hyn trwy ddatganoli pwerau yn lleol er mwyn hwyluso penderfyniadau cymunedol.
- 5.50 Ar gyfer Cwestiwn 8 yn benodol, roedd ffocws ar ddatblygu canllawiau clir a chyson i gomisiynwyr, yn enwedig, ar sut i gynnwys y gymuned leol, trwy ddarparu contractau llai, er enghraifft. Yn ogystal, dylid cydnabod yn y canllawiau hyn ac yn y fframwaith nad oes angen comisiynu pob grŵp a fydd yn darparu cymorth yn ffurfiol fel hyn, ac na ddylid eu gosod o'r neilltu oherwydd hyn. Yn olaf, roedd ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i raglen ariannu gynaliadwy ar gyfer y sector cymunedol yn ganolog i'r thema yma.

6. Thema 4 – Dadansoddi Hygyrchedd

Cwestiwn 9a – A yw'r cyfeiriaduron a'r ffynonellau gwybodaeth ar-lein presennol yn rhoi'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch (mewn fformat hygyrch) i wneud penderfyniadau am addasrwydd ac argaeledd cymorth yn y gymuned?

Ymatebwyr Unigol

- 6.1 Rhoddodd pum ymatebydd ateb cadarnhaol i'r cwestiwn hwn, gan deimlo bod cyfeiriaduron ar-lein a ffynonellau gwybodaeth eraill yn darparu'r hyn sydd ei angen i allu gwneud penderfyniadau ynghylch priodoldeb ac argaeledd cymorth. Fodd bynnag, rhoddodd 16 o ymatebwyr ateb negyddol, a hynny am sawl rheswm.
- 6.2 Roedd y rhai a roddodd ymateb cadarnhaol i'r cwestiwn yn nodi DEWIS-Cymru fel platfform a oedd yn hylaw i'w ddefnyddio ac yn gynhwysfawr. Manteisiodd eraill ar y cyfle i fynegi bod cyfeiriaduron ar-lein yn ddefnyddiol, ond yn bennaf ar gyfer dod o hyd i wasanaethau ar lefel genedlaethol – ond gan nodi'r teimlad fod angen mwy o bwyslais ar rannu gwybodaeth ar gyfer gwasanaethau ar lefel leol.
- 6.3 I'r rhai a ymatebodd yn negyddol, roedd y drafodaeth yn canolbwyntio ar ddwy thema sylfaenol. Nodwyd bod anawsterau ynghlwm wrth DEWIS-Cymru, o ran pa mor hawdd yw chwilio am gymorth a pha mor hygyrch yw gwneud hynny. Y pryder mwyaf oedd problem y safle gyda chadw cofnodion sydd bellach wedi dyddio ar gyfer gwasanaethau (efallai nad ydynt yn bodoli bellach). Roedd methu â gallu cael gafael ar wybodaeth gywir a dibynadwy trwy'r safle yn ei dro yn tanseilio hyder wrth ei defnyddio.
- 6.4 Ar ben hynny, dywedodd pedwar ymatebydd y dylid cael un platfform cyfunol ble mae modd ymgynghori ag ef a chael gafael ar y gwir. Byddai hyn yn helpu i osgoi dyblygu a chamwybodaeth, a sicrhau y byddai ymdrechion i ddiweddarau cofnodion yn cael eu canoli mewn un lleoliad canolog.

- 6.5 Wrth gydnabod gofynion adnoddau, ac o ystyried pa mor gyflym y mae gwasanaethau yn y gymuned yn newid, tynnodd tri ymatebydd sylw at y ffaith y byddai'r dasg o gadw gwybodaeth yn gyfredol yn sylweddol ac y byddai angen buddsoddiad sylweddol o ran cyllid.
- 6.6 Yn ogystal â chyfeiriaduron ar-lein, cynigiodd tri ymatebydd sylwadau ar ddefnyddioldeb y cyfryngau cymdeithasol, sydd wedi bod yn gam cyntaf i sefydliadau rannu eu gwybodaeth yn annibynnol ac yn uniongyrchol mewn rhai achosion.
- 6.7 Yn olaf, yn wahanol i'r rhan fwyaf o sylwadau a oedd yn parhau i ganolbwyntio ar adnoddau ar-lein, rhybuddiodd tri ymatebydd rhag cyfeiriaduron a oedd ar gael i'w cyrchu ar-lein yn unig. Roedd y pryderon ynghylch hynny'n canolbwyntio ar allgáu digidol, gydag ymatebwyr yn awgrymu y dylai gwybodaeth fod ar gael mewn fformat copi caled hefyd.

Ymatebwyr Sefydliadol

- 6.8 Rhoddodd un sefydliad ymateb cadarnhaol clir i'r cwestiwn hwn. Mae'n werth nodi, hyd yn oed ymhlith y rhai a oedd yn fwy cadarnhaol am y cyfeiriaduron sydd ar gael ar hyn o bryd, bod sawl un wedi dweud eu bod yn aml yn cael gwybodaeth am wasanaethau newydd, ond nad ydynt byth yn cael gwybod am y rhai sydd wedi dod i ben.
- 6.9 Ymatebodd deg sefydliad gydag ymateb negyddol clir. Mae'r rhesymau mwyaf cyffredin a nodwyd dros ystyried y cyfeiriaduron ar-lein presennol yn aneffeithiol yn cael eu crynhoi isod:
- Dryswch (wedi'i greu trwy gyflwyno gormod o blatfformau)
 - Diffyg gwybodaeth gyfoes (mewn rhai achosion yn golygu nad ydynt yn addas i'w pwrpas)
 - Dim digon o hysbysebu a hyrwyddo, sy'n golygu diffyg ymwybyddiaeth yn y rhan fwyaf o achosion
 - Darparu gwybodaeth gyfyngedig ar gyfer rhestrau
 - Ffafiaeth i sefydliadau ddibynnu ar eu cyfeiriaduron eu hunain a'u rhestrau cyswllt mewnol.

- 6.10 Roedd sylwadau a rannwyd gan sefydliadau yn adlewyrchu teimladau'r ymatebion unigol yn agos, gyda sefydliadau'n pwysleisio'r angen i gyfeiriaduron ddarparu ffynhonnell ganolog o wybodaeth ddibynadwy.
- 6.11 Cyfeiriodd sawl sefydliad at DEWIS-Cymru yn uniongyrchol, gan nodi, er ei fod yn ffynhonnell wybodaeth hysbys, bod nifer o broblemau sy'n ei wneud yn anodd i'w ddefnyddio, gan gynnwys:
- Dim cyfathrebu clir i awdurdodau lleol
 - Hafan yn cynnig 'ychydig iawn o gliwiau' o ran cwmpas llawn y safle a beth sy'n bosibl i'w gyrchu
 - Mae adnodd chwilio'r safle yn annibynadwy, yn rhy sensitif wrth ddefnyddio termau chwilio
 - Teimlad ei bod hi'n anodd pori, heb ddull cadarn a chlr o ddsbarthu gwasanaethau.
- 6.12 Yn y pen draw, y teimlad oedd bod DEWIS-Cymru yn dda yn ymarferol, ond yn dal i gael ei effeithio gan nifer o broblemau sydd wedi golygu nad yw eto'n cael ei ystyried fel y lle cyntaf i fynd i gael gafael ar wybodaeth.

Canfyddiadau Gweithdai

- 6.13 I raddau helaeth, roedd trafodaethau mewn gweithdai yn adleisio teimladau'r ymatebion i'r ymgynghoriad.
- 6.14 Soniodd nifer o randdeiliaid yn benodol am DEWIS-Cymru o ran ymwybyddiaeth, er bod y rhanddeiliaid hyn hefyd yn mynegi pryderon o ran ymarferoldeb y plattform. Roedd rhai yn cydnabod y plattform fel man cychwyn cadarnhaol ac yn teimlo y gallai fod yn sylfaen addas i ddatblygu arni, gan awgrymu nad oedd "angen ailddyfeisio'r olwyn".
- 6.15 Dywedodd lleiafrif o randdeiliaid eu bod wedi cael trafferth dod o hyd i'w gwasanaethau eu hunain trwy'r safle, gyda hynny'n arwain at bryderon hygyrchedd mewn perthynas â'r cyhoedd. Cyfeiriwyd eto at ddiffyg hyder ynghylch dibynadwyedd a chywirdeb y wybodaeth sydd ar gael fel y prif bryder. Mewn perthynas â phresgripsiynu cymdeithasol, sydd mor ddibynnol ar lwyddiant atgyfeiriadau effeithiol, mae bylchau ac

anghysondebau o ran gwybodaeth yn cael eu hystyried yn wendidau nodedig.

- 6.16 Wrth drafod y themâu hyn, pwysodd rhanddeiliaid ar ganlyniadau pwysig sy'n gallu tarddu o wybodaeth wael, megis diffyg ymddiriedaeth, diffyg hyder a diffyg hygrededd y gwasanaeth.

Canfyddiadau Grwpiau Ffocws

- 6.17 Yn ystod grwpiau ffocws, gofynnwyd i'r cyfranogwyr am y dulliau y maent yn eu defnyddio (neu y byddent yn eu defnyddio) i gael gwybod am wasanaethau presgripsiynu cymdeithasol. Nid oedd mwyafrif y cyfranogwyr yn ymwybodol o gyfeiriaduron wedi'u targedu y gellid eu defnyddio at y diben hwn, gan awgrymu y byddent yn defnyddio peiriannau chwilio cyffredinol. Roedd rhai cyfranogwyr (a oedd eisoes yn ymgysylltu gyda grwpiau cymorth cymdeithasol) yn dweud eu bod yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i gael y wybodaeth ddiweddaraf am ddigwyddiadau a gweithgareddau o fewn eu rhwydweithiau.
- 6.18 Gofynnwyd i'r cyfranogwyr a fyddai'n eu helpu i gael gafael ar gymorth yn y gymuned os oeddent yn *gwybod* (drwy wybodaeth a gafodd ei hysbysebu) y byddai'n gallu bodloni eu hanghenion. Cytunodd yr holl gyfranogwyr y byddai hyn yn ddefnyddiol, a'u bod yn gweld gwerth sicrhau bod gwasanaethau mor agored a hygyrch â phosibl.

Cwestiwn 9b – Ydych chi'n defnyddio unrhyw gyfeiriaduron / ffynonellau gwybodaeth ar-lein eraill?

Ymatebwyr Unigol

- 6.19 O ran cyfeiriaduron, rhestrodd yr ymatebwyr sawl un, gan gynnwys DEWIS, Turn2Us, gwasanaethau cysylltu (h.y. Cysylltu Ceredigion, Cysylltu Sir Gâr), Gwirfoddoli Cymru, Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (FIS), Infoengine, canllawiau gofalwyr A-Y, y Byrddau Iechyd, a gwefan Cymdeithas Genedlaethol y Gweithwyr Cyswllt (NALW).

- 6.20 Lle nad oedd pobl yn ymwybodol o / heb nodi platfformau penodol, dywedodd yr ymatebwyr fod chwiliadau cyffredinol Google yn cael eu defnyddio i geisio dod o hyd i wybodaeth berthnasol. Y tu hwnt i hyn, soniodd y cyfranogwyr am nifer o opsiynau amgen gan gynnwys:
- Gwefannau unigol/tudalennau cyfryngau cymdeithasol ar gyfer sefydliadau a gwasanaethau (saith ymatebydd)
 - Ymgysylltu'n uniongyrchol â grwpiau cymunedol lleol (chwe ymatebydd)
 - Ar lafar trwy gyfarfodydd rhwydweithio, mewn llyfrgelloedd a manau cyhoeddus, negeseuon ar hysbysfyrddau cymunedol ac ati (gyda theimlad eu bod yn arbennig o berthnasol mewn ardaloedd gwledig)
 - Cyfryngau mwy traddodiadol (h.y. hysbysebion papur newydd, cylchlythyrau, hysbysebion radio ac ati).

Ymatebwyr Sefydliadol

- 6.21 Rhannodd sefydliadau nifer o ffynonellau gwybodaeth yr ymgynghorwyd â nhw am wybodaeth am wasanaethau presgripsiynu cymdeithasol, gan gynnwys:
- Infoengine (pedwar ymateb)
 - Chwiliadau gwe cyffredinol (tri ymateb)
 - Cyfeiriadur cenedlaethol dan arweiniad Arsyllfa Rhydychen (sy'n darparu map presgripsiynu cymdeithasol)
 - Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
 - Meic (adnodd llinell gymorth i blant a phobl ifanc)
 - Gwybodaeth am wasanaethau a gweithgareddau yn cael eu cynnal trwy gyfrwng y Gymraeg trwy Lleol Cymru
 - Cyfeiriadur Gwasanaethau Iechyd Meddwl/Gwasanaethau Iechyd Seiliedig ar Natur Gweithredu dros Iechyd Meddwl Gorllewin Cymru (WWAMH)
 - Rhwydweithiau Ymddiriedolaeth y Gofalwyr

- Dogfennau adnoddau y sefydliad

6.22 Roedd sefydliadau hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd argymhellion ar lafar a defnyddio eu cysylltiadau eu hunain, yn ogystal â gwerth ffynonellau lleol, i sicrhau bod gwybodaeth am wasanaethau yn benodol i'r gymuned.

Canfyddiadau Gweithdai

6.23 Yn y gweithdai, dywedodd rhanddeiliaid fod y cyfryngau cymdeithasol yn opsiwn poblogaidd ac y gallai gael ei ffafrio am fod yn fwy cyfredol.

Pwysleisiwyd hyn mewn perthynas â hysbysebu a hyrwyddo digwyddiadau/gweithgareddau yn uniongyrchol i gymunedau.

6.24 Fodd bynnag, cydnabuwyd bod angen i ddarpar ddefnyddwyr fod yn hyddysg yn y cyfryngau cymdeithasol i ddilyn y wybodaeth hon, ac y byddai hyn yn amrywio'n fawr yn dibynnu ar gynulleidfa darged.

6.25 Fel dewis amgen penodol, soniodd un grŵp iddynt gael eu canfod trwy'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig a bod hynny wedi gweithio'n dda o ran creu cysylltiadau.

Canfyddiadau Grwpiau Ffocws

6.26 Pan ofynnwyd iddynt sut y byddent yn mynd ati i chwilio am wasanaeth penodol, awgrymodd y cyfranogwyr eu bod yn dechrau gyda chwiliad Google syml – gan gyfeirio hefyd at safleoedd eraill sydd wedi bod yn ddefnyddiol, fel Reddit, Quora ac ati.

6.27 Dywedodd cyfranogwyr ym mhob grŵp ar wahân i'r grŵp plant a phobl ifanc eu bod yn defnyddio grwpiau Facebook lleol a thudalennau cymunedol i gael gafael ar y wybodaeth ddiweddaraf am weithgareddau cymunedol. Yn nhrafodaeth y grŵp Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, roedd rhai cyfranogwyr yn ystyried goblygiadau algorithmau'r cyfryngau cymdeithasol, ac a oedd modd defnyddio hyn fel rhywbeth cadarnhaol i gysylltu pobl â chynnwys sy'n berthnasol iddynt. Yn yr achos hwn, tybiwyd y gallai'r cyfryngau cymdeithasol helpu i argymhell gwasanaethau lleol i gynulleidfa oedd targed.

Cwestiwn 9c – Yn eich barn chi, beth yw'r elfennau allweddol y dylai cyfeiriaduron ar-lein eu darparu i helpu pobl i gael gafael ar gymorth yn y gymuned?

Ymatebwyr Unigol

- 6.28 Cynigiodd ymatebwyr unigol gyfoeth o adborth o ran nodweddion y dylai cyfeiriaduron ar-lein eu darparu, er mwyn hwyluso mynediad. Y nodwedd a gafodd ei hawgrymu amlaf (gan 14 ymatebydd) oedd cynnwys gwybodaeth gynhwysfawr ar gyfer pob gweithgaredd. Soniodd yr ymatebwyr y dylai hyn gynnwys manylion fel:
- Beth sy'n digwydd yn y gweithgaredd
 - Ar gyfer pwy mae'r gweithgaredd (pwy sy'n gymwys, pwy yw'r gynulleidfa darged)
 - Beth sydd ei angen i ymuno
 - Manylion cyswllt
 - Unrhyw gostau cysylltiedig
 - Opsiynau trafndiaeth (trafnidiaeth gyhoeddus, trafndiaeth gymunedol, lleoliad, parcio ac ati).
- 6.29 Tynnodd wyth ymatebydd sylw at yr angen i gyfeiriaduron ar-lein fod yn hylaw i'w defnyddio ac yn hygyrch – gyda rhyngwyneb defnyddiwr da. Dylai hyn gynnwys testun hawdd ei ddarllen, penawdau wedi'u cyfeirio'n glir, categorïau chwilio ac ati. Wrth ddarparu rhagor o fanylion, roedd chwech yn annog symrwydd yn benodol, er mwyn osgoi materion mynediad pellach i'r rhai sy'n gweld ymgysylltu digidol yn heriol.
- 6.30 Soniodd chwe ymatebydd eto, yn hytrach na chyfeiriaduron lluosog, y dylai fod un cyfeiriadur/canolbwynt unigol neu bwynt mynediad ar gyfer gwybodaeth sy'n cael ei ddiweddarau'n rheolaidd. Awgrymodd pum ymatebydd y gallai cyfeiriaduron ar-lein hefyd fod yn lle i sefydliadau hyrwyddo'r gwaith da maent yn ei wneud (gan gyflawni pwrpas deul i ddefnyddwyr a darparwyr gwasanaethau). Gallai hyn gynnwys gwybodaeth am fanteision eu gwasanaeth, lle ar gyfer astudiaethau achos, newyddion cadarnhaol, tystebau a chreu cysylltiadau.

Ymatebwyr Sefydliadol

- 6.31 Roedd y nodweddion a oedd yn flaenoriaeth i ymatebwyr sefydliadol yn cyd-fynd yn agos ag ymatebion unigol ac adborth gweithdai. Y nodweddion mwyaf poblogaidd yr oedd sefydliadau am eu gweld oedd:
- Mynediad hawdd, llywio syml (saith sefydliad) – gan gynnwys nodweddion ar-lein ac all-lein, testun darllen yn uchel a thestun hawdd ei ddarllen, opsiynau cyswllt lluosog
 - Iaith syml (chwe sefydliad) – gan gynnwys defnydd o iaith sy'n hawdd ei deall ac sy'n cael ei chyflwyno mewn cywair cyfeillgar
 - Chwilio hawdd (pum sefydliad) – gan gynnwys y gallu i chwilio yn ôl rhanbarth nid yn unig cod post, chwilio yn ôl thema a gweithgarwch, hidlyddion ar gyfer opsiynau perthnasol a defnydd clir o categorïau
 - Gwybodaeth gyfoes (tri sefydliad) – gan gynnwys gwneud defnydd o gasglu data deallus fel y mae apiau a phlatformau yn ei wneud.
- 6.32 Gan ehangu ymhellach ar y nodwedd 'chwilio hawdd', awgrymodd sefydliadau hefyd y dylai hyn gynnwys y gallu i adnabod beth fydd pobl yn chwilio amdano ac felly y byddai'n diystyru gwallau teipio ac ati. Fel enghraifft, dylai 'foodbank' a 'food bank' ddangos yr un canlyniadau. Yn ogystal, roedd awgrymiadau y byddai'n ddefnyddiol cael categorïau a fyddai'n ymwneud â chymorth sy'n addas ar gyfer cyflyrau iechyd penodol, yn ogystal â sefyllfaoedd a heriau cysylltiedig (megis bod ar restr aros i dderbyn triniaeth).
- 6.33 O ran iaith sy'n cael ei chefnogi gan gyfeiriaduron, tynnodd sefydliadau sylw hefyd at yr angen i sicrhau y byddai plattformau yn gwbl ddwyieithog yn ddiodyn, lle mae'r Gymraeg a'r Saesneg wedi'u hintegreiddio'n llawn. Ond awgrymodd un mudiad y dylai cyfeiriadur ar-lein fod yn amlieithog, gan gefnogi nifer o ieithoedd y tu hwnt i'r Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r

thema o gynnwys ieithoedd ychwanegol er mwyn goresgyn rhwystrau mynediad wedi codi'n gyson yn yr adran hon drwyddi draw.

Canfyddiadau Gweithdai

- 6.34 Yn y gweithdai, roedd rhanddeiliaid yn rhoi pwyslais ar sicrhau bod y meini prawf chwilio ar gyfer cyfeiriaduron ar-lein yn gywir, a bod modd cynnal cofnodion yn hawdd gan y rhai sy'n rhestru gwybodaeth. Tynnodd rhanddeiliaid sylw at y ffaith fod unrhyw gyfeiriadur yn dibynnu ar gywirdeb y wybodaeth sydd ynddo, gan roi manylion a chynnwys ar flaen y gad o ran ystyriaethau.
- 6.35 Roedd rhanddeiliaid hefyd eisiau gweld cyfeiriadur sy'n cynnwys gwybodaeth leol benodol. Byddai hyn yn golygu bod defnyddwyr gwasanaethau yn gallu ymddiried yn y ffaith fod y wybodaeth yn gywir ac yn gyfoes wrth chwilio fesul rhanbarth neu o fewn pellter penodol. Awgrymodd rhai hefyd y gallai fod gwerth mewn integreiddio cyfeiriadur gydag ap (i hwyluso mynediad ymhellach) fel bod pobl yn gwybod yn union beth sy'n digwydd yn eu hardal leol a sut i ymgysylltu. Roedd rhai yn cymharu hynny gydag ap COVID-19 y GIG, o ran cyflwyno apiau i gynorthwyo gyda darpariaeth gofal iechyd a mynediad i ddefnyddwyr.
- 6.36 Unwaith eto, y prif bryder i rhanddeiliaid mewn perthynas â diweddarau neu lansio cyfeiriadur canolog, oedd realiti darparu adnoddau parhaus er mwyn sicrhau dibynadwyedd y plattform.

Canfyddiadau Grwpiau Ffocws

- 6.37 Yn ystod trafodaethau'r grwpiau ffocws, roedd rhai cyfranogwyr yn teimlo y byddai gallu chwilio cyfeiriadur yn ôl cyflwr yn werthfawr (yn enwedig i gyfranogwyr ag anableddau). Trafodwyd hyn yng nghyd-destun bod wedi ymuno â sesiynau yn y gorffennol neu wedi cael argymhelliad i fynychu gweithgareddau nad oedd yn gwbl addas ar gyfer eu hanghenion unigol.
- 6.38 Roedd awgrymiadau ychwanegol ynglŷn â phwysigrwydd cael ffynhonnell ganolog, ddibynadwy o wybodaeth yn cynnwys enw syml y gellid ei

gysylltu â'r cysyniad (e.e. Presgripsiynu Cymdeithasol.Cymru).

Awgrymodd un cyfranogwr a oedd â sawl cyflwr iechyd bod gallu chwilio am wasanaethau yn annibynnol ar-lein yn arbennig o bwysig i bobl anabl, o ystyried bod natur cyflyrau iechyd cymhleth yn gallu bod yn hynod bersonol.

- 6.39 Cytunodd cyfranogwr arall â hyn, a atgyfnerthodd werth cyrchu gwybodaeth yn annibynnol, mewn cyferbyniad â phrofiadau heriol a wynebwyd ganddo gyda'i feddyg teulu.

Cwestiwn 10a – Pa gamau y gallem eu cymryd ar lefel genedlaethol i helpu i fynd i'r afael â'r rhwystrau i fynediad?

Ymatebwyr Unigol

- 6.40 Roedd y rhwystr mynediad mwyaf a nodwyd gan ymatebwyr unigol yn gysylltiedig â diffyg trafndiaeth. Soniodd cyfanswm o 15 o ymatebwyr am reidrwydd darparu cyllid ar gyfer cynlluniau trafndiaeth gymunedol. Y teimlad oedd bod hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer rhwystrau o natur wledig, sydd yn gyffredin ledled Cymru. Roedd yn farn gyffredin yn yr ymatebion unigol fod yr opsiynau presennol ar gyfer trafndiaeth gyhoeddus yn anaddas.
- 6.41 Tynnodd chwe ymatebydd sylw at ddewisiadau amgen i bobl a allai fod angen mynediad mewn ffyrdd gwahanol, ar wahân i ddigidol. Er enghraifft, trwy gyflwyno llinell gymorth ffôn genedlaethol ar gyfer y gwasanaeth. Mynegwyd yr angen am wybodaeth copi caled yma unwaith eto, er mwyn lliniaru allgáu.
- 6.42 Dywedodd tri ymatebydd y dylid canolbwyntio'n gadarn a bwriadol ar lefel genedlaethol ar feithrin capasiti a gwydnwch o ran cefnogi pobl i allu rheoli eu hiechyd a'u lles eu hunain yn hawdd.
- 6.43 Roedd pump o'r ymatebwyr yn teimlo y byddai mynd i'r afael â rhwystrau mynediad yn haws ar lefel leol, trwy ymgynghori ag anghenion cymunedau unigol. Ymhlith yr awgrymiadau ar gyfer galluogi hyn roedd ymgysylltu â phobl mewn 'hybiau' presgripsiynu cymdeithasol lleol, neu

mewn mannau ffisegol presennol sy'n cynnig cymorth (megis llyfrgelloedd).

- 6.44 Soniodd pedwar ymatebydd y gallai gwneud ffrindiau, mentora a gwasanaethau cyfeillio fod o gymorth mawr yn y cyd-destun hwn. Ar draws yr adborth a gasglwyd yn ehangach, roedd nifer o'r cyfranogwyr yn canmol effaith gwasanaethau mentora a gwneud ffrindiau (o brofiad) ac y gallent fod yn effeithiol wrth helpu pobl i oresgyn gorbryder a rhwystrau sy'n gysylltiedig â hyder.

Ymatebwyr Sefydliadol

- 6.45 I sefydliadau, mynd i'r afael â diffyg opsiynau trafndiaeth addas oedd y dewis mwyaf cyffredin ar gyfer cael gwared ar rwystrau i fynediad ar lefel genedlaethol. Tynnodd cyfanswm o 13 sefydliad sylw at y pwynt hwn, gyda rhai sefydliadau'n cysylltu presgripsiynu cymdeithasol ag ymgynghoriad trafndiaeth bresennol Llywodraeth Cymru. Ar ben hynny, cyfeiriodd un sefydliad yn uniongyrchol at Strategaeth Drafndiaeth 2021, gan danlinellu'r pwyntiau gweithredu sy'n cael ei nodi ynddi. Pwysleisiodd y sefydliad bwysigrwydd fforddiadwyedd opsiynau trafndiaeth gyhoeddus, ynghyd ag argaeledd – gan ddweud bod hyn yn uniongyrchol gysylltiedig â mynediad.
- 6.46 Cyfeiriodd pedwar sefydliad at hygyrchedd yn fwy cyffredinol, gan gwmpasu pynciau fel allgáu digidol, costau gofal plant, diffyg mynediad mewn ardaloedd gwledig ac annog darpariaeth gwasanaethau y tu allan i oriau arferol.
- 6.47 Soniodd un sefydliad yn benodol am yr angen i ystyried mynediad wrth ddylunio mannau cyhoeddus, y gellid ei 'warantu' trwy ddefnyddio egwyddorion dylunio'r Gwasanaeth Cyffredinol – sy'n sicrhau bod lleoliadau ar gael i'r ystod ehangaf o bobl. Mae cynllunio o'r safbwynt hwn o'r dechrau'n deg yn lliniaru'r angen am addasu, newid neu gostau ychwanegol sy'n gysylltiedig â dyfeisiau cynorthwyol.

- 6.48 Yn ogystal, roedd sefydliadau'n argymhell hyfforddiant i sicrhau bod ymarferwyr yn barod i weithio gyda grwpiau bregus, a gwaith ymchwil pellach i natur unrhyw rwystrau.
- 6.49 Mynegwyd pryder gan un ymatebydd ynghylch y diffyg data sydd ar gael ar gyfer mesur y defnydd o bresgripsiynu cymdeithasol fesul ardal, ac y byddai'n disgwyl casglu a deall mwy o wybodaeth ynglŷn â'r rhwystrau mewn ardaloedd lle mae mwy o amddifadedd economaidd.
- 6.50 Ar nodyn tebyg, cynigiodd sefydliadau eraill y dylid gwneud mwy i ddeall materion sylfaenol yn gyntaf, sydd hefyd yn cael effaith enfawr ar iechyd a lles. Roedd enghreifftiau yn cynnwys:
- Cylchoedd dyled, budd-daliadau, tai a lles cymdeithasol
 - Effaith cyflogaeth wael a budd galwedigaethau iach
 - Cydnabod bod rhai rhwystrau yn gymysgedd o'r ymarferol a'r emosiynol (e.e. gwelodd prosiectau 'Help through Crisis' fod camau gweithredu syml a rhad yn effeithiol iawn, megis darparu dyddiadur a nodi apwyntiadau, tecstio i atgoffa cyn apwyntiadau ac ati.)
 - Ansefydlogrwydd amgylchiadau'r teulu ac edrych ar yr angen i gefnogi'r system deuluol gyfan.
- 6.51 Roedd pedwar sefydliad yn eiriol dros gymorth ar y lefel genedlaethol a ddylai gynnwys gwahanol ieithoedd a diwylliannau. Awgrymwyd y dylai hyn hefyd gyd-fynd â Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru – yn benodol y camau i fapio anghenion diwylliannol, iaith, ac anghenion cyfieithu/cyfieithu ar y pryd pobl o leiafrifoedd ethnig wrth ddefnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol, er mwyn helpu gyda'r gwaith o gynllunio gwasanaethau nawr ac yn y dyfodol.
- 6.52 Ar y lefel genedlaethol, awgrymodd sefydliadau hefyd y dylid cael strwythur talu fforddiadwy ar gyfer gwasanaethau presgripsiynu cymdeithasol, ar gyfer y Llywodraeth a darparwyr gwasanaethau.

Canfyddiadau Gweithdai

- 6.53 Yn y gweithdai, roedd rhanddeiliaid yn annog cydnabod pwysigrwydd cyrraedd y rhai nad ydynt fel arfer yn gadael eu cartrefi – ac na fyddai o bosibl yn clywed am hyn yn unman heblaw ar y teledu, drwy feddyg teulu neu mewn siop leol. Y farn oedd mai'r rôl ar y lefel genedlaethol yn hyn o beth fyddai sicrhau ymgyrchoedd hyrwyddo effeithiol ar deledu.
- 6.54 Awgrymodd rhanddeiliaid hefyd ei bod yn hanfodol ymchwilio i'r rhesymau sy'n cael eu rhoi ar hyn o bryd am, y 'diffyg' rhwng atgyfeiriadau a chyfraddau derbyn go iawn, a bod adrodd am hyn yn digwydd yn gyson. Y teimlad oedd y byddai cael gwell dealltwriaeth o hyn yn cyfeirio ac yn llywio camau mwy effeithiol i gynnal ymgysylltu.
- 6.55 Roedd eglurder a bod yn agored yn thema allweddol arall yn ystod trafodaethau rhanddeiliaid, gyda llawer yn tynnu sylw at bwysigrwydd gosod disgwyliadau clir ar y dechrau – a mynd i'r afael yn rhagweithiol ag unrhyw bryderon/cwestiynau gan ddefnyddwyr gwasanaethau. Yn bennaf, awgrymwyd y byddai'r pryderon hyn yn canolbwyntio ar gost, goblygiadau'n ymwneud ag amgylchiadau presennol (anabledd, er enghraifft), gofynion trafnidiaeth ac ansicrwydd cyffredinol. Wrth i orbryder gael ei nodi fel rhwystr sylweddol arall, roedd rhanddeiliaid yn cysylltu hyn ag ofn yr anghyfarwydd – gan atgyfnerthu gwerth darparu cymaint o wybodaeth â phosibl.
- 6.56 O ran defnyddio cyfathrebu cenedlaethol i oresgyn rhwystrau a hybu ymwybyddiaeth, roedd gan rai rhanddeiliaid safbwyntiau croes mewn perthynas â phwy ddylai gwasanaethau presgripsiynu cymdeithasol eu targedu'n bennaf (rhwng grwpiau hŷn ac iau). Roedd rhai yn dadlau bod pobl hŷn yn fwy tebygol o gael eu hynysu a'u heffeithio gan allgáu digidol, gan eu gosod mewn sefyllfa o'r angen mwyaf. Tynnodd eraill sylw at yr argyfwng iechyd meddwl sy'n cael ei wynebu gan bobl ifanc, a'r ffaith y gall pobl ifanc fod yr un mor ynysig o ran sicrhau bod eu hanghenion iechyd yn cael eu diwallu – gan eu bod yn llai tebygol o fod wedi cael cymorth/mynediad parhaus i feddyg teulu cyson.

- 6.57 Roedd mwyafrif y rhanddeiliaid yn cytuno y byddai angen sylw ar y lefel genedlaethol i benderfynu ar 'gynulleidfa darged' neu ddeall y grwpiau gyda'r angen mwyaf, er mwyn canolbwyntio ymdrechion hysbysebu yn unol â hynny. Gwelwyd bod hyn yn angenrheidiol o ystyried y ffaith bod dulliau cyfathrebu effeithiol ar gyfer cyrraedd y grwpiau hyn bellach yn amrywio'n sylweddol yn ôl ystod oedran.

Canfyddiadau Grwpiau Ffocws

- 6.58 Gofynnwyd i gyfranogwyr y grwpiau ffocws am unrhyw ffactorau sy'n eu llesteirio rhag dod i wybod am gymorth yn y gymuned yn eu hardaloedd lleol. Roedd modd rhannu'r adborth i bedwar prif gategori – diffyg hyder wrth geisio cymorth, anhawster cael gafael ar wybodaeth gywir ar-lein, diffyg ymwybyddiaeth/canfyddiad o weithgareddau yn eu hardaloedd, a difaterwch neu ddiffyg diddordeb (fel pryder yn hytrach na phrofiad uniongyrchol).
- 6.59 Soniodd cyfranogwyr yn y grwpiau pobl hŷn, plant a phobl ifanc, a Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol nad ydynt yn gwybod at bwy i droi i ofyn am help ar y cyfan, ac na fyddent yn gwybod at bwy i droi o ran gwasanaethau presgripsiynu cymdeithasol. Dywedodd un o gyfranogwyr y grŵp plant a phobl ifanc y byddai'n teimlo cywilydd am ymddangos yn dwp pe bai'n gofyn i'r person anghywir. Gallai diffyg hyder ac eglurder yn y maes hwn awgrymu y byddai angen darparu mwy o wybodaeth i oresgyn rhwystrau o ran hunangyfeirio.
- 6.60 Roedd rhai o'r cyfranogwyr hefyd yn sôn eu bod yn ei chael hi'n anodd cael gafael ar wybodaeth ar-lein a'i deall. Yn benodol, mae'n bosibl y bydd angen i ofalwr, gweithiwr cymdeithasol neu aelod o deulu unigolion ag anghenion cymhleth a/neu anabledau gael gwybod am y wybodaeth hefyd ac y dylid ei rhannu gyda nhw.
- 6.61 Datgelodd nifer o gyfranogwyr yn y grwpiau pobl hŷn a phobl ag anabled nad oes gan rai unigolion unrhyw ymwybyddiaeth gyfredol o'r gweithgareddau na'r gwasanaethau sydd ar gael yn eu hardaloedd eu hunain. Roedd y cyfranogwyr hyn ar y cyfan yn gadarnhaol ac yn

croesawu'r cysyniad o bresgripsiynu cymdeithasol ac yn teimlo y byddai eraill yn eu cylchoedd cymdeithasol yn elwa ar wasanaethau presgripsiynu cymdeithasol hefyd pe bai'n cael cyhoeddusrwydd ehangach.

- 6.62 Soniodd nifer fach o gyfranogwyr y grŵp pobl hŷn nad oedd rhai o'u cymheiriaid yn debygol o weld manteision chwilio am gymorth yn y gymuned. Roeddent yn teimlo y gellid priodoli hyn i ddiffyg hyder yn y cysyniad a/neu ddifaterwch tuag ato – o ran credu y gallai cyfranogi wneud gwahaniaeth iddynt.
- 6.63 Ymhlith y pryderon eraill a gafodd eu crybwyll gan gyfranogwyr y grwpiau ffocws oedd y byddai meddygon teulu (sydd eisoes o dan bwysau) yn annhebygol o groesawu trefnu apwyntiadau at ddiben trafod presgripsiynu cymdeithasol. Unwaith eto, mae'n bosibl y bydd angen eglurder yn y maes hwn i helpu'r cyhoedd i ddeall (yn enwedig y rhai nad ydynt erioed wedi gofyn am gymorth o'r blaen) beth mae'r llwybrau atgyfeirio yn ei olygu iddynt yn ymarferol.

Cwestiwn 10b – Pa gamau y gallem eu cymryd ar lefel genedlaethol i helpu i fynd i'r afael â'r rhwystrau i fynediad sy'n wynebu grwpiau mwy agored i niwed ac sydd dan anfantais?

Ymatebwyr Unigol

- 6.64 Roedd ymatebwyr unigol ac ymatebwyr sefydliadol yn gallu awgrymu camau a allai roi cymorth penodol i grwpiau mwy bregus a difreintiedig, a hynny o brofiad. Unwaith eto, nododd 10 o ymatebwyr unigol gysylltiadau trafndiaeth (neu ddiffyg cysylltiadau trafndiaeth) a chysylltedd digidol fel y prif rwystrau.
- 6.65 Roedd rhwystrau pellach yn cynnwys ystyried rhwystrau ieithyddol a diwylliannol. Y teimlad oedd ei bod yn bwysig bod cymunedau'n gallu gweld gwasanaethau presgripsiynu cymdeithasol yn cael eu fframio fel rhywbeth ar eu cyfer nhw, sy'n gofyn am gynrychiolaeth ddilys ar draws pob grŵp. Roedd rhai o'r argymhellion allweddol ynghylch hyn yn cynnwys sicrhau bod gweithgareddau presgripsiynu cymdeithasol yn gallu

cwmpasu ystod amrywiol o fuddiannau a'u bod yn cael eu darparu mewn sawl ffordd wahanol.

6.66 Nodwyd pobl hŷn, grwpiau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, pobl anabl yn ogystal ag unigolion sy'n byw mewn ardaloedd gyda lefelau uchel o dlodi a chymunedau gwledig yn benodol fel grwpiau bregus a difreintiedig. Roedd awgrymiadau ymatebwyr ar gyfer mynd i'r afael â'r rhwystrau hyn yn cynnwys:

- Dysgu gan sefydliadau, rhanddeiliaid ac elusennau presennol
- Darparu arian partneriaeth tymor hwy
- Rhoi'r opsiwn i bobl gael mewnbwn wyneb yn wyneb
- Darparu gofodau ffisegol; llyfrgelloedd, hybiau TG ac ati
- Darparu'r opsiwn ar gyfer ymweliadau cartref.

6.67 Roedd pum ymatebydd hefyd yn argymhell yr angen i siarad yn uniongyrchol â grwpiau mwy bregus a difreintiedig a'u holi ynglŷn â'r rhwystrau, gan ddefnyddio dulliau cyd-gynhyrchu. Cydnabuwyd y gall rhwystrau fod yn gymhleth yn aml, a bod angen i'r rhai sy'n ceisio datblygu ffyrdd o'u goresgyn naill ai feddu ar brofiad byw – neu fod wedi gweithio'n helaeth gyda phobl sy'n meddu ar brofiad byw.

Ymatebwyr Sefydliadol

6.68 Ynghyd ag awgrymiadau am gamau gweithredu, bu sefydliadau hefyd yn rhannu'r rhwystrau niferus a nodwyd ganddynt/yr oeddent yn ymwybodol ohonynt o ran cael gafael ar wasanaethau presgripsiynu cymdeithasol. Yn ogystal â'r materion a godwyd yn y cwestiwn blaenorol, soniodd sefydliadau yn fanylach am iechyd meddwl gwael fel rhwystr, natur wledig cymunedau – nid yn unig o ran diffyg trafndiaeth ond o ran y ddarpariaeth gwasanaethau hefyd – ac incwm isel.

6.69 Cyfeiriodd un sefydliad at sawl maes lle bydd angen cymorth ychwanegol, wedi'i grynhoi fel angen i ganolbwyntio ar ddileu rhwystrau i'r rhai sy'n profi risg uwch o dlodi, allgáu cymdeithasol, gwahaniaethu a thrais.

6.70 Er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn, rhannodd sefydliadau nifer o argymhellion gan ganolbwyntio'n bennaf ar:

- Sefydlu dealltwriaeth gadarn o'r rhwystrau presennol
- Cymorth ariannol i sefydliadau sy'n cefnogi pobl â gofynion ieithyddol a diwylliannol gwahanol
- Cymorth ariannol i rai â phlant
- Ehangu llwybrau atgyfeirio (er mwyn sicrhau bod atgyfeiriadau amhriodol yn dal i gael cymorth priodol)
- Darparu cyrsiau/hyfforddiant sy'n ymwneud â chwalu rhwystrau mynediad, cynyddu profiad a hyder staff
- Creu partneriaethau a rhwydweithiau mwy effeithiol gyda grwpiau amrywiol
- Cyd-gynhyrchu gwasanaethau, gan ymgorffori egwyddorion 'dylunio defnyddwyr' fel bod gwasanaethau'n cael eu llunio'n bwrpasol i ddiwallu anghenion y grŵp defnyddwyr
- Llywodraeth Cymru yn gweithio tuag at gamau gweithredu sy'n helpu i annog amrywiaeth ethnig a chymdeithasol yn y gweithlu presgripsiynu cymdeithasol
- Mwy o ystyriaeth i lwybrau mynediad i blant a phobl ifanc
- Defnyddio fideo fel adnodd i gyfathrebu, a chyflwyno llinell gymorth ffôn bwrpasol
- Creu pecyn cymorth cyfathrebu cenedlaethol sy'n glynu wrth y mantra 'meddwl yn fyd-eang, gweithredu'n lleol' – gan arddangos manteision presgripsiynu cymdeithasol ar raddfa ehangach, ond gyda ffocws penodol ar ymgysylltu â'r rheiny o grwpiau difreintiedig ac amlygu'r manteision posibl iddynt.

Canfyddiadau Gweithdai

6.71 Yn y gweithdai, roedd rhanddeiliaid yn manylu am sawl rhwystr ymarferol o ran mynediad y dylid eu hystyried ym mhob lleoliad. Roedd y rhain yn arbennig yn cynnwys rhwystrau sy'n atal y rhai sydd â chyflyrau iechyd a phoblogaethau hŷn rhag cael gafael ar wasanaethau (e.e. cyfleusterau

toiledau priodol, llwybrau trafndiaeth gyhoeddus, seilwaith ac amgylchedd safleoedd cynnal gweithgareddau).

6.72 Ymhlith yr ystyriaethau pwysig eraill yr oedd:

- Ystyried y rhai â nam ar y synhwyrâu a dulliau i'w galluogi i fanteisio ar wasanaethau
- Ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu targedu a'u darparu ar gyfer pobl niwrowahanol
- Archwilio pam mae'n ymddangos bod grwpiau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn cael eu tangynrychioli yng nghyfraddau atgyfeirio presgripsiynu cymdeithasol
- Nodi'r meysydd sydd â'r angen mwyaf er mwyn targedu ymdrechion; amlygodd un rhanddeiliaid (meddyg teulu) fod cyfleoedd i ryngweithio â phobl ifanc yn arbennig o gyfyngedig (tra bod pobl hŷn yn fwy cyfforddus yn mynd at eu meddyg teulu).

Canfyddiadau Grwpiau Ffocws

- 6.73 Yn gyntaf, gofynnwyd i gyfranogwyr y grwpiau ffocws beth sy'n eu hatal ar hyn o bryd rhag cael mynediad at gymorth yn y gymuned yn eu hardal leol, yna beth fyddai'n eu helpu i gael gafael ar gymorth o'r fath.
- 6.74 Rhestrwyd sawl rhwystr o ran mynediad ar draws sawl grŵp, gan gynnwys diffyg hyder i fynd allan, diffyg cymhelliant, diffyg trafndiaeth, diffyg incwm gwario, nerfusrwydd o ran cyfarfod â phobl newydd (weithiau ers y pandemig COVID-19), ddim yn gwybod beth i'w ddisgwyl a byw mewn ardal wledig.
- 6.75 Soniodd sawl ymatebydd am broblem amser hefyd. Cyfeiriwyd at hynny yng nghyd-destun cyfrifoldebau gofalu gan ddau grŵp (pobl hŷn a gofaluwyr di-dâl) a soniwyd amdano mewn perthynas â bod llawer o weithgareddau yn digwydd yn ystod yr wythnos ac felly'n anymarferol i'r rhai sy'n gweithio o naw tan bump.

- 6.76 Daeth yn amlwg hefyd yn ystod y trafodaethau bod problem amser yn gorgyffwrdd â diffyg argaeledd trafnidiaeth gyhoeddus. Amlygodd nifer o gyfranogwyr (yn enwedig rhai ag anableddau) nad oedd grwpiau a gweithgareddau sy'n digwydd gyda'r nos yn hygyrch iddynt o gwbl – o ystyried pa mor aml mae gwasanaethau bws yn dod i ben yn gynnar gyda'r nos.
- 6.77 Mae'n bosibl crynhoi camau gweithredu i liniaru'r ffactorau hyn fel darparu gwybodaeth *benodol* am hygyrchedd, a fyddai o fudd i bobl hŷn a phobl anabl yn enwedig.
- 6.78 Soniodd un cyfranogwr yn y grŵp gyda phobl hŷn y byddai gwybod bod opsiwn ar gael i wella eu lles trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau o gartref yn chwyldroadol o ran eu gallu i ddod yn rhan o'u cymuned. Roedd nifer o enghreifftiau anecdotaidd a rannwyd gan gyfranogwyr yn dangos fod y cyfle i ymgysylltu'n ddigidol wedi creu posibiliadau newydd ar eu cyfer.

Cwestiwn 11a – A ddylai'r fframwaith cenedlaethol gynnwys set o safonau cenedlaethol ar gyfer cymorth yn y gymuned i helpu i liniaru pryderon diogelu? Dylai / Na ddylai / Ddim yn siŵr

Ymatebwyr Unigol

- 6.79 O'r ymatebwyr unigol, atebodd 38 y dylid cael set o safonau cenedlaethol i helpu i liniaru pryderon diogelu. Atebodd pump gyda 'Na ddylai' clir, ond atebodd 14 'Ddim yn siŵr'. Rhannodd ymatebwyr unigol nifer o bryderon ynghylch cyflwyno safonau cenedlaethol.

Ymatebwyr Sefydliadol

- 6.80 O'r ymatebwyr sefydliadol, atebodd 21 'Dylai', er bod rhybudd ynghlwm wrth lawer o'r ymatebion hyn, gyda sefydliadau'n mynd ati'n rhagweithiol i dynnu sylw at oblygiadau negyddol posibl hyn. Roedd y rhai a ddywedodd 'Dylai' yn cynnig rhesymau am eu hatebion, gan gynnwys y byddai'n

helpu i sicrhau atebolrwydd, ac roedd rhywfaint o deimlad y dylai fod yn 'ofyniad hanfodol'.

- 6.81 Atebodd chwe sefydliad gyda 'Na ddylai' clir, ond ymatebodd nifer o sefydliadau gydag atebion amhendant. Roedd y rhain yn mynegi eu pryderon ynghylch safonau cenedlaethol – gan bwysu'n agosach tuag at ymateb negyddol – ond heb ddweud hynny'n bendant.

Canfyddiadau Gweithdai

- 6.82 Cafwyd adborth cymysg i'r cwestiwn hwn gan randdeiliaid y gweithdai – prif gymhelliant y rhai a ymatebodd yn gadarnhaol oedd pryderon diogelu, roedd prif gymhelliant y rhai a ymatebodd yn negyddol yn ymwneud ag effaith hyn ar grwpiau llai a sefydliadau cymunedol, a'r rhai nad oedd yn siŵr yn betrus rhag eithrio pobl ac yn teimlo y gallai grwpiau/sefydliadau fod angen cymhellion cyn pennu adnoddau ar gyfer hyfforddiant pellach a chadw at ganllawiau.

Canfyddiadau Grwpiau Ffocws

- 6.83 Ni ofynnwyd cwestiwn yn ymwneud â'r thema hon i randdeiliaid y grwpiau ffocws.

Cwestiwn 11b – Os ydych wedi ateb 'dylai', beth yw'r pethau allweddol y dylai'r safonau cenedlaethol ar gyfer cymorth cymunedol eu cynnwys?

Ymatebwyr Unigol

- 6.84 I'r ymatebwyr unigol, diogelu oedd y prif gymhelliant i'r rhai a atebodd 'Dylai' – gyda 15 o ymatebwyr yn nodi y dylai'r safonau cenedlaethol gwmpasu hyn.
- 6.85 Ymhlith yr awgrymiadau ychwanegol o bethau allweddol y dylai'r safonau cenedlaethol ar gyfer cymorth cymunedol eu cynnwys oedd:
- Safonau hyfforddi/tystiolaeth o hyfforddiant parhaus priodol

- Iechyd a diogelwch
- Hyfforddiant cymorth cyntaf
- Safonau monitro
- Yswiriant
- Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)
- Dangosyddion risg/baneri coch
- Set o safonau ymddygiad
- Gweithdrefn gwyno
- Archwiliadau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Ymatebwyr Sefydliadol

- 6.86 Awgrymwyd yr uchod i gyd gan y sefydliad, ond gan dueddu i ganolbwyntio'n agosach ar feysydd sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau a gweithgareddau. Er enghraifft, roedd hynny'n cynnwys pwyslais ar gydraddoldeb, amrywiaeth a hyfforddiant cynhwysiant, yn ogystal â hyfforddiant a chymhwysedd mewn sgiliau cyfathrebu. Fel rhan o hynny, awgrymwyd y dylai sefydliadau a gwasanaethau sicrhau dealltwriaeth dda o'r Ddeddf Cydraddoldeb a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).
- 6.87 Roedd ymateb grŵp cadwraeth y Conservation Volunteers yn amlinellu ei rôl wrth ddatblygu proses sicrhau ansawdd ar gyfer presgripsiynu cymdeithasol yn Lloegr, mewn partneriaeth â'r Rhwydwaith Presgripsiynu Cymdeithasol. Roedd eu hymgyngoriad yn argymhell cwmpasu'r holl feysydd uchod. Yn ogystal, daeth cynigion gan Chwaraeon Cymru i gynghori ar sail y fframweithiau diogelu yn y sector ar hyn o bryd. Ar y cyfan, awgrymodd llawer o sefydliadau y dylid datblygu ar fframweithiau ac adnoddau presennol yr oeddent yn ymwybodol ohonynt.
- 6.88 Roedd nodweddion eraill a nodwyd gan sefydliadau yn canolbwyntio ar egwyddorion a gwerthoedd, er enghraifft darparu eglurder ar ddewis a rheolaeth i ddefnyddwyr gwasanaethau, a chreu teimlad o rymuso.
- 6.89 Yn nodedig, amlygodd nifer o sefydliadau yn benodol na ddylai safonau cenedlaethol 'ymwneud â diogelu yn unig', gan bwysu ar yr ystyriaethau

uchod, yn ogystal â chyfrifoldebau sefydliadau. Disgrifiodd tri sefydliad bwysigrwydd sicrhau ansawdd, a oedd hefyd yn gysylltiedig ag awydd i wella hygredded gwasanaethau. Roedd awgrymiadau'n cynnwys edrych ar farciau ansawdd presennol fel 'Elusen Ddibynadwy' a 'Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr' fel meincnodau ar gyfer llywodraethu. Awgrymodd sefydliadau hefyd y gallai hyn gefnogi graddio a sicrhau bod lefel amlwg o gysondeb ar gyfer gwasanaethau.

6.90 Yn ogystal, soniodd sefydliadau am ystyriaethau pwysig a fyddai'n fwy penodol berthnasol i ddiogelu grwpiau arbennig o fregus. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Deall ac adnabod arwyddion o gam-drin
- At bwy i droi i sôn am bryderon a sut i ymateb i berson ifanc yn sôn am gam-drin
- Recriwtio diogel (ar gyfer gwirfoddolwyr a staff)
- Pethau i'w gwneud ac i beidio â'u gwneud o ran ymddygiad diogel
- Atal
- Meddyginiaeth ac Eiddo Personol.

Canfyddiadau Gweithdai

6.91 Ar ben adleisio'r ymatebion sydd eisoes wedi'u cynnwys uchod, roedd rhanddeiliaid gweithdai a oedd yn cefnogi cael safonau cenedlaethol yn cydnabod angen penodol i weithio 'o fewn y paramedrau diogelwch', y byddai dull un lle ar gyfer popeth yn fuddiol i sicrhau bod sefydliadau'n gofalu am eu staff a'u gwirfoddolwyr yn briodol.

6.92 Y teimlad oedd y byddai cael safonau clir a diffiniol ar waith yn rhoi meincnod i'r gweithlu weithio tuag ato.

Canfyddiadau Grwpiau Ffocws

6.93 Ni ofynnwyd cwestiwn yn ymwneud â'r thema hon i randdeiliaid y grwpiau ffocws.

Cwestiwn 11c – Os ydych wedi ateb ‘na ddylai’ neu ‘ddim yn siŵr’, beth yw eich prif bryderon am gyflwyno safonau cenedlaethol ar gyfer cymorth yn y gymuned, a sut gellid mynd i’r afael â nhw?

Ymatebwyr Unigol

- 6.94 O ran yr ymatebwyr unigol a ddywedodd ‘Na ddylai’ neu ‘Ddim yn siŵr’, roedd ymatebion ysgrifenedig yn amhendant, fel y nodwyd yn y cwestiwn blaenorol. Roedd yr ymatebion ‘Dylai’ (gyda rhybuddion) yn rhoi mwy o fanylion o ran yr hyn y dylid ei gwmpasu a lle gallai problemau posibl godi.

Ymatebwyr Sefydliadol

- 6.95 Roedd sefydliadau yn llawer cliriach o ran eu rhesymau dros rybuddio rhag safonau cenedlaethol.
- 6.96 Yn bennaf, roedd y rhesymau hyn yn ymwneud â chanfyddiad y byddai lefel arall o safonau yn ychwanegiad diangen, a’r pryder y byddai’n gallu bod yn anodd i sefydliadau llai eu bodloni.
- 6.97 O’r rhai a oedd yn datgan yn glir na fyddai angen safonau cenedlaethol (tri ymatebydd), y rhesymau a nodwyd oedd bod sefydliadau eisoes yn destun safonau diogelu lleol a rhanbarthol. Roedd un sefydliad o’r farn fod y safonau presennol wedi bod yn ddigonol yn ystod ei dair blynedd o weithredu, gan nodi fel tystiolaeth y ffaith na chofnodwyd unrhyw broblemau yn ystod y cyfnod hwn.
- 6.98 Yn benodol, dywedodd un sefydliad ei fod yn credu y dylai’r Fframwaith Cenedlaethol fod yn canolbwyntio mwy ar sicrhau bod sefydliadau’n cydymffurfio â Pholisi a Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan, yn hytrach na set o safonau ar wahân.
- 6.99 Gan atgyfnerthu’r safbwyntiau hyn, roedd sefydliadau eraill o’r farn na fyddai cyflwyno safonau cenedlaethol yn ‘ychwanegu gwerth’ – gan annog Llywodraeth Cymru i ochel rhag ychwanegu gofynion biwrocraidd at wasanaethau cymunedol. Yn yr un modd, awgrymodd sefydliadau y dylid

archwilio'r gwir angen am safonau cenedlaethol, a phwysu a mesur hynny yn erbyn risgiau.

- 6.100 Roedd gan eraill gwestiynau pellach hefyd ynghylch sut y byddai safonau cenedlaethol yn gweithio'n ymarferol, er enghraifft sut y byddai'r safonau'n cael eu rheoli ledled y wlad, pwy fyddai'n cynnal y gwaith monitro effaith a sut y byddent yn effeithio ar y gweithlu.
- 6.101 Yn olaf, mewn perthynas â phryderon ynghylch y canlyniadau i sefydliadau llai y byddai disgwyl iddynt fabwysiadu safonau cenedlaethol, holodd sefydliadau sut y byddai safonau'n cael eu bodloni yng nghyddestunau capasiti, adnoddau a chyllid cyfyngedig. Mynegodd sawl sefydliad yr angen i ystyried sut y byddai safonau'n gwahaniaethu rhwng sefydliadau o wahanol faint – gyda rhai'n awgrymu y gallai fod angen dull haenog i liniaru yn erbyn y risg o allgáu.

Canfyddiadau Gweithdai

- 6.102 Yn y gweithdai, roedd y pryderon ynghylch yr effaith ar fudiadau llai ychydig yn fwy amlwg. Soniodd rhai rhanddeiliaid am y risg o golli'r cyfraniad gwerthfawr y mae grwpiau lleol a chymunedol yn ei wneud i bresgripsiynu cymdeithasol. Awgrymodd eraill y gallai hyn fod yn arwydd efallai na fyddai integreiddio â phresgripsiynu cymdeithasol yn llwybr ymarferol i bob sefydliad – yn enwedig o ran y ddarpariaeth ar gyfer pobl sydd ag anghenion cymhleth.

Canfyddiadau Grwpiau Ffocws

- 6.103 Ni ofynnwyd cwestiwn yn ymwneud â'r thema hon i randdeiliaid y grwpiau ffocws.

Cwestiwn 12 – Pa gamau y gallem eu cymryd ar lefel genedlaethol i helpu i oresgyn yr hyn sy'n rhwystro defnyddio technoleg ddigidol ar gyfer cymorth yn y gymuned?

Ymatebwyr Unigol

- 6.104 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr unigol yn cynnig awgrymiadau'n ymwneud â chyflwyno seilwaith ymarferol ar unwaith, er mwyn helpu i oresgyn rhwystrau ynghlwm wrth dechnoleg ddigidol. Soniodd 12 o ymatebwyr am yr angen am rwydwaith cadarn o ganolfannau cymunedol, a llyfrgelloedd yn benodol. Yn yr un modd, cyfeiriodd 12 ymatebydd at yr angen am well Wi-Fi a seilwaith band eang, yn benodol mewn cymunedau gwledig a chymunedau difreintiedig yn ddigidol.
- 6.105 Allan o wyth ymatebydd a awgrymodd y dylid cael gwell mynediad at galedwedd digidol, awgrymodd chwech bod angen grantiau penodol a'r gallu i fenthyl offer digidol. Awgrymodd naw ymatebydd hefyd y byddai buddsoddi mewn hyfforddiant yn helpu i oresgyn rhwystrau.
- 6.106 Nodwyd y dylai gwybodaeth hefyd fod ar gael mewn fformatau ar wahân i ddigidol, a hynny'n cael ei grynhoi gan yr ymateb hwn:
- “Rhan enfawr o fantais presgripsiynu cymdeithasol yw'r glust ddynol sy'n gwrandao a'r sgysiau sy'n digwydd wrth nodi'r cymorth sydd ei angen. Mae hyn yn cael ei golli wrth wthio ymlaen i ddigidol.”
- 6.107 Defnyddiodd nifer o'r ymatebwyr y cyfle i bwysleisio y dylid meithrin perthynas trwy sgysiau go iawn a phartneriaethau â phobl leol a'r gymuned ehangach.

Ymatebwyr Sefydliadol

- 6.108 Argymhellodd sefydliadau y dylid darparu mynediad ar ffurf caledwedd ar gyfer sefydliadau a chymorth gyda'r costau tanysgrifio parhaus ychwanegol sy'n gysylltiedig â rhai platfformau. Tynnodd nifer sylweddol o sefydliadau sylw at angen i hyrwyddo ac ariannu ymdrechion llythrennedd digidol, er mwyn gwahaniaethu rhyngddynt ac unigolion nad ydynt yn hyderus wrth ddefnyddio technoleg. Roedd awgrymiadau'n cynnwys cyllid ar gyfer hyfforddiant a meithrin hyder, gyda sefydliadau'n teimlo bod hynny'n anoddach dod o hyd iddo.

- 6.109 Yn ogystal, awgrymodd sefydliadau y dylid prynu systemau dwyieithog lle mae'r Gymraeg a'r Saesneg wedi'u hintegreiddio'n llawn – er mwyn sicrhau bod modd goresgyn rhwystr mynediad trwy gyfrwng y Gymraeg hefyd.
- 6.110 O ran cymhlethdod yr anghenion yn amrywio o le i le, a rhwng grwpiau unigol, cyfeiriodd sefydliadau at bwysigrwydd dylunio strategaethau digidol ar lefel gymunedol leol, yn hytrach nag ar lefel genedlaethol. Y teimlad oedd y gallai hyn ganiatáu i sefydliadau deilwra eu darpariaeth yn briodol ar gyfer anghenion lleol yn hytrach na gorfod derbyn opsiynau na fyddent o reidrwydd yn addas iddynt.

Canfyddiadau Gweithdai

- 6.111 Roedd adborth y gweithdai yn canolbwyntio ar ymwybyddiaeth o allgáu digidol ac addasu gwasanaethau yn unol â hynny. Roedd rhanddeiliaid yn ymwybodol o'r materion yn ymwneud ag allgáu digidol, gan dynnu sylw at ba mor gyffredin yw tlodi digidol yng Nghymru – gydag un rhanddeiliaid yn nodi nad oes gan 13% o'r boblogaeth fynediad at Wi-Fi.
- 6.112 Roedd ystyriaethau ychwanegol yn cynnwys bod yn ymwybodol o anhawster cael gafael ar gefnogaeth ddibynadwy gyda ffôn symudol, hyd yn oed i'r rhai sydd â mynediad Wi-Fi, ac nad oes gan bawb le tawel/preifat yn eu cartrefi.
- 6.113 O'r herwydd, awgrymwyd bod angen cael dewisiadau amgen ar waith, gan nodi bod digideiddio yn gweithio'n dda ond hefyd yr ymdeimlad bod rhywfaint o gynnwys yn gweithio'n well wyneb yn wyneb. Awgrymodd rhanddeiliaid ei bod yn hanfodol defnyddio technolegau digidol ond i beidio â dibynnu arnynt fel rhywbeth i greu cymunedau o'u cwmpas.

Canfyddiadau Grwpiau Ffocws

- 6.114 Roedd trafodaethau grwpiau ffocws yn ymdrin â'r pwnc o gael gafael ar wasanaethau ar-lein yn fwy cyffredinol, er mwyn darganfod beth sy'n gweithio a beth sydd ddim yn gweithio i gyfranogwyr.

- 6.115 Yn gyffredinol, roedd y cyfranogwyr yn gadarnhaol am y defnydd o dechnoleg ddigidol a galwadau fideo o ran helpu gyda mynediad – pan nad oedd opsiynau wyneb yn wyneb ar gael. Nododd cyfranogwyr fod y sgiliau digidol a gafodd eu datblygu yn ystod y pandemig yn golygu bod cyfranogwyr yn fwy hyderus yn troi at dechnoleg ddigidol a'i defnyddio.

Casgliad Thema 4

- 6.116 O ran Cwestiwn 7, roedd safoni hyfforddiant, gwerthuso/adrodd a gweithdrefnau yn thema gyffredin a fynegwyd mewn ymatebion unigol, ynghyd â mathau trefnus o gyfathrebu a rheoli gyda chynrychiolaeth leol. Nododd ymatebion sefydliadol ystod o gamau gweithredu ar y lefel genedlaethol, gan gynnwys; sefydlu prosesau monitro a gwerthuso cadarn, cysylltu presgripsiynu cymdeithasol â seilwaith iechyd a gofal cymdeithasol presennol, buddsoddi mewn seilwaith, trefniadau ariannu cynaliadwy ac anghenion hyfforddi. Roedd trafodaethau'r gweithdai yn canolbwyntio ar themâu achredu (i sicrhau ymddiriedaeth) a'r angen am gyllid trydydd sector.
- 6.117 Y tu hwnt i ofyn am fwy o gynrychiolaeth leol ar lefel genedlaethol, roedd ymatebion unigol i Gwestiwn 8 hefyd yn sôn y dylai cyllid a darpariaeth gael eu llywio gan wahaniaethau daearyddol, a phwysleisiwyd pwysigrwydd fframweithiau ac ymgyrchoedd cenedlaethol. Cam a gafodd ei gynnig gan ymatebwyr sefydliadol oedd yr angen am gyllid cynaliadwy hirdymor i sicrhau bod gwasanaethau ar gael ar lefel leol i ateb y galw. Awgrymodd rhanddeiliaid y gweithdai y dylid denu'r cyhoedd i ymgysylltu â'r broses a defnyddio eiriolwyr cymunedol sy'n gallu sôn wrth eraill am bwysigrwydd presgripsiynu cymdeithasol. Soniodd pob grŵp ffocws am bwysigrwydd lledaenu gwybodaeth o fewn cymunedau ar lafar.
- 6.118 Rhannodd ymatebwyr unigol nifer o gyfeiriaduron eraill y maent yn eu defnyddio i gasglu gwybodaeth wrth ymateb i Gwestiwn 9. Fodd bynnag, dewisodd nifer sylweddol o bobl ddulliau traddodiadol o gasglu gwybodaeth, megis ar lafar, rhwydweithio cymunedol ac ymgysylltu'n uniongyrchol â sefydliadau ac unigolion. Bu mynychwyr y gweithdai yn

trafod pwysigrwydd y cyfryngau cymdeithasol wrth rannu digwyddiadau a chadw pethau'n fwy cyfredol, ond bod hyn yn ddibynnol ar gynulleidfaoedd yn deall y cyfryngau cymdeithasol a gwybod ble i edrych. Roedd yr ateb mwyaf poblogaidd gan bob grŵp ffocws, heblaw am y grŵp gyda phlant a phobl ifanc, yn sôn eu bod yn defnyddio tudalennau/grwpiau Facebook cymunedol lleol i gael y wybodaeth ddiweddaraf am weithgareddau cymunedol.

- 6.119 Wrth ymateb i Gwestiwn 10, tynnodd llawer o ymatebwyr unigol sylw at y ffaith bod diffyg cynlluniau trafndiaeth gymunedol yn rhwystro mynediad. O ran mynediad at wybodaeth, soniodd yr ymatebwyr am ddulliau rhannu gwybodaeth amgen, mwy "analog", yn ogystal â gwerth gwasanaethau mentora. Soniodd mynychwyr y gweithdai am yr angen i ystyried rhwystrau ymarferol sy'n atal unigolion rhag cael mynediad at wasanaethau, gan ymchwilio i'r rhesymau dros y diffyg rhwng atgyfeiriadau a chyfraddau derbyn, a'r ffaith fod dulliau cyfathrebu i gyrraedd gwahanol grwpiau yn amrywio'n sylweddol. Roedd y rhwystrau a gafodd eu crybwyll gan ymatebwyr y grwpiau ffocws yn rhannu i bedair thema: ddim yn gwybod at bwy i droi i ofyn, trafferth cael gafael ar wybodaeth ar-lein, methu gweld gwybodaeth yn yr ardal leol a methu gweld y budd o chwilio am gymorth yn y gymuned.
- 6.120 Pan ofynnwyd a ddylai'r fframwaith cenedlaethol gynnwys set o safonau cenedlaethol ar gyfer cymorth yn y gymuned i helpu i liniaru pryderon diogelu, atebodd 38 o ymatebwyr unigol 'Dylai', atebodd 5 'Na ddylai' ac atebodd 14 'Ddim yn siŵr'. Ymhlith ymatebion sefydliadol, atebodd 21 o ymatebwyr 'Dylai', dywedodd pump 'Na ddylai' ac ni roddodd y gweddill ateb pendant. Cafwyd adborth cymysg i'r cwestiwn hwn gan randdeiliaid y gweithdai – prif gymhelliant y rhai a ymatebodd yn gadarnhaol oedd pryderon diogelu, roedd prif gymhelliant y rhai a ymatebodd yn negyddol yn ymwneud ag effaith hyn ar grwpiau llai a sefydliadau cymunedol, a'r rhai nad oedd yn siŵr yn betrus rhag allgáu pobl ac yn teimlo y gallai grwpiau/sefydliadau fod angen cymhellion cyn pennu adnoddau ar gyfer hyfforddiant pellach a chadw at ganllawiau.

- 6.121 O ran Cwestiwn 12, soniodd ymatebwyr unigol am yr angen am rwydwaith cadarn o ganolfannau cymunedol, llyfrgelloedd a gwell seilwaith band eang i gymunedau gwledig a chymunedau difreintiedig yn ddigidol, ac y gellid lleddfu hynny trwy grantiau a benthyg offer digidol ochr yn ochr â buddsoddiad mewn hyfforddiant. Yn olaf, mae angen parhau i werthfawrogi gwybodaeth sy'n cael ei darparu ar ffurf annigidol a pherthnasoedd sy'n cael eu meithrin trwy sgysiau a phartneriaethau go iawn. Roedd ymatebion sefydliadol yn cynnig ymchwilio i rwystrau sy'n gysylltiedig â mynediad, hyrwyddo a chyllido hyfforddiant llythrennedd digidol, mynediad at ddyfeisiau ac ymestyn mynediad band eang, ac ehangu a chyd-ddylunio'r cynnig digidol presennol i rymuso pobl sydd wedi'u hynysu'n gymdeithasol a phobl sy'n gaeth i'w cartrefi a'u denu at weithgareddau ar-lein. Roedd yr adborth gan fynychwyr y gweithdai yn canolbwyntio ar ymwybyddiaeth ac addasu gwasanaethau, yn enwedig o ystyried pa mor gyffredin yw tlodi digidol yng Nghymru. Dywedwyd bod digido'n gweithio'n dda, ond bod ymdeimlad hefyd fod peth cynnwys yn gweithio'n well wyneb yn wyneb, yn enwedig wrth greu cymunedau.

7. Thema 5 – Dadansoddi Cynaliadwyedd

Cwestiwn 13 – Pa gamau y gallem eu cymryd ar lefel genedlaethol i gefnogi gwaith partneriaeth effeithiol i sicrhau trefniadau ariannu hirdymor?

- 7.1 Roedd saith ymatebydd yn credu y dylid annog mwy o weithio mewn partneriaeth i sicrhau'r cyllid mwyaf posibl. Awgrymwyd y dylai hyn gynnwys:
- Digwyddiadau ymgynghori ar y cyd
 - Datblygu rhwydweithiau cyswllt
 - Byrddau iechyd i hysbysebu cyfleoedd partneriaeth.
- 7.2 Dywedodd chwe ymatebydd y byddai cynnydd yn argaeledd cyllid hirdymor o fudd, gyda dau yn datgan eu cefnogaeth i gyllid tair blynedd newydd Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, roedd ystyriaeth i sicrhau nad yw'r cylch ariannu bob amser yn dod i ben ar yr un pryd, gan awgrymu cael ffrydiau ariannu sy'n gorgyffwrdd gyda gwahanol ddyddiadau cychwyn yn lle hynny. Yn ogystal, soniodd dau ymatebydd am gael llai o gyfyngiadau ynghlwm wrth y cyllid sydd ar gael ar hyn o bryd, a dywedodd un o'r ddau y byddai gallu cario cyllid drosodd o flwyddyn i flwyddyn yn ganlyniad cadarnhaol.
- 7.3 Soniodd chwe ymatebydd am y defnydd o asesiadau effaith. Byddai ymwreiddio presgripsiynu cymdeithasol ar draws y sector iechyd hefyd yn cynyddu dealltwriaeth oherwydd dull penodol y GIG a'r sector iechyd o adrodd ar effaith gweithgareddau nad yw sefydliadau y tu allan i'r sector yn ymwybodol ohoni neu'n ei deall. Dywedodd un cyfranogwr, mewn perthynas â chwestiwn cynharach, bod angen pontio'r bwloch iaith hwn er mwyn cefnogi gwaith partneriaeth effeithiol.
- 7.4 Soniodd tri ymatebydd y dylai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ddefnyddio cynlluniau strategol, gan ei gwneud yn flaenoriaeth iddynt weithredu rhwydwaith llawn ar draws eu sefydliadau. Ymhelaethodd rhai ymatebwyr ar y pwynt hwn, gan ddweud y gellid creu rhwydwaith ar gyfer sefydliadau sy'n cymryd rhan er mwyn sicrhau cydweithredu gwell.

- 7.5 Thema gyffredin ymhlith llawer o'r ymatebwyr oedd ailwampio'r strwythur ariannu, i'r perwyl hwn; soniwyd am gyllid wedi'i glustnodi, cyllid wedi'i ddyrannu'n unigol, yn ogystal â llai o botiau ariannu annibynnol a chyllid sy'n gorgyffwrdd.

Ymatebwyr Sefydliadol

- 7.6 Fel yn achos nifer o themâu yn yr ymgynghoriad hwn, roedd yr ymatebwyr yn teimlo bod cydweithio'n hanfodol. Dylai dulliau cydweithio ddilyn arfer gorau presennol a dysgu o ddulliau gweithredu'r gorffennol.
- 7.7 Cafodd cysylltu â chyrff ac agendâu allweddol (e.e. iechyd, gofal cymdeithasol, amgylcheddol) yn briodol ei nodi fel peth pwysig i'w wneud. Mae hyn yn cynnwys Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a chynghorau tref a chymuned, yn ogystal ag adrannau lluosog o'r llywodraeth ar lefel leol a chenedlaethol. Soniwyd yn aml am ddatblygu a chefnogi rhwydweithiau effeithiol, gyda lleisiau sefydliadau bach yn cael eu clywed i'r un graddau â lleisiau sefydliadau mawr.
- 7.8 Pwysleisiodd ymatebwyr sefydliadol fod partneriaethau effeithiol a chyllid cynaliadwy yn gofyn am ymrwymiad cenedlaethol clir gan Lywodraeth Cymru a phennu cyfrifoldebau yn glir rhwng y cyfranogwyr dan sylw.
- 7.9 Dywedodd un ymatebydd y dylai partneriaethau ddechrau gyda Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth wedi'i gyd-gynhyrchu, fel bod pob ochr yn deall y disgwyliadau.
- 7.10 Dywedodd un rhanddeiliaid fod "creu partneriaethau effeithiol yn gofyn am gymorth rhagweithiol a pharhaus ac ysgogi parhaus gan Lywodraeth Cymru. Mae angen gwerthfawrogi partneriaid a'u clywed yn gyfartal", a bod hynny'n cael ei lesteirio gan wahaniaethau grym rhwng y llywodraeth a sefydliadau o wahanol feintiau.
- 7.11 Teimlwyd hefyd y dylai sefydliadau'r trydydd sector a phartneriaid perthnasol eraill fod mewn sefyllfa dda i gael digon o lais ac adnoddau i ddylanwadu ar y broses gomisiynu ar lefel leol a sicrhau ei fod yn gynhwysol.

- 7.12 Roedd yr angen i newid sut mae sefydliadau'n cael eu hariannu o blaid cyllid craidd mwy hirdymor yn cael ei grybwyll yn aml.
- 7.13 Roedd llawer o'r ymatebwyr yn ystyried bod Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am sicrhau bod cyrff statudol, Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a chyfranogwyr perthnasol eraill yn cydweithio i sicrhau bod y model yn cael ei ariannu'n dda ac yn cyd-fynd â'r ddeddfwriaeth berthnasol. Roedd rhai yn credu y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu ffurf ar gyllid canolog neu draws-adrannol.
- 7.14 Cafodd cyllid tymor byr ei feirniadu'n hallt. Haerodd llawer o'r ymatebwyr fod yn rhaid darparu cyllid hirdymor o'r dechrau, er bod rhai yn argymhell y gallai rhoi pwyslais cychwynnol ar gyllid hwyluso gwaith partneriaeth effeithiol. Roedd rhai yn nodi pryder am beth fyddai'n digwydd pan fyddai'r arian yn dod i ben.
- 7.15 Roedd strategaethau ariannu a oedd yn cael eu hargymhell yn cynnwys rhoi ymreolaeth i ardaloedd lleol a sefydliadau trydydd sector o ran sut i wario arian, symleiddio ceisiadau am gyllid a sicrhau bod ceisiadau grant yn hyrwyddo cydweithio yn hytrach na chystadleuaeth – gan gynnwys trwy annog a datgan mewn ceisiadau cyllido y dylai sefydliadau sy'n cyfranogi gyflwyno ceisiadau ar y cyd.
- 7.16 Roedd cyllid cynaliadwy yn gysylltiedig ag ystod eang o faterion, gan gynnwys gallu sylfaenol sefydliadau i ddarparu gwasanaethau, canfyddiadau o ansawdd gwasanaeth ac atgyfeiriadau.
- 7.17 Dywedodd un sefydliad:
- “Rydyn ni'n ymwybodol y gall rhai gwasanaethau ffurfiol, fel meddygon teulu, fod yn amharod i gyfeirio unigolion at gymorth gan y trydydd sector oherwydd diffyg hyder yng ngweithrediad parhaus neu gynaliadwyedd y sefydliad trydydd sector neu gymunedol. Mae llwyddiant gweithredu fframwaith presgripsiynu cymdeithasol felly yn dibynnu ar allu sefydliadau trydydd sector a'r sector cymunedol i barhau i ddarparu gwasanaeth, ac i weithwyr proffesiynol gael hyder yn narpariaeth barhaus y gwasanaeth hwnnw y tu hwnt i gylchoedd ariannu tymor byr.”

- 7.18 Gallai defnyddio hyfforddiant a thechnoleg mewn ffordd effeithiol a strategol gefnogi gwaith partneriaeth effeithiol, cymunedau lleol cadarn a chyllid perthnasol.
- 7.19 Yn olaf, trafododd yr ymatebwyr ddulliau o fesur canlyniadau mesur/monitro, gan gyfeirio at bwysigrwydd dangos gwerth (ac arbedion posibl i'r system iechyd – er nad oedd hyn yn cael ei gefnogi gan bawb) a gwerthuso wrth sicrhau cyllid a chymorth pellach i'r model presgripsiynu cymdeithasol. Dywedodd rhai rhanddeiliaid fod gofynion monitro a gwerthuso, fel ceisiadau ariannu, monitro a gwerthuso, yn bwysig. Fodd bynnag, dylent fod yn syml ac ni ddylent gymryd gormod o amser o ystyried y pwysau ar sefydliadau cyflenwi, yn enwedig rhai gydag adnoddau cyfyngedig.

Canfyddiadau Gweithdai

- 7.20 Y thema fwyaf cyffredin a gafodd ei chrybwyll oedd yr angen am gydlynw canolog. Y prif reswm am hyn oedd er mwyn gwerthuso pwy sy'n ariannu beth, yn lle, a beth oeddent yn holi amdano er mwyn osgoi dyblygu neu fylchau mewn gwasanaeth. Os yw hyn yn cael ei gydlynw'n ganolog, teimlai rhai o gyfranogwyr y gweithdai y bydd pwysleisio presgripsiynu cymdeithasol fel rhan annatod o weithrediad gwasanaeth yn arwain at ei lwyddiant.
- 7.21 Rhywbeth arall a gafodd ei nodi'n bwysig gan fynychwyr y gweithdai, ac a oedd yn gysylltiedig â chydlynw canolog, oedd yr angen am gronfa ddata i bartneriaethau, gan nad gwaith hawdd yw cadw cysylltiadau a rhwydweithiau sefydliadol unigol yn gyfoes. Awgrymwyd bod angen i hyn fod ymhlyg wrth symud ymlaen er mwyn sicrhau ansawdd.
- 7.22 Soniodd mynychwyr hefyd am yr angen i fuddsoddi a chynnig sgiliau ac offer i bobl, gan ddweud "nad achos o achub y dydd yw hwn, ond achub y dydd ymhen pum mlynedd". Roedd nifer o fynychwyr y gweithdai yn cadarnhau'r angen am gontractau penagored i sicrhau bod staff yn cael eu cadw.

- 7.23 Yn olaf, crybwyllwyd yr angen i sicrhau bod unrhyw gyllid llwyddiannus yn cyfateb i'r cynnydd yn y galw er mwyn datblygu cymunedau'n effeithiol.

Canfyddiadau Grwpiau Ffocws

- 7.24 Ni ofynnwyd cwestiwn yn ymwneud â'r thema hon i randdeiliaid y grwpiau ffocws.

Cwestiwn 14 – Pa gamau y gallem eu cymryd ar lefel genedlaethol i liniaru effaith y galw cynyddol ar asedau cymunedol lleol a gweithgareddau llesiant?

Ymatebwyr Unigol

- 7.25 Yr ymateb mwyaf poblogaidd ymhlith ymatebwyr unigol oedd y teimlad y byddai angen cynnydd mewn cyllid. Cafodd hyn ei rannu gan 18 o ymatebwyr. Ymhelaethodd nifer o ymatebwyr unigol ar hyn, a chafwyd awgrymiadau ar gyfer dosbarthu cyllid megis cyllidebu cyfranogol a mewnfuddsoddiad neu trwy ffrwd awdurdod lleol bwrpasol. Soniodd tri ymatebydd am glustnodi cyllid at ddibenion presgripsiynu cymdeithasol, yn ogystal ag ategu'r farn mewn cwestiynau blaenorol y byddai cyllid tymor hwy hefyd yn helpu i liniaru'r galw cynyddol.
- 7.26 Roedd pump o'r ymatebwyr yn credu bod cipio data a monitro defnydd yn allweddol i ddarparu gwasanaethau ymatebol sy'n cael eu harwain gan y galw. I'r perwyl hwn, roedd pum ymatebydd hefyd o'r farn y dylid monitro darpariaeth staff i sicrhau adnoddau digonol i allu ymateb i'r twf sy'n cael ei ragweld yn y galw am y gwasanaethau. Yn yr un modd, soniodd pum ymatebydd hefyd am gyfleoedd hyfforddi pellach i staff a gwirfoddolwyr.
- 7.27 Yn olaf, crybwyllodd tri ymatebydd yn benodol sut yr oeddent yn credu y dylid cydgysylltu gwasanaethau, gydag enghraifft y cynllun cyfeirio ymarfer corff yn cael ei amlygu fel arfer da.

Ymatebwyr Sefydliadol

- 7.28 Roedd y themâu sylfaenol a gafodd eu crybwyll gan ymatebwyr sefydliadol i'r cwestiwn hwn yn canolbwyntio ar ddarparu adnoddau a chydweithio.
- 7.29 O ran darparu adnoddau, soniodd yr ymatebwyr yn aml am yr angen am gyllid ar gyfer asedau cymunedol sy'n sail i'r model presgripsiynu cymdeithasol. Yn ddelfrydol, dylai fod yn gyllid craidd neu dymor hwy er mwyn hwyluso parhad. Awgrymodd un ymatebydd y dylid archwilio ffyrdd creadigol o hyrwyddo asedau cymunedol fel rhyddhad trethi.
- 7.30 Roedd llawer o randdeiliaid yn credu y dylai'r arian gael ei reoli'n lleol a llifo'n gyflym i sefydliadau ar lawr gwlad er mwyn gallu cadw staff, cynyddu hyd a lled y gwasanaeth lle bo angen a'i ddarparu mewn ffordd gynaliadwy, yn lle canolbwyntio'n gyson ar recriwtio a cheisiadau am gyllid.
- 7.31 Byddai hyn yn hybu hyder yn y gwasanaethau, ac mae'n elfen hanfodol o'r dull ataliol sydd wedi cael ei gynllunio i arbed costau mewn mannau eraill yn y system.
- 7.32 Roedd cryfhau systemau llywodraethu a goruchwyllo lleol gyda dull "systemau cyfan" hefyd yn cael ei ystyried yn allweddol er mwyn lliniaru effaith y galw cynyddol ar asedau cymunedol lleol.
- 7.33 Soniodd yr ymatebwyr hefyd am yr angen am ddull o rannu neu ganoli gwybodaeth am anghenion, galw ac argaeledd asedau cymunedol er mwyn gallu gwneud y defnydd gorau o adnoddau yn lleol ac yn rhanbarthol. Gall hyn olygu cyfuno adnoddau neu wirfoddolwyr o ystyried y prinder staff tebygol (ar y dechrau, o leiaf). Cyfeiriwyd at gyrrff presennol fel Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a Chynghorau Gwirfoddol Sirol fel cyfryngau posibl ar gyfer cydlynu angen lleol.
- 7.34 Soniwyd sawl gwaith am fuddsoddi mewn gweithredu dan arweiniad y gymuned a datganoli grym. Mae hyn yn golygu sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei gyd-gynhyrchu gan gymunedau ac yn cynnig hyblygrwydd iddynt.
- 7.35 Roedd sawl ymateb yn tynnu sylw at y ffaith bod cymorth effeithiol hefyd yn awgrymu buddsoddiad mewn rhannau eraill o'r system fel nad oes

dibyniaeth ar bresgripsiynu cymdeithasol fel yr unig ateb i broblemau cymhleth.

- 7.36 Roedd syniadau eraill yn cynnwys darparu mwy o fynediad “y tu allan i oriau” at weithgareddau, caniatáu i grwpiau gyfyngu ar atgyfeiriadau, a gweithredu proses adolygu reolaidd ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau presgripsiynu cymdeithasol i asesu pwy sy’n dal i fod angen cymorth “gafael llaw” gan y gwasanaeth. Nododd un ymatebydd fod angen llwybrau ymadael cefnogol, a heriodd sawl un y rhagdybiaeth y bydd y galw ar asedau cymunedol yn cynyddu.

Canfyddiadau Gweithdai

- 7.37 Roedd cyferbyniad yn yr anghenion a nodwyd gan sefydliadau mwy a llai yn amlygu bod angen i bob sefydliad gydweithio a rhannu profiadau er mwyn osgoi dyblygu.
- 7.38 Yn y bôn, ymhelaethodd llawer o gyfranogwyr y gweithdai ar eu hymateb i’r cwestiwn blaenorol, gan bwysleisio bod mwy o alw yn golygu bod angen gweld mwy o gyllid (hirdymor), ond nad yw hyn i’w weld yn digwydd, yn enwedig yn y trydydd sector.
- 7.39 Cafodd yr argyfwng costau byw ei grybwyll fel her i asedau cymunedol a gweithgareddau lles, sy’n golygu bod cynnydd yn y galw ond gostyngiad yn y cyfleusterau sydd ar gael ar yr un pryd. Dywedodd rhai o’r cyfranogwyr bod angen gwerthuso cyllid cymunedol o’r newydd wrth ymateb i’r argyfwng costau byw.

Canfyddiadau Grwpiau Ffocws

- 7.40 Yn gyntaf, gofynnwyd i gyfranogwyr y grwpiau ffocws a oeddent yn credu bod ystod dda o gymorth yn y gymuned yn eu hardal leol, ac yna a fyddent yn hoffi cael mynediad at gymorth yn y gymuned.
- 7.41 Roedd cyfranogwyr ym mhob grŵp yn rhannu amrywiaeth o safbwyntiau ynghylch natur cymorth yn y gymuned yn eu hardal leol, gyda hynny’n ddibynnol ar ba ran o Gymru roeddent yn byw. Roedd cyfranogwyr a oedd

yn byw mewn cymunedau mwy trefol yn teimlo ei fod yn dda iawn yn eu hardaloedd, gydag un cyfranogwr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn dweud bod parciau a chlwb pêl-droed Caerdydd o'i gwmpas, felly roedd llawer o gyfleusterau, ond byddai'n elwa ar fod yn fwy hygyrch.

- 7.42 Soniodd tri o gyfranogwyr y grŵp pobl hŷn fod llawer yn mynd ymlaen, ond roeddent yn teimlo mai dod i wybod am beth sydd ar y gweill sydd bwysicaf. Soniodd nifer o gyfranogwyr hefyd fod COVID-19 yn ffactor sy'n egluro'r gostyngiad yn yr ystod o gymorth sydd ar gael yn y gymuned.
- 7.43 Roedd yr holl gyfranogwyr yn amrywio o ran eu hymateb i'w hawydd i gael mynediad at gymorth yn y gymuned. Yn gyffredinol, cyfranogwyr yn y grŵp pobl hŷn oedd fwyaf cefnogol i hyn. Roedd gan grwpiau eraill deimladau cymysg, gan restru ffactorau megis rhwystrau o ran cyfranogiad (cyfeiriwyd at y rhain yn Thema 4) a'u bod yn ymwneud â digon o weithgareddau eisoes.

Casgliad Thema 5

- 7.44 Roedd consensws ymhlith yr holl grwpiau rhanddeiliaid ynghylch yr angen am ailwampio strategol o ran ariannu gweithgareddau a gwasanaethau presgripsiynu cymdeithasol. Roedd rhanddeiliaid o'r farn nad yw'r ffordd y mae cyllid yn cael ei gynllunio ar hyn o bryd, o ran hyd ac yn ôl math, yn bodloni gofynion y sector. Sylw cyffredin arall oedd y diffyg cydlyniant a/neu gydweithio ymhlith partneriaid mewn presgripsiynu cymdeithasol; y teimlad oedd y gallai gwasanaethau ddod yn fwy effeithiol gyda gwell cydweithio, gan osgoi dyblygu adnoddau.
- 7.45 Roedd barn cyfranogwyr y grwpiau ffocws yn amrywio o ran ansawdd y gweithgareddau a oedd ar gael ac a fyddent yn cyfranogi mewn presgripsiynu cymdeithasol. Roedd yr ystod o farn a safbwyntiau yn gyffredinol yn adleisio'r pwynt a nodwyd gan y rhai sy'n gweithio yn y diwydiant, a oedd o'r farn y dylai gweithgareddau presgripsiynu cymdeithasol ddarparu ar gyfer yr unigolion a'r cymunedau dan sylw, yn hytrach na phwyso ar un dull sy'n gweddu i bawb.

8. Thema 6 – Dadansoddi Mesur Effaith

- 8.1 D.S. Ni ofynnwyd unrhyw gwestiwn yn ymwneud â Thema 6 i randdeiliaid y grwpiau ffocws.

Cwestiwn 15 – Yn eich barn chi, beth yw'r pethau craidd mae angen i ni eu mesur i ddangos effaith presgripsiynu cymdeithasol?

Ymatebwyr Unigol

- 8.2 Roedd ymatebion unigol yn ymwneud â chasglu data ansoddol ac ystod o ddata meintiol a oedd yn canolbwyntio ar yr unigolyn, y gwasanaeth a gwasanaethau iechyd eraill, yn ogystal ag awgrymu dulliau o gasglu data.
- 8.3 Er mwyn mesur effaith presgripsiynu cymdeithasol ar yr unigolyn, tynnodd 19 o ymatebwyr sylw at bwysigrwydd asesu agweddau sy'n draddodiadol yn anoddach i'w mesur, megis lles unigol, hyder, boddhad bywyd ac ymdeimlad o hapusrwydd a pherthyn. Yn ogystal â'r data hwn, roedd pum ymatebydd yn annog mesur patrymau unigol, megis deiet, cwsg, pwysau, BMI, pwysedd gwaed a disgwyliad oes.
- 8.4 O ran y gwasanaeth presgripsiynu cymdeithasol a darparwyd cymorth yn y gymuned, soniodd saith ymatebydd am ddata meintiol, megis nifer yr atgyfeiriadau i'r gwasanaeth, nifer y rhai a gafodd eu hatgyfeirio, nifer yr atgyfeiriadau a anfonwyd yn ôl, a nifer y sesiynau a fynychwyd gan y rhai a gafodd eu hatgyfeirio.
- 8.5 Roedd yr ymatebwyr yn teimlo'n gryf ei bod hi'n bwysig mesur y gostyngiad yn yr ymyriadau meddygol mwy "traddodiadol". Awgrymodd 13 o ymatebwyr y dylid mesur, er enghraifft, ostyngiadau'r gost i'r GIG, y lleihad yn y galw ar wasanaethau iechyd, presgripsiynau meddyginiaethau a chyfnodau mewn ysbyty.
- 8.6 Yn ogystal â'r mesurau meintiol hyn, awgrymodd 17 o ymatebwyr y dylid cyfleu argraff o bresgripsiynu cymdeithasol trwy astudiaethau achos, straeon, arolygon a mecanweithiau adborth eraill a fyddai'n tynnu sylw at agweddau ansoddol presgripsiynu cymdeithasol.

- 8.7 Rhannodd yr ymatebwyr sawl syniad arall am beth i'w fesur hefyd, gan gynnwys ystadegau cyflogaeth, gwybodaeth am staff presgripsiynu cymdeithasol, cydlyniant cymunedol a phenderfynyddion iechyd ehangach. Yn ogystal, soniwyd am fesurau sy'n bodoli eisoes gan gynnwys; EQ-5D-5L¹¹, Dull Achredu sy'n Canolbwyntio ar Gleifion (PCAM)¹² a Graddfa Llesiant Cymdeithasol De Cymru¹³. Mae pedwar ymatebydd yn ystyried bod angen dilyniant cyson a pharhaus er mwyn sicrhau llif cyson o ddata defnyddiol.

Ymatebwyr Sefydliadol

- 8.8 Roedd yr ymatebion sefydliadol yn ymwneud â'r cwestiwn hwn mewn pum ffordd; y canlyniadau sydd angen eu hystyried wrth fesur, cynnig awgrymiadau ar gyfer mesurau o ddata ansoddol a meintiol, awgrymiadau am ddulliau casglu data, problemau a all godi a chatau gweithredu presennol y mae modd eu datblygu.
- 8.9 Awgrymodd yr ymatebwyr fod angen i'r canlyniadau perthnasol ganolbwyntio ar effeithiau hirdymor y fframwaith presgripsiynu cymdeithasol ar bartneriaid statudol, asiantaethau atgyfeirio, darparwyr cymorth yn y gymuned, cymunedau ac unigolion. Mae'r awgrymiadau hyn yn cael eu hamlinellu yn Nhabl 2.

Tabl 2 – Crynodeb o'r ymatebion sefydliadol i Gwestiwn 15 – *Yn eich barn chi, beth yw'r pethau craidd mae angen i ni eu mesur i ddangos effaith presgripsiynu cymdeithasol?*

Pwnc	Canlyniad/Effaith
Partneriaid Statudol	Ydyn nhw'n gwybod sut i atgyfeirio?
	Ydy pobl yn cael y cymorth cymunedol cywir?
	Ydyn nhw'n derbyn adborth ar gamau gweithredu?
	Oes llai o alw am wasanaethau statudol?
Asiantaethau atgyfeirio	Dim awgrymiadau

¹¹ System EQ-5D-5L sy'n cael ei ffafrio wrth fesur ansawdd bywyd oedolion cysylltiedig ag iechyd.

¹² Defnyddir y Dull Asesu Claf-Ganolog ar gyfer gwerthusiad bioseicogymdeithasol sy'n seiliedig ar weithredu o anghenion cleifion.

¹³ Datblygwyd Graddfa Llesiant Cymdeithasol De Cymru (SWSWBS) gan Ysgol Ymchwil Rhagnodi Cymdeithasol Cymru er mwyn gwerthuso a monitro effaith ymyrraeth presgripsiynu cymdeithasol mewn lleoliadau iechyd a gofal. <http://www.wsspr.wales/llesiant.php>

Darparwyr cymorth yn y gymuned	Ydyn nhw'n derbyn atgyfeiriadau?
	Ydyn nhw'n derbyn atgyfeiriadau priodol?
	Ydyn nhw'n gallu ymateb i'r galw? A oes ganddyn nhw restrau aros?
	Ydy staff yn meddu ar y sgiliau angenrheidiol?
Cymunedau	Manteision i'r sefydliadau sy'n cymryd rhan
Unigolion	Mesur lles gan ddefnyddio What Works Wellbeing neu Raddfa Lles Meddyliol Warwig-Caeredin

8.10 O ran mesurau data ansoddol, roedd ymatebion sefydliadol yn dangos ffafriaeth gref i fesurau a oedd yn canolbwyntio ar yr unigolyn gan gynnwys; lles unigol, profiad cadarnhaol pobl sy'n defnyddio straeon wedi'u cofnodi, tystiolaeth ac astudiaethau achos, mesur taith rhywun gan ddefnyddio STAR, mwy o weithgaredd o ran hunan-ofal. Awgrymwyd hefyd fod y mesurau hyn yn cynnwys effaith benodol gwasanaethau presgripsiynu cymdeithasol yn y Gymraeg ar siaradwyr Cymraeg. Mae awgrymiadau penodol ar gyfer mesurau o'r data ansoddol hwn yn cynnwys;

- Llai o deimladau o unigrwydd
- Llai o deimladau o ynysigrwydd cymdeithasol
- Mwy o gymhelliant
- Hunan-werth a hyder gwell
- Lles emosiynol a meddyliol gwell
- Perthnasoedd a rhwydweithiau cymorth gwell
- Mwy o ysgogiad i gwblhau tasgau bob dydd.

8.11 Roedd modd rhannu'r mesurau meintiol a oedd yn cael eu ffafrio yn ddau gategori, yr effaith ar y gwasanaeth iechyd a'r effaith ar gymunedau a chyfranogwyr. Y ffocws o ran ymatebion yn ymwneud â'r gwasanaethau iechyd a gofal oedd lleihau'r galw ar feddygfeydd, llai o angen am wasanaethau gofal cymdeithasol, newidiadau o ran mynychu a meddyginiaethau ar bresgripsiwn. Roedd y mesurau a awgrymwyd o ran yr effaith ar gymunedau ac unigolion yn cynnwys effaith economaidd, mesurau gwerth cymdeithasol ac elw cymdeithasol ar fuddsoddiad. Yn ogystal, awgrymodd rhai fod modd casglu'r mesurau ansoddol uchod a'u

dadansoddi'n feintiol. Roedd y rhai a awgrymodd ddata meintiol hefyd yn awyddus i gasglu data allbwn ar unwaith ar y canlynol:

- Y galw (e.e. atgyfeiriadau sy'n arwain at fynychu)
- Niferoedd sy'n mynychu/cwmp yn y niferoedd
- Niferoedd sy'n methu cael lle ar restrau aros am weithgaredd o'u dewis
- Dangosyddion clinigol, yn ddelfrydol, ar gyfer croestoriad o bobl
- Y defnydd o bresgripsiynu cymdeithasol gan bobl o grwpiau ymylol
- Iaith ddewisol
- Nifer y presgripsiynau cymdeithasol a ddarparwyd yng Nghymru
- Gallu gweithlu i ddarparu presgripsiwn cymdeithasol trwy gyfrwng y Gymraeg.

8.12 Roedd ymatebwyr sefydliadol hefyd yn gallu awgrymu gwahanol ddulliau o gasglu data, modelau a meddalwedd. Roedd adborth parhaus trwy wirio rheolaidd, arolygon a dyddiaduron iechyd a lles digidol yn cael eu ffafrio. Fodd bynnag, pwysleisiwyd nad yw adnoddau ar-lein ar gael i bawb. Ar gyfer gwerthuso, argymhellwyd y dylid cael cyfweiliadau a grwpiau ffocws i gyd-fynd ag arolygon. Amlygwyd dau fodel i'w defnyddio, y Pellter a Deithiwyd a'r Newid Mwyaf Arwyddocaol. Yn olaf, Elemental oedd yr awgrym mwyaf poblogaidd o ran meddalwedd ddefnyddiol ar gyfer casglu data, ochr yn ochr â PROMS a PREMS.

8.13 Tynnodd sefydliadau sylw at nifer o broblemau o ran mesur effaith presgripsiynu cymdeithasol. Yr un a gafodd ei chrybwyll amlaf oedd na ddylai unrhyw fesur bwyso'n ormodol ar ostyngiad yn yr ymweliadau at feddygon teulu ac y dylid, yn hytrach, ganolbwyntio ar brofiad byw yr unigolion. Tynnwyd sylw at y ffaith fod gan bresgripsiynu cymdeithasol y potensial i gynyddu'r galw am rai gwasanaethau iechyd penodol wrth i hyder cyfranogwyr gynyddu. Dylai'r ffocws yma fod ar ddefnydd priodol. Y tu hwnt i hyn, pwysleisiwyd y dylid canolbwyntio ar yr unigolyn, gan y

gallai adrodd mewn fformat safonol fod yn anodd i bobl ag ADY er enghraifft. Yn ogystal, nodwyd;

- Ni ddylai mesur allgáu darparwyr bach
- Mae rhai ymyriadau'n hir dymor/gydol oes ac ni fydd ganddynt ddyddiad cwblhau, ac,
- Mae'n rhaid i systemau rheoli data fod yn hygyrch i bob darparwr gwasanaethau.

8.14 Awgrymodd nifer o'r ymatebwyr y dylai unrhyw fframwaith ddatblygu ar dulliau presennol, gyda'r rhain wedi'u coladu yn Nhabl 3.

Tabl 3 – Dulliau cyfredol a nodwyd wrth ymateb i Gwestiwn 15 – *Yn eich barn chi, beth yw'r pethau craidd mae angen i ni eu mesur i ddangos effaith presgripsiynu cymdeithasol?*

Dulliau cyfredol
Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol Gwasanaethau Cymdeithasol
Academi Genedlaethol Presgripsiynu Cymdeithasol
Datblygu Ymarfer a Gyfoethogwyd gan Dystiolaeth (Deep) gan Brifysgol Abertawe
Model Adfer Coleg
Graddfa Lles Meddyliol Warwig-Caeredin
Sgiliau Gwyllt Lleoedd Gwyllt Ymddiriedolaeth Natur Maldwyn
Methodoleg y Newid Mwyaf Arwyddocaol
Prifysgol De Cymru – Datblygu set ddata sylfaenol graidd ar gyfer fframwaith gwerthuso presgripsiynu cymdeithasol: Astudiaeth Mapio Cysyniad Grŵp

Canfyddiadau Gweithdy

- 8.15 Soniodd cyfranogwyr y gweithdy yn gyson am ddefnyddio mesur safonol er mwyn sicrhau cysondeb ar draws meysydd/daearyddiaethau ac i gymharu rhwng rhaglenni. Byddai cyflwyno pecyn cymorth sy'n crynhoi'r adnoddau sydd eisoes ar gael yn ddefnyddiol i sefydliadau.
- 8.16 Holwyd beth yw'r gwaelodlin ar gyfer mesur yn ei erbyn a dangosyddion posibl y byddai'n fuddiol eu cynnwys. Cafodd COVID-19 ei grybwyll fel anhawster posibl wrth fesur y gwaelodlin.
- 8.17 Soniwyd dro ar ôl tro hefyd am ddefnyddio astudiaethau achos i ategu data meintiol, gan sicrhau pwyslais ar fanteision a gwerth presgripsiynu cymdeithasol i'r unigolyn.

- 8.18 Roedd yr anawsterau a gafodd eu crybwyll yn cynnwys faint o adborth fyddai'n bosibl gan unigolion bregus ac y dylai ymyriadau gael eu haddasu'n bwrpasol i bob person, gan eu gwneud yn anodd i'w crynhoi o ganlyniad. Ateb posibl i hyn fyddai categorieiddio ymyriadau fel cyflogaeth a sgiliau cymdeithasol.
- 8.19 Yn olaf, byddai asesiad effaith gwrthffeithiol yn arf defnyddiol i ddeall i ba raddau y gellir priodoli unrhyw ganlyniadau i ymyriadau presgripsiynu cymdeithasol, yn ogystal â pha ffactorau allanol a fydd wedi effeithio ar eu gweithredu.

Cwestiwn 16a – A oes gennych unrhyw dystiolaeth ymchwil neu werthuso yr hoffech ei rhannu â ni?

- 8.20 Mae rhestr lawn o dystiolaeth ymchwil a gwerthuso a rannwyd gan randdeiliaid wrth ymateb i'r cwestiwn hwn wedi'i chrynhoi ac ar gael yn Atodiad C.

Cwestiwn 16b – A oes gennych unrhyw awgrymiadau ynghylch sut y gellir ac y dylid gwerthuso'r ffordd mae'r fframwaith cenedlaethol yng Nghymru yn gweithredu?

Ymatebwyr Unigol

- 8.21 Cyfeiriodd llawer o'r ymatebwyr at atebion a roddwyd wrth ymateb i Gwestiwn 15. O ran y rhai a wnaeth ymateb i Gwestiwn 16b, mynegwyd yr angen am sianeli adborth effeithiol gan gynnwys:
- Adborth gan bresgripsiynwyr cymdeithasol trwy ddulliau megis holiaduron a grwpiau ffocws
 - Adborth gan y trydydd sector a gweithwyr iechyd proffesiynol
 - Adborth gan y cyhoedd;
- 8.22 Wrth ystyried natur y gwerthuso, awgrymodd pum ymatebydd y dylid defnyddio dulliau cymysg, gan gynnwys: "gwerthusiad ansoddol arloesol, trwy gyfrwng ffilm, ffotograffiaeth, ysgrifennu creadigol, perfformiad..."

- 8.23 Fodd bynnag, pwysleisiodd ymatebwyr na ddylai gwerthuso gweithgarwch presgripsiynu cymdeithasol a'i ganlyniadau ychwanegu baich gweinyddol ychwanegol ond y dylai ganolbwyntio ar fudd cymdeithasol unrhyw fuddsoddiad.

Ymatebwyr Sefydliadol

- 8.24 Ymatebodd sefydliadau i'r cwestiwn hwn trwy ystyried pwy ddylai fod yn rhan o ddatblygu gwerthusiadau, sut y dylai fframwaith gwerthuso edrych, beth ddylai fod yn flaenoriaethau a sut y dylid ei gyflawni.
- 8.25 Y pryder cyntaf oedd y dylai rhanddeiliaid ledled y gwasanaeth fod yn rhan o'r fframwaith gwerthuso, gan gynnwys defnyddwyr gwasanaethau, darparwyr, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol; ar y cyfan, dylai'r dull gweithredu fod yn aml-broffesiwn. Dylai hyn helpu o ran awgrym un ymatebydd y dylid cynllunio'r fframwaith i fonitro cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant o'r cychwyn cyntaf.
- 8.26 Cynigiwyd y dylai monitro a gwerthuso gael eu harwain gan un corff cenedlaethol gyda thimau rhanbarthol. Roedd hyn yn adlewyrchu'r awydd am gysondeb ledled Cymru wrth ystyried amrywiaethau lleol o ran casglu gwybodaeth.
- 8.27 Roedd blaenoriaethau fframwaith gwerthuso yn ffactor hollbwysig i'r sefydliadau a ymatebodd. Fel sy'n amlwg trwy gydol y fframwaith, roedd ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn teimlo bod angen mwy o eglurder ynghylch disgwyliadau'r gwasanaeth. Yn gryno, sut beth yw llwyddiant? Yn yr un modd, teimlwyd y dylai'r gwaith o werthuso ystyried effaith presgripsiynu cymdeithasol ar ymyrraeth gynnar a'r arbedion ariannol i'r GIG.
- 8.28 Dylai gwerthusiadau hefyd flaenoriaethu dysgu hirdymor, gan ganolbwyntio ar wella yn hytrach na phrofi. Ni ddylai fod yn ofynnol i wasanaethau adrodd a darparu tystiolaethu o'r angen iddynt fodoli. Yn hytrach, dylent ganolbwyntio ar ble i wella a datblygu enghreifftiau o arfer gorau. Dylai gwerthuso fod yn gymesur ac yn briodol. I'r un perwyl, awgrymodd un ymatebydd y dylai'r fframwaith gwerthuso fod yn ystyried

cynaliadwyedd y sector, o gofio'r ddibyniaeth ar waith gwirfoddol a chymunedol, sy'n cael ei gyflawni'n bennaf gan fenywod ar gyflogau isel.

- 8.29 Yn olaf, argymhellodd yr ymatebwyr y dylai'r fframwaith gwerthuso fod ar waith cyn cyflwyno'r fframwaith presgripsiynu cymdeithasol. I helpu gyda hyn, argymhellwyd y dylid ystyried cynnal cynllun peilot gydag ambell sefydliad er mwyn llunio gwaelodlin cyn cyflwyno, pennu rhwyddineb defnyddio'r fframwaith a defnyddioldeb y data sy'n cael ei gasglu. Argymhellwyd bod Llywodraeth Cymru yn cydweithio ag Ysgol Ymchwil Rhagnodi Cymdeithasol Cymru.

Canfyddiadau Gweithdai

- 8.30 Yn ystod y sesiynau gweithdai, pwysleisiodd nifer o'r cyfranogwyr yr angen am fframwaith gwerthuso cenedlaethol a allai ganolbwyntio ar y model rhesymeg ynghlwm wrth ganlyniadau cenedlaethol.
- 8.31 Byddai cynnwys set graidd o ganlyniadau i sefydliadau allu eu cymharu a'u mesur mewn ffordd gyson hefyd yn rhoi arwydd o ansawdd. Ymhelaethodd cyfranogwr arall ar hyn, gan amlinellu'r angen am hyblygrwydd canlyniadau sy'n ystyried cyd-destun lleol a'r adnoddau sydd ar gael.
- 8.32 Soniwyd am fetrig elw cymdeithasol ar sail buddsoddiad fel ffordd fuddiol o fesur effeithiolrwydd gweithgareddau'r trydydd sector.
- 8.33 Yn olaf, soniodd sawl cyfranogwr yn y gweithdai y dylai grwpiau defnyddwyr fod yn llywio'r metrigau sy'n cael eu defnyddio, ochr yn ochr â monitro effeithiol ac na ddylent werthuso'r hyn sydd angen ei werthuso.

Casgliad Thema 6

- 8.34 Wrth ymateb i Gwestiwn 15, cytunodd ymatebwyr ar draws y tri grŵp bod mesur effaith presgripsiynu cymdeithasol yn gofyn am gymysgedd o fesurau meintiol ac ansoddol a oedd yn canolbwyntio ar yr unigolyn, y gymuned, a'r gwasanaethau ieuchyd.

- 8.35 Pwysleisiwyd na ddylid gogwyddo hyn tuag at yr effaith ar wasanaethau iechyd, yn enwedig gallu presgripsiynu cymdeithasol i leihau llwyth gwaith meddygon teulu. Mynegwyd pryderon am or-werthuso ac effaith bosibl hynny ar unigolion a darparwyr cymunedol, gyda'r ymatebwyr yn argymhell bod y fframwaith yn atgyfnerthu dulliau presennol.
- 8.36 Mynegodd ymatebion i Gwestiwn 16b yr awydd am fodel cenedlaethol cyson o werthuso ledled Cymru, gyda hyblygrwydd yn rhan ohono a thimau rhanbarthol i ystyried cyd-destunau rhanbarthol. Yn ogystal, roedd yn bwysig i'r ymatebwyr bod unrhyw fframwaith gwerthuso yn cael ei ddatblygu ochr yn ochr â grwpiau defnyddwyr, cyfranogwyr a darparwyr, ac y dylai'r model gwerthuso hwn fod ar waith cyn i'r fframwaith presgripsiynu cymdeithasol gael ei gyflwyno.
- 8.37 Yn olaf, argymhellwyd bod y gwerthusiad yn ansoddol ac yn feintiol er mwyn cwmpasu cymaint o ddata â phosibl, yn enwedig profiad yr unigolyn ac effaith presgripsiynu cymdeithasol ar y gymuned.

9. Thema 7 – Dadansoddi'r Gweithlu

- 9.1 D.S. Ni ofynnwyd unrhyw gwestiwn yn ymwneud â'r thema hon i randdeiliaid y grwpiau ffocws, gan fod y set hon o gwestiynau wedi cael ei thargedu at ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn hytrach na'r grwpiau blaenoriaeth a nodwyd.

Cwestiwn 17a – Beth yw'r wybodaeth a'r sgiliau allweddol y dylai'r fframwaith cymhwysedd arfaethedig eu cynnwys?

Ymatebwyr Unigol

- 9.2 Sgiliau cyfathrebu a oedd yn cael y flaenoriaeth gan ymatebwyr unigol. Soniodd wyth ymatebydd am bwysigrwydd gwranddo gweithredol a sgiliau cyfathrebu yn ehangach, ac y dylai hynny gael ei gwmpasu gan sgiliau arwain a threfnu mwy cyffredinol. Soniwyd am bwysigrwydd sgil cyfathrebu penodol, cyfweld ysgogol, gan dri ymatebydd. Tynnodd dau ymatebydd sylw at bwysigrwydd cyfathrebu dwyieithog ym maes presgripsiynu cymdeithasol.
- 9.3 Mae'r wybodaeth yr oedd ymatebwyr yn teimlo y dylid ei blaenoriaethu yn y fframwaith cymhwysedd yn canolbwyntio ar ymwybyddiaeth o anghenion iechyd meddwl a lles, adnabyddiaeth o ardaloedd lleol a gwybodaeth am arferion gorau. O ran ymwybyddiaeth o anghenion iechyd meddwl a lles, tynnodd saith ymatebydd sylw at "gymorth cyntaf iechyd meddwl" – mae hyn yn ymwneud â dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o iechyd meddwl a lles, a sut i gefnogi rhywun yn hyn o beth, pe bai angen cymorth arnynt. Roedd pump o'r ymatebwyr yn teimlo ei bod yn bwysig meddu ar ddealltwriaeth dda o rwydweithiau a chymunedau lleol sydd eisoes yn bodoli, yn ogystal â chydabod a defnyddio gwybodaeth leol. Yn olaf, roedd pedwar ymatebydd yn annog edrych ar yr arferion gorau mewn mannau eraill, megis o Loegr a'r Alban – mae cael enghraifft o'r hyn sydd eisoes wedi gweithio yn effeithlon a defnyddiol.

Ymatebwyr Sefydliadol

- 9.4 Roedd ymatebion sefydliadol yn cynnig awgrymiadau manylach, er eu bod unwaith eto yn canolbwyntio ar gyfathrebu a gwybodaeth am iechyd. Roedd meithrin perthynas yn ffocws ychwanegol, gyda sgiliau cyfathrebu angenrheidiol a nodwyd yn cynnwys y gallu i eistedd gydag unigolion yn ystod sgysiau anodd heb geisio datrys y broblem, ymgysylltu a chefnogi pobl, ac asesu cryfderau ac anghenion unigolion. Roedd sgiliau cyfathrebu penodol pellach yn cynnwys: pwysigrwydd “sgysiau beth sy’n bwysig i chi”, cyfweld ysgogol a chynllunio cydweithredol.
- 9.5 Roedd y ffocws ar brofiad ym maes iechyd yn codi o safbwynt pwysigrwydd gofal sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn. Roedd deall a bod yn gyfforddus wrth weithio gyda phobl â gwahanol anghenion iechyd ac anghenion cymhleth, gan gynnwys namau cyfathrebu, lefelau poen yn amrywio, heriau iechyd meddwl, anabledau dysgu a dementia, yn cael ei ystyried yn fuddiol. Arweiniodd hyn at yr angen am sgiliau i gynnwys ymarfer sy’n ymwybodol o drama ac ymarfer sy’n ymwybodol o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod, technegau cwnsela a newid ymddygiad ac atal hunanladdiad. Yn ogystal, roedd sefydliadau’n credu bod ymarfer a gwybodaeth am ddiogelu yn hollbwysig.
- 9.6 Yn debyg iawn i’r ymatebion unigol, roedd sefydliadau’n teimlo bod meddu ar wybodaeth fanwl o asedau cymunedol lleol a pholisïau perthnasol, deall sut y gall ymarferwyr alluogi datblygiad cymunedol, gweithio ar draws sectorau, a chynnig tystiolaeth am ganlyniadau i gyd yn elfennau hanfodol o bresgripsiynu cymdeithasol. Amlygwyd gwybodaeth o’r Gymraeg ac ymwybyddiaeth ieithyddol yn y cyd-destun hwn hefyd. Soniwyd y dylai’r rhaglen gynnwys amser i bresgripsiynwyr cymdeithasol ddatblygu’r wybodaeth hon, meithrin perthnasoedd a dod yn rhan annatod o’r gymuned.

Canfyddiadau Gweithdai

- 9.7 Pwysleisiodd rhanddeiliaid na fyddai recriwtio ar sail achrediadau a chymwysterau yn unig yn ddigon, a bod cyfathrebu a sgiliau eraill yn bwysig ym maes presgripsiynu cymdeithasol.
- 9.8 Dylid cynnwys y cysyniad o 'gymhwysedd diwylliannol' – er mwyn sicrhau bod y model mor gynhwysol â phosibl, dylai hyn gwmpasu pethau fel credoau crefyddol, trawma, rôl profiadau'r gorffennol a sut y gallai niwroomrywiaeth effeithio ar y ffordd y caiff gwybodaeth ei chyfleu, er mwyn deall sut mae'r pethau hyn yn llunio anghenion cleifion.
- 9.9 Ystyriwyd bod crebwyll trylwyr yn arbennig o bwysig wrth ystyried a goresgyn camsyniadau (h.y. na fyddai pobl awtistig eisiau cael presgripsiwn ar gyfer gweithgareddau cymdeithasol). Roedd hyn hefyd yn berthnasol i oresgyn rhagfarn a rhagfarn ddiarwybod – a'r angen i sicrhau bod gweithgareddau sy'n cael eu presgripsiynu yn berthnasol yn ddiwylliannol ac yn darparu manau diogel ar gyfer grwpiau ymylol.
- 9.10 Soniodd rhanddeiliaid hefyd am safonau a gwerthoedd gan gynnwys empathi, cydweithio a gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Roedd diogelu ac eglurder ynghylch llwybrau atgyfeirio hefyd yn ystyriaeth allweddol, ac yn cael eu crybwyll yn fanwl o dan themâu eraill yn yr ymgynghoriad.

Cwestiwn 17b – Sut orau y gall y fframwaith cymhwysedd arfaethedig ategu'r safonau proffesiynol presennol?

Ymatebwyr Unigol

- 9.11 Roedd pump o'r ymatebwyr yn annog defnyddio safonau a mesurau proffesiynol presennol a'u hefelychu lle bo modd. Tynnodd dau ymatebydd sylw at y ffaith y gallai hyn fod yn gyfle i ffurfioli safonau proffesiynol presgripsiynu cymdeithasol a sicrhau ansawdd a llywodraethu.
- 9.12 Fodd bynnag, rhybuddiodd ymatebydd arall yn erbyn safonau proffesiynol dryslyd o ran presgripsiynu cymdeithasol, gan nad oedd "yn broffesiwn

cofrestredig”. Ar ben hynny, cwestiynwyd hefyd a yw'r safonau proffesiynol presennol yn cael eu hasesu'n gywir. Os nad ydynt, gallai ceisio eu hefelychu fod yn gam gwag. Rhybuddiodd un ymatebydd y dylid gochel rhag i bresgripsiynu cymdeithasol fynd yn rhy arbenigol neu wro'n rhy bell trwy bwysu ar safonau rhy drylwyr – gallai hyn arwain at gollu nod craidd presgripsiynu cymdeithasol.

Ymatebwyr Sefydliadol

- 9.13 Y pwynt a gafodd ei grybwyll amlaf oedd yr angen i gysylltu'r fframwaith cymhwysedd arfaethedig â'r safonau presennol lle bynnag y bo modd. Gofynnodd nifer o'r ymatebwyr am un set o safonau, sy'n golygu y dylai fframwaith cymhwysedd newydd gwmpasu'r safonau perthnasol presennol. Mae'n bosibl y bydd hyn yn gofyn am fapio safonau proffesiynol presennol i ddeall sut mae presgripsiynu cymdeithasol yn cyd-fynd â nhw.
- 9.14 Roedd y safonau a gafodd eu crybwyll yn cynnwys:
- safon presgripsiynu cymdeithasol y PRSB,
 - Safonau ar gyfer Gweithwyr Proffesiynol Fferyllfa,
 - y fframwaith presgripsiynu cymdeithasol ar gyfer Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd,
 - Cynllun Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff,
 - Fframwaith TrACE Iechyd Cyhoeddus Cymru, sy'n cael ei ddatblygu,
 - safon iechyd y cyhoedd newydd y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC) a,
 - y fframwaith gyda Gofal Cymdeithasol Cymru.
- 9.15 Rhybuddiodd rhai ymatebwyr nad yw efallai yn syniad da i fynnu bod safonau proffesiynol yn hanfodol i'r fframwaith presgripsiynu cymdeithasol, gan y gallai arwain at ganfyddiad bod risg yn cael ei ddosbarthu'n fwy tebyg i leoliad gofal iechyd neu fel arall, yn gallu peri i sefydliadau beidio â chymryd rhan. Pwysleisiodd un ymateb y dylid

canolbwyntio ar gefnogi gweithlu nad yw'n cael ei reoleiddio'n broffesiynol.

Canfyddiadau Gweithdai

- 9.16 Roedd rhanddeiliaid yn ei chael hi'n anoddach cynnig sylwadau ar sut y gallai'r fframwaith arfaethedig ategu'r safonau gorau presennol. Awgrymodd rhai y byddai'n anodd dweud hynny hyd nes y bydd diffiniad terfynol o bresgripsiynu cymdeithasol – ac yn unol â hynny, dealltwriaeth gytûn o ba gymwysterau sylfaenol sy'n ofynnol ar gyfer unrhyw un sy'n ymwneud â phresgripsiynu cymdeithasol.
- 9.17 Roedd rhanddeiliaid yn ei chael hi'n anodd cynnig awgrymiadau penodol, heblaw am y Diploma Lefel 4 mewn Cyngor ac Arweiniad (yn dilyn y pwyslais ar gynnal sgiliau cyfathrebu da). Roedd rhai rhanddeiliaid yn poeni hefyd y byddai cael cymwysterau cysylltiedig â safonau yn gallu allgáu sefydliadau ar lawr gwlad sy'n darparu gwasanaethau gwerthfawr.

Cwestiwn 18 – A oes manteision a/neu anfanteision o ran addysg a hyfforddiant i fod yn sail i'r fframwaith cymhwysedd, sydd wedi'u hachredu'n academiaidd?

Ymatebwyr Unigol

- 9.18 Roedd ymatebion unigol i'r cwestiwn hwn yn amrywio o'r cymysg i'r cadarnhaol, gyda saith ymateb yn datgan yn syml fod manteision ac anfanteision, y rhan fwyaf yn cynnig buddion, tra bod dros ddwsin yn rhybuddio rhag mynnu achrediadau academiaidd fel sail i'r fframwaith cymhwysedd.
- 9.19 Roedd manteision y cyswllt hwn yn ymwneud ag ansawdd y gwasanaeth presgripsiynu cymdeithasol a sefydlu presgripsiynu cymdeithasol fel gyrfa. Dywedodd naw o'r ymatebwyr y bydd addysg a hyfforddiant yn helpu i gynnal cysondeb a safonau sy'n ymwneud â phresgripsiynu cymdeithasol ac y gall hefyd gynnig dilysrwydd/dylanwad i'r proffesiwn a hybu hyder presgripsiynwyr cymdeithasol ar yr un pryd. Drwy'r hyfforddiant hwn,

roedd tri ymatebydd yn credu y byddai'n helpu presgripsiynwyr cymdeithasol i ddeall eu rôl yn well a chynorthwyo i wella sgiliau.

- 9.20 Dywedodd tri ymatebydd y byddai addysg a hyfforddiant yn caniatáu i bobl ddeall rôl y presgripsiynydd cymdeithasol yn well, y byddai'n hybu ymwybyddiaeth o'r rôl, y byddai'n cynorthwyo statws presgripsiynu cymdeithasol ac yn cynnig sicrwydd i bobl sy'n mynd i chwilio am bresgripsiynu cymdeithasol. Yn gryno, roedd y cysylltiad hwn yn cynnig rhyw fath o sicrwydd ansawdd.
- 9.21 I'r un perwyl, roedd rhai ymatebwyr o'r farn y byddai'r cysylltiad yn sicrhau bod presgripsiynu cymdeithasol yn cael ei ymwreiddio o fewn iechyd a gofal cymdeithasol. Dywedodd pedwar o'r ymatebwyr y byddai addysg a hyfforddiant yn gallu darparu llwybrau datblygu proffesiynol a datblygiad gyrfaoel ffurfiol. Roedd eraill yn credu y bydd y rhai sy'n angerddol am bresgripsiynu cymdeithasol yn croesawu'r cyfle i gael addysg a hyfforddiant pellach
- 9.22 Ar y llaw arall, roedd nifer o'r ymatebwyr yn teimlo y gallai'r cysylltiad ag addysg weithredu fel rhwystr a gwneud presgripsiynu cymdeithasol yn fwy anhyblyg ac arwain at fwy o allgáu. Mae pum ymatebydd yn rhybuddio y gall addysg a hyfforddiant ychwanegu gormod o gyfyngiadau/gofynion ac anhyblygrwydd i bresgripsiynu cymdeithasol, gan deimlo y gallai fynd yn rhy ddisgybledig a chreu mwy o allgáu. Soniodd pedwar ymatebydd nad yw hyfforddiant achrededig bob amser yn golygu bod rhywun yn ddigon cymwys i wneud y gwaith. Mae profiad a deallusrwydd emosiynol yr un mor bwysig. Mae dau ymatebydd yn awgrymu rhaglenni "hyfforddi'r hyfforddwr", ac nad yw sefyllfaoedd academaidd yn gweithio i bawb bob tro. Ar ben hynny, awgrymodd un ymatebydd ei bod yn bosibl cael hyfforddiant ond nad oes rhaid iddo fod yn academaidd o reidrwydd. Soniodd dau ymatebydd fod addysg a hyfforddiant yn bwysig, ond y gallai fod yn ddewisol. Byddai addysg a hyfforddiant gorfodol yn gallu bod yn ataliol i rai. Dywedodd un ymatebydd y gallai fod yn ymarfer hir a chostus.

Ymatebwyr Sefydliadol

- 9.23 Nodwyd manteision ac anfanteision gan ymatebwyr sefydliadol. Nodwyd manteision ar gyfer y gwasanaeth yn ei gyfanrwydd, ar gyfer presgripsiynwyr cymdeithasol ac ar gyfer cymunedau. Roedd yr ymatebwyr yn teimlo y byddai cael achrediad yn sail i'r fframwaith yn ychwanegu gwerth ac yn gweithredu fel math o sicrwydd ansawdd, gan roi hyder i'r rhai sy'n cael eu hatgyfeirio at y gwasanaeth a darparu lefel o ansawdd cydnabyddedig a safonol. Roedd teimlad y byddai'r addysg a'r hyfforddiant yn cynnig sylfaen i'r gallu i weithredu'r fframwaith, yn darparu arbenigedd i gymunedau ac yn caniatáu mwy o gydraddoldeb o ran darpariaeth. Yn olaf, roedd sefydliadau'n teimlo y byddai addysg yn bwysig ar gyfer datblygu gweithlu'r dyfodol, gan greu rhwydwaith ar gyfer gweithwyr, tra hefyd yn cefnogi eraill i drosglwyddo i'r gweithlu, neu drosglwyddo i rolau eraill yn y sector iechyd gan feithrin ymwybyddiaeth o bresgripsiynu cymdeithasol ar draws y gwasanaeth iechyd.
- 9.24 O ran anfanteision, nododd nifer o'r ymatebwyr y gallai hyfforddiant achrededig academaidd atal rhai sefydliadau llai oherwydd y gost; gallai lesteirio recriwtio a chadw staff a gorbrosffesiynoli'r gweithlu. Roedd un sefydliad yn poeni y byddai gweithwyr yn symud ymlaen i swyddi gwahanol, gyda chyflogau uwch. Mynegwyd pryder sawl tro hefyd y gallai cymwysterau academaidd daflu cysgod dros brofiad byw pwysig. Dylai unrhyw gymwysterau gydnabod sgiliau meddal ac ni ddylent ddibrisio sefydliadau sy'n gweithio ar sail ymddiriedaeth. Dywedodd un ymatebydd y gallai cymwysterau academaidd fod yn "ymarfer blwch ticio" i bob pwrpas, tra bod eraill yn dweud y dylid canolbwyntio ar sgiliau a phriodoleddau. Dylai unrhyw addysg a hyfforddiant roi ystyriaeth ofalus i rwystrau fel cost, amser a llwyth gwaith presennol, ac ni ddylai allgáu y bobl hynny sy'n gwneud y gwaith hwn ar hyn o bryd. Yn ogystal, mae'n rhaid i fframwaith yn y dyfodol sy'n cynnwys achrediad ystyried bandiau cyflog, telerau ac amodau presgripsiynwyr cymdeithasol presennol.
- 9.25 Yn y pen draw, argymhellodd sawl ymatebydd na ddylai achrediad academaidd fod yn orfodol, gydag un yn awgrymu safonau ansawdd gofynnol yn lle hynny, gydag unrhyw achrediaid ffurfiol yn gaffaeliad

ychwanegol. Rhybuddiodd yr ymatebwyr hefyd fod yn rhaid sicrhau ansawdd yr holl hyfforddiant, a'i bod yn ofynnol iddo fod hygyrch o'r cychwyn cyntaf, gydag un ymatebydd yn pwyntio at ddatganiad y Personalised Care Institute mai dim ond megis dechrau y mae rôl y gweithiwr cyswllt, a dim ond wedi iddo ddatblygu ymhellach y dylid ystyried achrediad. Soniodd yr ymatebwyr hefyd am yr angen i bennu rhestr o gymwyseddau sy'n addas i faint y sefydliad a sicrhau bod unrhyw hyfforddiant angenrheidiol yn hygyrch ac yn rhad ac am ddim o bosibl, o ystyried y colledion o ran amser ac arian i gyllidebau sefydliadau'r trydydd sector.

Canfyddiadau Gweithdai

- 9.26 Yn bennaf, roedd rhanddeiliaid yn pwysleisio'r angen am gyllid hirdymor i sefydliadau er mwyn cyflawni hyn. Mae perygl i gyllid cyfyngedig neu gyllid am gyfnod penodol ei gwneud hi'n anodd buddsoddi mewn cyfleoedd hyfforddi sydd o fudd yn yr hirdymor, gan wneud i ffwrdd â'r gallu i gynllunio ar gyfer y dyfodol. Bydd hefyd yn hanfodol ystyried goblygiadau cost, er mwyn osgoi allgáu sefydliadau llai yn gyfan gwbl. Awgrymodd rhai hefyd y gallai tlodi digidol fod yn ffactor, ac na allwn dybio bod yr adnoddau digidol gan bob sefydliad/unigolyn i gymryd rhan yn yr addysg a'r hyfforddiant hwn.

Cwestiwn 19 – Pa gamau eraill y gallem eu cymryd ar lefel genedlaethol er mwyn helpu i ddatblygu'r gweithlu?

Ymatebwyr Unigol

- 9.27 Tynnodd 14 o ymatebwyr unigol sylw at bwysigrwydd hyfforddiant neu addysg, yn enwedig hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar y byd go iawn, sydd yn hygyrch ac sy'n ystyried iechyd meddwl a lles staff.
- 9.28 Roedd natur yr hygyrchedd yn ystyried y modd o gyflwyno a chyfyngiadau ariannol, gyda chwe ymatebydd yn sôn am gymorth ariannol/iawndal am

amser sy'n cael ei dreulio yn hyfforddiant/tâl priodol, a bod cyllid pellach yn angenrheidiol.

- 9.29 Roedd ffurf unrhyw addysg/hyfforddiant yn bwysig hefyd, gyda chymhariaeth rhwng cyfleoedd academiaidd ac anacademaidd yn cael sylw. Soniodd pum ymatebydd am gydweithio a rhannu gwybodaeth rhwng sectorau. Tynnodd dau ymatebydd sylw at bwysigrwydd cynnal fforymau cymorth anffurfiol i gael trafodaeth gyfrinachol am rai materion sy'n dod i'r amlwg yn ymarferol. Byddai'n gyfle i leddfu baich/rhannu mewn gofod diogel, ac yn gyfle i gydweithio hefyd.
- 9.30 Roedd ymatebwyr unigol hefyd yn awyddus i weld Llywodraeth Cymru'n hyrwyddo presgripsiynu cymdeithasol fel llwybr gyrfaol ac yn hybu ymwybyddiaeth o fanteision a lles presgripsiynu cymdeithasol.

Ymatebwyr Sefydliadol

- 9.31 Pwysleisiodd llawer o'r ymatebwyr werth hyfforddiant, sydd ar gael yn Gymraeg a Saesneg, gan gynnwys ar hyfforddi, newid ymddygiad, dulliau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau a sut i gefnogi sefydliadau lleol. Gallai hyfforddiant fod yn benodol ar gyfer gweithio gyda grwpiau arbennig (e.e. pobl ifanc) ac yn gysylltiedig â mentrau datblygu'r gweithlu eraill mewn gwahanol sectorau. Dylai unrhyw hyfforddiant fod yn hygyrch i boblogaethau gwledig.
- 9.32 Pwysleisiodd nifer o'r ymatebwyr yr angen i gefnogi'r rhai sy'n gweithio ym maes presgripsiynu cymdeithasol er mwyn atal gorweithio a hwyluso cadw staff. Mae hyn yn golygu cynnwys amser, cyllid ac adnoddau ar gyfer presgripsiynwyr cymdeithasol i gael y wybodaeth ddiweddaraf am asedau cymunedol lleol, meithrin perthnasoedd yn eu cymunedau a sicrhau eu bod yn cael eu goruchwyllo'n briodol ac nad ydynt yn cael eu gorfodi i weithio y tu hwnt i'w gallu. Awgrymodd sawl ymateb y dylid cael rhwydweithiau ymarferwyr cenedlaethol a lleol er mwyn cefnogi gyd-gymorth a chyd-ddatblygiad. Yn ogystal, tynnodd sawl ymatebydd sylw at y ffaith fod llawer o'r rhai sy'n gweithio yn y sector hwn yn fenywod ar

gyflogau isel neu'n wirfoddolwyr, felly dylai unrhyw gamau gweithredu ystyried hynny.

- 9.33 Yn olaf, dywedodd yr ymatebwyr ei bod yn bwysig gweithio gyda'r rhai sydd eisoes yn gwneud y gwaith hwn a chydweithio â gwasanaethau iechyd a chymdeithasol er mwyn osgoi "ailddyfeisio'r olwyn." Dylai cymorth effeithiol a gwerthfawrogi'r gwaith hwn hefyd alluogi i bresgripsiynu cymdeithasol gael ei ystyried yn llwybr gyrfaol safonol. Roedd sawl ymatebydd yn ystyried hynny'n hanfodol, gan holi cwestiynau am y math o ymgeiswyr y gellid eu disgwyl ar lefelau cyflog penodol.

Canfyddiadau Gweithdai

- 9.34 Cafwyd sawl awgrym gan randdeiliaid am ffyrdd o gefnogi datblygiad y gweithlu, gan gynnwys:
- Llywodraeth Cymru yn darparu rhaglenni hyfforddiant a lles i gefnogi'r gweithlu
 - Sicrhau bod staff wedi'u hyfforddi i safon benodol, er mwyn cefnogi gweithleoedd hapus a diogel
 - Sicrhau bod presgripsiynwyr cymdeithasol neu weithwyr cyswllt yn cael eu hystyried yn weithwyr proffesiynol gwerthfawr, a bod llwybrau datblygu proffesiynol ar eu cyfer
 - Dylai hyn gael ei atgyfnerthu gan raddfeydd cyflog cyfatebol a swydd-ddisgrifiadau cyson o'r rolau ledled Cymru
 - Cynnwys pobl sydd â phrofiad byw wrth ddylunio a darparu datblygiadau'r gweithlu
 - Darparu gweminarau ar faterion allweddol e.e. diogelu.

Casgliad Thema 7

- 9.35 O ddadansoddi crynswth yr ymatebion i'r ymgynghoriad, mae'n amlwg y dylai'r sgiliau craidd o fewn y fframwaith cymhwysedd, sy'n cael eu crybwyll yng Nghwestiwn 17a, ymwneud â chyfathrebu, meithrin perthnasoedd a dealltwriaeth o'r sector iechyd ac anghenion gofal iechyd ehangach, ac arferion wrth gefnogi rhywun sy'n byw ag anghenion

cymhleth. Roedd ffocws ar gymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, meithrin sgiliau penodol ychwanegol megis ymarfer sy'n ymwybodol o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, a datblygu gwybodaeth fanwl am ddiogelu.

- 9.36 Felly, roedd yr ymatebwyr i Gwestiwn 17b i gyd yn ansicr sut i ateb heb fod ganddynt ddiffiniad clir o bresgripsiynu cymdeithasol, ac eglurder ar safle presgripsiynwyr cymdeithasol yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol ehangach. Roedd argymhellion croes o ran sut i gysylltu'r fframwaith cymhwysedd â'r safonau proffesiynol presennol, ac a oedd hyn yn creu perygl o allgáu sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau gwerthfawr o'r fframwaith.
- 9.37 Ar y cyfan, cafodd Cwestiwn 18 ymateb cymysg i gadarnhaol, gyda'r ymatebwyr yn pwysleisio'r manteision posibl, megis creu sail i'r gwasanaeth newydd, sicrhau ansawdd, datblygu gyrfa a sgiliau ar gyfer y gweithlu a hybu ymwybyddiaeth trwy gydol y gwasanaeth iechyd. Lleddfwyd y rhain gan rybuddion y gallai achrediad weithredu fel rhwystr i'r rhai sy'n darparu gwasanaethau gwerthfawr, goblygiadau cost achrediad o'r fath, ac a yw achrediau'n cwmpasu popeth sy'n bwysig yn y rôl. Felly, er bod addysg a hyfforddiant yn cael eu hystyried yn bwysig ac yn fuddiol, mynegwyd y farn y dylai hefyd fod yn gymesur ac yn briodol ar y cyfan.
- 9.38 Mae'r ymatebion i Gwestiwn 19 yn eu cyfanrwydd yn canolbwyntio ar dair lefel o gymorth i'w hystyried ar lefel genedlaethol; darparu hyfforddiant sy'n hygyrch, fforddiadwy, perthnasol a chymesur; cymorth i'r gweithlu trwy gyllid, lles a rhwydweithio; a gwerthfawrogi'r gweithlu trwy sicrhau bod llwybr gyrfaol â graddfeydd cyflog clir a phriodol.

10. Thema 8 – Dadansoddi Technoleg

- 10.1 D.S. Roedd y cwestiynau hyn yn canolbwyntio ar ddefnyddio technoleg mewn perthynas ag agweddau penodol ar bresgripsiynu cymdeithasol, yn cwmpasu'r broses atgyfeirio, y broses asesu, mynediad at gymorth yn y gymuned a'r ddarpariaeth sydd ar gael, a rheoli gwybodaeth/adrodd allbynnau. Nid oedd y pynciau hyn yn rhan o drafodaeth cyfranogwyr y grwpiau ffocws.

Cwestiwn 20a – Beth yw eich profiadau cyfredol o ddefnyddio technoleg ddigidol yn y meysydd presgripsiynu cymdeithasol isod? (*Y broses atgyfeirio, y broses asesu, cael gafael ar gymorth yn y gymuned, darparu cymorth yn y gymuned, rheoli gwybodaeth ac adrodd ar allbynnau/canlyniadau*)

Ymatebwyr Unigol

- 10.2 Roedd profiadau ymatebwyr unigol o ddefnyddio technoleg ddigidol yn amrywio. Er nad oedd gan nifer ohonynt brofiad perthnasol o gwbl, roedd technoleg ddigidol yn cael ei defnyddio'n bennaf er mwyn rheoli gwybodaeth megis adrodd a'r broses atgyfeirio, trwy e-byst a galwadau.
- 10.3 O ran defnyddio technoleg ddigidol mewn ymarfer presgripsiynu cymdeithasol, dywedodd 12 o'r ymatebwyr mai profiad cyfyngedig oedd ganddynt, neu nad oedd ganddynt unrhyw brofiad perthnasol
- 10.4 O ran y rhai a oedd â phrofiad, soniodd pum ymatebydd am eu defnydd uniongyrchol o dechnoleg ddigidol o fewn y broses atgyfeirio, gan gynnwys defnyddio 'Referent', 'Elemental' a thrwy e-byst.
- 10.5 Roedd gan wyth unigolyn brofiad o reoli gwybodaeth ac adrodd am allbynnau/canlyniadau gan ddefnyddio cronfeydd data ar-lein. Roedd enghreifftiau a rannwyd yn cynnwys defnyddio 'Elemental' ar gyfer cofnodi gwybodaeth, a 'Lamplight', yn ogystal â systemau rheoli eu sefydliadau eu hunain.
- 10.6 Cyfeiriodd dau unigolyn at brofiad o ddarparu cymorth yn y gymuned trwy gymysgedd o ddulliau wyneb yn wyneb a digidol. Soniodd dau hefyd am

brofiadau o gael mynediad at gymorth yn y gymuned trwy'r cyfryngau cymdeithasol.

- 10.7 Roedd gan dri ymatebydd brofiad o ddefnyddio technoleg ddigidol ym mhob un o'r meysydd presgripsiynu cymdeithasol a restrwyd.

Ymatebwyr Sefydliadol

- 10.8 Dywedodd sefydliadau fod defnyddio atgyfeiriadau digidol yn ddefnyddiol ar y cyfan. Wedi dweud hynny, maent yn cael eu hategu gan ymddiriedaeth a pherthnasoedd gwaith effeithiol rhwng atgyfeirwyr a gwasanaethau trydydd sector.

- *Atgyfeiriadau*

- 10.9 Rhannodd rhai ymatebwyr enghreifftiau o'u prosesau atgyfeirio digidol eu hunain, er enghraifft Ymddiriedolaeth Natur Maldwyn, sydd newydd ddatblygu proses atgyfeirio ar-lein yn ddiweddar trwy eu gwefan, ac sydd ar fin mynd yn fyw. Mae'r sefydliad yn disgwyl i hyn ei gwneud hi'n llawer haws i'r tîm reoli atgyfeiriadau, o'i gymharu â'r dewis arall o anfon negeseuon e-bost lluosog yn ôl ac ymlaen. Yn yr un modd, rhannodd Credu eu bod yn gweithredu gyda ffurflen atgyfeirio ar-lein.
- 10.10 Yn allweddol, pwysleisiodd sefydliadau'r angen i sicrhau bod y gwahanol brosesau atgyfeirio yn cydweddu â'i gilydd. Rhannodd sefydliadau dystiolaeth o hyn gydag enghreifftiau o bresgripsiynwyr cymdeithasol wedi'u lleoli mewn meddygfeydd yn defnyddio prosesau atgyfeirio gwahanol na'r rhai sydd wedi'u lleoli yn y gymuned. Roedd ymatebion rhai sefydliadau yn adlewyrchu hyn yn uniongyrchol, gan ddweud mai'r unig brofiad oedd ganddynt oedd gyda dogfennau cyfeirio ffisegol neu dros y ffôn. Awgrymwyd y dylid cysylltu'r gwahanol systemau a phrosesau gan y bydd angen defnyddio dulliau traddodiadol o hyd er mwyn darparu ar gyfer y rhai sy'n cael eu hallgáu'n ddigidol.
- 10.11 Yn y cyd-destun hwn, soniwyd eto am Elemental – gyda sefydliadau'n trafod sut mae'r platfform yn galluogi derbyn atgyfeiriadau gan asiantaethau aml-sector (gan gynnwys meddygon teulu, gweithwyr iechyd

meddwl proffesiynol, gofal cymdeithasol, gweithwyr cyswllt a hunangyfeiriadau). Gwnaed cyfeiriadau lluosog eto at symlrwydd defnyddio'r platfform, ac roedd ymatebion yn dangos lefel gyffredinol o gefnogaeth i system gydag arddull gyffredin sy'n symleiddio'r broses.

- *Asesiad*

10.12 Cafodd Elemental ei ganmol hefyd o ran ei allu i reoli a chofnodi'r broses asesu. Nododd un sefydliad hefyd, er bod prosiectau llwyddiannus yn safoni cynnydd asesu yn unol â'u cymuned unigryw eu hunain, bod modd defnyddio technoleg a'i chymhwyso i adlewyrchu'r gwahaniaethau hyn o ran dull gweithredu.

10.13 Ar y llaw arall, dywedodd un sefydliad y dylid ymdrin â'r broses asesu wyneb yn wyneb bob amser.

- *Mynediad*

10.14 O ran mynediad, rhannodd sefydliadau brofiad o gysylltu unigolion â chymorth priodol trwy blatfformau 'Cysylltu'. Yn y cyd-destun hwn, roedd cysylltiad uniongyrchol hefyd rhwng defnyddio Elemental ac effeithlonrwydd a rhyddhau amser i weithwyr cyswllt – gan eu galluogi i ddarparu gwasanaeth i fwy o gleifion.

- *Darpariaeth*

10.15 O safbwynt darpariaeth, soniodd sefydliadau fod technoleg ddigidol wedi bod yn fuddiol yn eu profiad nhw, megis wrth ddarparu ystafelloedd sgwrsio a fforymau ar gyfer rhannu arfer da a chael gafael ar gymorth gan gymheiriaid. Roedd y rhain wedi arwain at greu cymunedau ymarfer ar-lein.

10.16 Yn ogystal, rhannodd un sefydliad fod gwasanaeth newydd sydd wedi'i ddatblygu gan Access yn galluogi unigolion i gyfathrebu ag aelod penodol o'r tîm gweithredu sy'n helpu i boblogi eu cyfeiriadur gwasanaethau a galluogi gwiriadau iechyd rheolaidd.

10.17 Platfform arall a amlygwyd oedd 'Insight', ap cymunedol rhad ac am ddim Ymddiriedolaeth Innovate ar gyfer oedolion ag anableddau ledled y DU. Rhannodd y sefydliad fod ganddo sylfaen aelodaeth eang a'i nod yw bod

y lle cyntaf i fynd iddo ar gyfer gweithgareddau ar-lein ac wyneb yn wyneb lle gall pobl ryngweithio mewn gofod cyfeillgar ar-lein.

- *Rheoli gwybodaeth/adrodd*

- 10.18 Dywedodd sefydliadau fod y ‘rhan fwyaf’ o bartneriaid Rhwydwaith Ymddiriedolaeth Gofalwyr a rhai Cyngorau Gwirfoddol Sirol yn defnyddio systemau rheoli cysylltiadau cwsmeriaid lleol i ddal canlyniadau. Un enghraifft a rannwyd oedd ‘Charity Log’. Yn ogystal â hyn, rhannodd sefydliadau fod Byrddau Iechyd yn buddsoddi mewn rhaglenni rheoli cysylltiadau cwsmeriaid hefyd, gan dynnu sylw at fuddsoddiad Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn Access er mwyn darparu gwell cysylltiadau rhwng gweithwyr cyswllt a darparwyr gwasanaethau lluosog.
- 10.19 Yn benodol, adroddwyd bod Elemental yn ddefnyddiol o ran ei allu i olrhain allbynnau – ac y gallai hynny ddarparu’r math o ddata meintiol y mae llawer o weithwyr proffesiynol wedi dweud a fyddai’n ddymunol ar gyfer dangos gwerth presgripsiynu cymdeithasol.
- 10.20 Roedd un sefydliad hefyd yn sôn bod defnyddio technoleg ddigidol o ran cael adborth cyfranogwyr trwy ddsbarthu arolygon a ffurflenni monitro gweithgareddau wedi bod o gymorth i’r broses werthuso.

Ystyriaethau ychwanegol

- 10.21 Rhoddodd rhai sefydliadau lawer mwy o fanylion am fanteision a gwendidau posibl/canfyddedig defnyddio technoleg ddigidol i gefnogi’r meysydd hyn, yn hytrach na chynnig sylwadau ar eu profiadau eu hunain.
- 10.22 Yn gyffredinol, roedd sefydliadau yn dangos llawer o deimladau cadarnhaol am y manteision y gallai technoleg ddigidol eu cyflwyno i’r broses presgripsiynu cymdeithasol. Roedd y rhain yn cynnwys:
- Galluogi mwy o effeithlonrwydd
 - Galluogi cyrhaeddiad ehangach i wasanaethau
 - Mynediad at wahanol systemau a ffynonellau gwybodaeth
 - Helpu pobl i greu cysylltiadau gwell mewn cymunedau gwledig

- Helpu i gipio elfennau cymorth yn y gymuned presgripsiynu cymdeithasol.

- 10.23 Ar y llaw arall, defnyddiodd rhai y gofod hwn i nodi'r angen i bwylo, er bod y sylwadau hyn yn ymwneud â diffygion canfyddedig yn y broses bresennol – lle mae'r cysylltiad rhwng platfformau digidol a chofnodion yn aml yn drwsgl. Amlygwyd hyn gan un sefydliad, a dynnodd sylw at y ffaith y gallai diffyg mynediad y trydydd sector at blatfformau'r GIG fod yn rhwystr i gydweithio effeithiol. Yn ogystal, nodwyd y gallai defnyddio sawl platfform/dyblygu cofnodion digidol fod yn ddi-fudd, gan ei fod yn dal i arwain at gleifion yn gorfod ailadrodd eu profiadau sawl gwaith.
- 10.24 O'i ddefnyddio'n effeithiol fodd bynnag (ar blatfformau lle gellid rhannu taith claf), awgrymodd y sefydliad y gallai hyn nid yn unig leihau amser ond hefyd leihau trawma, gan gael gwared ar yr angen i bobl ailedrych ar yr un profiadau anodd drosodd a throsodd.

Canfyddiadau Gweithdai

- 10.25 Bu rhanddeiliaid proffesiynol mewn gweithdai yn trafod eu profiadau o'u llwyth gwaith yn cael ei symud ar-lein. Awgrymodd lleiafrif o randdeiliaid y gallai hyn fod yn llethol, gydag un cyfranogwr, er enghraifft, yn darlunio hynny trwy ddisgrifio sut y cafodd ei 'daflu i waith sy'n canolbwyntio ar y digidol'. Roedd rhywfaint o deimlad bod hyn wedi arwain at angen am fwy o sgiliau a gwasanaethau er mwyn darparu presgripsiynu cymdeithasol, h.y. yr angen i fod "yn ddesg gymorth TG yn ogystal â deietegydd".

- *Atgyfeiriadau*

- 10.26 Atgyfnerthodd mynychwyr y gweithdai bwysigrwydd canolbwyntio ar yr unigolyn gyda'r broses atgyfeirio, gan ddefnyddio technoleg ddigidol pan fo hynny'n briodol ond heb fod yn rhy ragnodol o ran yr hyn y dylai'r gwasanaeth ei gynnwys. Yn y pen draw, y teimlad oedd y dylai hyn gael ei gymhell gan yr hyn y mae'r unigolyn ei eisiau a'i angen, ac mai dull hybrid sydd fwyaf addas.

- *Darpariaeth*

- 10.27 Cyfeiriwyd at COVID-19 fel cyfle i newid pwyslais y gwaith o gyflwyno cymorth yn y gymuned a'i symud ar-lein. Soniodd rhanddeiliaid fod cynnydd wedi bod yn y grŵp oedran 60+ ac mewn cartrefi gofal lle mae gweithgareddau chwaraeon yn cael eu cynnal mewn lleoliad cartref. Fodd bynnag, pwysleisiwyd mai cyflwyno cymorth yn y gymuned wyneb yn wyneb yw'r dewis o hyd lle bo hynny'n bosibl.
- 10.28 Rhannwyd enghraifft hefyd o brosiect gwirfoddoli digidol, a oedd yn cynnwys sefydlu a mewnbynnu gwybodaeth cyrchu torfol ar gyfer codi arian. Amlygwyd hyn er mwyn dangos y posibiliadau a oedd yn gysylltiedig â darpariaeth ar-lein o ran gallu creu cyfleoedd newydd i'r rhai sy'n gaeth i'r tŷ fel y gallant wneud cyfraniadau ystyrlon i wirfoddoli.
- *Rheoli ac Adrodd*
- 10.29 Yn ystod un sesiwn gweithdy, bu rhanddeiliaid yn trafod anawsterau cadw golwg ar daenlenni Excel niferus wrth gofnodi dogfennu a rheoli gwybodaeth, er enghraifft – am y rheswm hwn, y gred oedd bod defnyddio platfformau arbenigol yn hanfodol.
- 10.30 Nododd rhai rhanddeiliaid eu bod yn ffafrio meddalwedd Elemental oherwydd pa mor hawdd oedd hi i ddefnyddio gwybodaeth recriwtio, atgyfeirio, monitro ac adrodd. Credwyd y byddai nodwedd lle gall cyfranogwyr gael mynediad at y system yn ddymunol hefyd. Fodd bynnag, roedd rhai rhanddeiliaid yn nodi pryderon ynghylch defnyddio hyn mewn perthynas â'r gost, gydag un unigolyn yn dweud y byddai'n ei ddefnyddio pe bai ei sefydliad yn gallu ei fforddio.

Cwestiwn 20b – Sut gallai defnyddio technoleg ddigidol wella'r modd y darperir presgripsiynu cymdeithasol yn y meysydd canlynol? (*Y broses atgyfeirio, y broses asesu, cael gafael ar gymorth yn y gymuned, darparu cymorth yn y gymuned, rheoli gwybodaeth ac adrodd ar allbynnau/canlyniadau*)

Ymatebwyr Unigol

- 10.31 Soniodd ymatebwyr unigol am ystod o ffyrdd y gallai technoleg ddigidol wella'r broses o ddarparu cymorth yn y gymuned yn bennaf. Themâu a ymddangosodd yn gyson oedd y gallu i safoni prosesau, cyfathrebu'n haws a darparu gwell cymorth i'r rhai â materion symudedd.
- 10.32 Gan fod profiadau uniongyrchol yn gyfyngedig wrth ymateb i'r cwestiwn blaenorol, roedd canfyddiadau am ffyrdd y gallai technoleg ddigidol gefnogi'r pum maes yn atgyfnerthu ymatebion sefydliadol ymhellach mewn perthynas â nodweddion cadarnhaol a negyddol.
- 10.33 I grynhoi ymatebion unigol, y farn fwyaf cyffredin (a nodwyd gan chwe ymatebydd) oedd y gallai technoleg ddigidol wella'r gwaith o ddarparu cymorth yn y gymuned trwy gronfa ddata neu gyfeiriadur ar-lein.
- 10.34 Roedd pedwar ymatebydd yn credu y gallai technoleg ddigidol wella mynediad at gymorth yn y gymuned trwy gysylltiadau gwell â meddygfeydd a phartneriaid, a gwella mynediad i'r rhai sydd â phroblemau symudedd.
- 10.35 Dywedodd dau ymatebydd y gallai cyfathrebu digidol wella'r broses atgyfeirio trwy alluogi dulliau atgyfeirio safonol. Roedd dau ymatebydd hefyd yn credu y gallai gefnogi'r gwaith o reoli gwybodaeth trwy adrodd safonol a rhannu gwybodaeth.
- 10.36 Soniodd un ymatebydd am y posibilrwydd o gasglu data asesu er mwyn mesur effaith.

Ymatebwyr Sefydliadol

- *Atgyfeiriadau*

- 10.37 O ran atgyfeiriadau yn benodol, dywedodd cyfranogwyr y gallai technoleg ddigidol wella'r broses yn y ffyrdd canlynol:
- Creu un pwynt cyswllt ar gyfer atgyfeiriadau
 - Darparu argaeledd 24/7
 - Arbed dryswch i unigolion sy'n hunangyfeirio
 - Symleiddio prosesau i sicrhau gwell diogelu data, gyda'r holl wybodaeth yn cael ei storio'n ddiogel mewn un lle
 - Cyflymu a symleiddio'r broses

- Hybu ymwybyddiaeth a hyrwyddo mynediad at y gwasanaethau cymorth sydd ar gael.

- *Y broses asesu*

10.38 Yn yr un modd, roedd sefydliadau'n teimlo y gallai technoleg ddigidol symleiddio'r broses asesu, "o'i gwneud yn hawdd gyda chyn lleied o glicio â phosib". O ganlyniad, y gobaith oedd y gallai technoleg helpu i leihau biwrocratiaeth hefyd, a fyddai'n fanteisiol i'r staff a'r cleifion.

10.39 Roedd un sefydliad hefyd yn awgrymu posibiliadau ar gyfer defnyddio technoleg ddigidol mewn ffyrdd gwahanol. Er enghraifft, defnyddio tabledi digidol wrth ymgynghori i gefnogi ymarferwyr o ran trafod beth sydd ar gael gyda chleifion ac annog ymgysylltu â phresgripsiynu cymdeithasol.

10.40 Unwaith eto, nodwyd cysondeb mewn perthynas ag asesu, gyda sefydliadau'n disgrifio'r potensial ar gyfer graddio asesiadau'n awtomatig er mwyn cynnig dull safonol o ymdrin â'r broses.

- *Mynediad*

10.41 Roedd sylwadau'n ymwneud â mynediad gan sefydliadau yn cysylltu'n ôl â phwyslais cynharach ar werth cyfeiriadur ar-lein canolog.

10.42 Awgrymwyd hefyd y byddai cyfleoedd i ddarparu mynediad uniongyrchol, o ran swyddogaethau cyfathrebu (h.y. sgwrsio â chynghorydd) yn rhywbeth a fyddai'n fuddiol i'w archwilio. Bu'r ymateb hwn hefyd yn trafod y cyfle posibl i ddarparu lefel fwy cyflawn o gymorth, er enghraifft trwy nodau ac amcanion hunangyfeiriedig, ac offer cymorth eraill.

10.43 Yn olaf, bu rhai sefydliadau hefyd yn rhannu ffyrdd creadigol o ddefnyddio technoleg i gefnogi mynediad i rai defnyddwyr gwasanaethau na fyddai'n bosibl fel arall. Er enghraifft, mae gan yr RSPB yn Lloegr ffrwd bwydo adar fyw mewn rhai mannau, sy'n cael ei gwyllo gan breswylwyr cartrefi gofal. Er bod nifer o sefydliadau a rhanddeiliaid yn pwysleisio na ddylai gweithgareddau rhithwir ddod yn lle gwasanaethau eraill, maent yn cyfeirio at sawl cyfle i weithgareddau rhithwir eu hategu.

- *Darpariaeth*

10.44 Ategwyd y teimlad uchod mewn perthynas â darparu gwasanaethau. Awgrym newydd ynghlwm wrth y cwestiwn hwn oedd defnyddio technoleg i fapio cymorth yn y gymuned ledled Cymru, gan nodi anghenion sydd heb eu diwallu neu fylchau. Byddai hyn yn llywio'r gwaith o gomisiynu gwasanaethau yn y dyfodol ar sail wybodus.

- *Rheoli gwybodaeth ac adrodd ar allbynnau/canlyniadau*

10.45 Roedd mwyafrif yr awgrymiadau ynghylch gwella prosesau rheoli ac adrodd yn canolbwyntio ar ganoli rheoli archebion, taith y claf a chasglu data.

10.46 O'i wneud yn iawn, roedd sefydliadau'n teimlo y byddai gan hyn botensial mawr i wella sut y caiff canlyniadau, nad ydynt fel arfer wedi cael eu trin mewn un ffordd unedig, eu hadrodd. Roedd awgrymiadau ynghylch hyn yn cynnwys integreiddio dangosfwrdd dangosydd allweddol, arolygon ar-lein i werthuso gwasanaethau a datblygu modiwl Audit+ i gefnogi casglu data.

Canfyddiadau Gweithdai

- *Atgyfeiriadau*

10.47 Mynegodd rhai rhanddeiliaid bryderon ynghylch ymarferoldeb – er enghraifft, realiti'r sefyllfa fod meddygfeydd teulu yn dal i ddibynnu'n fawr ar ddulliau pen a phapur traddodiadol, gan wneud y dasg o newid i ddulliau digidol yn newid sylweddol na ddylid diystyru ei faint.

10.48 Awgrymodd rhai rhanddeiliaid o ddefnyddio ap y GIG fel porth ar gyfer atgyfeiriadau/hunangyfeirio.

- *Mynediad*

10.49 O ran hyrwyddo mynediad at gymorth yn y gymuned, awgrymodd nifer o randdeiliaid y byddai angen buddsoddiad pellach mewn seilwaith digidol ar gyfer manau cymunedol a chyhoeddus.

10.50 Cafodd manteision defnyddio technoleg ddigidol eu cydnabod fel pethau gwerthfawr i'r rhai sydd â phryder cymdeithasol eithafol.

- *Darpariaeth*

- 10.51 Roedd rhanddeiliaid ar draws y gweithdai yn teimlo bod lle i dechnoleg ddigidol wella'r gwaith darparu, ond y dylid ei ystyried fel opsiwn i ategu gwasanaethau – yn hytrach na'r drefn arferol/safonol.
- 10.52 Roedd nifer o randdeiliaid yn ymwybodol o allgáu digidol ac yn nodi bod perygl i blatfformau digidol allgáu os nad yw'r cymorth cywir ar waith.
- 10.53 Cyfeiriodd rhanddeiliaid at enghreifftiau penodol o bresgripsiynwyr cymdeithasol digidol dynodedig, a'u gwaith oedd eiriol a datblygu cymwyseddau mewn sgiliau digidol – gan dynnu ar wybodaeth am hyn yn cael ei gefnogi yn yr Alban.

- *Rheoli gwybodaeth ac adrodd ar allbynnau/canlyniadau*

- 10.54 Er mwyn monitro canlyniadau, roedd rhanddeiliaid yn teimlo y dylid cael mwy o ymdrech i sefydlu cytundeb canlyniadau craidd/disgwyliedig – pwysleiswyd hyn hefyd mewn perthynas â'r gost. Os oes angen buddsoddi mewn gwasanaethau monitro a gweinyddu, gyda'r bwrdd iechyd yn talu am hynny, roeddent o'r farn fod angen consensws ehangach ynglŷn â'r hyn sy'n cael ei ddefnyddio a pham.
- 10.55 Yn olaf, awgrymodd rhanddeiliaid fanteision ynghlwm wrth gronfa ddata ganolog ar gyfer rheoli gwybodaeth, gan gynnwys dileu'r pwysau ar sefydliadau llai i ddarparu adroddiadau, a gallu nodi pa weithgareddau a gwasanaethau sy'n cael eu defnyddio gan unigolion mewn gwirionedd.

Casgliadau Thema 8

- 10.56 Roedd profiad ymatebwyr unigol o ddefnyddio technoleg ddigidol yn amrywio. Er nad oedd gan nifer ohonynt brofiad perthnasol o gwbl, roedd technoleg ddigidol yn cael ei defnyddio yn bennaf er mwyn rheoli gwybodaeth megis adrodd a'r broses atgyfeirio trwy e-byst a galwadau. Dangosodd ymatebion sefydliadol gyfoeth o brofiad wrth ddefnyddio technoleg ddigidol mewn ffyrdd eang ac amrywiol ar gyfer y meysydd hyn. Yn benodol, tynnwyd sylw at rôl y pandemig o ran trawsnewid defnydd, a'r rôl yr oedd technoleg wedi'i chwarae wrth gynyddu mynediad. Fodd

bynag, lleddfwyd hyn gan y rhai heb brofiad, a rhybuddiodd llawer yn erbyn dibynnu ar dechnoleg oherwydd y rhaniad digidol o ran darparu gwasanaethau. Rhannodd rhanddeiliaid y gweithdai enghreifftiau o'r ffyrdd yr oedd darpariaeth ddigidol wedi gallu ymgysylltu a chyrraedd grwpiau a fyddai fel arall wedi'u hallgáu o gymorth (yn enwedig o ran y cyfyngiadau ar waith yn ystod y pandemig).

- 10.57 Soniodd ymatebwyr unigol am ystod o ffyrdd y gallai technoleg ddigidol wella, yn bennaf o ran darparu cymorth yn y gymuned. Themâu cyson oedd y gallu i safoni prosesau, hwyluso cyfathrebu a darparu gwell cymorth i'r rhai â phroblemau symudedd. Roedd ymatebion sefydliadol yn cynnwys awgrymiadau ar gyfer defnyddio technoleg ddigidol ar draws pob un o'r meysydd hyn. Roedd ffocws penodol ar y broses atgyfeirio, gyda'r gobraith y byddai hyn yn cynyddu cyflymder a rhwyddineb atgyfeiriadau, yn ogystal â gwella mynediad at wybodaeth. Roedd rheoli gwybodaeth ac adrodd am allbynnau yn cael lle amlwg, wrth i'r ymatebwyr awgrymu nodweddion ar gyfer system adrodd fel porth ar-lein i lanlwytho tystiolaeth a hanesion. Unwaith eto, soniwyd am broblem hygrychedd. Pwysleisiodd rhanddeiliaid y gweithdai bod darpariaeth ddigidol yn cyflwyno cyfleoedd gwerthfawr i'r rhai sy'n profi cyfyngu sylweddol yn sgil cyflyrau megis pryder cymdeithasol eithafol, neu'r rhai sy'n gaeth i'w cartrefi neu sy'n wynebu rhwystrau lluosog wrth gyfranogi mewn lleoliad wyneb yn wyneb.

11. Thema 9 – Dadansoddi'r Gymraeg

- 11.1 D.S. Ni ofynnwyd unrhyw gwestiwn yn ymwneud â'r thema hon i randdeiliaid y grwpiau ffocws.

Cwestiwn 21a – Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai cyflwyno fframwaith cenedlaethol ar gyfer presgripsiynu cymdeithasol yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi?

Ymatebwyr Unigol

- 11.2 Roedd pum ymatebydd o'r farn na fyddai unrhyw effaith sylweddol ar y Gymraeg.
- 11.3 Mynegodd pedwar ymatebydd bryderon ynghylch darparu ar gyfer tafodiaith Gymraeg amrywiol ym mhob rhanbarth, gan fod lefel rhuglder pawb yn wahanol.
- 11.4 Soniodd dau ymatebydd am yr adnoddau ychwanegol ynghlwm wrth y ddarpariaeth iaith ychwanegol, fel hyfforddiant, cyllid ac unigolion i ddarparu'r gwasanaeth:

“Afraid dweud yw y dylai'r holl wasanaethau presgripsiynu cymdeithasol, gan gynnwys y fframwaith cenedlaethol ac ati, fod ar gael yn Gymraeg a Saesneg fel ei gilydd. Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar sicrhau nad oes unrhyw anghydraddoldebau, ac o ran darparu gwasanaethau i'r rhai sy'n siarad Cymraeg fel mamiaith.”

“Mae darparu unrhyw beth yn Gymraeg yn heriol ac yn ddrud, dwi'n Gymro balch a ddim eisiau gweld yr iaith yn diflannu, ond mae Deddf yr Iaith Gymraeg yn ein rhoi ni mewn sefyllfa wallgof.”

Ymatebwyr Sefydliadol

- 11.5 Nid oedd tri sefydliad yn credu y byddai'n effeithio ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, ac roedd dau sefydliad yn ansicr neu ddim yn gwybod a fyddai'n cael effaith.
- 11.6 Roedd dau sefydliad o'r farn ei bod hi'n bosibl y gallai presgripsiynu cymdeithasol gynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg os yw'n sicrhau bod presgripsiynau ar gael yn y Gymraeg.
- 11.7 Roedd un sefydliad o'r farn y byddai'n dibynnu ar y lleoliad a'r grŵp. Er enghraifft, yng Nghaerfyrddin neu yng Ngheredigion, roeddent yn teimlo y gallai wella cyfleoedd, ond mewn cymunedau lle mae cyfran lai o siaradwyr Cymraeg erbyn hyn, fel Sir Benfro, mae'n debygol y bydd llai o effaith.
- 11.8 Soniodd nifer o'r ymatebwyr am yr angen i ddarparu ar gyfer ieithoedd eraill, a bod llai o gyfleoedd i wneud hynny ar hyn o bryd.
- 11.9 Soniodd nifer o ymatebwyr hefyd y dylid defnyddio'r fframwaith i ddarparu gwaelodlin ar gyfer darparu gwasanaethau yn y Gymraeg ym mhob rhan o Gymru, gydag angen i fynd i'r afael â bylchau yn y fframwaith o ran y defnydd o'r Gymraeg er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i'w defnyddio.
- 11.10 Roedd sefydliad arall o'r farn y byddai ffocws cenedlaethol ar bresgripsiynu cymdeithasol efallai yn cryfhau cyfleoedd i'r Gymraeg ar lefel gymunedol. Roeddent yn teimlo bod bylchau a gwendidau yn ymwneud â Safonau'r Gymraeg ar hyn o bryd sy'n gwanhau hawliau unigolion i dderbyn gwasanaethau wyneb yn wyneb trwy gyfrwng y Gymraeg. Dyma ddywedodd dau ymatebydd:

“Dylai'r Gymraeg a chynllunio gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg fod yn gwbl ganolog i unrhyw fframwaith o'r fath, yn hytrach na dibynnu ar gyrrff allanol neu unigolion i gywiro'r gwendidau hyn”.

“Ni fydd unrhyw effaith ar y ddarpariaeth Gymraeg ym maes presgripsiynu cymdeithasol os nad yw'r iaith Gymraeg yn cael sylw priodol ym mhob agwedd ar y fframwaith cenedlaethol.”

Cwestiwn 21a(b) – Sut gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?

Ymatebion Unigol

- 11.11 Roedd rhai ymatebwyr yn credu y dylai unigolion gael y dewis bob tro i gymryd rhan mewn gweithgareddau yn y Gymraeg neu'r Saesneg neu'r rhyddid i allu cael mynediad at wasanaethau yn ddwyieithog.
- 11.12 Soniodd chwe ymatebydd am ddatblygiad set o safonau o fewn y gwasanaeth presgripsiynu cymdeithasol i annog dwyieithrwydd fel darpariaeth graidd, nid opsiwn ychwanegol.
- 11.13 Os oes darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael ei chynnig, nododd un unigolyn y dylid ystyried ieithoedd eraill hefyd.

Ymatebion Sefydliadol

- 11.14 Roedd yr ymatebwyr yn pryderu nad yw'r fframwaith yn cyfeirio at y 'cynnig rhagweithiol' ar hyn o bryd (i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg heb i rywun orfod gofyn).
- 11.15 Soniwyd bod cynnwys dinasyddion Cymraeg o'r cychwyn cyntaf yn hanfodol i wella cyfleoedd presgripsiynu cymdeithasol trwy gyfrwng y Gymraeg. Gellid gwneud hyn trwy ddefnyddio dull asesu anghenion yn y gymuned.
- 11.16 Dylid nodi hefyd fod rhai sefydliadau yn teimlo na ddylai fod angen i bob rhaglen fod ar gael yn Gymraeg yn dibynnu ar gyd-destun yr ardal leol.
- 11.17 O safbwynt llwybr hyfforddi cenedlaethol cyson ar gyfer presgripsiynwyr cymdeithasol, awgrymwyd y dylai Llywodraeth Cymru ystyried cyfleoedd addysg ar gyfer presgripsiynwyr cymdeithasol i ddysgu'r Gymraeg fel rhan o'r hyfforddiant hwn. Awgrymwyd y gellid hyrwyddo'r Gymraeg yn llwyddiannus trwy uwchsgilio staff gan ddefnyddio cymhellion fel gwersi rhad ac am ddim ynghyd â chynhyrchu deunydd dwyieithog.

- 11.18 Roedd cyllido yn bryder, a chyfeiriwyd hefyd at yr adnoddau angenrheidiol i gyfieithu dogfennau a gwybodaeth allweddol arall i'r Gymraeg ac i ieithoedd eraill.
- 11.19 Soniwyd am recriwtio gweithlu sy'n ddwyieithog yn Gymraeg ac yn Saesneg. Byddai hyn yn sicrhau bod unigolion sy'n cael mynediad at wasanaethau presgripsiynu cymdeithasol yn gallu cyfathrebu yn eu dewis iaith.
- 11.20 Yn ogystal â'r gweithlu, soniwyd am yr angen i sicrhau bod adnoddau eraill fel cyfeiriaduron, deunyddiau hyfforddi a chanllawiau cymorth ar gael yn y ddwy iaith, yn ogystal â sicrhau bod technoleg yn gallu ymdopi â defnydd cymysg o iaith (y cyfeirir ato'n aml fel "Wenglish").
- 11.21 Cynigiwyd clustnodi arian er mwyn lliniaru'r ffaith nad yw'r Gymraeg yn cael ei siarad yn eang mewn rhai rhannau o Gymru, ac y bydd dwyieithrwydd yn cynyddu costau ac yn ymestyn oedi o ran darparu gwasanaeth.
- 11.22 Roedd sawl ymateb yn sôn am weithgareddau a gwasanaethau, gan gynnwys:
- Sicrhau bod gweithgareddau Cymraeg ar gael fel darpariaeth (wedi'i grybwyll gan ddau ymatebydd)
 - Ystyried yr adnoddau Cymraeg sydd ar gael wrth gomisiynu
 - Bod y fframwaith cenedlaethol yn nodi rheidrwydd i gymorth fod ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg. Soniwyd am adroddiadau sefydlogrwydd y farchnad gan fyrdau iechyd ac awdurdodau lleol fel ffyrdd o sicrhau bod cyflenwad digonol o wasanaethau Cymraeg i ddarparu'r gwasanaeth hwn. Mae'r Comisiynydd yn disgwyl, o leiaf, bod pobl hŷn yn gallu cael cymorth yn eu dewis iaith
 - Cafodd cynnig rhagweithiol y Gymraeg o ran darparu gwasanaethau lle'r oedd yn bosibl ei grybwyll gan y grŵp hwn hefyd, yn enwedig sicrhau ei fod ar gael mewn rhai rhannau o Gymru (yn y gorllewin a'r gogledd, er enghraifft) ac i grwpiau penodol fel pobl hŷn a phlant a phobl ifanc.

- 11.23 Thema gyffredin arall a ddaeth i'r amlwg oedd cyfathrebu. Pwysleisiodd tri ymatebydd y dylid cyfathrebu yn ddwyieithog bob amser. Wrth ymhelaethu ar y pwynt hwn, awgrymodd un sefydliad y dylid rhoi'r flaenoriaeth i gyfathrebu dwyieithog er mwyn osgoi dyblygu gwasanaethau ar sail iaith yn unig, er mwyn denu siaradwyr Cymraeg brodorol i mewn i'r system/fframwaith.

Ymatebion i'r Gweithdai

- 11.24 Pwysleisiodd rhanddeiliaid y gweithdai bwysigrwydd sicrhau bod gwybodaeth am wasanaethau a gweithgareddau yn cael eu cofnodi'n iawn. O ganlyniad, mae modd i'r rhai sy'n gwneud atgyfeiriadau ddeall a nodi'n hawdd pa wasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg.
- 11.25 Roedd y rhanddeiliaid yn cydnabod ei bod yn debygol y bydd llai o wasanaethau ar gael yn y Gymraeg ac y gallai fod yn heriol i sefydliadau llai ddarparu'r 'cynnig rhagweithiol' tra'n gweithredu mewn ardaloedd lle mae adnoddau Cymraeg yn brin.
- 11.26 Fodd bynnag, y teimlad oedd y dylai gwasanaethau presgripsiynu cymdeithasol weithredu mor deg â phosibl o ran y ddarpariaeth iaith.

Cwestiwn 21b – Eglurwch hefyd sut ydych chi'n credu y gallai'r fframwaith cenedlaethol arfaethedig ar gyfer presgripsiynu cymdeithasol gael ei lunio neu ei newid er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac nad yw'n cael effaith andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Ymatebwyr Unigol

- 11.27 Roedd rhai ymatebwyr unigol yn teimlo y dylai gwasanaeth Cymraeg fod ar gael yn awtomatig yn hytrach na gorfod gwneud cais amdano (gweithredu'r 'cynnig rhagweithiol' o fewn y lleoliad presgripsiynu

cymdeithasol). I ategu hyn, awgrymwyd y gallai'r fframwaith gynnwys hyfforddiant er mwyn addysgu sgiliau iaith sylfaenol i'r rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg er mwyn cyfeirio pobl at wybodaeth yn eu dewis iaith.

11.28 Dylai adnoddau megis gwaith papur, hyfforddiant a seilwaith digidol fod ar gael yn ddwyieithog ac yn ddidrafferth i staff ac aelodau'r cyhoedd.

11.29 Yn ogystal â'r uchod, soniodd ymatebydd hefyd am sicrhau bod modd darparu gweithgareddau cymorth cymunedol yn ddwyieithog.

11.30 Dywedodd un ymatebydd:

“Presgripsiynu cymdeithasol yw cysylltu dinasyddion gyda chymorth cymunedol i wella'u gallu i reoli eu hiechyd a'u lles. Gallai hyn gael effaith bositif iawn ar y Gymraeg gan y bydd cyfle i bobl gyfarfod a sgwrsio â phobl eraill trwy gyfrwng y Gymraeg.”

Ymatebwyr Sefydliadol

11.31 Cyfeiriwyd at y 'cynnig rhagweithiol' eto gan sawl ymatebydd sefydliadol:

- Er mwyn cyflawni'r 'cynnig rhagweithiol' a chyfeirio pobl at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, rhaid i ddefnyddwyr, gweithwyr proffesiynol a sefydliadau fod yn ymwybodol o'r ddarpariaeth leol sydd ar gael yn Gymraeg a gallu manteisio arni
- Dylai fod cefnogaeth ar waith i sicrhau bod modd darparu amrywiaeth o weithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg ble bynnag mae'r rhai sy'n cymryd rhan yn byw
- Dylai iaith darparu'r gwasanaeth, neu'r iaith y mae modd ei ddarparu, gael ei nodi'n glir o fewn y cyfeiriadur.

11.32 Soniodd ymatebwyr sefydliadol am hyfforddiant hefyd, gan gynnwys:

- Hyfforddi staff darparu yn yr iaith Gymraeg fel eu bod yn gallu cynnal sesiynau (neu rannau o sesiynau) yn Gymraeg, yn ogystal â rhannu gwybodaeth am ystyr ddiwylliannol neu hanesyddol enwau Cymraeg (fel enwau llefydd neu rywogaethau)

- Soniwyd am bwysigrwydd dwyieithrwydd fel cymhwysedd craidd. Mynegwyd yr un pwynt mewn perthynas â gwybodaeth a sgiliau, ond mae'n berthnasol yn y cyd-destun hwn.

11.33 Cyfeiriwyd at ddewis fel thema yn yr ymatebion i'r cwestiwn hwn, yn eu plith:

- Mae Addysg Oedolion Cymru yn gweithio'n barhaus gyda dysgwyr nad Saesneg na'r Gymraeg yw eu mamiaith, gan addasu pob gwaith yn ôl y dewis, gan ddweud: "nid ydym yn gweld unrhyw effeithiau andwyol wrth gofleidio ieithoedd eraill, dim ond deall pobl yn well a dwysau'r cydymdeimlad tuag atynt."
- Dylai unigolion gael dewis clir ynghylch cael gafael ar wasanaethau yn y Gymraeg, y Saesneg neu iaith arall a chael eu cyfeirio'n briodol heb unrhyw wahaniaethu, "y dylai dewis iaith ddigwydd fel mater o drefn tra'n dal i gydnabod cyfyngiadau".

11.34 Roedd un ymatebydd yn credu y dylid gwella'r sylfaen dystiolaeth bresennol, gyda ffocws ar bresgripsiynu cymdeithasol trwy gyfrwng y Gymraeg.

11.35 Nododd un ymatebydd y gallai defnyddio deunydd cyhoeddusrwydd dwyieithog ynddo'i hun fod yn ddull o gyfathrebu ac yn ddull addysgu ar gyfer y Gymraeg.

11.36 Dywedodd Comisiynydd y Gymraeg: "Ar ôl ystyried y ddogfen ymgynghori hon, mae Comisiynydd y Gymraeg yn ystyried cydymffurfedd Gweinidogion Cymru â safonau'r Gymraeg, ac mae'n bosibl y bydd rhagor o ohebiaeth yn dilyn yn hyn o beth."

Canfyddiadau Gweithdai

11.37 Pwysleisiodd mynychwyr y gweithdai bwysigrwydd sicrhau mynediad teg at wasanaethau presgripsiynu cymdeithasol yn y dewis iaith.

11.38 Soniodd mynychwyr y gweithdai sydd â phrofiad o gyflenwi grwpiau yn y Gymraeg a'r Saesneg mai dim ond nifer fechan o grwpiau cymunedol sy'n gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg mewn rhai ardaloedd, ac felly bod

angen sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio mor effeithiol ag sy'n bosibl.

- 11.39 Soniwyd hefyd nad oes gorfodaeth ar grwpiau cymunedol bach i gyflwyno gweithgareddau yn ddwyieithog, felly byddai ffordd o gofnodi mewn cronfa ddata ganolog a yw gweithgareddau yn cael eu darparu'n bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg yn hwyluso nodi a hidlo grwpiau sy'n siarad Cymraeg.

Casgliadau Thema 9

- 11.40 O ran a fyddai cyflwyno'r fframwaith cenedlaethol yn cael effaith ar yr iaith Gymraeg, neu i ba raddau y byddai'n cael effaith, roedd yr ymateb yn gymysg. Roedd y cafeatau yn cynnwys yr amrywiaeth yn y defnydd o'r Gymraeg ledled y wlad, sy'n golygu na allai effeithiau fyth fod yn gyfartal ym mhob cymuned na lleoliad.
- 11.41 Soniwyd am y 'Cynnig Rhagweithiol' sawl gwaith, a chydabuwyd yr anawsterau wrth orfodi'r Gymraeg o fewn grwpiau cymunedol, atebion megis hyfforddiant a chafodd adnoddau ychwanegol eraill eu crybwyll. Y teimlad oedd y byddai gweithredu'r cynnig rhagweithiol yn haws pe bai adnoddau fel cronfeydd data, llenyddiaeth, marchnata a gwaith papur ar gael yn gyson trwy'r Gymraeg, gan y gallai hyn fod yn gyfle dysgu hefyd.
- 11.42 Er bod cefnogaeth gyffredinol i ddefnydd pellach o'r Gymraeg, mae nifer o ymatebwyr yn parhau i bryderu sut y byddai'r llwyth gwaith ychwanegol hwn yn cael ei ariannu. Roedd hyn yn arbennig o gyffredin wrth ystyried y gwahaniaethau daearyddol yn lefelau'r adnoddau Cymraeg sydd ar gael, a'r canrannau amrywiol o boblogaeth sy'n siarad Cymraeg ym mhob cymuned. Cafodd ceisiadau am adnoddau ychwanegol er mwyn cefnogi'r Gymraeg, o ran hyfforddiant, ariannu, cyfeiriadur wedi'i labelu a'r gweithlu, eu crybwyll yn barhaus fel rhywbeth a allai gael effaith.
- 11.43 Roedd sicrhau bod y gwasanaeth hefyd yn parhau'n amrywiol ac yn gynhwysol trwy gefnogi ieithoedd eraill hefyd yn cael ei grybwyll dro ar ôl tro, er mwyn hybu cynhwysiant i'r eithaf a lleihau rhwystrau i gyfranogi

trwy gefnogi ieithoedd eraill hefyd yn cael ei grybwyll dro ar ôl tro, er
mwyn hybu cynhwysiant i'r eithaf a lleihau rhwystrau i gyfranogi.

12. Dadansoddi Sylwadau Terfynol

Cwestiwn 22 – Rydyn ni wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech wneud sylwadau ar unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod:

Ymatebwyr Unigol

- 12.1 Derbyniwyd sylwadau cyfyngedig gan ymatebwyr unigol i'r cwestiwn hwn. O'r rhai a wnaeth ateb, dywedodd dau unigolyn bod angen i bresgripsiynwyr cymdeithasol gael eu hymwreiddio'n iawn a'u cysylltu â gwasanaethau'r GIG os ydynt wedi'u lleoli yn y trydydd sector, a bod yn rhaid ystyried cynaliadwyedd gwasanaethau meddygon teulu.
- 12.2 Soniwyd y dylid nodi safon sy'n bosibl ei hasesu'n barhaus gan "gwmni masnachol ardystiedig".
- 12.3 Soniodd un ymatebydd fod amynedd, parch o'r ddwy ochr, ymddiriedaeth a chyllid digonol yn allweddol i raglen lwyddiannus.
- 12.4 Roedd awgrym y dylid lleoli presgripsiynwyr cymdeithasol o fewn y gymuned er mwyn gwir ddeall anghenion pobl yn yr ardal.
- 12.5 Yn yr un modd, nodwyd nad yw cymhwysedd a chynhwysiant diwylliannol yn bethau nad oedd yn cael sylw yn y cwestiynau a ofynnwyd.

Ymatebwyr Sefydliadol

- 12.6 Oherwydd natur yr ymatebion sefydliadol, lle na ddarparwyd y rhan fwyaf o'r ymatebion mewn fformat cyson, trefnwyd yr ymatebion i gyd-fynd â chwestiynau'r ymgynghoriad lle bo hynny'n bosibl. O ran y cwestiwn hwn, lle gwnaed sylwadau nad ydynt yn gweddu i'r ymgynghoriad, mae'r ymatebion hyn wedi'u strwythuro yn ôl themâu penodol isod.
- 12.7 Soniodd nifer o'r ymatebwyr am hygyrchedd yn eu hymatebion. Roedd yr ymatebion hynny'n cynnwys:
- Sicrhau bod y gwasanaeth yn hygyrch ar wahanol adegau a thrwy amryw sianeli i bobl ag anghenion hygyrchedd amrywiol, er mwyn sicrhau tegwch a pheidio â difreinio'r rhai mwyaf anghenus ymhellach.

- Anogaeth o ran y cyfeiriad yn y ddogfen ddrafft fod hygyrchedd yn golygu mwy na dim ond gwybod am gymorth yn y gymuned a chyrraedd ato'n ffisegol, yn ogystal â bod yn hygyrch i'r rhai sydd â gofynion ychwanegol.
- Buddiol i roi mwy o ystyriaeth i'r rôl y mae trafndiaeth, ac yn enwedig trafndiaeth gymunedol, yn ei chwarae wrth sicrhau mynediad at bresgripsiynu cymdeithasol.
- Dylai fod mwy o bwyslais ar gynlluniau cymdeithasol neu gynlluniau cymdeithasol ymarferol fel grwpiau sgwrsio, gwasanaethau gwneud ffrindiau neu help ymarferol fel gymorth gyda choginio, siopa neu lanhau. Mae angen i bresgripsiynu cymdeithasol fod yn fwy na dim ond presgripsiynu ymarfer corff.

12.8 Mynegwyd pryder ynghylch dyblygu posibl, sef:

- Pwysleisio pwysigrwydd a gwerth gwahaniaethau ac amrywiadau lleol ledled Cymru mewn perthynas â chyflawni swyddogaethau/rolau/gwasanaethau presgripsiynu cymdeithasol. Er y bydd fframwaith yn cynnig ymbarél lle mae modd cyflawni arferion da a dysgu, mae deisyfiad na fydd yn dyblygu gofynion i'r ddarpariaeth leol, neu'n gwanhau'r ddarpariaeth go iawn ar lawr gwlad trwy ddefnyddio dull cyffredinol o ddarparu.
- Pryder, trwy ehangu'r opsiynau atgyfeirio i bresgripsiynu cymdeithasol, y bydd hynny yn ei dro yn creu rhestrau aros mawr a dyblygu.
- Pryder ynghylch faint o lwybrau atgyfeirio posibl i bresgripsiynu cymdeithasol sy'n cael eu hamlinellu yn y ddogfen. "Credwn yn gryf y dylai presgripsiynu cymdeithasol gyd-fynd â chlystyrau yn unol â rhaglen Datblygiad Clwstwr Carlam sy'n cael ei gweithredu ar draws Cymru ar hyn o bryd".
- Cynigiwyd dyfyniad allweddol o ran dyblygu posibl gan Gonfensiwn Cenedlaethol Pensiynwyr Cymru I:

"Mae'n ymddangos i ni mai'r ffordd orau ymlaen yw parhau â'r gwaith sy'n cael ei wneud gan y Byrddau Iechyd a'r Awdurdodau

Lleol, gan ddysgu o brofiad y pandemig COVID-19, i weithio gyda'i gilydd yn fwy effeithiol fel sy'n digwydd. Y nhw yw'r gwasanaethau allweddol ac, yn bwysicach fyth, maen nhw'n lleol.”

12.9 Soniodd sawl sefydliad am adnoddau, a hynny'n cynnwys:

- Un o'r adnoddau pwysicaf sydd eu hangen er mwyn i bresgripsiynu cymdeithasol weithio'n iawn yw rolau pwrpasol a chanolbwyntio amser ar *feithrin perthnasoedd*.
- Cronfeydd data mwy cywir a manwl, oherwydd bod cronfeydd data presennol sy'n manylu ar asedau cymunedol yn aml yn annibynadwy, yn anghyflawn a/neu ddim yn cael eu defnyddio'n effeithiol.
- Cafodd hyfforddiant ei grybwyll eto, ond gan ganolbwyntio ar hyfforddiant i nodi a goresgyn rhagfarnau diarwybod, yn ogystal â hyfforddiant model cymdeithasol wedi'i ddylunio a'i ddarparu gan bobl â nodweddion gwarchoddedig a/neu anghenion penodol i ddeall amgylchiadau a gofynion unigol pobl yn well.

12.10 Roedd llawer o sefydliadau yn crybwyll cymorth i sefydliadau cymunedol, gan gynnwys y canlynol:

- Soniwyd sawl gwaith bod y model fel y mae ar hyn o bryd yn tueddu i ffafrio sefydliadau mwy ac adnabyddus sy'n cael eu hariannu'n dda.
- Mae mudiadau bach sydd eisiau darparu gwasanaethau ond mae diffyg cyllid.
- Dro ar ôl tro, cyfeiriwyd at y ffaith nad yw cefnogaeth y trydydd sector ar gyfer y mater hwn wedi derbyn adnoddau yn y gorffennol, felly dylai unrhyw gynlluniau ar gyfer y dyfodol gynnwys y ddarpariaeth bresennol a chefnogaeth i'r sector hwn.
- Yn yr un modd, cynnwys rhanddeiliaid lleol allweddol er mwyn cael trosolwg o'r hyn sydd eisoes yn cael ei wneud.
- Sicrhau bod sefydliadau ar lawr gwlad sy'n cael eu harwain gan/ar gyfer pobl sydd wedi'u hymyleiddio yn cael eu cynnwys. Soniodd rhanddeiliaid fod llwybrau traddodiadol o ymgysylltu yn gallu arwain at

allgáu, a'i bod yn ofynnol i sefydliadau feddu ar ddigon o gapasiti,
adnoddau a dim llawer o ofynion hygrychedd er mwyn cymryd rhan.

12.11 Cafodd arian ei grybwyll eto gan sawl ymatebydd,

- Soniodd dau ymatebydd fod cyfyngu ar hyd cyllido yn arwain at berygl o golli presgripsiynwyr cymdeithasol medrus neu fethiant cyffredinol i recriwtio ymgeiswyr o ansawdd.
- Yn yr un modd, nodwyd y byddai cyllid cynaliadwy hirdymor o fudd i ddarparwyr lechyd Gwyrdd wrth ddarparu presgripsiynu cymdeithasol gwyrdd. Dywedwyd mai dyma'r rheswm mae Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt Cymru yn cynnig model darparwyr wedi'i ariannu a'i gymeradwyo gyda safonau a fframwaith ynghlwm wrtho.
- Roedd sawl aelod hefyd yn cwestiynu sut y byddai'r fframwaith hwn yn derbyn ei adnoddau. Y teimlad yw bod graddfa'r angen yn debygol o fod yn uwch na'r cyllid sy'n cael ei ddyrannu trwy'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ar hyn o bryd.
- Cynigiodd Archwilio Cymru ddyfyniad allweddol o ran y cyllid:

“Er bod prosiectau presgripsiynu cymdeithasol unigol yn tueddu i fod yn gymharol isel o ran cost, mae'n bwysig gallu nodi cyfanswm y gwariant cronus ar bresgripsiynu cymdeithasol ac ystyried costau'r cyfle. Rydym yn cydnabod y bydd yn anodd adnabod cyfanswm y gwariant gan ei fod yn dod o sawl rhan o'r sector cyhoeddus, y trydydd sector a grwpiau cymunedol. Yn ogystal, mae rhai prosiectau presgripsiynu cymdeithasol yn dibynnu'n helaeth ar wirfoddolwyr. Fodd bynnag, byddai'n ddefnyddiol deall cost lawn presgripsiynu cymdeithasol, gan gynnwys costau uniongyrchol, costau cyfle a chost y gweithlu presgripsiynwyr cymdeithasol cynyddol.”

12.12 Cyfeiriwyd at flaenoriaethau'r fframwaith hefyd, gyda'r ymatebwyr yn credu y dylid canolbwyntio'n benodol ar y canlynol:

- Roedd dau sefydliad o'r farn y dylid canolbwyntio ar atal.

- Roedd pedwar sefydliad yn teimlo y dylid blaenoriaethu ymyriadau yn yr awyr agored ac ymyriadau sy'n seiliedig ar natur, gyda chanlyniad penodol i wella cysylltiad â natur er mwyn iechyd y blaned ac atal salwch.
- Soniwyd eto am gydlynid ac ymgysylltu cymunedol fel blaenoriaeth wrth gynllunio ymateb y gwasanaeth.

12.13 Holwyd am well eglurder ynghylch elfennau penodol o'r fframwaith, a hynny'n cynnwys:

- Dryswch ynglŷn â chyfeiriadau at wasanaethau iechyd meddwl yn cael eu cynnwys o dan y trydydd sector: "Rydyn ni'n tybio eich bod yn cyfeirio at sefydliadau'r trydydd sector ac nid gofal eilaidd, ond byddai'n fuddiol i chi egluro y byddai timau iechyd meddwl cymunedol yn cael mynediad yn yr un ffordd â meddyg teulu".
- Gwell dealltwriaeth o sut y gallai'r gwasanaeth edrych ar gyfer is-adrannau penodol o'r boblogaeth megis plant a phobl ifanc
- Esboniad o sut y byddai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn ffitio i mewn i'r fframwaith a'u rolau penodol.
- Gwahaniaethu rhwng "presgripsiynu cymdeithasol" a "chyfeirio".

12.14 Pwysleisiodd un sefydliad yr angen am deilwra i ddarparu ar gyfer gwahanol grwpiau neu is-adrannau o'r boblogaeth gan gynnwys pobl hŷn, gan nodi bod natur y cynllun yn generig iawn.

12.15 Disgrifiwyd yr ystod o unigolion a allai fanteisio ar bresgripsiynu cymdeithasol, gan gynnwys:

- Soniodd un sefydliad fod y rhan fwyaf o bobl yn meddwl mai'r rhai sydd ag anawsterau iechyd meddwl ysgafn i gymedrol, yr henoed, unigolion ynysig a gofalwyr yw'r rhai sydd fwyaf tebygol o ymgysylltu â phresgripsiynu cymdeithasol ac elwa arno.
- Dywedodd un ymatebydd y dylai unrhyw un allu manteisio ar y gwasanaeth, gan gynnwys pobl sydd ag anawsterau iechyd meddwl a dysgu difrifol a chymhleth.

- Mynegwyd pryder ynghylch mynediad i leiafrifoedd ethnig a'r rhai sydd â chyfyngiadau ariannol difrifol sydd efallai heb ddulliau trafndiaeth priodol i gael mynediad at wasanaethau. Roedd gan eraill bryderon yn ymwneud ag addasrwydd i'r rhai sydd â salwch meddwl difrifol aciwt, problemau cam-drin sylweddau a niwroamrywiaeth.
- Soniodd un ymatebydd y gallai fod yn niweidiol pe bai'n cael ei ddarparu'n anghywir.

12.16 Roedd yr ymatebwyr yn teimlo y dylai fod ymwybyddiaeth o bethau nad ydynt wedi gweithio'n dda yn y gorffennol. Roedd hynny'n cynnwys:

- Cylch cyfathrebu gwael sy'n arwain at ganlyniadau aneglur. Er mwyn osgoi hyn, awgrymodd cyfranogwyr y dylid defnyddio "Protocolau Rhannu Gwybodaeth" nad ydynt yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd.
- Opsiynau cyfyngedig yn y gymuned i fodloni anghenion unigolion, datblygu gwasanaethau i gyd-fynd â bylchau cyfredol yn y gymuned yn lle hynny.
- Cyllid tymor byr yn arwain at derfynu gwasanaeth yn sydyn, a darpariaeth annheg ar draws sir benodol. Yr enghraifft a nodwyd yn y cyd-destun hwn oedd Gwent.
- Presgripsiynu cymdeithasol generig neu arwynebol nad yw'n ystyried anghenion unigolion (e.e. lefelau gorbryder uchel, anawsterau trafndiaeth wrth geisio cael mynediad at wasanaethau/cymorth), gan arwain at wasanaeth aneffeithiol.
- Cefnogaeth annigonol i staff, gan gynnwys diffyg hyfforddiant, a chefnogaeth gyda goruchwyllo neu reoli achosion.
- Risg yn ymwneud ag unigolion ac asesiadau risg yn ffactor wrth allgáu unigolion rhag cymorth. Y bwriad yw y byddai rhannu asesiadau risg i bobl sydd eisoes o fewn y systemau cymorth, fel iechyd meddwl a/neu anabledau dysgu, yn fuddiol.
- Ar hyn o bryd, mae presgripsiynu cymdeithasol yn cael ei ddefnyddio i gefnogi'r rhai sydd ar fin wynebu argyfwng. Yn lle hynny, dylid llunio'r gwasanaeth i ganolbwyntio'n well ar ymyrraeth gynharach.

Canfyddiadau Gweithdai

- 12.17 Ailadroddodd rhanddeiliaid ystod o faterion a fyddai, yn eu tyb hwy, yn bwysig i'w hystyried ymhellach. Roedd y rhain yn cynnwys ystyriaeth bellach a darparu manylion am sut y gellid defnyddio presgripsiynu cymdeithasol i gefnogi pobl ifanc (gan gynnwys rhieni ifanc, er enghraifft) a chefnogi lles cyffredinol.
- 12.18 Unwaith eto, mynegwyd pryder am derminoleg wrth ymateb i'r cwestiwn hwn, gyda rhanddeiliaid yn awgrymu y dylai'r iaith gael ei harwain gan y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaethau, a gofyn i bobl "sut y byddent yn ei ddisgrifio".
- 12.19 Pwysleisiodd rhanddeiliaid bwysigrwydd sicrhau bod presgripsiynu cymdeithasol yn cael ei integreiddio'n briodol i'r gymuned, gyda mentrau a gweithgareddau lleol yn hysbys ac yn hawdd cael mynediad atynt.
- 12.20 Yn olaf, er bod ymdrechion i hybu ymwybyddiaeth wedi digwydd, tynnodd rhanddeiliaid sylw at y ffaith bod yn rhaid rhoi pwyslais cyfartal ar wasanaethau 'sydd eisoes yn gwegian' os yw'r model am gael unrhyw effaith bendant.

Canfyddiadau Grwpiau Ffocws

- 12.21 Mae'r holl syniadau a rannwyd yn ystod y grwpiau ffocws gydag unigolion o feysydd blaenoriaeth wedi'u hintegreiddio i brif gwestiynau'r ymgynghoriad.

Atodiad A – Cwestiynau'r Ymgynghoriad

Eich enw:
Sefydliad (os yn berthnasol):
E-bost/Ffôn:
Eich cyfeiriad:

O safbwynt pa un o'r canlynol ydych chi'n ymateb:

Aelod o'r cyhoedd	
Darparwr gweithgarwch cymorth cymunedol / lles	
Darparwr gwasanaeth presgripsiynu cymdeithasol	
Sefydliad atgyfeirio	
Sefydliad comisiynu/cyllidwr	

1a	Ydych chi'n meddwl bod y model yn dangos gweledigaeth briodol o bresgripsiynu cymdeithasol yng Nghymru? Ydw / Nac ydw
1b	Os nad ydych chi, pam? A oes rhywbeth ar goll/ddim yn briodol?
2a	Beth yw eich barn am yr iaith / terminoleg a ddefnyddir yn y model a'r naratif ategol? Gall hyn gynnwys yr iaith a'r termau a ddefnyddir yn Gymraeg ac yn Saesneg.
2b	Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau am iaith / terminoleg wahanol? Gall hyn gynnwys yr iaith a'r termau a ddefnyddir yn Gymraeg ac yn Saesneg.
3	Sut mae datblygu dealltwriaeth gyffredin, ar lefel genedlaethol, o'r iaith / terminoleg a ddefnyddir i ddisgrifio presgripsiynu cymdeithasol ar gyfer gweithwyr proffesiynol ac aelodau o'r cyhoedd fel ei gilydd? Gall hyn gynnwys yr iaith a'r termau a ddefnyddir yn Gymraeg ac yn Saesneg.
4a	Pa gamau y gallem eu cymryd ar lefel genedlaethol i helpu gweithwyr proffesiynol (o sefydliadau gofal iechyd, statudol a thrydydd sector) i wybod am wasanaeth presgripsiynu cymdeithasol, cydnabod ei werth, a bod yn hyderus wrth gyfeirio pobl ato?
4b	Yn achos hunanatgyfeiriadau, pa gamau y gallem eu cymryd ar lefel genedlaethol i helpu'r cyhoedd i wybod am wasanaeth presgripsiynu cymdeithasol, cydnabod ei werth, a bod yn ddigon hyderus i gysylltu ag ef?
4c	Yn achos atgyfeiriadau wedi'u targedu, pa gamau y gallem eu cymryd ar lefel genedlaethol i helpu sefydliadau i nodi poblogaethau/grwpiau penodol o bobl a allai elwa ar gysylltu â gwasanaeth presgripsiynu cymdeithasol?

5	Pa gamau y gallem eu cymryd ar lefel genedlaethol i gefnogi sefydliadau/grwpiau sy'n cynnig cymorth yn y gymuned i ymwneud â gwasanaethau presgripsiynu cymdeithasol?
6a	Pa gamau y gallem eu cymryd ar lefel genedlaethol i leihau atgyfeiriadau amhriodol at wasanaeth presgripsiynu cymdeithasol?
6b	Pa gamau y gallem eu cymryd ar lefel genedlaethol i leihau atgyfeiriadau amhriodol gan wasanaeth presgripsiynu cymdeithasol at gymorth yn y gymuned?
7	Pa gamau y gellid eu cymryd ar lefel genedlaethol i gefnogi arweinyddiaeth gref a threfniadau llywodraethu effeithiol?
8	Pa gamau y gallem eu cymryd ar lefel genedlaethol i gefnogi'r broses gomisiynu a helpu i gynnwys y cyhoedd yn y gwaith o ddatblygu model lleol sy'n diwallu anghenion eu cymuned?
9a	A yw'r cyfeiriaduron a'r ffynonellau gwybodaeth ar-lein presennol yn rhoi'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch (mewn fformat hygyrch) i wneud penderfyniadau am addasrwydd ac argaeledd cymorth yn y gymuned?
9b	Ydych chi'n defnyddio unrhyw gyfeiriaduron / ffynonellau gwybodaeth ar-lein eraill?
9c	Yn eich barn chi, beth yw'r elfennau allweddol y dylai cyfeiriaduron ar-lein eu darparu i helpu pobl i gael gafael ar gymorth yn y gymuned?
10a	Pa gamau y gallem eu cymryd ar lefel genedlaethol i helpu i fynd i'r afael â'r rhwystrau i fynediad?
10b	Pa gamau y gallem eu cymryd ar lefel genedlaethol i helpu i fynd i'r afael â'r rhwystrau i fynediad sy'n wynebu grwpiau mwy agored i niwed ac sydd dan anfantais?
11a	A ddylai'r fframwaith cenedlaethol gynnwys set o safonau cenedlaethol ar gyfer cymorth yn y gymuned i helpu i liniaru pryderon diogelu? Dylai / Na ddylai / Ddim yn siŵr
11b	Os ydych wedi ateb 'dylai', beth yw'r pethau allweddol y dylai'r safonau cenedlaethol ar gyfer cymorth cymunedol eu cynnwys?
11c	Os ydych wedi ateb 'na ddylai' neu 'ddim yn siŵr', beth yw eich prif bryderon am gyflwyno safonau cenedlaethol ar gyfer cymorth yn y gymuned, a sut gellid mynd i'r afael â nhw?
12	Pa gamau y gallem eu cymryd ar lefel genedlaethol i helpu i oresgyn yr hyn sy'n rhwystro defnyddio technoleg ddigidol ar gyfer cymorth yn y gymuned?

13	Pa gamau y gallem eu cymryd ar lefel genedlaethol i gefnogi gwaith partneriaeth effeithiol i sicrhau trefniadau ariannu hirdymor?
14	Pa gamau y gallem eu cymryd ar lefel genedlaethol i liniaru effaith y galw cynyddol ar asedau cymunedol lleol a gweithgareddau llesiant?
15	Yn eich barn chi, beth yw'r pethau craidd mae angen i ni eu mesur i ddangos effaith presgripsiynu cymdeithasol?
16a	A oes gennych unrhyw dystiolaeth ymchwil neu werthuso yr hoffech ei rhannu â ni?
16b	A oes gennych unrhyw awgrymiadau ynghylch sut y gellir ac y dylid gwerthuso'r ffordd mae'r fframwaith cenedlaethol yng Nghymru yn gweithredu?
17a	Beth yw'r wybodaeth a'r sgiliau allweddol y dylai'r fframwaith cymhwysedd arfaethedig eu cynnwys?
17b	Sut orau y gall y fframwaith cymhwysedd arfaethedig ategu'r safonau proffesiynol presennol?
18	A oes manteision a/neu anfanteision o ran addysg a hyfforddiant i fod yn sail i'r fframwaith cymhwysedd, sydd wedi'u hachredu'n academaidd?
19	Pa gamau eraill y gallem eu cymryd ar lefel genedlaethol er mwyn helpu i ddatblygu'r gweithlu?
20a	Beth yw eich profiadau cyfredol o ddefnyddio technoleg ddigidol yn y meysydd presgripsiynu cymdeithasol isod? <ul style="list-style-type: none"> • Y broses atgyfeirio • Y broses asesu • Cael gafael ar gymorth yn y gymuned • Darparu cymorth yn y gymuned • Rheoli gwybodaeth ac adrodd ar allbynnau / canlyniadau
20b	Sut gallai defnyddio technoleg ddigidol wella'r modd y darperir presgripsiynu cymdeithasol yn y meysydd canlynol? <ul style="list-style-type: none"> • Y broses atgyfeirio • Y broses asesu • Cael gafael ar gymorth yn y gymuned • Darparu cymorth yn y gymuned • Rheoli gwybodaeth ac adrodd ar allbynnau / canlyniadau
21a	Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai cyflwyno fframwaith cenedlaethol ar gyfer presgripsiynu cymdeithasol yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

